Dogfen ir Cyhoedd

Mrs Annwen Morgan
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| **PWYLLGOR GWAITH** | | **THE EXECUTIVE** |
| **DYDD LLUN<br>23 MAWRTH 2021<br>10.00 o'r gloch** | | **MONDAY<br>23 MARCH 2021<br>10.00 am** |
| **CYFARFOD RHITHWIR (AR HYN O BRYD NID OES MODD I'R CYHOEDD FYNYCHU'R CYFARFOD)** | | **VIRTUAL MEETING (AT PRESENT MEMBERS OF THE PUBLIC ARE UNABLE TO ATTEND)** |
| Swyddog Pwyllgor | **Ann Holmes<br>01248 752518** | Committee Officer |

**AELODAU/MEMBERS**

**Plaid Cymru/Party of Wales**

Llinos Medi Huws, Carwyn Jones, R Meirion Jones, Alun W Mummery, Robert G Parry, OBE, FRAgS, Robin Wyn Williams

**Annibynnol/Independent**

Richard Dew, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams

COPI ER GWYBODAETH / COPY FOR INFORMATION

I Aelodau'r Cyngor Sir / To the Members of the County Council

Bydd aelod sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod i siarad (ond nid i bleidleisio) os ydy o/hi wedi gofyn am gael rhoddi eitem ar y rhaglen dan Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith. Efallai bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ceisiadau gan aelodau sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith i siarad ar faterion eraill.

A non-Executive member will be invited to the meeting and may speak (but not vote) during the meeting, if he/she has requested the item to be placed on the agenda under the Executive Procedure Rules. Requests by non-Executive members to speak on other matters may be considered at the discretion of The Executive.

**Ar hyn o bryd nid yw'r Pwyllgor hwn yn cael ei wê-ddarlledu'n fyw.**
**Bydd recordiad o'r cyfarfod ar wefan y Cyngor cyn gynted â phosibl.**

**R H A G L E N**

**1** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn datganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

**2** **MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDI**

Dim materion brys ar adeg anfon y rhaglen hon.

**3** **COFNODION** (Tudalennau 1 - 16)

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft y cyfarfodydd o'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar yn dyddiadau canlynol:-

- 15 Chwefror 2021
- 1 Mawrth 2021 (Cyllideb)

**4** **BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH** (Tudalennau 17 - 26)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

**5** **ADRODDIAD MONITRO'R CERDYN SGORIO – CHWARTER 3, 2020/21** (Tudalennau 27 - 38)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn, AD a Thrawsnewid.

**6** **ADRODDIAD BLYNYDDOL A CHYFRIFON YMDDIRIEDOLAETH ADDYSG BELLACH YNYS MÔN 2019/20** (Tudalennau 39 - 62)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**7** **FFIOEDD CARTREFI GOFAL Y SECTOR ANNIBYNNOL AR GYFER 2021/22** (Tudalennau 63 - 68)

Cyfwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion dros dro.

**8** **EI GWNEUD YN BOSIB I GYNGOR SIR YNYS MÔN ESBLYGU I FOD YN SEFYDLIAD CARBON NIWTRAL ERBYN 2030 - GAN DDARPARU RHAGLEN NEWID HINSAWDD GORFFORAETHOL NEWYDD** (Tudalennau 69 - 120)

Cyflwyno adroddiad gan y Dirprwy Brif Weithredwr.

**9** **CWRS GOLFF LLANGEFNI** (Tudalennau 121 - 202)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd Dros Dro.

**10** **DATGANIAD AR Y POLISI TRWYDDEDU AM Y CYFNOD 2021-2026** (Tudalennau 203 - 238)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Dadblygu Economaidd Dros Dro.

**11** **CYNLLUNIAU CYFLAWNI A CHOMISIYNU GRANT CYMORTH TAI 2021/22**
(Tudalennau 239 - 248)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai.

**12** **ADRODDIAD CYNNYDD GWELLIANNAU GWASANAETHAU CYMDEITHASOL**
(Tudalennau 249 - 258)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Pennaeth Gwasanaethau Oedolion Dros Dro.

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR GWAITH

## Cofnodion y cyfarfod rhithiol a gynhaliwyd ar 15 Chwefror, 2021

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Llinos Medi (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Ieuan Williams (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Richard Dew, Carwyn Jones, R. Meirion Jones, Alun Mummery, R.G. Parry, OBE FRAgS, Dafydd Rhys Thomas, Robin Williams |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Mr Dylan Williams, Dirprwy Brif Weithredwr |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr Glyn Haynes, Kenneth Hughes Trefor Lloyd Hughes, MBE, R. Llewelyn Jones, Dafydd Roberts, Mr Gareth Wyn Williams (Gohebydd Democratiaeth Leol) |

---

Croesawodd y Cadeirydd bawb a oedd yn bresennol i'r cyfarfod a chyflwynodd pawb eu hunain.

### 1. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

### 2. MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU EI SWYDDOG DYNODEDIG

Dim i'w adrodd.

### 3. COFNODION

Cyflwynwyd, i'r Pwyllgor Gwaith eu cymeradwyo, gofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 18 Ionawr 2021 a 25 Ionawr 2021.

**Penderfynwyd cymeradwyo cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 18 Ionawr 2021 a 25 Ionawr 2021.**

### 4. BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyflwynwyd, i'w ystyried, adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn ymgorffori Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith am y cyfnod rhwng mis Mawrth 2021 a mis Hydref 2021 a nodwyd y newidiadau a ganlyn -



DRAFT

- Eitemau newydd –

  - Eitem 9 – Ffioedd a Thaliadau – ar gyfer y cyfarfod ar 1 Mawrth 2021
  - Eitem 13 - Moderneiddio Ysgolion Ardal Llangefni - *wedi ei raglennu'n wreiddiol ar gyfer y cyfarfod ar 1 Mawrth 2021 ond ar ôl cyhoeddi'r Rhaglen Waith derbyniwyd cais i ail-raglennu'r eitem i gyfarfod yn ddiweddarach ym mis Mawrth, ar ddyddiad i'w gadarnhau.*
  - Eitem 22 – Adroddiad Cynnydd gan y Panel Gwasanaethau Cymdeithasol – ar gyfer y cyfarfod ar 22 Mawrth, 2021.

- Eitem a ailraglennwyd:

  - Eitem 21 – Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) a ailraglenwyd o'r cyfarfod ar 1 Mawrth i'r cyfarfod ar 22 Mawrth 2021.

**Penderfynwyd cadarnhau Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod rhwng mis Chwefror a mis Medi 2021 gyda'r newid ychwanegol y cyfeiriwyd ato yn y cyfarfod.**

## 5. RHENTI TAI'R CRT A THALIADAU GWASANAETHAU TAI

Cyflwynwyd i'w ystyried, adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Tai yn ceisio cymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith i'r cynnydd yn y rhent a'r taliadau gwasanaeth ar gyfer 2021/22.

Yn dilyn cyflwyniad byr gan yr Aelod Portffolio ar gyfer Tai a Chefnogi Cymunedau, dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Tai fod Llywodraeth Cymru yn cytuno ar y polisi ar gyfer Rhenti Tai Cymdeithasol bob blwyddyn a derbyniwyd llythyr yn cadarnhau'r polisi ar gyfer 2021/22 ar 30 Tachwedd 2020. Mae'n cynghori y dylai pob awdurdod lleol ddefnyddio fformiwla mynegai prisiau defnyddwyr (CPI) + 1% gyda gwerth CPI ym mis Medi yn 0.5% h.y. 1.5%. Er mwyn gweithredu'r cynnydd rhent blynyddol yn deg ac yn gyfartal ymhlith tenantiaid ac i sicrhau nad eir tu hwnt i'r trothwy uchaf ar gyfer y cynnydd blynyddol, argymhellir y cyfrifir y cynnydd trwy ddefnyddio "rhent cyfredol + 0.45%" a'i weithredu ar gyfer pob tenant. Codir £2.00 yr wythnos yn ychwanegol ar denantiaid y mae eu rhent yn sylweddol is na'r band rhent targed ar gyfer y flwyddyn ariannol hon. Gwneir hyn er mwyn sicrhau bod yr Awdurdod yn parhau i weithio tuag at sicrhau bod y rhent a godir yn cyfateb i renti darparwyr tai cymdeithasol eraill. Yn ymarferol bydd hyn yn golygu y bydd cynnydd o 0.45% + £2.00 yr wythnos yn y rhent cyfredol ar gyfer y 1,910 eiddo y mae eu rhenti'n is na'r bandiau rhent targed cyfredol. Ar gyfer y 1942 o anheddau sy'n weddill ac y mae eu rhent ar y targed neu'n uwch, bydd cynnydd o 0.45% yr wythnos. Cynigir cynnydd o 13c yr wythnos ar gyfer rhent pob garej ac mae'r taliadau gwasanaeth wythnosol arfaethedig ar gyfer 2021/22, yn seiliedig ar 51 wythnos, yn cael eu hamlinellu ym mharagraff 3.3 yr adroddiad.

Yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf, mae'r Awdurdod yn edrych i ddatblygu tai Cyngor newydd gyda'r bwriad o godi rhenti canolradd ac mae hyn yn elfen ychwanegol ar gyfer 2021/22. Mae'r mathau hyn o dai yn rhai fforddiadwy lle mae'r rhenti yn uwch na rhenti cymdeithasol eraill ond yn is na rhenti preifat a chânt eu gosod dan y Gofrestr Gosod Tai Teg ac nid y Gofrestr Dai Gyffredin. Maent ar gyfer pobl sydd ddim yn gymwys ar gyfer tai cymdeithasol ond sydd ddim yn gallu fforddio rhenti neu eiddo ar y farchnad agored. Cynigir bod rhenti canolradd yn cael eu pennu ar 80% o gostau rhent y farchnad agored neu hyd at y Lwfans Tai Lleol.

Os cymeradwyir y cynnydd arfaethedig mewn rhenti a'u gweithredu, bydd gan yr Awdurdod 1,677 eiddo sy'n parhau i fod yn is na'r rhent targed a 2,175 eiddo ar y rhent targed.



DRAFFT

Wrth ystyried y cynigion, ceisiodd y Pwyllgor Gwaith eglurhad ynglŷn â'r canlynol –

- Ar ba lefel y byddai Rhenti Canolradd yn cael eu pennu yng nghyd-destun y tabl ym mharagraff 6.3 yr adroddiad sy'n darparu gwybodaeth ar gyfer Ynys Môn mewn perthynas â rhenti cymdeithasol, rhent sector preifat cyfartalog a'r lwfans tai lleol ar gyfer eiddo 1, 2, 3 a 4 ystafell wely.

  Eglurodd y Pennaeth Gwasanaethau Tai y byddai'r Awdurdod yn codi rhent canolradd o £480 ar eiddo sydd â rhent misol o £600 ar y farchnad agored, er enghraifft, ar yr amod nad yw'r gost yn uwch na'r Lwfans Tai Lleol ac ar y sail pe byddai amgylchiadau'r teulu sy'n rhentu'r eiddo yn newid, y byddai'n gymwys i dderbyn Budd-dal Tai a fyddai'n cwrdd â'r rhent uwch.

- Mewn perthynas â'r cyfeiriad at renti cyfartalog y Sector Rhent Preifat yn y tabl, y broses ar gyfer gosod rhenti marchnad agored.

  Eglurodd y Pennaeth Gwasanaethau Tai fod cwmnïau eiddo megis Zoopla yn ymchwilio i'r farchnad ac yn defnyddio data ynglŷn â'r farchnad i gyfrifo rhenti preifat cyfartalog ar gyfer gwahanol ardaloedd.

- Yr amserlen ar gyfer dod ag eiddo sy'n parhau i fod yn is na'r rhent targed i'r lefel darged ac a yw'r Awdurdod yn gweithio'n systematig i wneud hynny.

  Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Tai y byddai rhenti yn cyfateb i renti darparwyr tai cymdeithasol eraill yn 2023/24 pe byddai'r system wedi yn aros yr un fath ag yr oedd y llynedd; gobeithir y bydd modd cyflawni'r amserlen hon a dyna yw'r nod o hyd.

- A yw eiddo Rhent Canolradd yn cynnwys elfen o rannu ecwiti neu a ydynt yn eiddo rhent yn unig ac yn parhau felly am byth.

  Cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaethau Tai, er bod eiddo rhent canolradd yn cael eu gosod ar rent, mae cyfleoedd yn codi i werthu cyfrannau ecwiti yn yr eiddo hynny ond byddai amod cyfreithiol yn cael ei osod yn pennu bod yr Awdurdod yn cael yr hawl cyntaf i brynu'r cyfrannau ecwiti os ydynt yn cael eu gwerthu. Os yw'r Awdurdod yn prynu'r eiddo yn ôl gellir eu gosod fel tai rhent canolradd unwaith eto.

**Penderfynwyd cymeradwyo'r canlynol –**

- **Y cynnydd rhent yn unol â rhent Targed Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar gasglu dros 51 wythnos.**
- **Cynnydd o 0.45% + £2.00 yr wythnos yn yr holl renti sydd islaw'r bandiau rhent targed cyfredol er mwyn parhau i weithio tuag at gwrdd â'r rhent targed.**
- **Cynnydd o 0.45% yn yr holl renti sydd ar darged neu'n uwch.**
- **Cynnydd o 13c yr wythnos ar gyfer rhent pob garej.**
- **Bod taliadau gwasanaeth fel y nodwyd yn adran 3.3 yr adroddiad i'w codi ar bob tenant sy'n derbyn y gwasanaethau perthnasol.**
- **Pennu Ffioedd Rhent Canolradd ar 80% o gostau rhent y farchnad agored neu hyd at y Lwfans Tai Lleol.**

**Y Cynghorydd Llinos Medi**
**Cadeirydd**

DRAFT

This page is intentionally left blank

# Y PWYLLGOR GWAITH

## Cofnodion y cyfarfod rhithwir a gafwyd ar 1 Mawrth, 2021

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Llinos Medi (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Ieuan Williams (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Richard Dew, Carwyn Jones, R. Meirion Jones, Alun Mummery, R.G. Parry, OBE FRAgS, Dafydd Rhys Thomas, Robin Williams |
| **WRTH LAW:** | Y Prif Weithredwr<br>Y Dirprwy Brif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc<br>Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid<br>Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br>Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Dim |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr Glyn Haynes, Kenneth Hughes, Trefor Lloyd Hughes, MBE, Aled Morris Jones, G O Jones, R. Llewelyn Jones, Bryan Owen, Dafydd Roberts, Swyddog Cyfathrebu (GJ), Swyddog Cysylltiadau Cyhoeddus (LJ), Swyddog Sgriwtini (SR), Mr Gareth Wyn Williams (Gohebydd Democratiaeth Leol) |

---

Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i bawb a oedd yn bresennol yn y cyfarfod rhithwir hwn o'r Pwyllgor Gwaith. Cyfeiriodd gyda thristwch at absenoldeb Mr Fôn Roberts, y Cyfarwyddwr Dros Dro ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol oherwydd profedigaeth deuluol ac estynnodd ei chydymdeimlad hi a'r Pwyllgor Gwaith i Mr Roberts. Wrth wneud hynny mynegodd gydymdeimlad â phawb ar yr Ynys a oedd wedi colli teulu neu ffrindiau yn ystod y misoedd diwethaf.

### 1. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Datganodd y Cynghorydd Ieuan Williams ddiddordeb personol mewn perthynas ag eitem 10 ar y rhaglen yn rhinwedd ei swydd fel Prif Weithredwr Cwmni Cynnal.

### 2. MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDI

Nid oedd unrhyw faterion brys i adrodd arnynt.

### 3. MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW – CHWARTER 3 2020/21

DRAFT

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 yn nodi perfformiad ariannol gwasanaethau'r Cyngor ar ddiwedd Chwarter 3 blwyddyn ariannol 2020/21 i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.
Adroddodd y Cynghorydd Robin Williams, yr Aelod Portffolio Cyllid fod blwyddyn ariannol 2020/21 wedi bod yn eithriadol oherwydd y pandemig Coronafeirws sydd wedi cael effaith sylweddol ar y ffordd y mae'r Cyngor yn darparu ei wasanaethau. O'r herwydd, nid yw'r perfformiad ariannol yn adlewyrchu'r hyn a fyddai'n digwydd mewn blwyddyn arferol. Y gyllideb refeniw net ar gyfer 2020/21 oedd £142.146m ac yn seiliedig ar wybodaeth ar ddiwedd Chwarter 3, rhagwelir tanwariant o £1.472m erbyn diwedd y flwyddyn. Wrth groesawu'r tanwariant a ragwelir ar gyllidebau gwasanaeth a chorfforaethol rhybuddiodd yr Aelod Portffolio y gallai'r sefyllfa newid eto yn Chwarter 4.

Tynnodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 sylw at newidiadau i'r adroddiad yn Atodiad B, sef y dylai Cyfanswm y Cyllid Corfforaethol o dan yr Alldro Tybiedig ar 31 Mawrth, 2021 yng ngholofn Ch3 ddarllen fel gorwariant (nid tanwariant) o £160k a dylai'r Cyfanswm ar gyfer cyllidebau gwasanaeth ar gyfer 2020/21 o dan yr un golofn ddarllen fel tanwariant o £1.906m (nid £1.746m). Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth at y prif amrywiadau cyllidebol a oedd yn cynnwys y meysydd gwasanaeth hynny yr effeithiwyd arnynt yn benodol gan Covid 19, er enghraifft Addysg Ganolog lle mae cau ysgolion wedi arwain at ostyngiad yn y galw, neu ddim galw o gwbl, sydd wedi cyfrannu at y tanwariant cyffredinol. Tynnodd sylw at y risgiau a'r rhagdybiaethau cyfredol mewn perthynas â gwasanaethau unigol, sef y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a'r Gwasanaethau Oedolion yn benodol, lle gallai'r galw, sydd yn ôl pob tebyg wedi'i ffrwyno yn y cyfnod clo, godi eto pan fydd cymdeithas yn ailagor a phan ailddechreuir darparu gwasanaethau fel arfer.

Bu'r gefnogaeth sylweddol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru o gymorth mawr i sefyllfa ariannol y Cyngor a, heb y gefnogaeth honno rhagwelir y byddai'r Cyngor wedi gorwario'n sylweddol. Darperir manylion am y cyllid grant Covid-19 a gafwyd gan Lywodraeth Cymru hyd yma yn adran 9 yr adroddiad ac mae'n cynnwys gwariant a gafodd y Cyngor wrth ddelio â'r pandemig ac iawndal am golli incwm oherwydd cyfyngiadau'r pandemig.

Dywedodd y Cynghorydd Dafydd Roberts, Cadeirydd y Panel Sgriwtini Cyllid fod y Panel, wrth graffu ar berfformiad y gyllideb refeniw, wedi codi pryderon ynghylch erydiad y sylfaen dreth o ganlyniad i eiddo hunanarlwyo yn symud i'r gofrestr trethi busnes a'r goblygiadau ar gyfer incwm o'r Dreth Gyngor a hefyd nifer yr eiddo cyffredin sy'n cael eu troi'i unedau hunanarlwyo a'r goblygiadau ar gyfer tai ar yr Ynys. Roedd y Panel wedi tynnu sylw ymhellach at yr angen i fonitro lefel y galw yn y Gwasanaethau Plant yn barhaus er mwyn bod yn wyliadwrus o unrhyw gynnydd yn y galw wrth i gyfyngiadau'r pandemig gael eu llacio.

Cydnabu'r Pwyllgor Gwaith y gefnogaeth a gafwyd gan Lywodraeth Cymru a oedd wedi arbed y Cyngor rhag gorfod defnyddio ei gronfeydd wrth gefn i gwrdd â gwariant a phwysau sy'n gysylltiedig â Covid-19, ac roedd yn ddiolchgar am y cymorth hwnnw. Cydnabu hefyd y gwaith a'r ymdrech ychwanegol gan staff y Gwasanaeth Cyllid wrth weinyddu a dosbarthu grantiau cymorth busnes Covid-19 yn ystod y cyfnod.

**Penderfynwyd –**

- **Nodi'r sefyllfa a ddisgrifir yn Atodiadau A a B yr adroddiad o ran perfformiad ariannol yr Awdurdod hyd yma a'r alldro a ddisgwylir ar gyfer 2020/21;**
- **Nodi'r crynodeb o gyllidebau wrth gefn ar gyfer 2020/21 y manylir arnynt yn Atodiad C;**
- **Nodi sefyllfa'r rhaglenni buddsoddi i arbed yn Atodiad CH;**

DRAFT

- **Nodi'r sefyllfa mewn perthynas â'r arbedion effeithlonrwydd ar gyfer 2020/21 yn Atodiad D;**
- **Nodi monitro costau asiantaethau ac ymgynghori ar gyfer 2020/21 yn Atodiadau DD, E ac F.**

## 4. MONITRO'R GYLLIDEB GYFALAF – CHWARTER 3 2020/21

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 yn nodi perfformiad ariannol y Gyllideb Gyfalaf ar ddiwedd Chwarter 3 blwyddyn ariannol 2020/21 i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Adroddodd y Cynghorydd Robin Williams, yr Aelod Portffolio Cyllid, fod pandemig Covid-19 hefyd wedi cael effaith ar y cynnydd a wnaed yn erbyn y gyllideb gyfalaf o £55.984m ar gyfer 2020/21 yn sgil oedi gyda nifer o brosiectau oherwydd y cyfyngiadau, yn enwedig yn ystod y cyfnod clo cychwynnol. Mae gweithgaredd wedi ailddechrau ers hynny a gwariwyd 93% o gyllideb broffiliedig y gronfa gyffredinol hyd ddiwedd y trydydd chwarter, ond dim ond 30% o'r gyllideb flynyddol a wariwyd hyd yma a'r prif reswm yw bod llawer o'r gwaith ar nifer o'r cynlluniau cyfalaf yn digwydd yn rhan olaf y flwyddyn ariannol. Mae'r Cyfrif Refeniw Tai wedi gwario 95% o'i gyllideb broffiliedig a 39% o'r gyllideb flynyddol. Yn yr un modd, mae'r pandemig wedi effeithio ar weithgaredd yn erbyn y CRT oherwydd yr oedi o ran gwaith dan y rhaglen gynnal a phrosiectau adeiladu newydd a phrosiectau prynu eiddo. Wrth gyfeirio at y cynlluniau grant cyfalaf, dywedodd yr Aelod Portffolio ei fod wedi cael sicrwydd na fyddai unrhyw gyllid grant yn cael ei golli o ganlyniad i lithriad ar y cynlluniau hynny y mae'r cyllid yn eu cefnogi.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 mai'r tanwariant a ragwelir ar raglen gyfalaf 2020/21 yw £22.186m, a gallai hyn lithro i raglen gyfalaf 2021/22. Cadarnhaodd y bydd y cyllid ar gyfer y llithriad hwn hefyd yn llithro i 2021/22 ac y bydd yn cael ei gymryd I ystyraeth wrth gynhyrchu'r Strategaeth a'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2021/22 a'r Strategaeth Rheoli'r Trysorlys. Rhoddodd ddiweddariad i'r Pwyllgor Gwaith ar statws rhai o'r cynlluniau a oedd yn tanwario / cynlluniau lle bu oedi, gan gynnwys safle aros dros dro i Sipsiwn a Theithwyr, a Rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain ar gyfer ysgol newydd yn Llangefni a chadarnhaodd y bu oedi o ran derbyn y cerbydau newydd o dan y contract Casglu Gwastraff newydd. Mae'r Rhaglen Gyfalaf yn cynnwys nifer o gynlluniau grant cyfalaf ac  mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi cychwyn ac yn symud yn eu blaenau. Rhoddir diweddariad ar y rhain yn adran 3.1 o'r adroddiad.

Cadarnhaodd y Cynghorydd Dafydd Roberts, Cadeirydd y Panel Sgriwtini Cyllid fod y Panel wedi craffu ar yr adroddiad a oedd yn rhoi diweddariad ar gynnydd cyllideb gyfalaf Ch3 a bod pryder am y gostyngiad yn y derbyniadau cyfalaf oherwydd bod llai o asedau'r Cyngor yn dod ar gael i'w gwerthu a bod hynny, yn ei dro, yn lleihau'r sgôp ar gyfer buddsoddiad cyfalaf y tu hwnt i'r hyn a gefnogir gan arian o du Llywodraeth Cymru. Roedd y Panel wedi nodi ymhellach bod gwariant yn digwydd yn rhan olaf y flwyddyn mewn nifer o'r cynlluniau a gofynnodd y Panel am i'r rhaglen gyfalaf gael ei hailwampio fel bod y gwariant yn digwydd yn fwy cyfartal dros gwrs y flwyddyn gyfan yn hytrach nag ar ddiwedd y flwyddyn, gan roi gwell gwerth am arian.

**Penderfynwyd nodi cynnydd gwariant a derbyniadau yn erbyn cyllideb gyfalaf 2020/21 yn chwarter 3.**

DRAFT

## 5. MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW TAI - CHWARTER 3 2020/21

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 yn nodi perfformiad ariannol Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer Chwarter 3 2020/21 i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Adroddodd y Cynghorydd Robin Williams, Aelod Portffolio Cyllid fod y Cyngor, ym mis Mawrth, 2020, wedi cytuno ar gyllideb refeniw ar gyfer 2020/21 a oedd yn dangos gwarged cynlluniedig o £7.8m. Y gyllideb gyfalaf ar gyfer 2020/21 oedd £19.1m gan gynnwys lwfans ar gyfer gwariant na chafodd ei gwblhau o gyllideb gyfalaf 2019/20. Roedd cyfuniad o'r gyllideb refeniw a'r gyllideb gyfalaf wedi'i haddasu yn arwain at ddiffyg cynlluniedig o £7.1m a fyddai'n cael ei ariannu o gronfeydd wrth gefn y CRT. Mae'r CRT wedi'i glustnodi i ddibenion penodol ac ni ellir trosglwyddo arian ohono i'r Gronfa Gyffredinol, ac ni ellir defnyddio arian o'r Gronfa Gyffredinol i ariannu'r CRT.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Cyllid ei bod yn bwysig nodi bod y Cyngor, sydd wedi cadw ei stoc dai, wedi cynnal rhaglen o waith gwella ac adnewyddu yn y blynyddoedd ers hynny a hefyd wedi ceisio ychwanegu at y stoc bresennol trwy brynu hen dai Cyngor yn ôl a thrwy ddarparu tai cyngor newydd ar yr Ynys gyda'r bwriad o barhau i sicrhau cyflenwad cynaliadwy o dai i bobl a theuluoedd yn Ynys Môn i'r dyfodol.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 fod y CRT yn cynnwys refeniw a chyfalaf a bod y gwarged a gynhyrchir gan y gyllideb refeniw yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gwariant cyfalaf i uwchraddio'r stoc dai i gwrdd â Safonau Ansawdd Tai Cymru, i ddatblygu unedau tai newydd a / neu i brynu hen dai Cyngor yn ôl. Ar ddiwedd Chwarter 3 mae'r sefyllfa ariannol refeniw yn dangos tanwariant o £238k (o'i gymharu â £324k ar ddiwedd Chwarter2). Mae'r incwm a ragwelir £150k yn is na'r gyllideb wreiddiol. Mae gwariant cyfalaf £360k yn is na'r gyllideb broffiliedig (£1.250k yn Chwarter 2). Mae'r gwariant a ragwelir £8,022k yn is na'r gyllideb. Mae'r diffyg a ragwelir, gan gynnwys refeniw a chyfalaf, £8,053k yn is na'r gyllideb o'i gymharu â diffyg a ragwelwyd o £6,256k yn is na'r gyllideb ar ddiwedd Chwarter 2, yn bennaf o ganlyniad i wariant cyfalaf is na'r disgwyl. Mae hyn yn golygu y rhagwelir gwarged o £965k ar gyfer y flwyddyn, gan adael cronfa wrth gefn o £9,562k yn y CRT i ariannu prosiectau cyfalaf y CRT yn y dyfodol. Y strategaeth hirdymor ar gyfer y CRT yw gostwng balans cronfa wrth gefn y CRT i £1m - £1.5m a ystyrir yn ddigonol i gwrdd ag unrhyw risgiau ar y cyfrif; rhagwelir y bydd y broses hon yn dechrau cael effaith y flwyddyn nesaf wrth i'r cynllun cyfalaf a'r cynllun datblygu tai symud ymlaen ac ennill momentwm.

**Penderfynwyd nodi'r canlynol –**

- **Y sefyllfa a amlinellir mewn perthynas â pherfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer chwarter 3 2020/21.**
- **Yr alldro a ragwelir ar gyfer 2020/21.**

## 6. DATGANIAD AR STRATEGAETH RHEOLI TRYSORLYS 2021/22

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 yn ymgorffori'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2021/22 i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Cyllid fod yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu arferion gorau o ran ei weithgareddau rheoli trysorlys yn unol â Chod Ymarfer CIPFA ar gyfer Rheoli Trysorlys.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 fod Côd Rheoli Trysorlys CIPFA a'r Strategaeth RhT yn gosod y paramedrau ar gyfer penderfyniadau a

gweithgareddau benthyca a buddsoddi'r Cyngor i sicrhau eu bod, yn achos y cyntaf, yn fforddiadwy ac yn achos yr ail, yn ddarbodus. Craffwyd ar y Datganiad gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn ei gyfarfod ar 9 Chwefror, 2021 a derbyniwyd ef heb wneud sylw ychwanegol. O ran diweddariadau i'r Datganiad, ni chynigir unrhyw ddiwygiadau i egwyddorion a pholisïau craidd Datganiad 2020/21.

Mae'r datganiad yn nodi sefyllfa a strategaeth fenthyca'r Cyngor ac yn Nhabl 4 mae'n dangos effaith cynlluniau gwariant y Cyngor a'r tâl Darpariaeth Isafswm Refeniw ar y Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC) a lefel y benthyca allanol a mewnol. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn cynnal sefyllfa tanfenthyca sy'n golygu nad yw'r angen benthyca cyfalaf (GCC) wedi'i ariannu'n llawn gyda dyled benthyciadau gan fod arian parod sy'n cefnogi cronfeydd wrth gefn, balansau a llif arian y Cyngor wedi'i ddefnyddio fel cam dros dro. Er bod y dull hwn o weithredu yn ddarbodus gan fod enillion ar fuddsoddiadau'n isel ac oherwydd bod risg gwrthbartïon yn fater y mae'n rhaid parhau i'w gymryd i ystyriaeth, fel rhan o'r strategaeth mae'r gallu i fenthyca'n allanol yn bwysig er mwyn medru ad-dalu'r cronfeydd wrth gefn a'r balansau os oes angen. Mae angen dull hyblyg o ran dewis rhwng benthyca mewnol ac allanol. Ni fydd y Cyngor yn benthyca cyn bod angen dim ond i elwa o fuddsoddi'r symiau ychwanegol a fenthycwyd; bydd unrhyw benderfyniad i fenthyca ymlaen llaw o fewn amcangyfrifon y GCC a chaiff ei ystyried yn ofalus gan ystyried y ffactorau a amlinellir yn adran 6.4 o'r Datganiad. Mae'n debygol mai prin fydd y cyfleoedd ar gyfer aildrefnu dyledion gan fod gwahaniaeth mawr o hyd rhwng cyfraddau ad-dalu cynnar a chyfraddau benthyca newydd.

Blaenoriaethau buddsoddi'r Cyngor fydd diogelwch ei fuddsoddiadau yn gyntaf, hylifedd yn ail ac elw o fuddsoddiadau'n drydydd, gan olygu na fydd y Cyngor ond yn buddsoddi gyda gwrthbartïon sy'n hynod o deilwng i gael credyd yn seiliedig ar wybodaeth am eu statws credyd a ddarperir gan Link Asset Services, ymgynghorwyr trysorlys y Cyngor sy'n defnyddio amrywiaeth eang o wybodaeth yn eu gwasanaethau teilyngdod credyd. Bydd y Cyngor, yn ei bolisi buddsoddi, yn rhoi sylw i ganllawiau CIPFA a Llywodraeth Cymru ar reoli risg.

Nodir y trefniadau llywodraethu ar gyfer rheoli trysorlys yn adran 8 yr adroddiad ac maent yn cynnwys rolau a chyfrifoldebau o ran gwneud penderfyniadau a threfniadau adrodd. Mae'r dangosyddion Rheoli Darbodus a Thrysorlys y bydd gweithgareddau a pherfformiad rheoli trysorlys yn cael eu mesur yn eu herbyn wedi'u nodi'n llawn yn Atodiad 11 i'r adroddiad.

**Penderfynwyd –**

- **Derbyn y Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2021/22 heb nodi unrhyw sylwadau i'w hystyried gan y Cyngor llawn.**
- **Nodi'r cynnydd yn y terfynau trafodion yn Atodiad 8 (fel y nodwyd ym mhwynt 4 o'r adroddiad).**

**7. GWASANAETHAU GOFAL CYMDEITHASOL DIBRESWYL YN Y GYMUNED - FFIOEDD A THALIADAU 2021/22**

Cyflwynwyd i'w ystyried, adroddiad y Pennaeth Dros Dro ar gyfer Gwasanaethau Oedolion a oedd yn gofyn i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo ffioedd a thaliadau arfaethedig am wasanaethau gofal cymdeithasol dibreswyl yn y gymuned ar gyfer 2021/22.

Dywedodd y Cadeirydd a'r Aelod Portffolio dros Wasanaethau Cymdeithasol ei bod yn arferol adolygu'r taliadau mewn perthynas â gwasanaethau cartref yn flynyddol i gyd-ddigwydd ag adolygiad y Llywodraeth Ganolog o lefelau budd-daliadau a phensiynau. Mae'r adroddiad yn nodi ffioedd a thaliadau gofal cymdeithasol dibreswyl cymunedol ar gyfer 2021/22 yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

**Penderfynwyd cymeradwyo'r canlynol –**

- **Taliadau am wasanaethau Teleofal fel y nodir yn Nhabl A yr adroddiad**
  **Haen 1 bydd pawb yn talu £49.41.**
  **Haen 2 a 3 bydd pawb yn talu £98.42**

- **Taliadau am wasanaethau Teleofal fel y nodir yn Nhabl B yr adroddiad**
  **Gwasanaeth a Chynnal a Chadw £117.54**
  **Gwasanaeth yn Unig £75.97**
  **Costau Gosod Untro £47.00**

- **Cyfradd taliadau uniongyrchol ar £11.89 yr awr**

- **Parhau i godi tâl o £10 am weinyddu ceisiadau Bathodyn Glas ac am fathodynnau newydd fel yr amlinellir yn yr adroddiad.**

- **Cynyddu'r ffi am brynu gwasanaethau gofal dydd i mewn gan gartrefi annibynnol 3% i £35.21**

## 8. CARTREFI'R AWDURDOD LLEOL AR GYFER POBL HŶN – PENNU'R FFI SAFONOL

Cyflwynwyd i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith, adroddiad y Pennaeth Dros Dro ar gyfer Gwasanaethau Oedolion mewn perthynas â phennu lefel Tâl Safonol yr Awdurdod ar gyfer cartrefi gofal yr awdurdod lleol am y flwyddyn Ebrill, 2020 i Fawrth, 2021.

Dywedodd y Cadeirydd a'r Aelod Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol ei bod yn ofynnol i Awdurdodau Lleol, o dan Adran 22 o Ddeddf Cymorth Cenedlaethol 1948, bennu'r Tâl Safonol ar gyfer eu cartrefi. Cyfeiriodd at y sail ar gyfer cyfrifo'r Tâl Safonol fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad ac amlygodd, yn seiliedig ar y tabl ynddo, mai'r amcangyfrif o'r gost wythnosol am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth, 2022 yw £786.50. Roedd y Pwyllgor Gwaith wedi gwneud penderfyniad eisoes i gynyddu'r ffioedd yn raddol i adlewyrchu gwir gost y ddarpariaeth, ac i wneud hynny dros gyfnod o 3 blynedd, gyda 2021/22 yn flwyddyn olaf y cynllun. Gosodwyd y ffi ar gyfer 2020/21 ar £722.21 yr wythnos. Argymhelliad yr adroddiad yw, o ystyried mai 2021/22 yw blwyddyn olaf y cynllun 3 blynedd, y dylid pennu'r ffioedd ar lefel sy'n adlewyrchu cost lawn y gwasanaeth h.y. £786.50 yr wythnos.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 mai'r ffi safonol yw'r un y mae'n ofynnol i'r Awdurdod ei chodi ar y preswylwyr hynny sydd â'r modd ariannol i dalu cost lawn eu gofal preswyl. Mae'r costau rhedeg ar gyfer 2021/22 wedi cynyddu 1.033%, ond oherwydd lefelau defnydd is, mae'r tâl safonol yn cynyddu 3% neu £26.12 o £760.38 ar gyfer 2020/21 i £786.50 ar gyfer 2021/22. Mae'r Pwyllgor Gwaith wedi ceisio sicrhau, dros gyfnod o dair blynedd, fod y ffioedd a godir ar gleientiaid hunanariannu yn adlewyrchu cost y ddarpariaeth ac i gyflawni hynny yn 2021/22. Fodd bynnag, byddai hynny'n golygu codiad sylweddol yn lefel y ffioedd o £722.21 yr wythnos i £786.50 yr wythnos. Bydd angen i'r Pwyllgor Gwaith ystyried a yw'n dymuno cadw at y polisi 3 blynedd a gweithredu'r cynnydd yn llawn er mwyn sicrhau cydraddoldeb rhwng ffioedd a chostau yn 2021/22 ynteu a yw'n dymuno ymestyn yr amserlen ar gyfer cyflawni hynny ac os felly, am ba hyd.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 mewn ymateb i'r Cadeirydd a'r Aelod Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol, fod Llywodraeth Cymru wedi codi'r trothwy cynilon ar gyfer talu ffioedd cartrefi gofal gan olygu bod llai o bobl yn cael eu heffeithio; felly byddai'r penderfyniad yn berthnasol i oddeutu 25 neu 30 o unigolion. Eglurodd y Swyddog ymhellach na fyddai ymestyn y cynllun 3 blynedd am flwyddyn ychwanegol fel yr oedd y Cadeirydd a'r Aelod Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol yn bwriadu ei gynnig fel cam rhesymol o dan yr amgylchiadau, yn cael fawr o

effaith ar y Gyllideb ac incwm y gwasanaeth oherwydd y niferoedd a effeithir ac nad yw'n risg ariannol.

Felly cynigiodd y Cadeirydd a'r Aelod Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol y dylid ymestyn y cynllun 3 blynedd am flwyddyn arall ac na ddylid adlewyrchu cost lawn y ddarpariaeth yn y ffioedd ar gyfer 2021/22. Roedd y Pwyllgor Gwaith yn cytuno â'r cynnig. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 fod yr estyniad o flwyddyn yn golygu mai lefel y ffioedd ar gyfer 2021/22 fydd £754.36.

**Penderfynwyd –**

- **Bod y ffi safonol ar gyfer cartrefi gofal yr Awdurdod am y flwyddyn 1 Ebrill, 2021 i 31 Mawrth, 2022 yn cael ei osod ar £786.50 yr wythnos.**
- **Gohirio cynyddu'r ffioedd i gost llawn y gwasanaeth am flwyddyn arall, a**
- **Bod y ffi llawn a godir fesul preswylydd yr wythnos ar gyfer cartrefi'r Awdurdod yn cael ei osod ar £754.36 yr wythnos**.

## 9. FFIOEDD A THALIADAU 2021/22

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 yn gofyn i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo'r rhestr a gynigiwyd o ffioedd a thaliadau ar gyfer 2021/22 fel yr atodwyd.

Dywedodd y Cynghorydd Robin Williams, Aelod Portffolio Cyllid fod adolygiad o ffioedd a thaliadau yn rhan o'r broses flynyddol o osod y gyllideb. Mae'r Pwyllgor Gwaith wedi gosod amcan bod yr holl ffioedd a thaliadau anstatudol yn cynyddu 3% ar gyfartaledd ar draws pob gwasanaeth unigol. Mae hyn wedi caniatáu i Benaethiaid Gwasanaeth gynyddu ffioedd unigol gan fwy neu lai na 3%, ond ar y cyfan, mae'r cynnydd ar draws y gwasanaethau yn cyfateb i gynnydd o 3%. Cynyddwyd yr holl ffioedd statudol yn ôl y swm a bennwyd gan y corff cymeradwyo, lle mae'r cynnydd hwnnw wedi'i gyhoeddi. Os nad yw'r tâl diwygiedig yn hysbys, dangosir bod y ffi i'w chadarnhau (i'w gadarnhau) a bydd yn cael ei diweddaru unwaith y derbynnir yr hysbysiad o'r ffi newydd. Mae cynnydd mewn ffioedd mewn perthynas â Gofal Cymdeithasol yn destun adroddiadau ar wahân.

**Penderfynwyd cymeradwyo'r Ffioedd a Thaliadau ar gyfer 2021/22 fel yr amlinellwyd yn y llyfryn a gyflwynwyd.**

## 10. STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOL A CHYLLIDEB 2021/22

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 yn nodi'r cynigion manwl ar gyfer y gyllideb refeniw i'w hadolygu a'u cytuno gan y Pwyllgor Gwaith. Gofynnwyd i'r Pwyllgor Gwaith wneud argymhellion terfynol i'r Cyngor Llawn a fyddai wedyn yn cymeradwyo cyllideb ar gyfer 2021/22 ac yn pennu lefel y Dreth Gyngor yn ei gyfarfod ar 9 Mawrth, 2021.

*Datganodd y Cynghorydd Ieuan Williams ddiddordeb personol yn yr eitem ac ni chymerodd ran yn y bleidlais arni.*

Dywedodd y Cynghorydd Robin Williams, Aelod Portffolio Cyllid fod y cynigion terfynol ar gyfer y gyllideb yn gam olaf y broses hir o osod y gyllideb refeniw cyn iddynt gael eu cyflwyno i'r Cyngor Llawn. Mae'r broses wedi bod yn arbennig o heriol eleni oherwydd yr amserlenni tynn o gofio na dderbyniwyd gwybodaeth am y setliad dros dro tan 21 Rhagfyr, 2020 ac na fyddai'r setliad terfynol yn cael ei gyhoeddi tan 2 Mawrth, 2021. Roedd y setliad dros dro yn well na'r disgwyl ac wedi darparu £104.825m i'r Cyngor, sef cynnydd o 3.5% mewn termau arian parod ond 3.4% ar ôl ei addasu i lawr ar ôl cymryd i ystyriaeth y grantiau

sy'n trosglwyddo i'r setliad ac effaith y newid yn sylfaen y Dreth Gyngor. Nododd y Pwyllgor Gwaith yn ei gynigion cychwynnol ym mis Ionawr y meysydd hynny yr oedd yn awyddus i fuddsoddi ynddynt ac a oedd wedi dod dan bwysau yn ystod y pandemig, gan gynnwys Gwarchod y Cyhoedd a Thechnoleg Gwybodaeth. Gwelodd hefyd angen i ddarparu ar gyfer cyflenwad sgiliau'r Cyngor yn y dyfodol a chynigiodd adfer y Rhaglen Hyfforddeion Proffesiynol. Roedd y cynnig cychwynnol ar gyfer Cyllideb 2021/22 ar 18 Ionawr yn gyllideb refeniw net o £147.531m a oedd yn rhagdybio cynnydd o 3.75% yn y Dreth Gyngor. Dangosodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynigion fod mwyafrif yr ymatebwyr yn erbyn y cynnydd arfaethedig yn y Dreth Gyngor ac er bod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn ei gyfarfod ar 16 Chwefror wedi cefnogi'r cynigion ar gyfer y gyllideb, roedd lleisiau yn y Pwyllgor a oedd yn dymuno gweld llai o gynnydd yn y Dreth Gyngor os oes modd.

Dywedodd yr Aelod Portffolio ei fod felly'n falch o adrodd, o ganlyniad i gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, (manylion yn adran 9.1 o'r adroddiad) fod y cynnig ar gyfer y gyllideb derfynol am 2021/22 yn gyllideb refeniw net o £147.420m, a chynnydd is yn y Dreth Gyngor o 2.75% sef yr isaf yng Ngogledd Cymru ac ymhlith yr isaf yng Nghymru.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 yn rhinwedd ei swydd fel Swyddog Adran 151 fod y cynnig ar gyfer y gyllideb yn gyfreithlon; mae'r gyllideb yn cynnwys nifer o ragdybiaethau ac amcangyfrifon o ran lefelau tebygol incwm a gwariant yn y dyfodol, sy'n golygu bod nifer o risgiau ariannol cynhenid yn y gyllideb arfaethedig. Amlygir y rhain yn adran 6 yr adroddiad ac maent yn cynnwys y risg y gallai chwyddiant fod yn sylweddol uwch na'r hyn y darperir ar ei gyfer yn y gyllideb; y gall dyfarniad tâl yr Athrawon o fis Medi 2021 ymlaen fod yn uwch na'r hyn a ganiatawyd yn y gyllideb; bod y galw am Wasanaethau Oedolion a Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn parhau i dyfu y tu hwnt i'r lefelau cyfredol y mae'r gyllideb yn seiliedig arnynt ac y gallai parhad y pandemig effeithio ar incwm a gwariant i lefel na fyddai'r cymorth cyllidol gan Lywodraeth Cymru yn cwrdd â hi. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 ei fod yn fodlon bod y gyllideb arfaethedig yn adlewyrchu anghenion cyfredol y gwasanaethau ac y defnyddir y cronfeydd wrth gefn cyffredinol i gwrdd ag unrhyw bwysau yn sgil galw ychwanegol.

Ar 31 Mawrth, 2020, roedd cronfeydd wrth gefn cyffredinol y Cyngor yn £7.060m sy'n cyfateb i 4.97% o gyllideb refeniw net y Cyngor ar gyfer 2020/21 (fel rheol gyffredinol, roedd 5% o'r gyllideb refeniw net yn cael ei ystyried yn lefel dderbyniol). Byddai tanwariant a ragwelir o £1.47m ar gyllideb refeniw 2020/21 yn cynyddu'r balansau i £8.53m (5.8% o gyllideb refeniw net arfaethedig 2021/22) ond, o ystyried cynnig cychwynnol y Pwyllgor Gwaith bod £921k o'r arian wrth gefn cyffredinol yn cael ei ddefnyddio i gyllido cyllideb gyfalaf 2021/22, byddai hyn yn gostwng lefel y balansau cyffredinol yn ôl i lawr i £7.609m neu 5.16% o gyllideb refeniw net arfaethedig 2021/22. Barn broffesiynol y Swyddog Adran 151 yw bod lefel y cronfeydd wrth gefn cyffredinol yn ddigonol ar hyn o bryd i gwrdd â'r risgiau ariannol y bydd y Cyngor yn eu hwynebu yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae lefel y cronfeydd wrth gefn a ragwelir yn dibynnu ar wireddu'r tanwariant a ragwelir yn y gyllideb refeniw; ar ben hynny, mae'r pandemig yn creu lefel uwch o ansicrwydd a mwy o risgiau ariannol wrth symud ymlaen nag a fyddai'r achos fel arfer. Gellir lliniaru'r rhain os yw Llywodraeth Cymru yn parhau i gynorthwyo'r Cyngor I gwrdd â'r gwariant ychwanegol a geir a'r incwm a gollir. Bydd y £300k o'r cronfeydd wrth gefn y bwriadwyd ei ddefnyddio i dalu am 'chromebooks' i ysgolion (sydd bellach yn cael eu hariannu gan gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru) nawr yn cael ei ddefnyddio fel cyfraniad at y gyllideb refeniw yn 2021/22 i ariannu'r rhan o'r cynnydd is yn y Dreth Gyngor sy'n golygu y bydd yn rhaid gwneud arbedion o £300k yn 2021/22 - cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 ei fod yn fodlon bod gan y Cyngor y modd i ariannu'r £300k yn y flwyddyn ariannol nesaf.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas, yr Aelod Portffolio ar gyfer Busnes Corfforaethol, at yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynigion cyllidebol gan dynnu sylw at y ffaith bod bron i 600 o ymatebion wedi'u derbyn trwy ddulliau electronig yn ogystal â gohebiaeth trwy e-bost a oedd yn galonogol o ystyried yr amgylchiadau a'r amserlen fyrrach. Rhoddodd y Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad grynodeb o sylwedd yr ymatebion a dderbyniwyd ac y manylwyd arnynt yn Atodiad 2 i'r adroddiad.
Rhoddodd y Cynghorydd Aled Morris Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol atborth ar sylwadau'r Pwyllgor ar y cynigion cyllidebol (nid o reidrwydd ei farn ei hun) a chadarnhaodd, yn dilyn trafodaeth lawn yng nghyfarfod 16 Chwefror a rhoi sylw i ganlyniad yr ymgynghoriad cyhoeddus, fod mwyafrif y Pwyllgor wedi cefnogi'r cynigion, gan gynnwys cynnydd arfaethedig o 3.75% yn y Dreth Gyngor. Yn ystod y drafodaeth, gwnaed cynnig amgen ar gyfer cynnydd o 2.5% yn y Dreth Gyngor ond ni chafodd y cynnig gefnogaeth y mwyafrif.

Adroddodd y Cynghorydd Dafydd Roberts, Cadeirydd y Panel Sgriwtini Cyllid fod y Panel o'r farn y dylid edrych ar unrhyw sgôp ar gyfer lleihau'r cynnydd yn y Dreth Gyngor ac y gellid ystyried ffioedd parcio is i drigolion lleol mewn meysydd parcio glan môr.

Mewn ymateb i gwestiwn am nifer y trigolion sydd wedi cofrestru i dalu'r tâl newydd o £35 am gasglu gwastraff gwyrdd a'r incwm a ragwelir o'r cynllun, dywedodd y Cynghorydd R.G.Parry OBE FRAgS fod dros 2,000 wedi cofrestru hyd at ganol mis Chwefror; darparwyd gwybodaeth am y tâl a rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r cynllun ar Facebook; bydd nodiadau atgoffa hefyd yn cael eu cynnwys gyda biliau Treth Gyngor yn ddiweddarach ym mis Mawrth. Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 fod yr incwm a ragwelir o £350k ac y darperir ar ei gyfer yn y gyllideb yn seiliedig ar brofiadau cynghorau eraill Gogledd Cymru o godi tâl am gasglu gwastraff gwyrdd - Ynys Môn yw'r Cyngor olaf yng Ngogledd Cymru i gyflwyno'r tâl; amcangyfrifir y bydd oddeutu 30% o aelwydydd yn Ynys Môn yn cofrestru i dalu h.y. 10,000 o aelwydydd.

Eglurodd yr Aelod Portffolio Cyllid nad yw casglu gwastraff gwyrdd yn wasanaeth statudol ac y bernir ei bod yn deg cyflwyno tâl am y gwasanaeth i sicrhau bod y Cyngor yn gyson â'r awdurdodau lleol eraill yng Ngogledd Cymru.

**Penderfynwyd –**

- **Nodi'r cyfarfodydd ymgynghori ffurfiol ar y gyllideb ac ystyried yr adborth a gafwyd, fel yr amlinellir yn Adran 3 o Atodiad 1 ac Atodiad 2;**
- **Cytuno ar fanylion terfynol cyllideb arfaethedig y Cyngor, fel y dangosir yn Adran 9 o Atodiad 1 ac Atodiad 3;**
- **Nodi argymhelliad y Swyddog Adran 151 y dylai'r Cyngor fod yn gweithio tuag at sicrhau balansau cyffredinol o £7.3m ar y lleiaf;**
- **Nodi'r sylwadau a wnaed gan y Swyddog Adran 151 ar gadernid yr amcangyfrifon, fel y nodir hwy yn Adran 7 o Atodiad 1;**
- **Argymell cyllideb net ar gyfer y Cyngor Sir o £147.420m a chynnydd o 2.75% yn lefel y Dreth Gyngor yn sgil hynny (£35.91 - Band D) i gyfarfod o'r Cyngor llawn, gan nodi y bydd penderfyniad ffurfiol, gan gynnwys praeseptau a godir gan Heddlu Gogledd Cymru a Chynghorau Cymuned, yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor ar 9 Mawrth 2021;**
- **Gwneud addasiadau ar gyfer unrhyw wahaniaethau rhwng y setliad dros dro a'r setliad terfynol trwy ddefnyddio'r gronfa hapddigwyddiadau gyffredinol sydd wedi'i chynnwys yng nghyllideb 2021/22, neu drwy wneud cyfraniad i / o arian wrth gefn cyffredinol y Cyngor er mwyn gosod cyllideb gytbwys;**
- **Awdurdodi'r Swyddog Adran 151 i wneud unrhyw newidiadau a all fod yn angenrheidiol cyn cyflwyno'r cynigion terfynol i'r Cyngor;**



DRAFT

- **Cytuno y gellir defnyddio'r gyllideb hapddigwyddiadau gyffredinol i gwrdd ag unrhyw bwysau annisgwyl ar gyllidebau a arweinir gan y galw yn ystod y flwyddyn ariannol;**
- **Gofyn i'r Cyngor awdurdodi'r Pwyllgor Gwaith i ryddhau hyd at £250k o'r balansau cyffredinol os yw'r gyllideb hapddigwyddiadau gyffredinol wedi'i hymrwymo'n llawn yn ystod y flwyddyn;**
- **Dirprwyo grym i'r Swyddog Adran 151 ryddhau cyllid o'r gronfa hapddigwyddiadau gyffredinol, sef hyd at £50k ar gyfer unrhyw eitem unigol. Ni cheir cymeradwyo unrhyw eitem sy'n fwy na £50k heb gytundeb y Pwyllgor Gwaith ymlaen llaw;**
- **Cadarnhau bod lefel Premiwm y Dreth Gyngor ar gyfer ail gartrefi yn aros ar 35% ac yn parhau i fod yn 100% ar gyfer cartrefi gwag.**

## 11. STRATEGAETH GYFALAF A RHAGLEN GYFALAF 2021/22 I 2023/24

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 yn ymgorffori'r Strategaeth Gyfalaf a'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2021/22 i 2023/24 i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Adroddodd y Cynghorydd Robin Williams, Aelod Portffolio Cyllid fod Côd Darbodus diwygiedig CIPFA, Medi 2017 yn cyflwyno’r gofyn bod yn rhaid i bob awdurdod gynhyrchu strategaeth gyfalaf sy’n nodi’r cyd-destun tymor hir y mae gwariant cyfalaf a phenderfyniadau buddsoddi yn cael eu gwneud ynddo. Nod y gofyn hwn ydi sicrhau bod awdurdodau yn gwneud penderfyniadau cyfalaf a buddsoddi yn unol ag amcanion gwasanaethau a'u bod yn cymryd i ystyriaeth stiwardiaeth, gwerth am arian, cynaliadwyedd a fforddiadwyedd. Dangosir y rhaglen gyfalaf ddrafft ar gyfer 2021/22 a ffynonellau cyllid yn adran 7.1 o'r strategaeth ac fe'i cyflwynir i'r Cyngor Llawn, ynghyd â'r strategaeth, i'w cymeradwyo ar 9 Mawrth, 2021.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 nad yw'r Strategaeth Gyfalaf wedi newid ers y llynedd ac mae'n nodi'r blaenoriaethau allweddol ar sut y dylid gwario arian cyfalaf i helpu i gyflawni Cynllun y Cyngor am y cyfnod 2017-22. Mae'n effeithio ar, ac yn cael ei heffeithio gan y Cynllun Ariannol Tymor Canol, y Strategaeth Rheoli Trysorlys, y Gyllideb Refeniw Flynyddol a'r Rhaglen Gyfalaf Flynyddol.

Hysbyswyd y Pwyllgor Gwaith fod lefel y cyllid cyfalaf a ddarperir gan Lywodraeth Cymru drwy’r Grant Cyfalaf Cyffredinol a benthyca â chymorth wedi aros yn gyson dros nifer o flynyddoedd a rhagwelir y bydd Llywodraeth Cymru yn cadw’r cyllid hwn ar yr un lefel neu lai yn y dyfodol. Y strategaeth felly yw canolbwyntio'r cyllid hwn ar ymestyn hyd oes asedau' heneiddiol y Cyngor a chadw i fyny ag uwchraddiadau technolegol. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn wynebu her gynyddol i barhau i gynnal ei asedau gyda'r cyllid cyfalaf y mae'n ei dderbyn ac mae'n dod yn fwyfwy anodd gwneud y buddsoddiadau angenrheidiol yn ei asedau i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn ddefnyddiol. Er enghraifft, mae cynnal adeiladau ysgol y Cyngor hyd yn oed i'w safon gyfredol yn dod yn her ac mae hyn, yn ei dro, yn codi materion o ran dirywiad asedau yn y dyfodol a chostau gwaith cynnal a chadw sydd yn cronni. Dyfernir grantiau cyfalaf i'r Cyngor ar gyfer prosiectau penodol ond fel rheol mae amodau ynghlwm wrth y rhain ac oherwydd eu bod wedi ei neilltuo i brosiectau penodol yn unig, maent wedyn yn cyfyngu ar y dewis sydd gan y Cyngor o ran ei Strategaeth Gyfalaf.

Wrth gymeradwyo'r Strategaeth Gyfalaf cydnabu'r Pwyllgor Gwaith y cyfyngiadau cyllido ar y Cyngor o ran gwariant cyfalaf.

DRAFT

**Penderfynwyd cadarnhau ac argymell bod y Cyngor llawn yn cymeradwyo'r Strategaeth Gyfalaf ar gyfer 2021/22 – 2023/24 fel y mae wedi'i dangos yn Atodiadau 1 a 2 o'r adroddiad.**

## 12. Y GYLLIDEB GYFALAF DERFYNOL A GYNIGIR AR GYFER 2021/22

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 yn ymgorffori'r gyllideb gyfalaf arfaethedig derfynol ar gyfer 2021/22 i'w ystyried a'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith.

Adroddodd y Cynghorydd Robin Williams, Aelod Portffolio Cyllid, fod diffyg cyllidol wedi ei nodi pan ddatblygwyd y gyllideb gyfalaf ar gyfer 2021/22 ac y cynigir bod y diffyg yn cael ei bontio trwy ddefnyddio'r Balansau Cyffredinol oherwydd y tanwariant a ragwelwyd ar Gyllideb Refeniw 2020/21. Yn yr un modd â'r cynigion drafft ar gyfer Cyllideb Refeniw 2021/22, bu'r Rhaglen Gyfalaf ddrafft ar gyfer 2021/22 yn destun ymgynghoriad cyhoeddus a cheir crynodeb o sylwedd yr ymatebion a dderbyniwyd yn adran 2 yr adroddiad. Wrth gynnig y rhaglen gyfalaf ar gyfer 2021/22, dywedodd yr Aelod Portffolio ei fod yn ymwybodol o'r heriau i'r dyfodol o ran gwariant ac adnoddau cyfalaf.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 wybod i'r Pwyllgor Gwaith am y newidiadau ers i'r Rhaglen Gyfalaf ddrafft gael ei chyflwyno ym mis Ionawr 2021 fel yr adlewyrchir yn adran 3 yr adroddiad, a'r prif newid oedd cyllido Chromebooks ar gyfer ysgolion trwy grant allanol yn hytrach na thrwy gronfeydd wrth gefn cyffredinol sydd wedi ei gynnwys yn fersiwn ddiweddaredig y Rhaglen Gyfalaf a gynigir ar gyfer 2021/22 ac a welir yn Nhabl 2. Yn ogystal, mae'r tanwariant a ragwelir o £22m ar Raglen Gyfalaf gyfredol 2020/21 yn seiliedig ar y sefyllfa alldro a ragwelwyd ar ddiwedd Chwarter 3. Adroddir ar y sefyllfa alldro wirioneddol ar ddiwedd Chwarter 4 i'r Pwyllgor Gwaith mewn adroddiad ar wahân ar alldro cyfalaf a bydd unrhyw lithriadau y gofynnir iddynt gael eu dwyn ymlaen i 2021/22 yn amodol ar gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith bryd hynny. Efallai y ceir grantiau cyfalaf hefyd ar ôl cwblhau'r broses gosod cyllideb sy'n golygu y gellir ychwanegu cynlluniau at y rhaglen ac felly gall cyfanswm y gyllideb newid.

Adroddodd y Cynghorydd Aled Morris Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar drafodaethau o gyfarfod y Pwyllgor ar 16 Chwefror a chadarnhaodd fod y Pwyllgor, ar ôl trafodaeth ac ystyried y broses ymgynghori gyhoeddus, wedi cefnogi'r cynigion ar gyfer cyllideb gyfalaf 2021/22.

Adroddodd y Cynghorydd Dafydd Roberts, Cadeirydd y Panel Sgriwtini Cyllid fod y Panel wedi nodi bod ymatebion y cyhoedd i'r ymgynghoriad yn nodi bod llai o gefnogaeth i fuddsoddi os yw'n arwain at Dreth Gyngor uwch. O ran y rhagolygon tymor hwy, roedd y Panel yn poeni am gyflwr adeiladau'r Cyngor yn enwedig ei ysgolion a'r rhagolygon o ran buddsoddi ynddynt.

**Penderfynwyd argymell i'r Cyngor Llawn y rhaglen gyfalaf ganlynol ar gyfer 2021/22 –**

| | **£** |
|---|---|
| **Cynlluniau a ddygwyd ymlaen o 2020/21** | **4.000m** |
| **Adnewyddu/Amnewid Asedau** | **4.137m** |
| **Prosiectau Cyfalaf Untro (Prosiectau Blaenoriaeth)** | **0.780m** |
| **Prosiectau Cyfalaf Untro (Yn amodol bod cyllid ar Gael)** | **0.325m** |
| **Ysgolion 21ain Ganrif** | **6.600m** |

| | |
|---|---|
| **Cyfrif Refeniw Tai** | **20.313m** |
| | |
| **Cyfanswm y Rhaglen gyfalaf a argymhellir** | **36.155m** |

**Cyllidwyd gan:**

| | |
|---|---|
| **Grant Cyfalaf Cyffredinol** | **2.163m** |
| **Benthyca â chymorth - cyffredinol** | **2.158m** |
| **Balansau Cyffredinol** | **0.291m** |
| **Balansau Cyffredinol (os oes cyllid digonol ar gael)** | **0.325m** |
| **Benthyca â chymorth - Ysgolion 21ain Ganrif** | **2.897m** |
| | |
| **Benthyca Digymorth** | **0.498m** |
| **Cronfa Wrth Gefn CRT & Gwarged yn y flwyddyn** | **15.639m** |
| **Benthyca Digymorth CRT** | **2.0m** |
| **Grantiau Allanol** | **6.184m** |
| **Cyllid 2020/21 a ddygwyd ymlaen** | **4.000m** |
| | |
| **Cyfanswm Cyllid Cyfalaf 2020/21** | **£36.155m** |

**Y Cynghorydd Llinos Medi**
**Cadeirydd**

DRAFFT

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **22 Mawrth 2021** |
| **Pwnc / Testun:** | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith** |
| **Deilydd(ion) Portffolio:** | **Cyng Llinos Medi** |
| **Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Tel:**<br>**E-bost:** | **Huw Jones, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd**<br>**01248 752108**<br>**JHuwJones@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

**A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau**

Yn unol â'i Gyfansoddiad, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi blaen raglen waith a'i diweddaru'n rheolaidd. Cyhoeddir blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn fisol er mwyn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:

gadarnhau'r blaen raglen waith atodol ar gyfer y cyfnod **Ebrill – Tachwedd 2021;**

Adnabod unrhyw faterion ar gyfer cael mewnbwn penodol ac ymgynghoriad gyda Phwyllgorau Sgriwtini'r Cyngor yn ystod argyfwng Covid-19 gan gydnabod y strategaeth ar gyfer cyfarfodydd pwyllgor hyd at 30 Ebrill 2021 a gymeradwywyd gan arweinyddion grŵp ar 12 Mai 2020, sy'n nodi'r disgwyliadau o ran cynnal cyfarfodydd o'r pwyllgorau sgriwtini;

Nodi bod blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei diweddaru'n fisol a'i chyflwyno fel eitem safonol yn fisol i'r Pwyllgor Gwaith.

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

| **B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| **-** |

| **C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith cyn cyhoeddi pob diweddariad er mwyn cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaengynllunio. |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson a'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydy'. |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Amherthnasol. |

| **DD – Effaith ar Genedlaethau'r Dyfodol (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein anghenion tymor hir fel Ynys** | Ddim yn berthnasol. |
| **2** | **A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir a fydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol. Os felly, sut:-** | |
| **3** | **A ydym wedi bod yn cyd-gweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda pwy-** | |
| **4** | **A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae'i rhan yn drafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:-** | |
| **5** | **Nodwch yr effeithiau mae'r penderfyniad hwn yn ei gael ar yr agenda cydraddoldeb ac iaith Gymraeg** | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

| **E – Gyda phwy yr ymgynghoroch?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol)** | Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei thrafod yn fisol yng nghyfarfodydd y Penaethiaid Gwasanaeth (eitem safonol ar y rhaglen).<br><br>Fe'i cylchredir yn rheolaidd hefyd i Benaethiaid Gwasanaeth er mwyn ei diweddaru. |
| **2** | **Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol)** | |
| **3** | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol)** | |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth (TG)** | |
| **7** | **Caffael** | |
| **8** | **Sgriwtini** | Dan amgylchiadau arferol, cynhelir cyd-drafodaeth yn fisol ar raglenni gwaith y Pwyllgor Gwaith a'r ddau Bwyllgor Sgriwtini, a hynny er mwyn sicrhau aliniad rhyngddynt. |
| **9** | **Aelodau Lleol** | Amherthnasol. |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith: Ebrill – Tachwedd 2021. |

| **FF – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth):** |
|---|
| |

* *Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
**Cyfnod: Ebrill – Tachwedd 2021**

Diweddarwyd 10 Mawrth 2021

Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Mae modd i benderfyniadau gweithredol gael ei gwneud gan y Pwyllgor Gwaith llawn yn gweithredu fel corff cyfunol neu gan aelodau unigol o'r Pwyllgor Gwaith yn gweithredu trwy hawliau dirprwyiedig. Mae'r blaen raglen waith yn cynnwys gwybodaeth am y penderfyniadau a geisir, pwy fydd yn gwneud y penderfyniadau a phwy yw'r Swyddogion a'r Deilyddion portffolio arweiniol ar gyfer pob eitem.

Dylid nodi, fodd bynnag, bod y blaen raglen waith yn ddogfen hyblyg, gan nad oes modd gwybod am yr holl eitemau y bydd angen penderfyniad arnynt gymaint â hyn ymlaen llaw ac efallai bydd angen newid yr amserlen ar gyfer rhai materion er mwyn cwrdd â blaenoriaethau newydd ayyb. Oherwydd hyn, fe adolygir yn rheolaidd y rhestr o eitemau sydd wedi'u cynnwys ac fe gyhoeddir diweddariad yn fisol.

Yn achlysurol, bydd angen cyflwyno adroddiadau am drafodion eiddo penodol, a hynny yn unol â Pholisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau. Oherwydd dylanwad y farchnad allanol, nid yw'n bosibl dynodi amseriad adroddiadau fel hyn ymlaen llaw.

Gosodir allan y fersiwn ddiweddaraf o flaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith **– sy'n ddogfen fyw ac yn agored i newid -** ar y tudalennau dilynol.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Ebrill – Tachwedd 2021

Diweddarwyd 10 Mawrth 2021

| | Y pwnc a'i *gategori a<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | **Ebrill 2021** | | | |
| 1 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Pwyllgor Gwaith | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Ebrill 2021 | |
| 2 | **Cynllun Rheoli Asedau Gwasanaeth 2020-2030 – Ystad Mân-ddaliadau** | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Huw Percy<br>Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo<br><br>Cyng R G Parry OBE | I'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Ebrill 2021 | |
| 3 | **Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai (CRT)** | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Alun W Mummery | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 12 Ebrill 2021 | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Ebrill 2021 | |
| | | | | **Mai 2021** | | | |
| 4 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Pwyllgor Gwaith | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Mai 2021 | |

Tudalen 21

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Ebrill – Tachwedd 2021

Diweddarwyd 10 Mawrth 2021

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Mehefin 2021** | | | | | | |
| 5 | **Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2020/21**<br><br>Cymeradwyo'r adroddiad. | Deilydd Portffolio sydd â chyfrifoldeb am yr iaith. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Ieuan Williams | I'w gadarnhau | Penderfyniad dirpwyiedig<br><br>Mehefin 2021 | |
| | | | | | | | |
| 6 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Pwyllgor Gwaith | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>21 Mehefin 2021 | |
| 7 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch4, 2020/21 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>7 Mehefin 2021 | Pwyllgor Gwaith<br><br>21 Mehefin 2021 | |
| 8 | **Monitro Cyllideb Refeniw 2020/21 – Ch4 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>3 Mehefin 2021 | Pwyllgor Gwaith<br><br>21 Mehefin 2021 | |



** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Ebrill – Tachwedd 2021

Diweddarwyd 10 Mawrth 2021

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 9 | **Monitro Cyllideb Gyfalaf 2020/21 – Ch4 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>3 Mehefin 2021 | Pwyllgor Gwaith<br><br>21 Mehefin 2021 | |
| 10 | **Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2020/21 – Ch4 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>21 Mehefin 2021 | |
| | **Gorffennaf 2021** | | | | | | |
| 11 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Pwyllgor Gwaith | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>12 Gorffennaf 2021 | |
| | **Medi 2021** | | | | | | |
| 12 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Pwyllgor Gwaith | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>27 Medi 2021 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Ebrill – Tachwedd 2021

Diweddarwyd 10 Mawrth 2021

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 13 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch1, 2021/22 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 13 Medi 2021 | Pwyllgor Gwaith<br><br>27 Medi 2021 | |
| 14 | **Monitro Cyllideb Refeniw 2021/22 – Ch1 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid 9 Medi 2021 | Pwyllgor Gwaith<br><br>27 Medi 2021 | |
| 15 | **Monitro Cyllideb Gyfalaf 2021/22 – Ch1 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid 9 Medi 2021 | Pwyllgor Gwaith<br><br>27 Medi 2021 | |
| 16 | **Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2021/22 – Ch1 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>27 Medi 2021 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Ebrill – Tachwedd 2021

Diweddarwyd 10 Mawrth 2021

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | **Hydref 2021** | | | |
| 17 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Pwyllgor Gwaith | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Hydref 2021 | |
| | | | | **Tachwedd 2021** | | | |
| 18 | **Cyllideb 2022/23 (S)**<br><br>Cwblhau cynigion cychwynnol drafft y Pwyllgor Gwaith ar gyfer ymgynghori. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>28 Hydref 2021<br><br>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>1 Tachwedd 2021 | Pwyllgor Gwaith<br><br>8 Tachwedd 2021 | |
| | | | | | | | |
| 19 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Pwyllgor Gwaith | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>29 Tachwedd 2021 | |



**  Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Ebrill – Tachwedd 2021

Diweddarwyd 10 Mawrth 2021

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 20 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch2, 2021/22 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 16 Tachwedd 2021 | Pwyllgor Gwaith<br><br>29 Tachwedd 2021 | |
| 21 | **Monitro Cyllideb Refeniw 2021/22 – Ch2 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid 11 Tachwedd 2021 | Pwyllgor Gwaith<br><br>29 Tachwedd 2021 | |
| 22 | **Monitro Cyllideb Gyfalaf 2021/22 – Ch2 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>29 Tachwedd 2021 | |
| 23 | **Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2021/22 – Ch2 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>29 Tachwedd 2021 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | **22 MAWRTH 2021** |
| **Pwnc / Testun:** | **ADRODDIAD MONITRO'R CERDYN SGORIO – CHWARTER 3 (2020/21)** |
| **Deilydd(ion) Portffolio:** | **Y CYNGHORYDD DAFYDD RHYS THOMAS** |
| **Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:** | **CARYS EDWARDS** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Tel:**<br>**E-bost:** | **GETHIN MORGAN**<br>**01248 752111**<br>**GethinMorgan@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | Amherthnasol |

## A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

**1.1** Hwn yw'r ail cerdyn sgorio ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020/21 i gael ei ystyried oherwydd y pwysau allanol sy'n gysylltiedig â'n hymateb i'r pandemig coronafeirws.

**1.2** Mae'n dangos safle'r Cyngor yn erbyn ei amcanion gweithredol fel yr amlinellwyd ac y cytunwyd arnynt rhwng yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth / y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol.

**1.3** Gofynnir i'r Pwyllgor graffu ar y cerdyn sgorio a nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli er mwyn sicrhau gwelliannau i'r dyfodol.

*Gellir crynhoi'r rhain fel a ganlyn -*

**1.3.1** Cydnabod a rheoli tanberfformiad trwy gymryd camau lliniaru i gynorthwyo gwelliant yn ystod Ch4 a bod yr UDA yn sicrhau bod trafodaeth ar y dangosyddion sy'n cael eu heffeithio gan y pandemig er budd rheoli'r risgiau cysylltiedig yn briodol.

**1.4** Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn y mesurau lliniaru a amlinellir uchod.

## B – Pa opsiynau eraill bu I chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

Amherthnasol

## C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Mae'r mater hwn wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith

| D – A yw’r penderfyniad hwn yn gyson a’r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Ydi |

| DD – A yw’r penderfyniad hwn oddi fewn i’r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Ydi |

| E – Effaith ar Genedlaethau’r Dyfodol (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| 1 | **Sut mae’r penderfyniad yma’n effeithio ar ein anghenion tymor hir fel Ynys** | Mae’r adroddiad y Cerdyn Sgorio Corfforaethol yn rhoi cipolwg ar berfformiad DPA yn erbyn 3 amcan Cynllyn y Cyngor ar ddiwedd pob chwarter.<br><br>Mae’r 3 amcan, isod, yn ystyried anghenion tymor hir yr Ynys<br><br>1. Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir<br>2. Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus er mwyn eu cadw’n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosibl<br>3. Gweithio gyda’n cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi’n effeithiol â newid a datblygiadau tra’n gwarchod ein hamgylchedd naturiol<br><br>Mae mesur y DPA yn erbyn pob amcan yn dangos sut mae penderfyniadau'n cael effaith ar ein perfformiad cyfredol. |
| 2 | **A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir a fydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i’r dyfodol. Os felly, sut:-** | Gallai perfformiad rhai DPAau o bosibl gael effaith ar gostau yn y dyfodol, ond mae mesurau lliniaru a gynigir yn ceisio lliniaru'r pwysau hyn. |
| 3 | **A ydym wedi bod yn cyd-gweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda pwy-** | Ymgymerir ag elfennau o'r gwaith sy'n cael ei fonitro yn y Cerdyn Sgorio mewn modd cydweithredol â sefydliadau eraill fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Llywodraeth Cymru, Cadwch Gymru'n Daclus, Gyrfa Cymru, Chwaraeon Cymru, GWE, ymhlith eraill. |
| 4 | **A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae’i rhan yn** | Amh. |

| | | |
|---|---|---|
| | **drafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:-** | |
| **5** | **Nodwch yr effeithiau mae'r penderfyniad hwn yn ei gael ar yr agenda cydraddoldeb ac iaith Gymraeg** | Amh. |

| **E – Gyda phwy yr ymgynghoroch?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif-weithredwr / Uwch Dim Rheoli (UDRh) (gorfodol)** | Ystyriwyd y mater hwn gan yr UDA ac adlewyrchir eu sylwadau yn yr adroddiad |
| **2** | **Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol)** | Dim sylwadau |
| **3** | **Swyddog Cyfreithiol / Mnitro (gorfodol)** | Dim sylwadau |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth (TG)** | |
| **7** | **Caffael** | |
| **8** | **Sgriwtini** | Bu i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn ei gyfarfod ar 8 Mawrth, 2021 ystyried yr adroddiad ar fonitro perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch3: 2020/21.<br>Yn sgil ei ystyriaeth, fe benderfynodd y Pwyllgor fel a ganlyn:<br><br>Ar ôl ystyried yr adroddiad a'r diweddariadau a roddwyd gan Swyddogion yn y cyfarfod, penderfynodd y Pwyllgor dderbyn yr adroddiad, nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli er mwyn sicrhau gwelliannau i'r dyfodol ac i argymell y mesurau lliniaru i'r Pwyllgor Gwaith. |
| **9** | **Aelodau Lleol** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Atodiad A - Cherdyn Sgorio Chwarter 3 |

| **FF – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth):** |
|---|
| Adroddiad Monitro Cerdyn Sgorio 2020/21 – Chwarter 2 (fel y cyflwynwyd ef i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Tachwedd 2020 ac a dderbyniwyd ganddo.) |

**ADRODDIAD MONITRO CERDYN SGORIO – CHWARTER 3 (2020/21)**

## 1. RHAGARWEINIAD

1.1. Un o ddyletswyddau'r Cyngor o dan Raglen Cymru ar gyfer Gwella yw gwneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn y modd yr ydym yn darparu ein gwasanaethau. Mae'n ofynnol i ni roi trefniadau ar waith i gael dealltwriaeth effeithiol o anghenion a blaenoriaethau lleol, ac i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau a'r capasiti sydd gennym i gyflawni'r anghenion a'r blaenoriaethau hynny, ac er mwyn gwerthuso effaith yr hyn a wnawn.

1.2. Mae Cynllun y Cyngor ar gyfer 2017 i 2022 yn nodi'r anghenion a'r blaenoriaethau lleol a'n hamcanion ar gyfer y cyfnod.

1.3. Defnyddir yr adroddiad monitro hwn ar y cerdyn sgorio fel rhan o'r broses i fonitro llwyddiant ein Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA), sef cyfuniad o ddangosyddion lleol a chenedlaethol, wrth i'r Cyngor ddarparu ei wasanaethau o ddydd i ddydd. Mae'r adroddiad hefyd yn dwyn sylw at unrhyw gamau lliniarol a nodwyd gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) i yrru a sicrhau gwelliannau. Mae'r gweithgareddau busnes arferol pwysig hyn wedi cael eu symyd ymlaen yng nhgyd-destun y pandemig coronafeirws ehangach. Mae'r cyfyngiadau a'r gofynion i gadw staff a thrigolion yn ddiogel wedi dylanwadu ar y cyfnod, mae rhai adnoddau a capasiti wedi'u hailgyfeirio,tra bod nifer o feysydd Gwasanaeth wedi gwynebu heriau cynyddol yn yr hyn a gydnabyddir yn draddiodiadol fel cyfnol anodd.

1.4. Mae'r cerdyn sgorio (atodiad 1) yn portreadu'r sefyllfa ar ddiwedd Ch3 a bydd yn cael sylw pellach (ynghyd â'r adroddiad hwn) gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwaith yn ystod mis Mawrth. Ni chyhoeddwyd y cerdyn sgorio cyntaf ar gyfer 2020/21 wrth reoli argyfwng y pandemig ac o ganlyniad, hwn yw'r ail adroddiad ar gyfer 2020/21 i gael ei ystyried gan y pwyllgorau hynny oherwydd y pwysau allanol sy'n gysylltiedig â'n hymateb i'r pandemig coronafeirws.

## 2. CYD-DESTUN

2.1. Mae'r DPA monitro perfformiad yn parhau i fod wedi eu halinio â thri amcan strategol y Cyngor:

- Amcan 1 – Sicrhau y gall pobl Ynys Môn ffynnu a gwireddu eu potensial tymor hir
- Amcan 2 – Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus i'w cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosib
- Amcan 3 – Gweithio mewn partneriaeth â'n cymunedau i sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau, tra'n amddiffyn ein hamgylchedd naturiol.

2.2. Ni fydd modd cyhoeddi gwybodaeth ar gyfer pob DPA ar y Cerdyn Sgorio bob chwarter oherwydd pryd mae'r data yn cael eu gasglu a'i dadansoddi. Yn y fath achosion, bydd nodyn yn dweud pa mor aml y mae'r DPA yn cael ei fonitro a phryd y bydd y data ar gael i'w casglu, e.e. (blynyddol) (Ch4), (tymhorol) (Ch3).

2.3. Ni fydd modd ‘chwaith adrodd ar yr holl ddangosyddion oherwydd y pandemig Covid-19 lle mae rhai o’n gweithgareddau dydd i ddydd wedi cael ei heffeithio oherwydd y cyfnod clo cenedlaethol a’r cyfyngiadau i argaeledd rhai o’n gwasanaethau. Mae rhai DPA a gasglwyd yn draddodiadol gan Lywodraeth Cymru hefyd wedi’u hatal am yr un rhesymau. Amlygwyd y rhain yn y golofn statws RAG fel CV-19, er gwybodaeth.

2.4. Felly, cytunwyd ar dargedau’r Cerdyn Sgorio eleni ar sail perfformiad y flwyddyn flaenorol ac ar sut mae’r pandemig coronafirws wedi effiethio ar berfformiad y dangosyddion eleni (h.y. cau a lleihau rhai o’n gwasanaethau).

2.5. Yn ystod Chwarter 3, cyflwynwyd cyfnod clo byr o bythefnos yng Nghymru ar 23 Hydref a chyflwynwyd cyfnod clo cenedlaethol (lefel rhybudd 4) ar 19 Rhagfyr hefyd. Mae’r cyfnodau clo hyn wedi cael effaith ar wasanaethau’r Cyngor, ac yn parhau i gael effaith arnynt, a thrafodir rhai ohonynt isod.

## 3. PERFFORMIAD IECHYD CORFFORAETHOL

3.1. Mae’n galonogol nodi bod 88% o’r dangosyddion sy’n cael eu monitro yn parhau i berfformio’n dda yn erbyn targedau (Gwyrdd neu Felyn). Nodir rhai o’r uchafbwyntiau isod.

3.2. Ar ddiwedd Ch3, mae’r Cyngor yn WYRDD yn erbyn ei darged rheoli absenoldebau staff gyda 4.69 diwrnod yn cael eu colli am bob gweithiwr cyfwerth ag amser llawn yn y cyfnod yn erbyn targed o 6.91 diwrnod. Mae hyn yn welliant sylweddol ar y lefelau a welwyd ar ddiwedd Ch3 2019/20 lle collwyd 6.72 diwrnod oherwydd absenoldeb am bob gweithiwr cyfwerth ag amser llawn.

3.3. Mae’r holl ddangosyddion o dan yr is-bennawd ‘symud i wasanaethau digidol’ wedi perfformio’n well nag yn y blynyddoedd blaenorol yn ystod y pandemig. Ni ellir tanbrisio pwysigrwydd Cyfryngau Cymdeithasol (eitem 14) i rannu gwybodaeth a cheisio dylanwadu’n gadarnhaol ar ymddygiadau er mwyn sichrau mwy o gydymffurfiad lleol â rheolau cloi cenedlaethol Covid-19. Mae ein sianeli Cyfryngau Cymdeithasol wedi gweld cynnydd o 8.5k o ddilynwyr ers ddiwedd Ch3 2019/20.

3.4. Ar hyn o bryd mae’r adran rheolaeth ariannol yn rhagweld, ar sail y sefyllfa ariannol ar ddiwedd y trydydd chwarter, y bydd gan y Cyngor danwariant o £1.47m ar gyfer y flwyddyn sy’n dod i ben ar 31 Mawrth 2021. Croesewir y tanwariant a ragwelir o £1.47m ac mae’n cryfhau sefyllfa ariannol y Cyngor wrth symud ymlaen, ond ni fyddai wedi cael ei gyflawni oni bai am yr arian ychwanegol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru . Dylid nodi mai rhagamcan yw’r swm o £1.47m o hyd a gallai nifer o faterion effeithio ar y ffigwr alldro terfynol, gan gynnwys y galw am wasanaethau yn ystod chwarter olaf y flwyddyn a swm y Dreth Gyngor na fydd y Cyngor yn llwyddo ei gasglu yn y pendraw.

3.5. Mae’r sefyllfa ar gyfer 2021/22 yn ansicr hefyd h.y. pa mor gyflym all y Cyngor symud allan o’r cyfnod clo a darparu lefel mwy arferol o wasanaeth a chynhyrchu’r lefel o incwm y cyllidebwyd ar ei gyfer. Mae cymorth ariannol parhaus gan Lywodraeth Cymru yn ffactor bwysig i’w ystyried hefyd. Os bydd y costau ariannol a’r incwm a gollir oherwydd y pandemig yn parhau ar y lefel bresennol am gyfnod sylweddol o amser, ac os na fydd Llywodraeth Cymru yn gallu darparu’r un lefel o

gymorth ariannol, yna bydd rhaid i'r Cyngor gyllido'r costau ychwanegol hyn o'i gronfeydd wrth gefn. Mae hyn yn amlygu pwysigrwydd cynnal cronfeydd wrth gefn cyffredinol a chlustnodedig digonol.

3.6. Mae'r tanwariant a ragwelir ar y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2020/21 yw £22.186m, gyda'r swm hwn yn llithro, o bosib, i Raglen Gyfalaf 2021/22. Bydd y cyllid ar gyfer y llithriad hwn hefyd yn llithro i 2021/22 a bydd yn cael ei gymryd i ystyriaeth wrth gynhyrchu'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys, y Strategaeth Gyfalaf a'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2021/22.

3.7. Mae'r canlyniadau ar ddiwedd chwarter 3 a'r gwariant cysylltiedig a ragwelir yn dangos effaith Covid-19 a'r cyfyngiadau cysylltiedig ar gynnydd a chwblhau rhai cynlluniau. Mae'r Cyngor wedi sicrhau llawer o wahanol grantiau allanol ac mae gwaith yn mynd rhagddo'n dda ar y rhan fwyaf o'r cynlluniau hyn. Mae'r Cyngor hefyd yn disgwyl derbyn £1.211m o Dderbyniadau Cyfalaf yn 2020/21 i gyfrannu tuag at ariannu'r Rhaglen Gyfalaf.

3.8. Gellir gweld rhagor o wybodaeth am reolaeth ariannol yn yr 'Adroddiad Monitro Cyllideb Refeniw ar gyfer Ch3' a'r adroddiad 'Monitro Cyllideb Cyfalar ar gyfer Ch3' sydd wedi cael ei drafod yng nghyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 1 Mawrth.

3.9. Mae hyn yn dangos y gellir rhoi sicrwydd rhesymol, trwy ddadansoddi'r cardiau sgorio, fod gweithgareddau dydd i ddydd y Cyngor o ran rheoli ei bobl, ei gyllid a gwasanaethu ei gwsmeriaid, yn cyrraedd safon sy'n briodol ac y cytunwyd arni gan yr Aelodau mewn cyfnod argyfwng. Adlewyrchir hyn hefyd yn y ffaith bod y dangosyddion rheoli perfformiad hefyd yn dangos perfformiad cadarnhaol.

## 4. RHEOLI PERFFORMIAD

4.1. Mae'r pandemig Covid-19 yn parhau i effeithio ar nifer o'r DPA sy'n cael eu monitro trwy'r Cerdyn Sgorio. Ar hyn o bryd, yn achos 15 o'r dangosyddion (33% o'r dangosyddion) mae Llywodraeth Cymru wedi canslo'r angen i gasglu data ar eu cyfer neu nid yw'r data'n cael eu casglu ar hyn o bryd oherwydd bod adnoddau wedi eu hailgyfeirio i ddelio â'r pandemig o fewn gweithlu ein partneriaid allanol.

4.2. Mae'r rhesymau dros y rheini sydd wedi'u heffeithio yn cynnwys y DPA sy'n gysylltiedig â:

- Dangosyddion y Gwasanaeth Dysgu (eitemau 1-7) – roedd ysgolion ar gau tan fis Medi a chanslwyd arholiadau. Mae llyfrgelloedd hefyd wedi bod ar gau.
- Tai (eitemau 18, 31-32, 34) – mae dangosyddion digartrefedd gan Lywodraeth Cymru wedi'u hatal. Oherwydd y pandemig, mae oedi pellach wedi effeithio ar feddalwedd newydd i fesur boddhad cwsmeriaid.
- Rheoleiddio a Datblygu Economaidd (eitemau 8, 11-12) - bu Canolfannau Hamdden ar gau a dim ond yn raddol yr ail-agorwyd nhw dros yr haf. Digwyddodd yr un peth yn ystod y cyfnod clo byr a'r cyfnod clo cenedlaethol presennol. Mae hyn wedi arwain at lawer iawn llai o ymweliadau ac o ganlyniad 'roedd yn amhosibl gosod unrhyw dargedau ystyrlon. Mae'r Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud

Ymarfer Corff (NERS) hefyd wedi'i atal oherwydd y pandemig coronafeirws.

- Gwasanaethau Oedolion (eitem 19) – mae'r dangosydd Oedi Wrth Drosglwyddo Gofal wedi'i atal oherwydd y gwaith hanfodol a wneir gan y GIG yn ystod y pandemig coronafeirws.

4.3. Ar gyfer y dangosyddion sy'n weddill ac y byddir yn adrodd arnynt yn Ch3 (27 dangosydd), mae'r mwyafrif (74%) ohonynt yn perfformio'n uwch na'r targed neu o fewn 5% i'w targedau. Fodd bynnag, nodwn fod wyth dangosydd yn tanberfformio yn erbyn eu targedau ac fe'u hamlygir fel rhai Coch ac Ambr yn y Cerdyn Sgorio.

4.4. Mae perfformiad ar gyfer **Amcan 1** ar ddiwedd Ch3 wedi bod yn dda gan mai dim ond un dangosydd sy'n tanberfformio yn erbyn yr amcan ar hyn o bryd.

4.4.1. Dangosydd 10 – Canran y busnesau risg uchel a arolygwyd dan raglen a gynlluniwyd ymlaen llaw i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â Deddfwriaeth Hylendid Bwyd – sy'n GOCH gyda pherfformiad o 13% yn erbyn targed o 80% ond sy'n welliant ar y 10% a gynhaliwyd yn Ch2.

*Effeithiwyd ar y gwaith hwn o gan yr pandemig Covid-19, lle nad oedd ond modd cynnal 20 o'r 159 o arolygiadau a gynlluniwyd ers mis Ebrill 2020. Roedd hyn oherwydd bod Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd yn canolbwyntio ar waith yn gysylltiedig â rheoli haint a Covid-19 yn ystod y pandemig. Mae'r holl achosion y tynnir sylw'r Tîm Iechyd yr Amgylchedd atynt gan y tîm Profi, Olrhain a Diogelu (TTP) yn cael eu hymchwilio sy'n golygu nad oes bron dim capasiti ar gael i gynnal archwiliadau hylendid bwyd.*

*Er ein bod wedi cyflogi Swyddog Iechyd yr Amgylchedd ymgynghorol i gynorthwyo gyda diogelwch bwyd, canolbwyntiwyd yn bennaf ar gofrestru ac archwilio cychod pysgota - un o'r prif feysydd blaenoriaeth a nodwyd gan Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru er mwyn sicrhau y gallai allforwyr barhau i allforio wedi 01/01/21. Mae'r rhain yn archwiliadau ar gyfer busnesau newydd ac felly nid ydynt yn cyfrif tuag at y rhaglen. Mae gwaith archwilio busnesau bwyd eraill wedi cael ei lesteirio oherwydd bod busnesau ar gau ac oherwydd y cyfnodau clo. Rydym yn parhau i gynnal asesiadau o bell lle mae'n bosib yn y gobaith o gynnal ymweliad ar y safle pan fydd yn ddiogel gwneud hynny.*

4.5. Mae perfformiad yn erbyn y dangosyddion ar gyfer **Amcan 2** yn dangos bod tri dangosydd o'r 14 a gafodd eu monitro yn Ch3 (21%) yn tanberfformio ar gyfer yr amcan ar hyn o bryd ond mae hyn yn well na'r perfformiad yn Ch2.

4.5.1. Dangosydd 27 - Canran yr atgyfeiriadau plant sy'n ailgyfeiriadau o fewn 12 mis - sy'n GOCH gyda pherfformiad o 35% yn erbyn targed o 10%. Mae hyn yn well na'r ffigwr o 38.89% a welwyd ar ddiwedd Ch2. Fodd bynnag, mae'n parhau i danberfformio i'w gymharu a'r 12.68% a'i gofnodwyd ar ddiwedd Ch3 2019/20.

*Ar ôl adolygu ffeiliau achos yr 14 o blant sydd wedi cael ail-asesiad yn ystod y flwyddyn, canfuwyd eu bod oll wedi eu hailgyfeirio'n briodol i'r gwasanaeth. Roedd phob un o'r 14 wedi'u hailgyfeirio oherwydd rhesymau newydd a sefyllfaoedd a oedd yn codi na ellid bod wedi eu rhagweld na'u hatal.*

4.5.2. Dangosydd 35 – Nifer y dyddiau calendr a gymerir ar gyfartaledd i osod uned llety y mae modd eu gosod (ac eithrio Unedau Anodd Eu Gosod) sydd yn GOCH ar y cerdyn sgorio gyda 62.1 diwrnod yn erbyn targed o 26 diwrnod. Mae hyn yn well na'r 78 diwrnod a welwyd ar ddiwedd Ch2.

*Oherwydd y pandemig, ni fu modd gosod ein Stoc Tai Cyngor mor gyflym ag arfer a hynny'n bennaf oherwydd bod rhaid cydymffurfio â deddfwriaeth coronafeirws a rheolau pellter cymdeithasol.*

*Mae mwy o unedau bellach yn cael eu gosod, fel y gwelir o'r gwelliant mewn perfformiad. Fodd bynnag mae'r ddau gyfnod clo yn ystod Ch3 wedi cael effaith ar unrhyw welliant pellach. Ni fydd y targed blynyddol yn cael ei gyrraedd eleni oherwydd ansicrwydd yn sgil y pandemig Covid-19.*

4.5.3. Dangosydd 36 – Gwasanaethau Landlord: Mae canran y rhent a gollir oherwydd bod eiddo'n wag yn GOCH ar y cerdyn sgorio gyda 2.09% wedi'i golli yn erbyn targed o 1.50%, ond mae hyn ychydig yn well na'r 2.18% a welwyd ar ddiwedd Ch2.

*Mae cysylltiad uniongyrchol rhwng y dangosydd hwn a'r dangosydd a drafodir uchod. Gan ei bod yn cymryd mwy o amser i osod unedau llety mae swm y rhent a gollir yn uwch. Yn anffodus, mae'n annhebygol y bydd modd cyrraedd y targed am y flwyddyn o ganlyniad i'r pandemig Covid-19.*

4.6. Mae'r perfformiad yn erbyn dangosyddion **Amcan 3** wedi bod yn gymysg yn sgil effaith y pandemig Covid-19. Mae tri dangosydd o'r saith (43%) a gafodd eu monitro ar gyfer yr amcan wedi tanberfformio yn erbyn y targed.

4.6.1. Dangosydd 41 – Canran yr holl geisiadau cynllunio a benderfynwyd o fewn yr amser – sy'n GOCH gyda 79% yn erbyn targed o 90%. Mae hyn yn is na'r 90% a welwyd yn Ch3 2019/20.

*Mae hwn yn ddangosydd arall y mae'r pandemig Covid-19 wedi effeithio arno, lle bu'n rhaid atal archwiliadau safle a gofynion hysbysebu unwaith eto. Mae cyfyngiadau ar ymweliadau safle yn parhau mewn grym ar gyfer swyddogion a'r Pwyllgor Cynllunio. Mae amryw o ffactorau eraill yn effeithio ar y canlyniad hwn h.y. ôl-groniad o geisiadau, swydd wag o fewn y gwasanaeth, capasiti cynllunio oherwydd y nifer uchel o geisiadau, a chwiliadau tir sy'n parhau i fod yn her.*

*Addaswyd arferion gwaith yn barod a chedwir llygaid arnynt er mwyn eu haddasu yn ôl y gofyn, gan fod yn hyblyg o ran arferion gwaith a blaenoriaethau er mwyn cwrdd â'r newid mewn galw. Bydd cyfleoedd yn cael eu nodi hefyd i gryfhau'r capasiti Cynllunio drwy gyfrwng y Cynllun Gwella Cynllunio.*

4.6.2. Dangosydd 43 – Canran yr apeliadau cynllunio a wrthodwyd – sy'n GOCH gyda pherfformiad o 55% yn erbyn targed o 65%. Mae hyn well na'r 50% a welwyd ar ddiwedd Ch2. Fodd bynnag, mae'n is na'r 67% a welwyd ar ddiwedd Ch3 2019/20.

*Nid yw'r dangosydd hwn ond yn ymwneud â niferoedd bach iawn a gellir priodoli'r perfformiad ar ddiwedd y chwarter i'r ffaith bod 6 o'r 11 o apeliadau wedi eu cadarnhau. Mae'r dangosydd hwn yn dibynnu ar y math o geisiadau a dderbynnir ac mae'n anochel y bydd rhai apeliadau cynllunio yn llwyddiannus. Roedd rhai o'r apeliadau a wrthodwyd yn ymwneud â cheisiadau am dai newydd i gymryd lle tai presennol ac mae hyn wedi ei nodi eisoes fel pryder o ran dehongli.*

*Cynhaliwyd trafodaeth gyda'r Adran Polisi Cynllunio ar y Cyd i sicrhau cysondeb yn y penderfyniadau a/neu ddehongliad swyddogion o'r ceisiadau er mwyn lleihau nifer yr apeliadau cynllunio llwyddiannus.*

4.6.3. Dangosydd 43 – Canran yr achosion gorfodaeth cynllunio yr ymchwiliwyd iddynt o fewn 84 diwrnod – sy'n AMBR gyda pherfformiad o 73% yn erbyn targed o 80%. Mae hwn yn welliant ar y perfformiad a welwyd yn Ch2 lle cwblhawyd 65% o'r gwaith o fewn yr amserlen ac mae ychydig yn well hefyd na'r lefelau a welwyd ar ddiwedd Ch3 2019/20 lle cafodd 71% eu hymchwilio o fewn yr amserlen.

*Mae'r pandemig wedi parhau i effeithio ar berfformiad y dangosydd hwn gyda'r archwiliadau safle a'r cyfarfodydd arferol yn cael eu cynnal mewn ffordd wahanol ac yn rhithiol lle bynnag y mae'n bosib. Gwelwyd cynnydd da yn ystod y chwarter gan yr ymchwiliwyd i 80% o achosion (57 allan o 71 achos) er gwaetha'r ffaith y derbyniwyd yr un nifer o gwynion gorfodaeth ag a dderbyniwyd yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn (22 achos yn Ch1, 49 achos yn Ch2). Rhagwelir y bydd y cynnydd hwn yn parhau yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.*

4.7. Er bod pob un o'r dangosyddion o dan Amcan 3 a nodwyd uchod fel rhai sy'n tanberfformio yn erbyn eu targedau yn ddangosyddion sy'n eiddo i'r Gwasanaeth Cynllunio, mae'n bwysig nodi bod adborth diweddar gan asiantau cynllunio lleol wedi nodi mai Gwasanaeth Cynllunio Cyngor Sir Ynys Môn yw'r unig un yn y Rhanbarth sydd ar hyn o bryd yn parhau i ddarparu gwasanaethau mor agos i'r arfer â phosib. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi nodi bod yr "ymdrechion wrth addasu i bandemig y coronafeirws wedi sicrhau bod gennym system gynllunio ar waith yng Nghymru sy'n gallu helpu gyda'r broses adfer mewn modd cadarnhaol."

## 5. ARGYMHELLION

5.1. Gofynnir i'r Pwyllgor graffu ar y cerdyn sgorio a nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli i sicrhau gwelliannau i'r dyfodol. Gellir crynhoi'r rhain fel a ganlyn –

5.1.1. Cydnabod a rheoli tanberfformiad trwy gymryd camau lliniaru i gynorthwyo gwelliant yn ystod Ch4 a bod yr UDA yn sicrhau bod trafodaeth ar y dangosyddion sy'n cael eu heffeithio gan y pandemig er budd rheoli'r risgiau cysylltiedig yn briodol.

5.2. Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn y camau lliniaru a amlinellir uchod.

Atodiad A - Cerdyn Sgorio Corfforaethol - Corporate Scorecard Ch-Q3 2020/21

| Rheoli Perfformiad / Performance Management | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad / Actual | Targed Ch/ Q Target | Targed Bl / Yr Target | Canlyniad 19/20 Result | Canlyniad 18/19 Result |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan 1 - Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir** | | | | | | | |
| 1) Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd (tymhorol) (Ch3) | CV-19 | - | - | - | 94.60% | 94.90% | 94.60% |
| 2) Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd (tymhorol) (Ch3) | CV-19 | - | - | - | 94.40% | 93.90% | 94.40% |
| 3) Canran gadawyr Blwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth [NEET] (blynyddol) (Ch4) | CV-19 | - | - | - | 3% | 2% | 1.10% |
| 4) Sgôr 'Cap 9' cyfartalog ar gyfer disgyblion blwyddyn 11 (blynyddol) (Ch3) | CV-19 | - | - | - | 349 | 345.4 | 349.1 |
| 5) Canran y disgyblion a aseswyd yn y Gymraeg ar ddiwedd y Cyfnod Syflaen (blynyddol) (Ch4) | CV-19 | - | - | - | - | 87.50% | 88.30% |
| 6) Canran y disgyblion blwyddyn 11 sy'n astudio'r Gymraeg [iaith gyntaf] (blynyddol) (Ch4) | CV-19 | - | - | - | - | 65.01% | 65% |
| 7) Canran y Dangosyddion Ansawdd (â thargedau) a gyflawnwyd gan y gwasanaeth llyfrgelloedd (blynyddol) (Ch3) | CV-19 | - | - | - | 75% | 75% | 82% |
| 8) Nifer yr ymweliadau â chyfleusterau chwaraeon a hamdden | CV-19 | - | 28k | - | - | 530k | 553k |
| 9) Canran y sefydliadau bwyd sy'n cyrraedd safonau hylendid bwyd | Gwyrdd / Green | → | 98% | 95% | 95% | 98% | 98% |
| 10) Canran y busnesau risg uchel oedd yn agored i ymchwiliadau wedi'u trefnu a archwiliwyd i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Ddeddfwriaeth Hylendid Bwyd [Dangosydd Lleol] | Coch / Red | ↑ | 13% | 90% | 90% | 92% | - |
| 11) Canran cleientiaid NERS a gwblhaodd y rhaglen ymarfer corff | CV-19 | - | - | 50% | 50% | 75% | 70% |
| 12) Canran cleientiaid NERS yr oedd eu hiechyd wedi gwella wrth gwblhau'r rhaglen ymarfer corff | CV-19 | - | - | 80% | 80% | 84% | 83% |
| 13) Nifer o eiddo preifat gwag wedi'u adfer i ddefnydd | Gwyrdd / Green | ↓ | 59 | 56 | 75 | 104 | 78 |
| 14) Nifer y cartrefi newydd a grewyd o ganlyniad i ddechrau ailddefnyddio eiddo gwag | Gwyrdd / Green | ↑ | 8 | 3 | 5 | 7 | 9 |
| 15) Nifer yr unedau tai fforddiadwy ychwanegol a ddarperir fesul 10,000 o aelwydydd (blynyddol) (Ch4) | - | - | - | - | 53 | 124 | 53 |
| 16) Gwasanaethau landlordiaid: Canran y cartrefi sy'n bodloni'r Safon Ansawdd Tai Cymru (WHQS) | Gwyrdd / Green | → | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% |
| 17) Gwasanaethau landlordiaid: Nifer y diwrnodau ar gyfartaledd i cwblhau atgyweiriadau | Gwyrdd / Green | ↓ | 8.29 | 12 | 12 | 16.44 | 13.63 |
| 18) Canran y tenantiaid sy'n fodlon gyda gwaith atgyweirio ymatebol (blynyddol) (Ch4) [Dangosydd Lleol] | CV-19 | - | - | - | - | - | - |
| **Amcan 2 - Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus er mwyn eu cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosibl** | | | | | | | |
| 19) Cyfradd y bobl a gedwir yn yr ysbyty wrth aros am ofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75+ oed | CV-19 | - | - | - | 3 | 6.88 | 7.78 |
| 20) Canran yr ymholiadau ynghylch amddiffyn oedolion a gwblhawyd o fewn terfynau amser statudol | Gwyrdd / Green | ↑ | 95.11% | 90% | 90% | 91.30% | 90.91% |
| 21) Canran yr oedolion a gwblhaodd gyfnod ailalluogi ac sydd â phecyn gofal a chymorth llai o faint chwe mis yn ddiweddarach | Gwyrdd / Green | → | 50.0% | 35% | 35% | 50% | 30.87% |
| 22) Canran yr oedolion a gwblhaodd gyfnod ail-alluogi ac nad oes ganddynt becyn gofal a chymorth 6 mis yn ddiweddarach | Melyn / Yellow | ↓ | 59.43% | 62% | 62% | 63.08% | 62.84% |
| 23) Cyfradd y bobl hŷn (65 mlwydd oed neu hŷn) y mae'r awdurdod yn eu cefnogi mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth 65 oed neu hŷn ar 31 Mawrth [Dangosydd Lleol] | Gwyrdd / Green | → | 15.42 | 19 | 19 | 17.57 | 17.35 |
| 24) Canran y rhai sy'n ofalwyr i oedolion a ofynnodd am asesiad neu adolygiad ac a gafodd asesiad neu adolygiad iddyn nhw eu hunain yn ystod y flwyddyn | Gwyrdd / Green | ↓ | 95.40% | 93% | 93% | 98.00% | 93.30% |
| 25) Canran yr asesiadau plant a gwblhawyd o fewn amser | Melyn / Yellow | ↓ | 86.00% | 90% | 90% | 89.62% | 86.17% |
| 26) Canran y plant mewn gofal y bu'n rhaid iddynt symud 3 gwaith neu fwy | Melyn / Yellow | ↑ | 8.39% | 7.50% | 10% | 8.39% | 9.52% |
| 27) Canran y cyfeiriadau o blant sy'n cael eu hail-gyfeirio o fewn 12 mis [Dangosydd Lleol] | Coch / Red | ↑ | 35.00% | 10% | 10% | 12.75% | 16.96% |
| 28) Cyfanswm yr amseroedd (mewn diwrnodau) a dreuliodd pob plentyn ar y CPR os cafodd ei dynnu oddi ar y CPR yn ystod y flwyddyn | Gwyrdd / Green | ↓ | 253 | 270 | 270 | 224 | 241 |
| 29) Canran y cyfeiriadau yn ystod y flwyddyn lle caiff penderfyniad ei wneud o fewn 1 diwrnod gwaith | Gwyrdd / Green | ↑ | 99.47% | 95% | 95% | 98.88% | 98% |
| 30) Canran yr ymweliadau statudol â phlant mewn gofal oedd i fod i ddigwydd yn ystod y flwyddyn, a gynhaliwyd yn unol â'r rheoliadau | Melyn / Yellow | ↓ | 88.00% | 90% | 90% | 86.30% | 86.17% |
| 31) Canran y teuluoedd a ataliwyd yn llwyddiannus rhag mynd yn ddigartref | CV-19 | - | - | 60% | 60% | 74.91% | 55.10% |
| 32) Canran y teuluoedd (gyda plant) a ataliwyd yn llwyddiannus rhag mynd yn ddigartref [Dangosydd Lleol] | CV-19 | - | - | 60% | 60% | 77.70% | |
| 33) Nifer y dyddiau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl | Gwyrdd / Green | ↓ | 165 | 170 | 170 | 159.58 | 161.9 |
| 34) Penderfyniad wedi ei wneud ar Achosion Digartrefedd o fewn 56 diwrnod (blynyddol) (Ch4) | CV-19 | - | - | - | - | | - |
| 35) Nifer cyfartalog y dyddiau calendr a gymerwyd i osod unedau llety sy'n rhai y mae modd eu gosod (ac eithrio Eiddo Anodd eu Gosod) | Coch / Red | ↑ | 62.1 | 21 | 21 | 21.9 | - |
| 36) Gwasanaethau landlordiaid: Canran y rhent wedi'i golli o ganlyniad i eiddo fod yn wag | Coch / Red | ↑ | 2.09% | 1.15% | - | 1.42% | 1.30% |
| **Amcan 3 - Gweithio gyda'n cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau tra'n gwarchod ein hamgylchedd naturiol** | | | | | | | |
| 37) Canran y strydoedd sy'n lân | Melyn / Yellow | - | 90.10% | 95% | 95% | 93.79% | 95.60% |
| 38) Canran y gwastraff wedi'u ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio | Melyn / Yellow | ↓ | 66.93% | 70% | 70% | 67.26% | 69.86% |
| 39) Nifer cyfartalog y dyddiau gwaith a gymerwyd i glirio digwyddiadau tipio anghyfreithlon | Gwyrdd / Green | → | 0.95 | 1 | 1 | 0.96 | 0.2 |
| 40) Cilogramau y gwastraff gweddilliol a eneradir fesul person | Gwyrdd / Green | ↑ | 160kg | 180 | 240kg | 206.17kg | 240kg |
| 41) Canran yr holl geisiadau cynllunio a benderfynwyd mewn pryd | Coch / Red | ↓ | 79% | 90% | 90% | 90% | 80% |
| 42) Canran yr apeliadau cynllunio a wrthodwyd | Coch / Red | ↑ | 55% | 65% | 65% | 78% | 74% |
| 43) Canran yr achosion gorfodaeth cynllunio yr ymchwiliwyd iddynt o fewn 84 diwrnod | Ambr / Amber | ↑ | 73% | 80% | 80% | 74% | - |
| 44) Canran y prif ffyrdd A sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) (Ch4) | - | - | - | 3% | 2.90% | 4% | 2.90% |
| 45) Canran y ffyrdd B sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) (Ch4) | - | - | - | 4% | 3.80% | 3.80% | 3.80% |
| 46) Canran y ffyrdd C sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) (Ch4) | - | - | - | 9% | 8.70% | 8.20% | 8.70% |

Coch - mwy na 10% yn is na'r targed a/neu angen ymyrraeth sylweddol Ambr - rhwng 5% a 10% yn is na'r targed a/neu angen rhywfaint o ymyrraeth

Melyn - o fewn 5% o'r targed Gwyrdd - ar darged neu'n uwch Mae saethau tuedd yn cynrychioli perfformiad chwarter ar chwarter Adroddir ar yr holl ddangosyddion uchod yn genedlaethol oni nodir yn

Atodiad A - Cerdyn Sgorio Corfforaethol - Corporate Scorecard Ch-Q3 2020/21

| Gofal Cwsmer / Customer Service | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad / Actual | Targed / Target | Canlyniad 19/20 Result | Canlyniad 18/19 Result |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Siarter Gofal Cwsmer / Customer Service Charter** | | | | | | |
| 01) Nifer y cwynion a dderbyniwyd (ac eithrio Gwasanaethau Cymdeithasol) | Gwyrdd / Green | ↑ | 31 | 50 | 67 | 76 |
| 02) Nifer y cwynion Cam 2 a dderbynnwyd ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol | | ↑ | 5 | - | | 8 |
| 03) Nifer y Cwynion a gadarnhawyd / gadarnhawyd yn rhannol | | ↓ | 5 | - | | 27 |
| 04a) % o ymatebion ysgrifenedig o fewn 20 diwrnod (Corfforaethol) | Gwyrdd / Green | ↓ | 93% | 80% | 94% | 93% |
| 04a) % o ymatebion ysgrifenedig o fewn 20 diwrnod (Gwasanaethau Cymdeithasol) | Gwyrdd / Green | ↓ | 86% | 80% | | 57% |
| 05) Nifer y cwynion Cam 1 ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol | | ↑ | 15 | - | | 44 |
| 06) Nifer o bryderon (ac eithrio Gwasanaethau Cymdeithasol) | | ↓ | 54 | - | 136 | 62 |
| 07) Nifer o ganmoliaethau | | ↑ | 414 | - | 618 | 513 |
| 08) % o Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a Ymatebwyd o fewn yr Amserlen | Gwyrdd / Green | ↓ | 80% | 80% | 82% | 81% |
| 09) Nifer o Geisiadau Rhyddid Gwybodaeth a dderbyniwyd | | ↑ | 541 | - | 903 | 1052 |
| **Newid Cyfrwng Digidol / Digital Service Shift** | | | | | | |
| 10) Nifer o ddefnyddwyr AppMôn (blynyddol) | - | ↑ | 25.5k | - | 15k | 8.2k |
| 11) Nifer o adroddiadau a dderbyniwyd gan AppMôn | - | ↑ | 34k | - | 10.8k | 4.7k |
| 12) Nifer o daliadau dros y we | - | ↑ | 11.8k | - | 13k | 11k |
| 13) Nifer o daliadau dros y ffôn | - | ↑ | 5.5k | - | 6.5k | 5k |
| 14) Nifer o 'ddilynwyr' CSYM ar Cyfryngau Cymdeithasol | - | ↑ | 41k | - | 33k | 29.5k |
| 15) Nifer o ymwelwyr i wefan y Cyngor | - | ↑ | 801k | - | 783k | - |

| Rheoli Pobl / People Management | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad / Actual | Targed / Target | Canlyniad 19/20 Result | Canlyniad 18/19 Result |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) Nifer y staff yr awdurdod cyfan, gan gynnwys athrawon a staff mewn ysgolion (FTE) | - | - | 2183 | | 2181 | 2243 |
| 02) Nifer y staff yr awdurdod cyfan, ac eithrio athrawon a staff mewn ysgolion (FTE) | - | - | 1213 | - | 1230 | 1252 |
| 03a) Absenoldeb Salwch - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | Gwyrdd / Green | ↑ | 4.69 | 6.91 | 9.4 | 10.34 |
| 03b) Salwch Tymor Byr - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | - | - | 1.41 | - | 4.2 | 4.68 |
| 03c) Salwch Tymor Hir - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | - | - | 3.28 | - | 5.2 | 5.66 |
| 04a) Ysgolion Cynradd - Absenoldeb Salwch - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | Gwyrdd / Green | ↓ | 3.08 | 6.87 | 7.98 | 12.21 |
| 04b) Ysgolion Cynradd - Salwch Tymor Byr - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | - | - | 1.09 | - | 4..17 | 4.97 |
| 04c) Ysgolion Cynradd - Salwch Tymor Hir - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | - | - | 1.99 | - | 3.81 | 7.24 |
| 05a) Ysgolion Uwchradd - Absenoldeb Salwch - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | Gwyrdd / Green | ↓ | 2.83 | 6.12 | 9.61 | 9.57 |
| 05b) Ysgolion Uwchradd - Salwch Tymor Byr - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | - | - | 1.00 | - | 4.58 | 5.26 |
| 05c) Ysgolion Uwchradd - Salwch Tymor Hir - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | - | - | 1.83 | - | 5.03 | 4.31 |
| 06) Gweithwyr yr Awdurdod Lleol yn gadael (%) (Trosiant) (Blynyddol) (Ch4) | - | - | - | 10% | 9% | 11% |
| 07) % o ADP a'i cwblhawyd o fewn yr amserlen (Blynyddol) (Ch4) | - | - | - | 80% | 80% | 86% |

| Rheolaeth Ariannol / Financial Management | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Cyllideb / Budget | Canlyniad / Actual | Amrywiant / Variance (%) | Rhagolygon o'r Gwariant / Forcasted Actual | Amrywiant a Ragwelir / Forcasted Variance (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) Y gyllideb o gymharu â Ffigyrau Gwirioneddol | Gwyrdd / Green | ↑ | £102,887,911 | £99,761,290 | -3.04% | | |
| 02) Alldro diwedd blwyddyn a ragwelir (Refeniw) | Gwyrdd / Green | ↑ | £142,146,320 | - | - | £140,400,001 | -1.23% |
| 03) Alldro diwedd blwyddyn a ragwelir (Cyfalaf) | - | ↑ | £36,952,000 | - | - | £22,787,000 | 38.33% |
| 04) Cyflawniad yn erbyn targedau effeithlonrwydd | Coch / Red | → | £307,000 | - | - | £244,000 | 20.52% |
| 05) Incwm o gymharu â Thargedau (ac eithrio grantiau) | Coch / Red | ↑ | -£9,241,938 | -£7,196,564 | -22.13% | - | - |
| 06) Swm a fenthycwyd | - | → | £4,836,000 | - | - | £0 | -100.00% |
| 07) Chost benthyca | Gwyrdd / Green | ↓ | £4,248,520 | - | - | £4,314,586 | 1..55% |
| 08) % o'r anfondebau a dalwyd o fewn 30 diwrnod | Melyn / Yellow | ↑ | - | 82.68% | - | - | - |
| 09) % of y Dreth Gyngor a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Melyn / Yellow | ↑ | - | 95.70% | - | - | - |
| 10) % y Trethi Busnes a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Melyn / Yellow | ↑ | - | 96.60% | - | - | - |
| 11) % yr Amrywiol Ddyledion a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | - | | - | - | - | - | - |
| 12) % y Rhent Tai a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Melyn / Yellow | ↑ | - | 100.17% | - | - | - |
| 13) % y Rhent Tai a gasglwyd heb gynnwys taliadau budd-dal (am y 3 blynedd ddiwethaf) | - | → | - | 100.30% | - | - | - |

This page is intentionally left blank

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN** | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **22 Mawrth 2021** |
| **PWNC:** | **Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Stad Elusennol David Hughes ac Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn 2019/20** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO:** | **Y Cynghorydd Robin Williams (Adnoddau)**<br>**Y Cynghorydd R G Parry OBE FRAgS (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo)**<br>**Y Cynghorydd R Meirion Jones (Dysgu)** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **Marc Jones** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>**FFÔN:**<br>**E-BOST:** | **Bethan Owen**<br>**(01248) 752663**<br>**BethanOwen2@ynysmon.gov.uk** |
| **AELODAU LLEOL:** | **Amherthnasol** |

**A - Argymhelliad/argymhellion a Rheswm/rhesymau**

- Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn ar gyfer 2019/20 (Atodiad A).

**B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

- Nid oes unrhyw opsiynau eraill ar gael oherwydd mae'n ofyniad gan y Comisiwn Elusennol fod y cyfrifon blynyddol yn cael eu cymeradwyo gan y corff cyfrifol, sef y Pwyllgor Gwaith yn yr achos hwn.

**C - Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

- Mae hwn yn fater sydd wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith.

**CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

**D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Ydi

| **DD -** | **Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori** | **Beth oedd eich sylwadau?** |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol)** | Mae'r UDA wedi ystyried yr adroddiad ac mae unrhyw sylwadau wedi cael eu cynnwys yn yr adroddiad. |
| 2 | **Cyllid / Adran 151 (gorfodol)** | Amherthnasol – adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn. |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol)** | Mae'r Swyddog Monitro yn aelod o'r UDA a byddai unrhyw sylwadau wedi cael eu hystyried yng nghyfarfod yr UDA. |
| 4 | **Adnoddau Dynol** | Amherthnasol |
| 5 | **Eiddo** | Amherthnasol |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | Amherthnasol |
| 7 | **Sgriwtini** | Amherthnasol |
| 8 | **Aelodau Lleol** | Amherthnasol |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol eraill** | Mae'r cyfrifon wedi cael eu harchwilio gan Archwilwyr Allanol ac mae eu hadroddiad yn ffurfio rhan o'r cyfrifon. |

| E - Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | |

| F - Atodiadau |
|---|
| • Atodiad A – Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn 2019/20 |

| FF – Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach): |
|---|
| • Adroddiad Diweddaru Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn – Pwyllgor Gwaith, 28 Hydref 2019 (eitem 13) |

**STAD ELUSENNOL DAVID HUGHES AC YMDDIRIEDOLAETH ADDYSG BELLACH**

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

**1.1** Yn yr adroddiad hwn ceir trosolwg o'r cefndir i Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn. Mae ynddo wybodaeth am statws cyfreithiol yr Ymddiriedolaeth a'r gwahanol elfennau sy'n gysylltiedig â hi. Ceir crynodeb o berfformiad ariannol yr Ymddiriedolaeth. Prif bwrpas yr adroddiad hwn yw gofyn i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon terfynol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019/20.

**1.2** Mae'r adroddiad yn cynnwys diweddariad i Aelodau ynghylch y camau a gymerwyd i ddosbarthu mwy o gyllid yr Ymddiriedolaeth i gyflawni dibenion elusennol yr Ymddiriedolaeth.

## 2. CEFNDIR

**2.1** Mae Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn yn cynnwys tair cronfa: Cronfa Waddol David Hughes a Chronfa Addysg Bellach Ynys Môn 1/3 a Chronfa Ymddiriedolaeth Addysg Ynys Môn 2/3 sy'n darparu budd addysgol penodol.

### 2.1.1. Stad Elusennol David Hughes

Mae'r gwaddol yn dyddio'n ôl i 1608 ac, ar hyn o bryd, mae'n cynnwys nifer o blotiau o dir mân-ddaliadau a bythynnod a buddsoddiadau eraill. Mae'r gronfa hon yn casglu rhenti o'i eiddo buddsoddi a difidendau a llog ar fuddsoddiadau'r Gronfa Fuddsoddi, a reolir gan Reolwyr Cronfa Blackrock Investment. Caiff costau rheoli, ariannol a gweinyddol y stad eu tynnu o'r rhenti a geir er mwyn penderfynu ar yr incwm net y gellir ei rannu yn ystod y flwyddyn. Caiff chwarter unrhyw incwm net sydd dros ben ei dalu i elusen ddigyswllt, "Elusen David Hughes ar gyfer y Tlodion", a hynny er mwyn lliniaru tlodi yng nghymuned Llantrisant. Mae'r incwm gweddilliol yna'n cael ei drosglwyddo i Gronfa Addysg Bellach Ynys Môn, sydd wedi ei rhannu'n ddwy gronfa benodol.

### 2.1.2. Cronfeydd Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn 1/3 (Cronfa Gyfyngedig)

Yn ogystal â'r incwm net o Stad Waddol David Hughes, mae'r ymddiriedolaeth hon hefyd yn derbyn incwm o fuddsoddiadau a reolir gan Blackrock mewn modd tebyg i Gronfa Waddol David Hughes. Pwrpas y gronfa yw darparu cymorth ariannol i ddisgyblion hŷn y 5 ysgol uwchradd er mwyn iddynt gwblhau eu cyrsiau.

### 2.1.3. Cronfeydd Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn 2/3 (Cronfa Gyfyngedig)

Mae'r elfen hon o'r ymddiriedolaeth yn derbyn incwm mewn ffordd debyg i'r uchod (2.1.3). Mae'r gronfa i'w defnyddio i helpu pobl ifanc dan 25 oed sydd wedi mynychu un neu fwy o'r 5 ysgol uwchradd am gyfnod o ddwy flynedd ac y mae angen cymorth ariannol arnynt i fynd ymlaen i addysg bellach neu addysg uwch neu hyfforddiant.

### 2.2 Statws Cyfreithiol

**2.2.1.** Mae Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn yn elusen gofrestredig a Chyngor Sir Ynys Môn yw'r unig ymddiriedolwr. Nid oes unrhyw ddarpariaeth benodol sy'n dirprwyo cyfrifoldeb i'r Cyngor llawn neu swyddog penodol mewn perthynas â'r Ymddiriedolaeth, felly, mae'r penderfyniadau sy'n ymwneud â'r Ymddiriedolaeth, wedi eu dirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith.

**2.2.2.** Mae rhai swyddogaethau sy'n gysylltiedig â'r Ymddiriedolaeth wedi cael eu dirprwyo i swyddogion mewn ymgynghoriad â'r aelod portffolio perthnasol:-

- Mae awdurdod mewn perthynas â grantiau addysgol wedi cael ei ddirprwyo i'r Pennaeth Gwasanaeth (Dysgu Gydol Oes);

- Mae awdurdod mewn perthynas â chytuno ar denantiaethau, gosod rhenti a threfnu rhaglen gynnal a chadw ac atgyweirio wedi ei ddirprwyo i'r Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo);
- Mae awdurdod mewn perthynas â phenderfynu faint o arian a ddyrennir i'r tri chynllun bob blwyddyn (o 2019/20 ymlaen) wedi ei ddirprwyo i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151, a bydd yn ddibynnol ar faint o warged a gynhyrchir gan y gronfa;
- Mae'r awdurdod i lofnodi Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yr Ymddiriedolaeth bob blwyddyn ar ôl cwblhau archwiliad allanol hefyd wedi ei ddirprwyo i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151;
- Gall y Prif Weithredwr ymarfer unrhyw swyddogaeth sydd wedi cael ei ddirprwyo i'r Penaethiaid Gwasanaeth.

## 3. DEFNYDD O'R GRONFA YN YSTOD 2019/20

**3.1** Ym mis Ebrill 2019, gofynnodd y Pwyllgor Gwaith am adolygiad o strwythur yr Ymddiriedolaeth, gyda'r nod o sicrhau fod mwy o'r cronfeydd yn cael eu defnyddio i gyflawni dibenion elusennol yr Ymddiriedolaeth.

**3.2** Ym mis Hydref 2019, penderfynodd y Pwyllgor Gwaith ddyrannu swm unwaith ac am byth o £55,000 i bob ysgol uwchradd i gyllido costau Anogwyr Dysgu ym mhob ysgol. Byddai'r Anogwyr Dysgu yn cefnogi'r disgyblion hŷn oedd yn dilyn cyrsiau TGAU a Lefel A. Mater i bob ysgol fyddai penderfynu dros ba gyfnod o amser i ddefnyddio'r cyllid. Byddai'n cael ei gyllido o'r Gronfa Gyfyngedig 1/3, gan ddefnyddio'r rhan fwyaf o falans y gronfa o £279,112 (fel ar 1 Ebrill 2019). Ceir mwy o fanylion am sut y cafodd y dyraniadau hyn eu defnyddio yn 2019 ym mharagraff 4 isod.

**3.3** Yn ogystal, penderfynodd y Pwyllgor Gwaith ddyrannu swm ychwanegol o £8,000 fesul ysgol uwchradd i roi grantiau ariannol i gynorthwyo myfyrwyr difreintiedig i sicrhau lleoedd mewn Colegau a Phrifysgolion a/neu helpu i brynu llyfrau ac offer angenrheidiol i ddilyn y cyrsiau yn ystod y flwyddyn gyntaf. Mater i bob ysgol fydd asesu pob cais a dyfarnu grantiau ar sail eu meini prawf asesu. Roedd cyfanswm y gost, sef £40,000, i'w gyllido o'r Gronfa Gyfyngedig 2/3, a oedd â balans o £175,541 (fel ar 1 Ebrill 2019). Ceir manylion am y defnydd a wnaed o'r cyllid hwn yn 2019/20 ym mharagraff 5 isod.

**3.4** Yn ogystal, byddai'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn gweinyddu cynllun ysgoloriaeth ar gyfer myfyrwyr o gefndiroedd difreintiedig er mwyn dilyn cyrsiau Prifysgol neu Goleg drwy gyfrwng y Gymraeg.

## 4. PERFFORMIAD ARIANNOL 2019/20

### 4.1 Stad Elusennol David Hughes (Cronfa Waddol)

**4.1.1.** Cynhyrchodd y Stad £126,500 drwy renti ar eiddo ac ailgodi tâl am drethi dŵr. Cynhyrchwyd £5,991 drwy incwm arall, difidendau a llog ar fuddsoddiadau. Gwariwyd £75,431 ar waith atgyweirio a chynnal a chadw, gwasanaethau proffesiynol a darpariaeth ar gyfer dyledion drwg ac amheus. Gwariwyd £12,516 ar gostau gweinyddol rheoli eiddo a chostau cyfrifeg ac archwilio. Canlyniad hyn yw bod £44,544 ar gael i'r ddosbarthu, gyda £11,136 yn cael ei dalu i Elusen David Hughes ar gyfer y Tlodion, a'r £33,408 sy'n weddill yn cael ei drosglwyddo i'r Ymddiriedolaeth Addysg Bellach.

**4.1.2.** Mae swm o £18,530 wedi ei godi yn erbyn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol fel colled ar fuddsoddiadau.

**4.1.3.** Gwerth y Stad ar 31 Mawrth 2020, oedd £2,763,867, sydd yn cynnwys gwerth yr eiddo £2,545,800, buddsoddiadau a fasnachwyd ar y Gyfnewidfa Stoc £136,616, ac asedau cyfredol net o £81,451. Mae gwerth y Stad £18,530 yn is nag ar 31 Mawrth 2019.

**4.1.4.** Roedd cynnydd o £106,200 yng ngwerth yr eiddo buddsoddi ond gwerthwyd eiddo gwerth £160,000 yn ystod y flwyddyn. O ganlyniad, roedd gostyngiad o £53,800 yng ngwerth net yr eiddo buddsoddi yn ystod y flwyddyn.

**4.2 Ymddiriedolaeth Addysg Bellach (Cronfeydd Cyfyngedig)**

**4.2.1.** Cynhyrchodd cronfa'r Ymddiriedolaeth £4,301 o incwm buddsoddi, a throsglwyddwyd £33,408 i'r Ymddiriedolaeth o Stad Elusennol David Hughes.

**4.2.2.** Defnyddiwyd £87,729 ar gyfer dibenion elusennol (gweler paragraffau 5 a 6 isod).

**4.2.3.** Gostyngodd gwerth cyffredinol yr Ymddiriedolaeth o £454,653 ar gychwyn y flwyddyn ariannol i £391,651 ar 31 Mawrth 2020. Roedd hyn yn cynnwys buddsoddiadau o £95,352 a fasnachwyd ar y Gyfnewidfa Stoc a £296,299 o arian parod mewn cyfrifon banc.

**4.2.4.** Gwerth y Gronfa 1/3 ar 31 Mawrth 2020 oedd £239,369 a gwerth y Gronfa 2/3 ar yr un dyddiad oedd £152,282.

**5. ANOGWYR DYSGU (Dyrannwyd o'r Gronfa 1/3)**

**5.1** Yn dilyn penderfyniad y Pwyllgor gwaith ym mis Hydref 2019, i ganiatáu defnyddio'r Gronfa i gyfrannu at gostau Anogwyr Dysgu yn y 5 ysgol uwchradd, dyrannwyd swm o £55,280 i bob ysgol i'w ddefnyddio i'r diben hwn. Dengys y tabl isod y gwariant a gafwyd gan bob ysgol yn 2019/20:-

| Ysgol | Swm a Ddyrannwyd cyn 1 Ebrill 2019 | Swm a Ddefnyddiwyd gan Ysgolion yn 2019/20 | Swm a Ddyrannwyd o 2019/20 | Balans ar 31 Mawrth 2020 |
|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ |
| Ysgol Syr Thomas Jones | 55,280 | (2,251) | 1,037 | 54,066 |
| Ysgol Uwchradd Caergybi | 55,280 | (9,343) | 1,037 | 46,974 |
| Ysgol Gyfun Llangefni | 55,280 | (33,334) | 1,037 | 22,983 |
| Ysgol David Hughes | 55,280 | 0 | 1,037 | 56,317 |
| Ysgol Uwchradd Bodedern | 55,280 | 0 | 1,037 | 56,317 |
| **CYFANSWM** | **276,400** | **(44,928)** | **5,185** | **236,657** |

**5.2** Ni ddyrannwyd balans o £2,712 i ysgolion.

**6. GRANTIAU A DDYFARNWYD I FYFYRWYR (Dyrannwyd o'r Gronfa 2/3)**

**6.1** Yn dilyn penderfyniad y Pwyllgor Gwaith ym mis Hydref 2019, i ofyn i'r 5 ysgol uwchradd dderbyn cyfrifoldeb am weinyddu'r grantiau, dyfarnwyd swm cychwynnol o £8,560 i bob ysgol ei ddosbarthu. Fodd bynnag, oherwydd y pandemig, nid oedd yr ysgolion mewn sefyllfa i wahodd ceisiadau yn ystod tymor yr haf 2019/20 ac, o ganlyniad, ni ddyfarnwyd unrhyw grantiau.

**6.2** Ar ôl trafod gydag Archwilydd y cyfrifon, cytunwyd, at ddibenion y cyfrifon, y dylid ystyried dosbarthu'r cronfeydd i ysgolion fel gweithgareddau elusennol at ddibenion yr Ymddiriedolaeth.

**6.3** Mae'r balans o £152,282 ar gael i'w ddosbarthu, naill ai trwy'r ysgolion neu drwy'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

# CRONFA YMDDIRIEDOLAETH ADDYSG BELLACH YNYS MÔN

# ANGLESEY FURTHER EDUCATION TRUST FUND

## ADRODDIAD BLYNYDDOL A CHYFRIFON

## ANNUAL REPORT AND ACCOUNTS

## 2019/20

**Rhif Cofrestru Elusen / Charity Registration No.**

**525254**

## CYNNWYS Y DATGANIAD ARIANNOL AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2020


| | Tudalen |
|---|---|
| Adroddiad yr Ymddiriedolwyr | 1-5 |
| Adroddiad yr Archwiliwr Annibynnol | 6 |
| Datganiad o Weithgareddau Ariannol | 7 |
| Mantolen | 8 |
| Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol | 9-15 |

## ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2020

Mae'r ymddiriedolwyr yn cyflwyno eu hadroddiad gyda datganiadau ariannol yr elusen am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2020. Mae'r ymddiriedolwyr wedi mabwysiadu darpariaethau'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir (SORP): Cyfrifyddu ac Adrodd gan Elusennau sy'n berthnasol i elusennau wrth baratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (FRS102) sy'n weithredol o 1 Ionawr 2015.

### MANYLION CYFREITHIOL A GWEINYDDOL

**Rhif Cofrestru Elusen:**

525254

**Cyfeiriad y Brif Swyddfa:**

Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfa'r Sir
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TW

**Ymddiriedolwr:**

Unig ymddiriedolwr Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn yw Cyngor Sir Ynys Môn a gweinyddwyd gweithgareddau'r Ymddiriedolaeth ar ei rhan gan y Cyngor Sir.

**Archwiliwr Annibynnol:**

Mr. Brian Hughes
A. Hughes-Jones, Dyson & Co
Capel Moreia
De Penrallt
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1NS

## STRWYTHUR, LLYWODRAETHU A RHEOLI

### Dogfen lywodraethu:

Rheolir yr elusen gan ei dogfen lywodraethu, gweithred ymddiriedolaeth, ac mae'n ymgorffori elusen anghorfforedig.

Rheoleiddir Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys gan gynllun a wnaed gan y Bwrdd Addysg ar 23 Mawrth 1939 ac fe'i haddaswyd yn sylweddol gan gynllun dyddiedig 18 Gorffennaf 1960. Mae'r rhain yn nodi'r dyletswyddau, pwerau a'r amodau y mae'n ofynnol i'r Ymddiriedolaeth weithredu arnynt.

### Recriwtio a phenodi ymddiriedolwyr newydd:

Cyngor Sir Ynys Môn yw unig ymddiriedolwr Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn. Mae'r elusen yn cael ei rhedeg gan Bwyllgor Gwaith y Cyngor.

Caiff ymddiriedolwyr newydd eu briffio am eu cyfrifoldebau cyfreithiol o dan gyfraith elusennol, cynnwys y ddogfen lywodraethu a'r broses gwneud penderfyniadau. Nodir ac ymdrinnir yn fewnol ag anghenion hyfforddiant gan ymddiriedolwyr presennol eraill a swyddogion y Cyngor.

### Strwythur y sefydliad:

Cyngor Sir Ynys Môn yw unig ymddiriedolwr Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn a gweinyddir gweithgareddau'r Ymddiriedolaeth ar ei rhan gan y Cyngor Sir.

Mae strwythur y sefydliad wedi bod fel a ganlyn:

- Mae Pwyllgor Gwaith y Cyngor yn gweithredu fel yr Ymddiriedolwr.
- Mae gan Bennaeth Gwasanaeth (Dysgu Gydol Oes) y Cyngor ar y cyd â'r Aelod Portffolio Dysgu Gydol Oes yr awdurdod dirprwyedig i ddyrannu'r grantiau blynyddol.
- Mae gan Bennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo) y Cyngor ar y cyd â'r Aelod Portffolio Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo yr awdurdod dirprwyedig i reoli cytundebau tenantiaeth ac i osod rhenti'r portffolio eiddo (Gwaddol David Hughes).
- Bydd Pwyllgor Gwaith y Cyngor yn cymeradwyo cyfrifon yr Ymddiriedolaeth a dirprwyir awdurdod i arwyddo Cyfrifon Blynyddol yr Ymddiriedolaeth i'r Swyddog Adran 151.

Arweinwyr strategol y Cyngor Sir oedd:

- Prif Weithredwr – Annwen Morgan
- Dirprwy Prif Weithredwr – Dylan Williams
- Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 – Marc Jones
- Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) a Swyddog Monitro – Lynn Ball

### Partïon cysylltiedig:

Oherwydd natur gweithrediadau'r elusen a gan mai unig ymddiriedolwr yr elusen yw Cyngor Sir Ynys Môn, mae'n anochel y bydd trafodion yn digwydd gyda sefydliadau sy'n gysylltiedig â'r Cyngor a'i weithwyr. Cynhelir yr holl drafodion gyda sefydliadau y gall Cyngor Sir Ynys Môn fod â diddordeb ynddynt o hyd braich. Mae gan y cyngor bolisi lle bod rhaid i bob ymddiriedolwr ddatgan diddordeb os bydd trafodyn yn ymwneud â pharti cysylltiedig yn digwydd.

**Rheoli risg:**

Adolygwyd y prif risgiau y mae'r Ymddiriedolaeth yn agored iddynt, fel y nodwyd gan yr Ymddiriedolwr, a sefydlwyd systemau neu weithdrefnau i reoli'r risg.

**AMCANION A GWEITHGAREDDAU**

**Nodau ac amcanion:**

Mae Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn yn cynnwys tair cronfa: Gwaddol David Hughes; Cronfa Addysg Bellach Ynys Môn 1/3 a Cronfa Addysg Bellach Ynys Môn 2/3 gyda'r nod o ddarparu budd addysgol penodol.

**Stad Elusennol David Hughes (Cronfa Waddol):**

Mae'r gronfa hon yn casglu rhenti o'i eiddo buddsoddi a llog ar ei fuddsoddiadau. Caiff costau rheoli a gweinyddu'r stad eu didynnu o'r rhenti a dderbynnir i gael yr incwm net am y flwyddyn y gellir ei ddosbarthu neu wariant net.

Gwneir taliad o chwarter yr incwm net i elusen heb gysylltiad, "Elusen David Hughes ar gyfer y Tlodion" er mwyn lliniaru tlodi yng nghymuned Llantrisant. Mae'r incwm sy'n weddill yn ffurfio Cronfa Addysg Bellach Ynys Môn:

**Cronfeydd Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn:**

Dyrennir traean o'r Gronfa Gyffredinol i ddarparu budd arbennig, o unrhyw fath na ddarperir gan yr Awdurdod fel arfer, i helpu disgyblion hŷn i orffen eu cyrsiau mewn unrhyw un o'r ysgolion a enwir yn y cynllun – y pum ysgol uwchradd a gynhelir gan y Cyngor Sir. Mae'r ddwy ran o dair sy'n weddill yn y Gronfa Gyffredinol ar gael er budd rhai o dan 25 oed, sydd wedi mynychu unrhyw un o'r ysgolion a enwir yn y cynllun am o leiaf ddwy flynedd, ac sydd angen cymorth ariannol ar gyfer Addysg Bellach neu Addysg Uwch neu hyfforddiant. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi adnabod tri chynllun gyda'r bwriad o gynyddu nifer y grantiau a ddyfernir yn y dyfodol.

**Gwneud grantiau:**

Dyrennir grantiau i unigolion sydd wedi mynychu neu sy'n mynychu un o'r pum ysgol uwchradd a gynhelir gan y Cyngor Sir ac sy'n bodloni'r meini prawf uchod. Gall hyn fod drwy daliadau a wneir i bob ysgol uwchradd neu drwy gynllun ysgoloriaeth i'w weinyddu gan y 'Coleg Cymraeg Cenedlaethol' i fyfyrwyr o gefndiroedd dan anfantais ariannol i ymgymryd â chyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg.

**Budd cyhoeddus:**

Mae'r ymddiriedolwyr yn cadarnhau eu bod wedi cyfeirio at yr arweiniad a gynhwysir yng nghanllawiau cyffredinol y Comisiynydd Elusennau ar fudd cyhoeddus wrth adolygu nodau ac amcanion yr elusen ac wrth gynllunio gweithgareddau i'r dyfodol a phennu'r broses o ddyrannu grantiau.

## LLWYDDIANT A PHERFFORMIAD

### Gweithgareddau elusennol:

Mae'r elusen wedi parhau i ddiogelu asedau'r Ymddiriedolaeth.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae'r elusen wedi bod mewn cyfnod o atgyfnerthu ac mae wedi bod yn arbed arian i ail-fuddsoddi yn ei bortffolio eiddo sy'n heneiddio. Bydd ymgymryd â'r cyfnod hwn o atgyfnerthu yn golygu y bydd asedau'r elusen yn gallu darparu incwm am flynyddoedd i ddod i'w dyfodol-fuddiolwyr. I'r pwrpas hwn mae'r elusen wedi ymgymryd â rhaglen sylweddol o atgyweiriadau ac adnewyddiadau i Ystâd David Hughes er mwyn dod â nifer o adeiladau fferm i gyflwr mwy addas. Wedi cwblhad y rhaglen hon mae'r elusen bellach mewn sefyllfa i gynyddu nifer y grantiau a ddyfernir yn y blynyddoedd i ddod.

I'r perwyl hwn mae'r elusen bellach yn dyrannu cyllid i bob un o ysgolion uwchradd yr ynys. Er mwyn cynorthwyo disgyblion presennol, cynigiwyd hyd at £55,000 i bob ysgol i ariannu cost Anogwr Dysgu. Rhoddwyd hefyd £8,560 i bob ysgol i'w galluogi i gynorthwyo myfyrwyr sydd dan anfantais ariannol i gael lleoedd mewn colegau a phrifysgolion a/neu i helpu i brynu llyfrau ac offer sy'n ofynnol i fynychu'r cyrsiau yn y flwyddyn gyntaf.

## ADOLYGIAD ARIANNOL

### Perfformiad ariannol:

Cyn enillion a cholledion ar fuddsoddiadau roedd gan y Gronfa Waddol incwm net o £42,725 ond roedd gan yr elusen ostyngiad mewn cronfeydd cyffredinol o £84,084 yn ystod y flwyddyn wrth iddi roi rhoddion sylweddol i ysgolion uwchradd gan ddefnyddio arian parod a oedd wedi cronni wedi blynyddoedd lle dyfarnwyd dim ond ychydig o grantiau. Gwelwyd hefyd dros £30,000 o golledion heb eu gwireddu ym mhrisiant buddsoddiadau'r Ymddiriedolaeth.

Cyfanswm y cronfeydd ar 31 Mawrth 2020 oedd £3,152,966, ac mae'r holl gronfeydd yn gyfyngedig.

### Prif ffynonellau ariannu:

Prif ffynonellau ariannu'r elusen yw incwm rhent gan denantiaid ac incwm buddsoddi ar ffurf difidendau, llog buddsoddi neu log ar adneuon.

### Polisi ac amcanion buddsoddi:

Mae portffolio eiddo sy'n heneiddio'r elusen wedi bod angen buddsoddiad sylweddol. Mae ymddiriedolwr yr elusen wedi mynd trwy gyfnod o atgyfnerthu er mwyn cynhyrchu'r cronfeydd ariannol angenrheidiol i ail-fuddsoddi yn ei asedau. Yn ogystal, mae'r elusen yn dal tua 10% o Gyfanswm ei Asedau Sefydlog mewn Cronfeydd Buddsoddi, sy'n cynhyrchu difidend ac incwm llog.

### Cynlluniau ar gyfer y dyfodol:

Mae Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn yn gweithredu fel busnes hyfyw ar gyfer y dibenion elusennol a nodwyd uchod.

**DATGANIAD CYFRIFOLDEB YR YMDDIRIEDOLWYR**

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am baratoi Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r Datganiadau Ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig (Arfer Cyfrifeg Gyffredinol Dderbyniol y Deyrnas Unedig).

Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith sy'n berthnasol i elusennau yng Nghymru a Lloegr, y Ddeddf Elusennau, Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) a darpariaethau'r weithred ymddiriedolaeth fod yr ymddiriedolwyr yn paratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob flwyddyn ariannol sy'n rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa bresennol yr elusen ac o'r adnoddau a dderbyniwyd ac o'r defnydd a wnaed o adnoddau, yn cynnwys incwm a gwariant, yr elusen am y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hynny, rhaid i'r ymddiriedolwyr:

- ddewis polisïau cyfrifyddu addas ac yna eu gweithredu'n gyson;
- ddilyn y dulliau a'r egwyddorion yn y SORP Elusennau;
- wneud dyfarniadau ac amcangyfrifon sy'n rhesymol ac yn ochelgar;
- baratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes hyfyw oni bai ei fod yn amhriodol tybio y bydd y cwmni elusennol yn parhau i weithredu.

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifo priodol sy'n datgelu gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg sefyllfa ariannol yr elusen ac er mwyn eu galluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r Ddeddf Elusennau, Rheoliadau Elusen (Cyfrifon ac Adroddiadau) a darpariaethau'r weithred ymddiriedolaeth. Maent hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r elusen a gan hynny am gymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac anghysondebau eraill.

Llofnodwyd gan Bennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 o dan awdurdod dirprwyedig ar ran yr ymddiriedolaeth:

______________________________ ____________________

**Mr R Marc Jones CPFA** **Dyddiad**

**Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151**

**Adroddiad yr archwiliwr annibynnol i ymddiriedolwyr Cronfa Addysg Bellach Ynys Môn**

Rwy'n adrodd i'r Ymddiriedolwyr ar fy archwiliad o gyfrifon Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2020 a nodir ar dudalennau 7-15.

**Cyfrifoldebau a sail yr adroddiad**

Fel ymddiriedolwyr elusen yr Ymddiriedolaeth, rydych yn gyfrifol am baratoi'r cyfrifon yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011 ('y Ddeddf').

Rwy'n adrodd ar sail fy archwiliad o gyfrifon yr Ymddiriedolaeth a gynhaliwyd o dan adran 145 o Ddeddf 2011 ac wrth gynnal fy archwiliad rwyf wedi dilyn yr holl gyfarwyddiadau cymwys a roddwyd gan y Comisiwn Elusennol o dan adran 145(5)(b) o'r Ddeddf.

**Datganiad yr archwiliwr annibynnol**

Rwyf wedi cwblhau fy archwiliad. Cadarnhaf nad oes unrhyw faterion o bwys wedi dod i fy sylw mewn cysylltiad â'r archwiliad sy'n rhoi rheswm i mi gredu mewn unrhyw fodd perthnasol:

1. Nad yw cofnodion cyfrifo mewn perthynas â'r Ymddiriedolaeth wedi cael eu cadw'n unol ag Adran 130 y Ddeddf; neu
2. Nad yw'r cyfrifon yn cyd-fynd â'r cofnodion hynny; neu
3. Nad yw'r cyfrifon yn cydymffurfio gyda'r gofynion perthnasol o ran ffurf a chynnwys y cyfrifon a nodir yn Rheoliadau Elusennol (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 ac eithrio unrhyw ofyniad bod y cyfrifon yn 'adlewyrchiad cywir a theg' sydd ddim yn fater a ystyrir fel rhan o archwiliad annibynnol.

Nid oes gennyf unrhyw bryderon ac nid wyf wedi dod ar draws unrhyw faterion eraill mewn perthynas â'r archwiliad y dylid dwyn sylw atynt yn yr adroddiad hwn er mwyn sicrhau y gellir deall y cyfrifon yn iawn.

Llofnod: ______________________________ Dyddiad: _____________

**Brian Hughes FCA**
**A. Hughes-Jones, Dyson & Co.**
**Cyfrifwyr Siartredig ac Archwilwyr Cofrestredig**
**Capel Moreia, South Penrallt, Caernarfon, Gwynedd**

## DATGANIAD O WEITHGAREDDAU ARIANNOL AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2020

| | Nodiadau | Cronfeydd Cyfyngedig £ | Cronfeydd Waddol £ | 31.3.2020 Cyfanswm Cronfeydd £ | 31.3.2019 Cyfanswm Cronfeydd £ |
|---|---|---|---|---|---|
| **Incwm a Gwaddoliadau o:** | | | | | |
| Incwm Buddsoddi | 2 | 4,301 | 132,492 | 136,793 | 131,010 |
| Cyfanswm Incwm | | 4,301 | 132,492 | 136,793 | 131,010 |
| **Gwariant ar:** | | | | | |
| Rheoli Buddsoddiadau | 3 | - | (75,431) | (75,431) | (108,146) |
| Gweithgareddau Elusennol | 4 | (87,729) | - | (87,729) | (5,000) |
| Costau Cefnogi | 5 | - | (14,336) | (14,336) | (13,443) |
| Cyfanswm Gwariant | | (87,729) | (89,767) | (177,496) | (126,589) |
| | | | | | |
| Incwm / (Gwariant) Net ar gael i'w ddosbarthu cyn Enillion a Cholledion ar Fuddsoddiadau | | (83,428) | 42,725 | (40,703) | 4,421 |
| Taliad o 25% o incwm nwt i Elusen David Hughes ar gyfer y Tlodion | 6 | - | (10,681) | (10,681) | (1,405) |
| Trosglwyddiad o'r incwm Gwaddol Net sy'n weddill i'r Cronfeydd Ymddiriedolaeth Addysg Bellach | | 32,044 | (32,044) | - | - |
| Incwm / (Gwariant) Net cyn Enillion a Cholledion ar Fuddsoddiadau | | (51,384) | - | (51,384) | 3,016 |
| Enillion / (Colledion) Net ar Fuddsoddiadau | 7 | (13,470) | (19,230) | (32,700) | 110,000 |
| Incwm / (Gwariant) Net | | (64,854) | (19,230) | (84,084) | 113,016 |
| | | | | | |
| Symudiad Net mewn Cronfeydd | | (64,854) | (19,230) | (84,084) | 113,016 |
| **Cysoni Cronfeydd** | | | | | |
| Cyfanswm cronfeydd a ddygwyd ymlaen | | 454,653 | 2,782,397 | 3,237,050 | 3,124,034 |
| Cyfanswm cronfeydd wedi'u cario drosodd | | 389,799 | 2,763,167 | 3,152,966 | 3,237,050 |

## MANTOLEN AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2020

| | Nodiadau | Cronfeydd Cyfyngedig £ | Cronfeydd Waddol £ | 31.3.2020 Cyfanswm Cronfeydd £ | 31.3.2019 Cyfanswm Cronfeydd £ |
|---|---|---|---|---|---|
| Buddsoddiadau a restrwyd neu a fasnachwyd ar Gyfnewidfa Stoc gydnabyddedig | 7a | 94,864 | 135,916 | 230,780 | 263,480 |
| Eiddo Buddsoddi - Ystâd David Hughes | 7b | - | 2,545,800 | 2,545,800 | 2,545,800 |
| Cyfanswm Asedau Sefydlog | | 94,864 | 2,681,716 | 2,776,580 | 2,809,280 |
| Asedau Cyfredol | | | | | |
| Dyledwyr | 8 | - | 64,828 | 64,828 | 70,516 |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | 9 | 294,935 | 33,272 | 328,207 | 372,681 |
| Cyfanswm Asedau Cyfredol | | 294,935 | 98,100 | 393,035 | 443,197 |
| Rhwymedigaethau | | | | | |
| Credydwyr: symiau'n ddyledus o fewn blwyddyn | 10 | - | (16,649) | (16,649) | (15,427) |
| Asedau neu (Rwymedigaethau) Cyfredol Net | | 294,935 | 81,451 | 376,386 | 427,770 |
| Credydwyr: symiau'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn | | - | - | - | - |
| Darpariaethau ar gyfer Rhwymedigaethau | | - | - | - | - |
| Cyfanswm Asedau neu (Rwymedigaethau) Net | | 389,799 | 2,763,167 | 3,152,966 | 3,237,050 |
| Cronfeydd yr Elusen | 11 | | | | |
| Cronfeydd Gwaddol | | - | 2,763,167 | 2,763,167 | 2,782,397 |
| Cronfeydd Incwm Cyfyngedig | | 389,799 | - | 389,799 | 454,653 |
| Cyfanswm Cronfeydd Elusennol | | 389,799 | 2,763,167 | 3,152,966 | 3,237,050 |

Arwyddwyd y datganiadau ariannol gan Bennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 o dan awdurdod dirprwyedig:

____________________________ ____________________

**Mr R Marc Jones CPFA** **Dyddiad**

**Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151**

## NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2020

### 1. POLISÏAU CYFRIFYDDU

**Confensiwn cyfrifo**

Paratowyd y datganiadau ariannol dan y confensiwn cost hanesyddol ac eithrio buddsoddiadau, sy'n cael eu cynnwys ar sail gwerth y farchnad, fel yr addaswyd drwy ailbrisio asedau penodol ac yn unol â'r SORP Elusennau (FRS102) (a ddaeth i rym Ionawr 2015), Deddf Elusennau 2011 a gofynion y Datganiad o'r Arfer a Argymhellir, Cyfrifyddu ac Adrodd gan Elusennau.

**Adnoddau a dderbyniwyd**

Caiff yr holl adnoddau a dderbynnir eu cydnabod unwaith y mae gan yr elusen hawl i'r adnoddau, ei bod yn sicr y derbynnir yr adnoddau ac y gellir mesur gwerth ariannol yr adnoddau a dderbynnir gyda digon o ddibynadwyedd.

**Adnoddau a wariwyd**

Cyfrifir gwariant ar sail groniadol ac fe'i dosbarthwyd o dan benawdau sy'n cyfuno'r holl gostau sy'n gysylltiedig â'r categori. Lle na ellir priodoli'r costau'n uniongyrchol o dan benawdau penodol, fe'u dyrannwyd i weithgareddau ar sail sy'n gyson â'r defnydd o adnoddau.

**Costau cynhyrchu arian**

Mae costau cynhyrchu arian yn cynnwys costau rheoli buddsoddiad.

**Eiddo buddsoddi**

Dangosir eiddo buddsoddi ar sail y prisiad mewnol mwyaf diweddar. Caiff cyfanswm unrhyw warged neu ddiffyg ariannol yn sgil newidiadau mewn gwerth ar y farchnad ei drosglwyddo i'r gronfa waddol.

**Trethiant**

Mae'r elusen wedi'i heithrio rhag treth ar ei gweithgareddau elusennol.

**Treth ar Werth**

Gall yr elusen adennill Treth ar Werth trwy ei hymddiriedolwr, Cyngor Sir Ynys Môn, felly, lle mae'n briodol, dangosir gwariant yn net o Dreth ar Werth.

**Strwythur y gronfa**

Mae gan yr elusen dair cronfa, un gwaddol a dwy cyfyngedig.

**Stad Elusennol David Hughes (Cronfa Waddol)**

Mae'r gronfa hon yn casglu rhenti o'i eiddo buddsoddi a llog ar ei fuddsoddiadau. Caiff costau rheoli a gweinyddu'r stad eu didynnu o'r rhenti a dderbynnir i gael yr incwm net am y flwyddyn y gellir ei ddosbarthu.

Gwneir taliad o chwarter yr incwm net i elusen heb gysylltiad, "Elusen David Hughes ar gyfer y Tlodion" er mwyn lliniaru tlodi yng nghymuned Llantrisant.

Mae'r incwm sy'n weddill yn ffurfio Cronfa Addysg Bellach Ynys Môn, sy'n cael ei rhannu'n ddwy:

**Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn 1/3 (Cronfa Gyfyngedig)**

Dyrennir traean o Gronfa Ymddiriedolaeth Bellach Ynys Môn i ddarparu budd arbennig, o unrhyw fath na ddarperir gan yr Awdurdod fel arfer, i helpu disgyblion hŷn i orffen eu cyrsiau mewn unrhyw un o'r ysgolion a enwir yn y cynllun – y pum ysgol uwchradd a gynhelir gan y Cyngor Sir.

**Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn 2/3 (Cronfa Gyfyngedig)**

Mae'r ddwy ran o dair sy'n weddill o Gronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn ar gael er budd rhai o dan 25 oed, sydd wedi mynychu unrhyw un o'r ysgolion sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun am o leiaf ddwy flynedd, ac sydd angen cymorth ariannol ar gyfer Addysg Bellach neu Addysg Uwch neu hyfforddiant.

Nid oes gan yr elusen unrhyw incwm anghyfyngedig.

**Buddsoddiadau asedau sefydlog**

Caiff buddsoddiadau eu datgan ar sail eu gwerth ar y farchnad ar ddyddiad y fantolen. Mae datganiad o weithgareddau ariannol yn cynnwys yr enillion a'r colledion net sy'n codi o ailbrisio a gwarediadau yn ystod flwyddyn.

**Enillion a cholledion wedi'u gwireddu**

Mae'r holl enillion a cholledion yn cael eu cynnwys ar y Datganiad o Weithgareddau Ariannol wrth iddynt godi. Caiff enillion a cholledion wedi'u gwireddu ar fuddsoddiadau eu cyfrifo fel y gwahaniaeth rhwng enillion gwerthiant a gwerth y farchnad agoriadol (neu ddyddiad prynu os yw'n hwyrach). Caiff enillion a cholledion heb eu gwireddu eu cyfrifo fel y gwahaniaeth rhwng gwerth y farchnad ar ddiwedd y flwyddyn a gwerth y farchnad agoriadol (neu ddyddiad prynu os yw'n hwyrach). Nid yw enillion wedi'u gwireddu ac enillion heb eu gwireddu wedi'u nodi ar wahân yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol.

## 2. INCWM BUDDSODDI

| Incwm Buddsoddi | Cronfeydd Cyfyngedig £ | Cronfeydd Gwaddol £ | Cyfanswm 31.3.20 £ | Cyfanswm 31.3.19 £ |
|---|---|---|---|---|
| Rhenti a dderbyniwyd | - | 123,071 | 123,071 | 117,043 |
| Trethi dŵr - ad-daliadau | - | 3,429 | 3,429 | 2,523 |
| Incwm arall o Stâd David Hughes | - | 1,600 | 1,600 | 1,332 |
| Difidendau a llog buddsoddiad | 2,805 | 4,019 | 6,824 | 8,382 |
| Llog arall | 1,496 | 373 | 1,869 | 1,730 |
| Cyfanwm Incwm Buddsoddi | 4,301 | 132,492 | 136,793 | 131,010 |

## 3. COSTAU RHEOLI BUDDSODDIADAU

| **Costau Rheoli Buddsoddiadau** | **Cronfeydd Cyfyngedig £** | **Cronfeydd Gwaddol £** | **Cyfanswm 31.3.20 £** | **Cyfanswm 31.3.19 £** |
|---|---|---|---|---|
| Atgyweirio a Chynnal a Chadw Stâd David Hughes | - | (74,023) | (74,023) | (99,943) |
| Taliadau Dŵr | - | (1,000) | (1,000) | (5,860) |
| Gwasanaethau Proffesiynol | - | (1,780) | (1,780) | (1,018) |
| Costau eiddo eraill | - | - | - | - |
| Darpariaeth ar gyfer drwgddyledion | - | 1,372 | 1,372 | (1,325) |
| Cyfanswm Costau Rheoli Buddsoddiadau | - | (75,431) | (75,431) | (108,146) |

## 4. GWEITHGAREDDAU ELUSENNOL

| **Gweithgareddau Elusennol** | **Cronfeydd Cyfyngedig £** | **Cronfeydd Gwaddol £** | **Cyfanswm 31.3.20 £** | **Cyfanswm 31.3.19 £** |
|---|---|---|---|---|
| Grantiau addysgol a ddyfarnwyd | - | - | - | (5,000) |
| Grantiau i ysgolion - annogwyr dysgu | (44,929) | - | (44,929) | - |
| Grantiau i ysgolion - cymorth tuag at addysg uwch | (42,800) | - | (42,800) | - |
| Cyfanswm Gwariant Elusennol | (87,729) | - | (87,729) | (5,000) |

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cymhwyso'r eithriad a ganiateir o dan y Gyfraith Elusennau a'r SORP i gadw enwau'r rhai sy'n derbyn grant yn gyfrinachol.

## 5. COSTAU CEFNOGI

| **Costau Cefnogi** | **Cronfeydd Cyfyngedig £** | **Cronfeydd Gwaddol £** | **Cyfanswm 31.3.20 £** | **Cyfanswm 31.3.19 £** |
|---|---|---|---|---|
| Costau gweinyddu a rheoli eiddo | - | (10,103) | (10,103) | (9,373) |
| Costau cyfrifo a chefnogi | - | (3,303) | (3,303) | (3,180) |
| Tâl yr Archwiliwr Annibynnol | - | (930) | (930) | (890) |
| Cyfanswm Costau Cefnogi | - | (14,336) | (14,336) | (13,443) |

## 6. DOSBARTHU INCWM NET Y GRONFA GWADDOL

Mae 25% o incwm net cyn enillion a cholledion ar fuddsoddiadau'r gronfa Waddol i'w dalu i elusen David Hughes ar gyfer y Tlodion. Mae'r gweddill yn cael ei rannu rhwng y Cronfeydd Ymddiriedolaeth Addysg Bellach gyfyngedig ar sail 1/3 a 2/3:

| Dosbarthu Incwm Net y Gronfa Waddol | Cyfanswm 31.3.20 £ | Cyfanswm 31.3.19 £ |
|---|---|---|
| Incwm / (Gwariant) Net ar gael i'w ddosbarthu cyn Enillion a Cholledion ar Fuddsoddiadau | 42,725 | 5,621 |
| Talu 25% i Elusen David Hughes ar gyfer y Tlodion | 10,681 | 1,405 |
| Trosgwlyddo 25% i Ymddiriedolaeth Addysg Bellach 1/3 | 10,681 | 1,405 |
| Trosgwlyddo 50% i Ymddiriedolaeth Addysg Bellach 2/3 | 21,363 | 2,811 |

## 7. BUDDSODDIADAU

| Enillion / (Colledion) Net ar Fuddsoddiadau | Cronfeydd Cyfyngedig £ | Cronfeydd Gwaddol £ | Cyfanswm 31.3.20 £ | Cyfanswm 31.3.19 £ |
|---|---|---|---|---|
| Enillion / (Colledion) ar Gronfeydd Buddsoddi a restrwyd | (13,470) | (19,230) | (32,700) | 4,900 |
| Enillion / (Colledion) ar Eiddo Buddsoddi | - | - | - | 105,100 |
| Cyfanswm Enillion / (Colledion) Net | (13,470) | (19,230) | (32,700) | 110,000 |

### a. BUDDSODDIADAU A RESTRWYD NEU A FASNACHWYD AR GYFNEWIDFA STOC GYDNABYDDEDIG

| Buddsoddiadau a Restrwyd neu a Fasnachwyd ar Gyfnewidfa Stoc Gydnabyddedig | Cronfeydd Cyfyngedig £ | Cronfeydd Gwaddol £ | Cyfanswm 31.3.20 £ | Cyfanswm 31.3.19 £ |
|---|---|---|---|---|
| Gwerth ar y Farchnad | | | | |
| Ar 1 Ebrill | 108,334 | 155,146 | 263,480 | 258,579 |
| Ychwanegiadau | - | - | - | - |
| Gwarediadau | - | - | - | - |
| Ailbrisio | (13,470) | (19,230) | (32,700) | 4,901 |
| Trosglwyddiadau | - | - | - | - |
| Gwerth Net ar Bapur ar 31 Mawrth | 94,864 | 135,916 | 230,780 | 263,480 |

Nid oedd unrhyw asedau buddsoddi y tu allan i'r Deyrnas Unedig.

Mae'r buddsoddiadau'n bennaf yng Nghronfeydd Buddsoddi Awdudordedig Elusennau BLK Charities UK gyda daliadau bach mewn stociau gilt ac ecwiti.

Dangosir buddsoddiadau ar sail eu gwerth ar y farchnad. Eu gwerth hanesyddol yw £67,029.

### b. EIDDO BUDDSODDI

| **Eiddo Buddsoddi** | **31.3.20**<br>**£** | **31.3.19**<br>**£** |
|---|---|---|
| Gwerth ar y Farchnad ar 1 Ebrill | 2,545,800 | 2,599,600 |
| Ychwanegiadau | - | - |
| Gwarediadau | - | (160,000) |
| Amhariad | - | - |
| Enillion / (Colledion) Ailbrisio | - | 106,200 |
| Trosglwyddiadau | - | - |
| Gwerth Net ar Bapur ar 31 Mawrth | 2,545,800 | 2,545,800 |

Mae Gwaddol David Hughes yn cynnwys 13 o anheddau fferm a 2 parsel o dir, gyda chyfanswm arwynebedd o 1,135.03 erw. Gyda'r rhaglen adnewyddu wedi'i chwblhau'r llynedd, gostyngodd y gwariant ar atgyweirio a chynnal a chadw i £74k eleni. Yn y blynyddoedd i ddod y nod yw cyfyngu gwariant atgyweirio a chynnal a chadw i gyllideb o £50k y flwyddyn.

Prisiwyd yr Ystâd ym Mawrth 2020 ar sail defnydd presennol gan Barry Wyn Jones, Prisiwr Mewnol Ystadau Cyngor Sir Ynys Môn a chyfanswm y gwerth oedd £2,545,800.

## 8. DYLEDWYR: SYMIAU'N DDYLEDUS O FEWN BLWYDDYN

| **Dyledwyr: Symiau'n ddyledus o fewn blwyddyn** | **31.3.20**<br>**£** | **31.3.19**<br>**£** |
|---|---|---|
| Symiau y gellir eu hadennill ar gontract | 98,922 | 105,982 |
| Darpariaeth ar gyfer drwgddyledion | (34,094) | (35,466) |
| Cyfanswm Dyledwyr | 64,828 | 70,516 |

Penderfynwyd yn 2017/18 y byddai'n ochelgar creu darpariaeth ar gyfer drwg-ddyledion oherwydd cyfanswm y dyledion hanesyddol oedd wedi cronni. Fodd bynnag, mae ymdrechion i gasglu'r symiau sy'n ddyledus gan cyn-denantiaid wedi cynyddu'n ddiweddar, gyda rhai llwyddiannau.

## 9. ARIAN YN Y BANC

Mae hyn yn cynrychioli'r balans o fewn y cronfeydd ariannol a gedwir gan Gyngor Sir Ynys Môn ar ran Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn.

| **Arian yn y Banc** | **Ymddiriedolaeth Addysg Bellach 1/3**<br>**£** | **Ymddiriedolaeth Addysg Bellach 2/3**<br>**£** | **Stâd Elusennol David Hughes**<br>**£** | **Cyfanswm 31.3.20**<br>**£** | **Cyfanswm 31.3.19**<br>**£** |
|---|---|---|---|---|---|
| Arian yn y Banc | 174,248 | 120,687 | 33,272 | 328,207 | 372,681 |
| Adneuon Banc | 174,248 | 120,687 | 33,272 | 328,207 | 372,681 |

## 10. CREDYDWYR: SYMIAU'N DDYLEDUS O FEWN BLWYDDYN

| Credydwyr: Symiau'n ddyledus o fewn blwyddyn | Cronfeydd Cyfyngedig £ | Cronfeydd Gwaddol £ | Cyfanswm 31.3.20 £ | Cyfanswm 31.3.19 £ |
|---|---|---|---|---|
| Credydwyr eraill | - | (16,649) | (16,649) | (15,427) |
| Cyfanswm Credydwyr | - | (16,649) | (16,649) | (15,427) |

## 11. SYMUDIADAU MEWN CRONFEYDD

**a.**

| Symudiadau mewn Cronfeydd | 1.4.19 £ | Symudiad Net mewn Cronfeydd £ | 31.3.20 £ |
|---|---|---|---|
| Ymddiriedolaeth Addysg Bellach 1/3 | 279,112 | (40,529) | 238,583 |
| Ymddiriedolaeth Addysg Bellach 2/3 | 175,541 | (24,325) | 151,216 |
| Cronfeydd Cyfyngedig | 454,653 | (64,854) | 389,799 |
| Stâd Elusennol David Hughes | 2,782,397 | (19,230) | 2,763,167 |
| Cronfeydd Gwaddol | 2,782,397 | (19,230) | 2,763,167 |
| | | | |
| Cyfanswm Cronfeydd | 3,237,050 | (84,084) | 3,152,966 |

**b. Mae symudiad net mewn cronfeydd, a gynhwysir yn yr uchod, fel a ganlyn:**

| Symudiadau Net mewn Cronfeydd wedi'u cynnwys yn yr uchod: | Adnoddau Incwm £ | Gwariant £ | Trosglwyddiadau £ | Enillion a Cholledion £ | Symudiad mewn Cronfeydd £ |
|---|---|---|---|---|---|
| Ymddiriedolaeth Addysg Bellach 1/3 | 2,834 | (44,929) | 10,681 | (9,115) | (40,529) |
| Ymddiriedolaeth Addysg Bellach 2/3 | 1,467 | (42,800) | 21,363 | (4,355) | (24,325) |
| Cronfeydd Cyfyngedig | 4,301 | (87,729) | 32,044 | (13,470) | (64,854) |
| Stâd Elusennol David Hughes | 132,492 | (100,448) | (32,044) | (19,230) | (19,230) |
| Cronfeydd Gwaddol | 132,492 | (100,448) | (32,044) | (19,230) | (19,230) |
| | | | | | |
| Cyfanswm Cronfeydd | 136,793 | (188,177) | - | (32,700) | (84,084) |

## 12. TÂL A BUDDION YR YMDDIRIEDOLWYR

### Treuliau'r Ymddiriedolwyr

Ni thalwyd unrhyw gydnabyddiaeth ymddiriedolwyr yn ystod y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2020 nac y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2019. Mae hyn yn gysylltiedig â'r Ymddiriedolwr, hynny yw, aelodau'r Pwyllgor Gwaith ac Uwch Dîm Arweinyddiaeth Cyngor Sir Ynys Môn yn gweithredu ar ei ran. Gweler Nodyn 13 (Datgeliadau Parti Perthynol) mewn cysylltiad â'r ffioedd a dalwyd i'r ymddiriedolwr corfforaethol ar gyfer costau eiddo a gweinyddu ariannol.

## 13. DATGELIADAU PARTI PERTHYNOL

### Cyngor Sir Ynys Môn

Mae Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn yn cael ei gweinyddu gan Gyngor Sir Ynys Môn. Codwyd ffi rheoli eiddo o £10,103 (£9,373 yn 2018/19) gan y Cyngor i weinyddu Ystâd David Hughes. Yn ogystal, codwyd ffi rheoli ariannol o £3,303 (£3,180 yn 2018/19) ar yr Ymddiriedolaeth ar gyfer gweinyddiaeth ariannol a chynhyrchu cyfrifon. Felly, roedd cyfanswm y ffioedd a adenillwyd gan y Cyngor yn £13,406.

Oherwydd natur gweithrediadau'r elusen a gan mai unig ymddiriedolwr yr elusen yw Cyngor Sir Ynys Môn, mae'n anochel y bydd trafodion yn digwydd gyda sefydliadau sy'n gysylltiedig â'r Cyngor a'i weithwyr. Cynhelir yr holl drafodion y gall Cyngor Sir Ynys Môn fod â diddordeb ynddynt o hyd braich. Mae gan y Cyngor bolisi bod yn rhaid i bob Cynghorydd ac aelodau'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ddatgan diddordeb os bydd trafodyn yn ymwneud â pharti cysylltiedig yn digwydd.

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **22/03/2021** |
| **Pwnc:** | **Ffioedd Cartrefi Gofal y Sector Annibynnol ar gyfer 2021/22** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cynghorydd Llinos Medi Huws** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Iola Richards – Pennaeth Gwasanaeth Dros Dro** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Ffôn:<br>E-bost: | **Carwyn Edwards – Rheolwr Cyllid**<br>**01248 752699**<br>**CarwynEdwards@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol** | **Pob Aelod** |

**A – Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau**

O 6 Ebrill 2016, mae'r fframwaith ar gyfer asesiad ariannol a chodi ffioedd bellach yn dod dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Rhaid i'r Awdurdod Lleol adolygu ffioedd yn y sector cartrefi gofal annibynnol bob blwyddyn i gyd-fynd â newidiadau Llywodraeth Ganolog i lefelau budd-daliadau a phensiynau.

Wrth bennu ffioedd ar gyfer cartrefi gofal yn y sector annibynnol, rhaid i ni ddangos ein bod wedi rhoi ystyriaeth lawn i gostau'r ddarpariaeth wrth benderfynu ar ein ffioedd gofal sylfaenol. Gwneir hyn mewn cydweithrediad gyda'r Awdurdodau eraill yng Ngogledd Cymru a'r Bwrdd Iechyd drwy ddefnyddio Methodoleg Ffioedd Ranbarthol, fel y gwnaed yn y blynyddoedd diwethaf. Byddwn yn parhau i ddefnyddio'r model hwn ar gyfer 2021/22, sy'n adlewyrchu'r newidiadau deddfwriaethol o ran y cyflog byw cenedlaethol a chwyddiant, yn ogystal â chostau a briodolir i gwrdd â chostau staff asiantaeth.

Mae Methodoleg Gogledd Cymru (Atodiad 1) wedi argymell cynnydd rhwng 3.42% a 3.73% ar draws y pedwar categori gofal. Cynigir y ffioedd isod ar gyfer 2021/22:-

<u>**Tabl 1 – Argymhelliad Methodoleg Gogledd Cymru**</u>

| Categori | 2020/21 | 2021/22 | Cynnydd £ | Cynnydd % |
|---|---|---|---|---|
| Preswyl (Oedolion) | £585.72 | £605.73 | £20.01 | 3.42% |
| Preswyl (Pobl Hŷn Bregus eu Meddwl) | £609.91 | £631.40 | £21.49 | 3.52% |
| Gofal Nyrsio Sylfaenol (Elfen Gofal Cymdeithasol) | £641.37 | £664.46 | £23.09 | 3.6% |
| Nyrsio (Pobl Hŷn Bregus eu Meddwl) (Elfen Gofal Cymdeithasol) | £677.65 | £702.91 | £25.26 | 3.73% |

Mae'r cyfan o'r uchod yn seiliedig ar elw ar fuddsoddiad o 10% ar gyfer 2020/21 a 2021/22.

Fel rhan o osod y ffioedd ar gyfer 2021/22, ymgynghorodd Ynys Môn ar fethodoleg ffioedd Gogledd Cymru.

Mae Penaethiaid Gwasanaethau Oedolion Gogledd Cymru (NWASH) wedi cytuno bod y codiadau a nodwyd yn gyson â gweithredu'r model ffioedd.

Yn dilyn trafodaeth gyda'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151, rydym yn bwriadu defnyddio'r fethodoleg ranbarthol ar gyfer:-

- Gofal Preswyl i Bobl Hŷn Bregus eu Meddwl;
- Gofal Nyrsio Sylfaenol (Elfen Gofal Cymdeithasol).

Mae'r Gwasanaeth yn argymell bod yr Elw ar Fuddsoddiad ar gyfer lleoliadau Nyrsio ar gyfer Pobl Hŷn Bregus eu Meddwl yn aros ar 12%, fel cydnabyddiaeth o'r pwysau yn y maes hwn ac yn unol â'r ffioedd a gynigir gan awdurdodau lleol cyfagos.

Yn gyson â'r cyfeiriad strategol y mae'r Cyngor yn ei gymryd o ran datblygu dewisiadau amgen i ofal preswyl ar ffurf Tai Gofal Ychwanegol a gofal cartref, ac wedi ystyried fforddiadwyedd y cynnydd a gynigir ar gyfer Cartrefi Gofal Preswyl, rydym yn argymell cynnig elw is ar fuddsoddiad, sef 9%, fel y gwnaed yn y blynyddoedd diwethaf.

O'r herwydd, mae Ynys Môn yn argymell y cyfraddau isod ar gyfer eu cymeradwyo:-

**Tabl 2 – Ffioedd Arfaethedig Ynys Môn ar gyfer 2021/22**

| Categori | 2020/21 | 2021/22 | Cynnydd £ | Cynnydd % | Elw ar Fuddsoddiad |
|---|---|---|---|---|---|
| Preswyl (Oedolion) | £576.00 | £596.01 | £20.01 | 3.47% | 9% |
| Preswyl (Pobl Hŷn Bregus eu Meddwl) | £609.91 | £631.40 | £21.49 | 3.52% | 10% |
| Gofal Nyrsio Sylfaenol (Elfen Gofal Cymdeithasol) | £641.37 | £664.46 | £23.09 | 3.6% | 10% |
| Nyrsio (Pobl Hŷn Bregus eu Meddwl) (Elfen Gofal Cymdeithasol) | £697.08 | £722.34 | £25.26 | 3.62% | 12% |

Efallai y bydd angen ystyried cyflwyniadau unigol gan ddarparwyr ynghylch y ffioedd hyn. Petai tystiolaeth glir i ddangos nad yw'r ffi a bennwyd yn ddigonol mewn unrhyw achos unigol, bydd angen i'r Cyngor ystyried eithriadau i'r ffioedd a bennwyd. Cynigir bod unrhyw benderfyniadau o'r fath yn cael eu dirprwyo i'r Aelod Portffolio, y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 a'r Pennaeth Gofal Cymdeithasol Oedolion.

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:-

1. Cydnabod Methodoleg Ffioedd Gogledd Cymru, fel y cafodd ei gweithredu hyd yma gan yr Awdurdodau yng Ngogledd Cymru, fel sylfaen ar gyfer pennu ffioedd yn Ynys Môn yn ystod 2021/22 (Atodiad 1);
2. Cymeradwyo'r argymhelliad i gynyddu'r lefelau ffioedd fel y nodwyd yn Nhabl 2;
3. Yr un modd ag Awdurdodau eraill, rhoi'r awdurdod i'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Swyddogaeth Adnoddau ymateb i unrhyw geisiadau gan gartrefi unigol i edrych ar eu cyfrifon penodol a defnyddio'r ymarfer fel sylfaen i ystyried unrhyw eithriadau i'r ffioedd y cytunwyd arnynt. Rhaid i unrhyw eithriadau gael eu cytuno gyda'r Aelod Portffolio, y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 a'r Pennaeth Oedolion o'r cyllidebau cyfredol.

## B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?

Penderfynwyd mabwysiadu Elw ar Fuddsoddiad sydd wedi'i ddiwygio ychydig ar gyfer 2 gategori yn seiliedig ar y rhesymau a nodwyd yn yr adroddiad hwn.

## C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Mae angen i Awdurdodau Lleol bennu ffioedd cartrefi gofal yn unol â pholisi cenedlaethol. Mae gan y penderfyniad hwn oblygiadau ariannol i gyllideb yr Awdurdod Lleol o ran fforddiadwyedd yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni.

## CH – A yw'r polisi hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Mae'r penderfyniad hwn yn gyson â'r cytundeb a wnaed i gydweithio gydag Awdurdodau Lleol eraill yng Ngogledd Cymru ac i ddefnyddio Methodoleg Gogledd Cymru i bennu'r ffioedd bob blwyddyn.

| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Gellir cwrdd ag effaith dybiedig y newidiadau hyn ar gyllideb y Gwasanaeth yn 2021/22 o fewn y gyllideb.<br><br>Ar sail nifer preswylwyr 2020/21, byddai'r cynnydd arfaethedig yn y ffioedd yn arwain at bwysau ar gostau o thua £140k, a hynny ar ôl cymryd i ystyriaeth y chwyddiant a ychwanegwyd ar gyfer 2021/22. Dengys data ac ystadegau bod y galw am leoliadau Nyrsio a Phreswyl wedi gostwng yn ystod y 6 mis diwethaf, o bosib oherwydd cwymp yn hyder y cwsmer o ganlyniad i'r pandemig Covid19. Mae'n bwysig nodi y gallai hyder y cwsmer gynyddu dros gyfnod o amser. Gan dybio y bydd y galw yn cynyddu unwaith eto, bydd angen i ni nodi'r pwysau ariannol wrth osod y ffioedd ar gyfer 2022/23. |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (gorfodol) | |
| **2** | **Cyllid / Adran 151Finance** (gorfodol) | Trafodwyd gyda'r Swyddog Adran 151 ar 8-3-21 |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (gorfodol) | I'w gadarnhau |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | Amherthnasol |
| **5** | **Eiddo** | Amherthnasol |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | Amherthnasol |
| **7** | **Caffael** | Amherthnasol |
| **8** | **Sgrwtini** | Amherthnasol |
| **9** | **Aelodau Lleol** | Amherthnasol |
| **10** | **Unrhyw gyrff allanol eraill** | Amherthnasol |
| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
| **1** | **Economaidd** | Amherthnasol |
| **2** | **Gwrthdlodi** | Amherthnasol |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | Amherthnasol |
| **4** | **Amgylcheddol** | Amherthnasol |
| **5** | **Cydraddoldebau** | Amherthnasol |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | Amherthnasol |
| **7** | **Arall** | Amherthnasol |

| **F - Atodiadau** |
|---|
| Atodiad 1 – Methodoleg Gogledd Cymru |
| **FF – Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
| Amherthnasol |

This page is intentionally left blank

**CYFRIFIADAU FFI DRAFFT 2020/21 (CPI 2%, Argostau Asiantaeth 5%)** **ATODIAD 1**

| | Ffi 2020/21 | Ffi dangosol 2021/22 | Sail y Cyfrifiad | Cynnydd yr wythnos | Cyfanswm % y Cynnydd |
|---|---|---|---|---|---|
| **1. COSTAU ANUNIONGYRCHOL - safonol ar gyfer yr holl gategorïau o ofal** | | | | | |
| Cyfleustodau (trydan, nwy, teledu, Dreth Gyngor, dŵr, ffôn) | £30.34 | £30.95 | CPI 2% | | |
| Cofrestru (Aelodaeth Broffesiynol, DBS ac ati) | £1.33 | £1.36 | CPI 2% | | |
| Recriwtio | £2.57 | £2.62 | CPI 2% | | |
| Contract cynnal a chadw offer | £3.73 | £3.80 | CPI 2% | | |
| Cynnal a chadw offer cyfalaf | £22.93 | £23.39 | CPI 2% | | |
| Garddwr / tasgmon | £10.81 | £11.05 | Cynnydd NLW o 2.2% ar raddfa 2020/21 | | |
| Dodrefn/Ffitiadau, yn cynnwys trwsio ac adnewyddu | £0.00 | £0.00 | Diddymwyd yn 2017/18 | | |
| Hyfforddiant | £2.56 | £2.61 | CPI 2% | | |
| Cyflenwadau meddygol nad ydynt yn rhai presgripsiwn | £3.87 | £3.95 | CPI 2% | | |
| Yswiriant | £6.46 | £6.59 | CPI 2% | | |
| Bwyd a nwyddau tŷ | £29.84 | £30.44 | CPI 2% | | |
| **Is-gyfanswm Costau Anuniongyrchol** | **£114.44** | **£116.76** | | | |
| | | | | | |
| **2. COSTAU ERAILL – safonol ar gyfer yr holl gategorïau o ofal** | | | | | |
| Elw ar Fuddsoddiad | £97.16 | £97.16 | 10% Elw ar Fuddsoddiad | | |
| Costau Ychwanegol (sydd heb ei gynnwys yn unman arall) | £18.82 | £19.20 | CPI 2% | | |
| **Is-gyfanswm Costau Eraill** | **£115.98** | **£116.36** | | | |
| | | | | | |
| **3. COSTAU STAFF** | | | | | |
| **<u>Cartrefi Preswyl</u>** | | | | | |
| Rheoli / Gweinyddu | £50.83 | £51.85 | Cynnydd o 2% | | |
| Uwch Staff Gofal | £135.66 | £136.70 | 10 awr x £13.67 | | |
| Staff Gofal | £118.34 | £119.10 | 10 awr x £11.91 | | |
| Asiantaeth (5% o'r oriau - cyfradd tâl fesul awr + 40%) | | £13.38 | 1 awr x £13.38 (cyfartaledd (£8.91 + £10.21) +40%) | | |
| Staff Domestig | £50.47 | £51.58 | Cynnydd NLW o 2.2% ar raddfa 2020/21 | | |
| **Is-gyfanswm Costau Staff Cartrefi Preswyl** | **£355.30** | **£372.61** | | | |
| **CYFANSWM PRESWYL** | **£585.72** | **£605.73** | | **£20.01** | **3.42%** |

| | Ffi 2020/21 | Ffi dangosol 2021/22 | Sail y Cyfrifiad | Cynnydd yr wythnos | Cyfanswm % y Cynnydd |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cartrefi Preswyl Pobl Hŷn Bregus eu Meddwl** | | | | | |
| Rheoli / Gweinyddu | £50.83 | £51.85 | Cynnydd o 2% | | |
| Uwch Staff Gofal | £148.58 | £149.34 | 10.925 awr x £13.67 | | |
| Staff Gofal | £129.61 | £130.12 | 10.925 awr x £11.91 | | |
| Asiantaeth (5% o'r oriau - cyfradd tâl fesul awr + 40%) | | £15.39 | 1.15 awr x £13.38 (cyfartaledd o (£8.91 + £10.21) +40%) | | |
| Staff Domestig | £50.47 | £51.58 | Cynnydd NLW o 2.2% ar raddfa 2020/21 | | |
| **Is-gyfanswm Costau Staff Cartrefi Preswyl Pobl Hŷn Bregus eu Meddwl** | **£379.49** | **£398.28** | | | |
| **CYFANSWM PRESWYL POBL HŶN BREGUS EU MEDDWL** | **£609.91** | **£631.40** | | **£21.49** | **3.52%** |
| | | | | | |
| **Cartrefi Nyrsio** | | | | | |
| Rheoli / Gweinyddu | £50.83 | £51.85 | Cynnydd o 2% | | |
| Uwch Staff Gofal | £161.50 | £162.33 | 11.875 awr x £13.67 | | |
| Staff Gofal | £140.88 | £141.43 | 11.875 awr x £11.91 | | |
| Asiantaeth (5% o'r oriau - cyfradd tâl fesul awr + 40%) | | £16.73 | 1.25 awr x £13.38 (cyfartaledd o (£8.91 + £10.21) +40%) | | |
| Elfen Awdurdod Lleol i FNC | £7.27 | £7.42 | Cynnydd o 2% | | |
| Staff Domestig | £50.47 | £51.58 | Cynnydd NLW o 2.2% ar raddfa 2020/21 | | |
| **Is-gyfanswm Costau Staff Cartrefi Nyrsio** | **£410.95** | **£431.34** | | | |
| **CYFANSWM NYRSIO** | **£641.37** | **£664.46** | | **£23.09** | **3.62%** |
| | | | | | |
| **Cartrefi Nyrsio Pobl Hŷn Bregus eu Meddwl** | | | | | |
| Rheoi / Gweinyddu | £50.83 | £51.85 | Cynnydd o 2% | | |
| Uwch Staff Gofal | £180.88 | £181.81 | 13.3 awr x £13.67 | | |
| Staff Gofal | £157.78 | £158.40 | 13.3 awr x £11.91 | | |
| Asiantaeth (5% o'r oriau - cyfradd tâl fesul awr + 40%) | | £18.73 | 1.4 awr x £13.38 (cyfartaledd o (£8.91 + £10.21) +40%) | | |
| Elfen Awdurdod Lleol i FNC | £7.27 | £7.42 | | | |
| Staff Domestig | £50.47 | £51.58 | Cynnydd NLW o 2.2% ar raddfa 2020/21 | | |
| **Is-gyfanswm Costau Staff Cartrefi Nyrsio Pobl Hŷn Bregus eu Meddwl** | **£447.23** | **£469.79** | | | |
| **CYFANSWM NYRSIO POBL HŶN BREGUS EU MEDDWL** | **£677.65** | **£702.91** | | **£25.26** | **3.74%** |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **22 Mawrth, 2021** |
| **Pwnc / Testun:** | **Ei gwneud yn bosib i Gyngor Sir Ynys Môn esblygu i fod yn sefydliad carbon niwtral erbyn 2030 - gan ddarparu Rhaglen Newid Hinsawdd gorfforaethol newydd.** |
| **Deilydd(ion) Portffolio:** | **Y Cynghorydd Richard Dew (Aelod Portffolio ar gyfer Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd)** |
| **Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:** | **Dylan Williams, Dirprwy Brif Weithredwr** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Dylan Williams, Dirprwy Brif Weithredwr** |
| **Aelodau Lleol:** | **Holl Aelodau etholedig** |

**A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau**

**1.0 Cyflwyniad**

1.1 Yn unfrydol cyhoeddodd Cyngor Sir Ynys Môn ("yr awdurdod") argyfwng hinsawdd yn y Cyngor Llawn ar 8 Medi 2020, gan ymrwymo'r awdurdod i fod yn garbon niwtral erbyn 2030.

1.2 Mae angen deall yn well raddfa'r newid trawsnewidiol sydd ei angen, a sut y gellir cyflawni hyn (trwy gyfuniad o weithgarwch, gwell ymwybyddiaeth a newid ymddygiad, a hynny'n gorfforaethol ac yn y gwasanaethau).

1.3 Mae sawl strategaeth genedlaethol a rhanbarthol wedi'u drafftio ers hynny i ymateb i'r heriau i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr. Er bod yr awdurdod wedi ymrwymo'n llwyr i barhau i ddwyn i mewn yr holl bartneriaid, ar bob lefel, a chydweithio â nhw, cydnabyddir hefyd mai'n lleol y bydd yr holl waith cyflenwi. Mae'r awdurdod wedi ymrwymo i roi arweinyddiaeth leol ar yr Ynys, ac i weithredu'n gorfforaethol i gyflawni newidiadau pendant fel bod modd pontio'n effeithiol i fod yn sefydliad carbon niwtral. Er bod rhai penderfyniadau a chamau gweithredu o fewn rheolaeth yr awdurdod, bydd angen cymorth Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar gyfer rhai eraill ac adnoddau ychwanegol i'w cydlynu, eu datblygu a'u cyflawni. Er gwaethaf yr heriau a'r ansicrwydd parhaus, mae angen achub ar y cyfle i greu effeithiau cadarnhaol, parhaus a newid.

**2.0 Cyd-destun**

2.1 Newid yn yr hinsawdd yw'r her sy'n ein diffinio'n fyd-eang yn y dyddiau sydd ohoni. Mae'n fater sy'n mynd y tu hwnt i ffiniau gwleidyddol a chymdeithasol ac, yn aml, ar aelodau mwyaf bregus y cymunedau y mae hyn yn cael yr effaith fwyaf. Mae datgarboneiddio'n cynnig cyfleoedd enfawr i greu economi sy'n fywiog ac yn gymdeithasol gyfiawn. Crynhoir y ddeddfwriaeth a'r polisïau allweddol yn Atodiad A.

2.2 Gyda'i gilydd mae Deddf Newid Hinsawdd y DU (2008), Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer gweithredu ar newid hinsawdd a rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol Cymru, gyda phob un yn cael ei thanategu gan strategaethau a fframweithiau. Gyda'i gilydd maent yn rhoi Cymru fel economi carbon isel ac amgylcheddol gynaliadwy, yn barod i addasu i effeithiau newiod hinsawdd ac i liniaru effeithiau bioamrywiaeth.

Yr uchelgais i Gymru yn cynnwys nod o sector cyhoeddus carbon niwtral erbyn 2030. Er mwyn cyflawni'r nod hwnnw, mae Llywodraeth Cymru o blaid gweithredu fel 'tîm Cymru' gydag arweinyddiaeth, cydweithrediad ac ymgysylltiad gwleidyddol cryf o du'r llywodraeth, yn genedlaethol ac yn lleol, gan weithredu'n gyson a chadarn.

2.3 Cydnabyddir bod llywodraeth leol yn sylfaenol i gyflenwi datgarboneiddio, yn enwedig wrth roi arweinyddiaeth yn lleol a hyrwyddo atebion cynaliadwy, uchelgeisiol a newid ymddygiad. Mae cyfleoedd cyllido (grantiau a benthyciadau) sylweddol eisoes ar gael i fwrw ymlaen gyda chynlluniau a rhaglenni newid yn yr hinsawdd a datgarboneiddio, gyda chynnydd yn debygol dros y blynyddoedd i ddod. Bydd yn hanfodol cael cynllun clir, dull corfforaethol, gwaelodlin gynhwysfawr, trefniadau monitro cadarn, gallu ychwanegol pwrpasol, a rolau a chyfrifoldebau diffiniedig i geisio manteisio i'r eithaf ac atgyfnerthu gwaith cyfredol i drosglwyddo i fod yn garbon niwtral erbyn 2030.

2.4 Mae llywodraethau lleol ledled Cymru hefyd yn cydnabod y bydd gweithio gyda'n gilydd i rannu arbenigedd, tystiolaeth ac atebion yn helpu i sicrhau buddsoddiad, yn ogystal â strategaeth a pholisi effeithiol i ddatblygu a chyflwyno'r cyfeiriad cyflymaf a mwyaf cynaliadwy i gyflawni rhwymedigaethau ac uchelgeisiau cyfreithiol i fod yn garbon niwtral erbyn 2030.

## 3.0 Panel Strategaeth Datgarboneiddio Llywodraeth Leol

3.1 Mae'r Panel Strategaeth Datgarboneiddio Llywodraeth Leol wedi'i sefydlu i helpu i arwain, cefnogi, annog a rhoi trosolwg strategol.

3.2 Panel Cyngor Partneriaeth Cymru gytunodd i sefydlu'r Panel, a hynny ym mis Mehefin 2020, gyda chynrychiolaeth gan brif weithredwyr awdurdodau lleol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus, Llywodraeth Cymru a chynghorwyr perthnasol. Mae'r Panel yn adrodd i'r Cyngor Partneriaeth sy'n rhoi cyfeiriad gwleidyddol ac arweinyddiaeth i'r gwaith. Cynrychiolir awdurdodau lleol Gogledd Cymru gan Brif Weithredwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

**3.2.1 Mae pob awdurdod lleol wedi ymrwymo i:**

**a) Ddeall ei ôl troed carbon, yn unol â chanllawiau ar gyfer adrodd ar allyriadau tŷ gwydr yn y sector cyhoeddus**
**b) Cytuno i set o ymrwymiadau / addewidion sero net ar gyfer COP26 (y bwriedir ei gynnal yn Glasgow ym mis Tachwedd 2021)**
**c) Monitro ei allyriadau carbon, nawr ac yn y dyfodol yn agos ac adrodd arnynt**
**ch) Sicrhau bod cynllun gweithredu sero net cadarn, wedi'i seilio ar dystiolaeth yn ei le, fel dogfen fyw, erbyn Mawrth 2021**
**e) Gweithio gyda'r Panel Strategaeth Datgarboneiddio newydd**

Mae'r Panel a Llywodraeth Cymru yn ddiweddar wedi paratoi trywydd ar gyfer datgarboneiddio ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru sy'n cynnig y meysydd cyffredinol canlynol ar gyfer gweithredu: Adeiladau; Symudedd a Thrafnidiaeth; Defnydd Tir a Chaffael.

**4.0 Ôl-troed Carbon yr Awdurdod (Gwaelodlin)**

4.1 Mae'n hollbwysig deall ôl troed carbon yr awdurdod. Bydd gwaelodlin gorfforaethol cyfredol a chyflawn yn sicrhau y caiff y dull ei yrru gan ddata fel y byddir yn blaenoriaethu meysydd blaenoriaeth ar gyfer ymyrraeth ac yn bwrw ymlaen â'r rhain. Credir bod canllawiau Llywodraeth Cymru yn yr arfaeth, tra bod sawl awdurdod lleol arall eisoes wedi defnyddio methodolegau cydnabyddedig yn eu sefydliadau. Dyma sylfaen yr holl broses drosglwyddo gorfforaethol. Unwaith y bydd gwaelodlin, bydd yn bosibl cyflwyno fframwaith monitro corfforaethol a dangosfwrdd effeithiol. Yna gellir gosod targedau gyda chynllun y cytunwyd arno er mwyn cyflawni a bod yn garbon niwtral a'u hintegreiddio mewn trefniadau cynllunio corfforaethol a rheoli perfformiad ar bob lefel.

4.2 Mae Cynllun Cyfredol y Cyngor (2017-2022) yn cydnabod bod *"Gweithio mewn partneriaeth â'n cymunedau i sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau wrth amddiffyn ein hamgylchedd naturiol"*, yn un o dair prif flaenoriaeth. Datblygir hyn trwy *"ddod yn fwy effeithlon o ran ynni a lleihau ein hallyriadau carbon trwy ganolbwyntio ar Ganolfannau Hamdden, Ysgolion a goleuadau stryd"*. Er gwaethaf y cynnydd a wnaed hyd yma, cydnabyddir y bydd angen ymgorffori dull corfforaethol mwy cynhwysfawr ac uchelgeisiol yng Nghynllun nesaf y Cyngor, gyda gwaelodlin yr ôl troed carbon yn dylanwadu arno ac yn ei lywio.

4.3 Yn Atodiad B amlinellir yr allyriadau cyfredol y mae'r awdurdod yn eu monitro a'u mesur, a rhai meysydd lle mae angen mwy o waith.

**5.0 Y Camau Gweithredu Hyd yn Hyn (Gwaelodlin)**

5.1 Yn gynnar yn 2020 (cyn y pandemig) gweithiodd Grŵp Tasg a Gorffen swyddogion i baratoi gwaelodlin o gamau gweithredu a gafwyd hyd yn hyn i frwydro yn erbyn newid yn yr hinsawdd a datgarboneiddio (yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol), gyda'r bwriad o lywio cynllun gweithredu drafft. Mae'r gwaelodlin hon (nid yw'n ddiffiniol) i'w gweld yn Atodiad C. Mae Gwasanaethau Unigol wedi bod yn gwneud newidiadau cadarnhaol ac maent yn parhau i'w gwneud. Er gwaethaf hyn, mae'r wybodaeth a gasglwyd yn ddisgrifiadol iawn o ran gweithgaredd, heb unrhyw ddull cyson o bennu, rhagfynegi na meintioli'r effaith ar leihau allyriadau carbon (yn erbyn gwaelodlin ôl troed carbon corfforaethol). Yn ogystal, ar hyn o bryd nid oes unrhyw dargedau lleihau carbon y cytunwyd arnynt yn ffurfiol.

5.2 Ers i'r gwaith hwn gychwyn mae sawl arfer gwaith traddodiadol a 'sefyllfa arferol' wedi'u newid er diogelu staff a darparu gwasanaeth (e.e. mae cyfarfodydd rhithwir wedi lleihau'r teithio cyffredinol sy'n gysylltiedig â gwaith, gweithio gartref ac ati). Bellach, mae'n rhaid cydnabod bod y rhain yn rhan o'r gwaelodlin, wedi'u meithrin a'u hymgorffori wrth i ni ddechrau ar y cyfnod adfer ôl-bandemig.

## 6.0 Arfer Da – Adolygu a Dysgu

6.1 Mae amrywiol swyddogion wedi mynd ati i wneud gwaith ymchwil a dysgu i ddylanwadu ar ddull corfforaethol arfaethedig o drosglwyddo i sefydliad carbon niwtral a llywio hyn. Cydnabyddir bod hyn yn ddechrau ar daith gorfforaethol newydd gyda disgwyliadau, polisïau, canllawiau, llywodraethu, a chyfleoedd posibl yn datblygu i sicrhau y ceir adnoddau cyflenwi a gweithredu ychwanegol.

6.2 Yn ogystal â chymryd rhan mewn amrywiol fforymau Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a chenedlaethol, cydweithredu'n rhanbarthol (trwy strwythurau anffurfiol i raddau helaeth), ystyried strwythurau a dulliau gweithredu mewn awdurdodau lleol eraill, adolygu dogfennau a chyhoeddiadau perthnasol, cafwyd gwybodaeth trwy fod mewn sawl cynhadledd rithwir a gweminar diweddar a chymryd rhan ynddynt:

- Newid Hinsawdd Cymdeithas Lywodraeth Leol 2020 (yr 17eg a’r 18fed o Fedi 2020)
- Bord Gron Rithwir ar Argyfwng Hinsawdd (y 25ain o Fedi 2020)
- Cynhadledd Cysylltiadau Carbon Isel - Datgarboneiddio Gwres a Thrafnidiaeth (2il o Hydref 2020)
- Cloi i Mewn Ymddygiad Cadarnhaol a Manteision Gweminar Adferiad Gwyrdd (2il o Hydref 2020)
- Gweminarau Datganiadau Ardal Gogledd-orllewin Cymru (Cyfoeth Naturiol Cymru) (yr 16eg – y 27ain o Dachwedd 2020)

6.3 Crynhoir y dysgu hwn yn Atodiad D, i gynorthwyo'r awdurdod a’i gwneud yn bosib iddo wneud penderfyniad hyddysg ar y ffordd ymlaen.

## 7.0 Cydlynu, Gallu ac Arbenigedd Corfforaethol

Ar hyn o bryd nid oes gan yr awdurdod arweinydd corfforaethol (na gwleidyddol) pwrpasol ar gyfer newid yn yr hinsawdd. Er bod rhywfaint o arbenigedd ar ddatgarboneiddio o fewn gwasanaethau penodol, mae hyn yn cyd-fynd ag adeiladu a gwella adeiladau. Mae awdurdodau eraill wedi dangos eu hymrwymiad i'r maes thematig hanfodol hwn trwy neilltuo adnoddau pwrpasol. Y gobaith, a’r disgwyl, yw y bydd Llywodraeth Cymru, dros amser, yn cydnabod bod yn rhaid cael gweithgaredd i fynd i’r afael â newid yn yr hinsawdd a datgarboneiddio a’i ymgorffori yn setliadau blynyddol awdurdodau lleol. Gan fod amser yn brin, nid oes dewis ond neilltuo cyllid craidd i greu gallu / arbenigedd pwrpasol i arwain ar symud ymlaen a chydlynu camau cychwynnol gwaith datblygu a chyflawni.

Câi hyn ei ddefnyddio i dalu costau cyflogi Uwch-reolwr Rhaglen Newid Hinsawdd gorfforaethol am ddwy flynedd, gyda chyllideb weithredol a gâi ei defnyddio i baratoi gwaelodlin carbon, fframwaith monitro, dangosfwrdd, llunio cynllun gweithredu wedi’i gostio, caffael hyfforddiant ac ati. Byddai'r swyddog pwrpasol hefyd yn cydlynu gweithgareddau traws-wasanaeth, yn cynrychioli'r awdurdod mewn grwpiau a digwyddiadau rhanbarthol a chenedlaethol perthnasol, yn adrodd ar gynnydd, yn dylanwadu ar weithgareddau'r gwasanaeth, yn nodi arfer da, ac yn sicrhau y ceir ymdeimlad o bwrpas, arweinyddiaeth a momentwm.

Ar hyn o bryd nid oes staff yn yr awdurdod i gyflawni'r camau cychwynnol hanfodol hyn.

**8.0 Casgliad**

8.1 Mae tystiolaeth glir bod gwahanol feysydd gwasanaeth yn bwrw ymlaen gyda llu o weithgareddau, gan ymateb yn gadarnhaol i'r angen i leihau ôl troed carbon yr awdurdod. Er gwaethaf hyn, ar hyn o bryd, nid oes gallu ac arbenigedd corfforaethol pwrpasol i arwain a llywio'r newid trawsnewidiol angenrheidiol i'r sefydliad cyfan sydd ei angen.

8.2 Nid oes cynllun gweithredu corfforaethol, dull gweithredu cyson, targedau wedi'u mabwysiadu, gwaelodlin gynhwysfawr na dulliau monitro ac adrodd ffurfiol. Mae disgwyliadau'n cynyddu, a nawr mae angen i'r awdurdod ddangos yr arweinyddiaeth leol fewnol ac allanol angenrheidiol.

8.3 Mae'r ymrwymiadau y mae pob awdurdod lleol yng Nghymru wedi'u gwneud (trwy'r Panel Strategaeth Datgarboneiddio Llywodraeth Leol) yn gofyn am ymateb ymroddedig a pharhaus. Mae amser, ymdrech ac adnoddau ar draws yr awdurdod eisoes wedi'u trethu, a heb ddull rhaglen bwrpasol, cynllun gweithredu, llywodraethu, ag arbenigedd, mae'n annhebygol y bydd yr awdurdod yn cyflawni ei ymrwymiad i fod yn garbon niwtral erbyn 2030.

8.4 Mae amser yn brin ac mae angen cymryd camau cyflym, ystyrlon a phendant.

**Argymhellion**

1. **Cefnogi a chymeradwyo gwaith datblygu a gweithredu Rhaglen Newid Hinsawdd gorfforaethol newydd fel bod yr awdurdod yn gallu croesi'r bont i fod yn sefydliad carbon niwtral erbyn 2030.**

2. **Cefnogi a chymeradwyo mai'r Dirprwy Brif Weithredwr yw'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl (Uwch Berchennog Cyfrifol).**

3. **Blaenoriaethu adnoddau ar ymrwymiadau'r awdurdodau lleol y cytunwyd arnynt yn y Panel Strategaeth Datgarboneiddio Llywodraeth Leol (adran 3.2.1 uchod).**

4. **Cefnogi a chymeradwyo'r defnydd o gronfa gyfyngedig wrth gefn o £400,000 i greu capasiti/arbenigedd penodol i arwain y gwaith o ddatblygu a chydlynu camau cychwynnol datblygu a darparu.**

5. **Cefnogi a chymeradwyo'r broses o recriwtio Rheolwr Rhaglen newid hinsawdd gorfforaethol i arwain ar ddatblygu a chyflawni.**

6. **Cefnogi a chymeradwyo sefydlu Gweithgor Newid yn yr Hinsawdd (gyda chynrychiolaeth wleidyddol) – grŵp cynghori, nad yw'n gwneud penderfyniadau, i wneud argymhellion a cheisiadau.**

7. **Cefnogi a chymeradwyo penodiad 'Hyrwyddwr Newid yn yr Hinsawdd' ar y Pwyllgor Gweithredol.**

| **B – Pa opsiynau eraill bu I chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Gwneud Dim - annhebygol o gael yr effaith a dylanwad angenrheidiol<br><br>Gweithredu o fewn gweithdrefnau a capasiti presennol - annhebygol o gael yr effaith a dylanwad angenrheidiol |

| **C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Gan ei fod yn gosod cyfeiriad strategol ac yn neilltuo cyllid refeniw ychwanegol |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson a'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Mae'r bwriad yn gyson efo Cynllun Strategol y Cyngor (2017 - 2022), ond mae'r angen i weithredu pwysigrwydd ac ymrwymiad y sector gyhoeddus, ymateb yn effeithiol ac amserol wedi newid yn ddiweddar. |

| **DD – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Nid oes unrhyw ddarpariaeth wedi'i gwneud i ariannu'r gost yn y cyllidebau presennol a bydd angen i'r Pwyllgor Gwaith gytuno i ryddhau'r cyllid o'r arian wrth gefn cyffredinol neu o gronfeydd arian wrth gefn eraill nad oes bellach eu hangen. |

| **E – Effaith ar Genedlaethau'r Dyfodol (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys** | Yn sicrhau bod cydnabyddiaeth ac ymateb gorfforaethol i'r heriau newid hinsawdd (cychwyn taith). |
| **2** | **A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir a fydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol. Os felly, sut:-** | Bwrieidir datlbygu rhaglen a fydd angen buddsoddiad ychwanegol, ond a fydd yn creu manteision ac yn arbed costau yn y tymor hir. |
| **3** | **A ydym wedi bod yn cyd-gweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda pwy-** | Wedi bod yn ymgysylltu efo Cynghorau eraill, ynghyd a Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Llywodraeth Cymru. |
| **4** | **A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae'i rhan yn drafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:-** | Dim mewnbwn oherwydd bod y cynnig i greu rhaglen, dim y cynnwys. |
| **5** | **Nodwch yr effeithiau mae'r penderfyniad hwn yn ei gael ar yr agenda cydraddoldeb ac iaith Gymraeg** | Dim gan fod y cynnig yn golygu recriwtio yn unol â Pholisïau Cydraddoldeb a Iaith Gymraeg y Cyngor |

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| **1** | **Prif-weithredwr / Uwch Dim Rheoli (UDRh)<br>(gorfodol)** | Cefnogol |
| **2** | **Cyllid / Swyddog 151<br>(gorfodol)** | Cefnogol |
| **3** | **Swyddog Cyfreithiol / Mnitro<br>(gorfodol)** | Cefnogol |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth (TG)** | |
| **7** | **Caffael** | |
| **8** | **Sgriwtini** | |
| **9** | **Aelodau Lleol** | |

| F - Atodiadau: |
|---|
| **Atodiadau**<br><br>**Atodiad A.**<br>**Crynodeb o Ddeddfwriaeth a Pholisïau Newid Hinsawdd Allweddol**<br><br>**Atodiad B.**<br>**Allyriadau a Fesurir ar Hyn o Bryd**<br><br>**Atodiad C.**<br>**Camau Gweithredu Hyd Yma (Gwaelodlin)**<br><br>**Atodiad D.**<br>**Awgrymiadau Arfer Gorau i Fynd i'r Afael â Newid Hinsawdd ac Argymhellion i'w hystyried** |

| FF – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth): |
|---|
| |

# Atodiad A
## Crynodeb o Ddeddfwriaeth a Pholisïau Newid Hinsawdd Allweddol

### Deddf Newid Hinsawdd 2008

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ddyletswydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol i sicrhau fod cyfrif carbon net y Deyrnas Unedig ar gyfer pob uno'r chwe nwy tŷ gwydr Kyoto am y flwyddyn 2050 yn 100% yn is (sero net) na gwaelodlin 1990. Mae gan Gymru darged o ostyngiad o 95% gyda'r nod o gyrraedd sero net.
**Dolen:http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2008/27contents**

### Cytundeb Paris

Cytundeb yng Nghonfensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig yw'r cytundeb byd-eang, cyffredinol sy'n gyfreithiol rwymol, yn ymdrin â lleddfu, addasu a chyllido allyriadau nwyon tŷ gwydr ac fe'i llofnodwyd yn 2016.
**Dolen:https://unfccc.imt/process-and-meetings/the-paris-agreement/the-paris-agreement**

### Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015




Mae'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru feddwl am effaith tymor hir eu penderfyniadau, gweithio gyda phobl a chymunedau ac atal problemau parhaus, megis tlodi, anghyfartaledd a newid hinsawdd.
**Dolen:https://futuregenerations.wales/about-us/future-generations act**

## Datgarboneiddio Sector Cyhoeddus Cymru

Mae gan Lywodraeth Cymru uchelgais i ddatgarboneiddio'r sector cyhoeddus. Cefnogwyd hyn gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn dadl ar ddatgarboneiddio yn y Sector Cyhoeddus ym Mehefin 2017. Datgarboneiddio yw un o flaenoriaethau cenedlaethol Llywodraeth Cymru ac mae arweinyddiaeth y sector cyhoeddus yn thema allweddol yn y cynllun gweithredu, "Ffyniant i bawb: Cymru garbon isel.
**Dolen:**
**https://gov.wales/sites/default/files/publications/201904/decarbonisation-of-the-public-sector-call-for-evidence-2017.pfd**

DRAFT

## Deddf Amgylchedd (Cymru) 2016

Fe'i cyflwynwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a daeth i rym yr 21ain o Fawrth, 2016. Rhydd y ddeddf yn ei lle'r ddeddfwriaeth angenrheidiol i allu cynllunio a rheoli adnoddau naturiol Cymry'n fwy cynaliadwy.

## Cynllun Cyngor Sir Ynys Môn 2017-2022

Uchelgais allweddol y Cyngor o'r cynllun yw: "byddwn yn gweithio tuag at Ynys Môn sy'n iach, yn ffynnu ac yn llewyrchus" ac mae'n cynnwys tri phrif amcan:

- Gweld pobl yn gwireddu eu potensial
- Diogelu pobl fregus
- Gwarchod cymunedau a'r amgylchedd ar adegau o newid

DRAFT

**<u>Atodiad B</u>**
**Allyriadau a Fesurir ar Hyn o Bryd**

DRAFT

# Beth sy'n cael ei fesur ar hyn o bryd ?

| Cwmpas | Allyriadau | Perchennog | Beth ydyn ni'n ei fesur, pryd a sut? | Ble mae'n cael ei adrodd? | Sut mae'r data'n cael ei ddefnyddio i lywio'r broses gwneud penderfyniadau? | Proses awtomataidd neu â llaw? | A oes enghreifftiau mewn Cynghorau eraill? | Beth yw'r bylchau? |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cwmpas 1 | Nwy, LPG ac Olew ar gyfer gwresogi adeiladau | Eiddo | Cofnod electronig o'r tanwydd a ddefnyddir a gedwir ar gyfer pob adeilad masnachol o filiau. Maent i gyd ar fesurydd ar gyfer nwy o'r prif gyflenwad tra bo'r olew a'r nwy a ddefnyddir yn cael ei gyfrif i raddau helaeth yn seiliedig ar nodiadau danfon. kWh wedyn yn cael ei drosi i tCO2e | Yn fewnol | Defnyddio'r data i ddarganfod a oes tuedd gyffredinol o ran lleihau'r ynni a ddefnyddir ac i benderfynu pa adeiladau i'w blaenoriaethu mewn prosiectau effeithlonrwydd ynni, megis Re: Fit. | Â llaw | | |
| Cwmpas 1 | Y tanwydd a ddefnyddir mewn cerbydau fflyd | Fflyd | Y tanwydd a ddefnyddir (disel, LPG, petrol) / milltiroedd. Cyfansymiau blynyddol y tanwydd a ddefnyddir ac sydd ar gael o dderbynebau gwerthu / adroddiadau dosbarthu. Ar gael bob mis hefyd pan anfonir ffigurau i'r adran gyllid ar gyfer codi ar adrannau. Gellir trosi ffigurau i CO2e | Yn fewnol yn y gwasanaeth ac weithiau'n allanol. Mae data ar y fflyd wedi'u hanfon at wasanaeth ynni llywodraeth Cymru fel rhan o brosiect ULEV sydd â'r bwriad o roi adroddiad i ni a fydd, gyda gobaith, yn ein helpu i wneud penderfyniadau yn y dyfodol o ran y fflyd. | Wedi'u ddefnyddio i gyfrifo costau fesul milltir | Â llaw | Ddim yn siŵr, efallai Cyngor Abertawe, a weithredodd fflyd o oddeutu. 40 fan drydan ychydig flynyddoedd yn ôl | |
| Cwmpas 2 | Defnyddio trydan mewn adeiladau | Eiddo | Cofnod electronig o'r trydan a ddefnyddir ar gyfer pob adeilad masnachol sy'n cael ei ddal y gellir ei drosi i tCO2e | Yn fewnol | Defnyddio'r data i ddarganfod a oes tuedd gyffredinol o ran lleihau'r ynni a ddefnyddir ac i benderfynu pa adeiladau i'w blaenoriaethu mewn prosiectau effeithlonrwydd ynni, megis Re: Fit. | Â llaw | | |
| Cwmpas 2 | Goleuadau stryd | Priffyrdd | Y trydan a ddefnyddir yn fisol ar gyfer goleuadau stryd o filiau ac allyriadau carbon misol gan PowerData Associates. | Yn fewnol | Caiff y data eu hasesu a'u trafod yn rheolaidd gyda'r Uwch-beiriannydd mewn cyfarfodydd tîm | Â llaw | | |
| Cwmpas 2 | Gwefru ceir trydan | Fflyd | Cofnod a gedwir o'r trydan a ddefnyddir yn ymwneud â gwefru cerbydau trydan - gellir ei drosi i tCO2e | Yn fewnol yn y gwasanaeth ac weithiau'n allanol. Mae data ar y fflyd wedi'u hanfon at wasanaeth ynni llywodraeth Cymru fel rhan o brosiect ULEV sydd â'r bwriad o ro iadroddiad i ni a fydd, gyda gobaith, yn ein helpu i wneud penderfyniadau yn y dyfodol o ran y fflyd. | Wedi'i ddefnyddio i gyfrifo costau fesul milltir | Â llaw | | |

DRAFT

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cwmpas 3 | Cyflenwad dŵr i adeiladau a dŵr gwastraff a ddaeth yn ôl fel carthffosiaeth | Eiddo | Cofnod a gedwir o'r dŵr a ddefnyddir ar gyfer pob adeilad masnachol y gellir ei drosi i tCO2e. Ceir biliau bob chwe mis ar gyfer mwyafrif y safleoedd. | Yn fewnol | Os bydd cynnydd sylweddol yn yr hyn a gaiff ei ddefnyddio mewn adeilad o un flwyddyn i'r llall, cynhelir ymchwiliad safle lle bo hynny'n bosibl i wirio am ollyngiadau. | Â llaw - proses hynod lafurus | | Mae biliau papur yn dal i gael eu derbyn a'u sganio i Civica, sy'n golygu bod yn rhaid chwilio am bob safle â llaw, sy'n waith llafurus ac yn dueddol o fod â chamgymeriad dynol. Yn wahanol i gontractau ynni, nid yw caffael wedi cymryd hyn drosodd a'i roi ar fil electronig cyfunol. |
| Cwmpas 3 | Ailgylchu a gwastraff o adeiladau masnachol | Caffael | Adroddiad blynyddol ar gael gan gontractwr sy'n cyflawni'r gwasanaeth gyda gwastraff mewn kg ar gyfer pob adeilad. Yna gellir trosi hwn i CO2e | Yn fewnol ac allanol | | | | |
| Cwmpas 3 | Gwastraff dinesig | Gwastraff | Cyfanswm tunelledd blynyddol y casgliad wrth ymyl y ffordd, Safleoedd Ailgylchu a sicrhau bod safleoedd ar gael gyda dadansoddiad ar gyfer gwahanol fathau o wastraff / ailgylchu. Gellir ei drosi i tCO2e | Yn fewnol ac yn allanol yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru. Rydym yn mewnbynnu'r holl ddata ar Lif Data Gwastraff | Unwaith y bydd y data wedi'i gyflwyno ar WDF, cawn ein ffigurau ailgylchu misol / chwarterol / blynyddol. Rydym yn asesu'r ffigurau chwarterol ac yn nodi lle mae angen i ni wella ar gyfer y chwarter nesaf. Anfonir y data yn fewnol fel dangosydd Perfformiad ac fe'i trafodir ag aelodau etholedig os na chyrhaeddir y targedau. | Mewnbynnir data â llaw | | |

DRAFT

DRAFT



## Beth arall sydd angen ei gynnwys?

| Cwmpas | Ffynhonnell | Allyriadau | Perchennog | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| Cwmpas 1 | Hylosgi Tanwydd | Nwy, LPG ac Olew ar gyfer gwresogi tai cymunedol. | Tai | Ansicr os caiff ei fonitro ar hyn o bryd - Bydd yn ddibwys iawn yn y ffigur cyffredinol. |
| Cwmpas 2 | Trydan wedi'i Brynu | Y trydan a ddefnyddir mewn tai cymunedol. | Tai | Ansicr os caiff ei fonitro ar hyn o bryd - Bydd yn ddibwys iawn yn y ffigur cyffredinol. |
| Cwmpas 1 | Nwyon wedi'u Fflworeiddio | Nwyon wedi'u hoeri yn sgil aerdymheru | Eiddo / TG | Ansicr os caiff ei fonitro ar hyn o bryd - Bydd yn ddibwys iawn yn y ffigur cyffredinol. |
| Cwmpas 3 | Teithio Staff | Cymudo | Pob adran | Ni chaiff ei fonitro ar hyn o bryd |
| Cwmpas 3 | Teithio Staff | Defnyddio cerbydau personol at ddibenion busnes | Fflyd / Pob adran | Ansicr os caiff ei fonitro ar hyn o bryd. |
| Cwmpas 3 | Caffael | Nwyddau a gwasanaethau wedi'u prynu | Pob adran | Ni chaiff ei fonitro ar hyn o bryd. Allyriadau uchel iawn sy'n gysylltiedig â chaffael. |
| Cwmpas 3 | Buddsoddiadau | | | |

**ATODIAD C**

**Gwaelodlin Gweithgaredd Hinsawdd Cyngor Sir Ynys Môn**

| TEITL | Cyfnod Gweithredu | Gwasanaeth Arweiniol / Corfforaethol | Trosolwg | Cyflawniadau Diweddar | Ffordd o Gyflawni (Mewnol/ Contract) | Yn adrodd i? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhaglen Ynys Ynni | Parhaus | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Gweledigaeth Rhaglen Ynys Ynni yw creu cyfle unwaith mewn oes ar gyfer swyddi, twf economaidd a ffyniant trwy fanteisio ar nifer o brosiectau trawsnewidiol sy'n rhoi Ynys Môn a'r rhanbarth ehangach ar flaen y gad o ran ynni, gwaith ymchwil a datblygu, cynhyrchu a gwasanaethu carbon isel.<br><br>Mae'r Rhaglen Ynys Ynni yn cydweithredu â nifer o randdeiliaid allweddol i:<br><br>• Ddenu a dadrisgio buddsoddiad strategol mawr<br>• Dylanwadu ar ddarpar ddatblygwyr<br>• Cefnogi gwaith datblygu pobl a chymunedau cystadleuol<br>• Cefnogi gwaith datblygu busnesau cystadleuol<br>• Cefnogi gwaith datblygu seilwaith cystadleuol<br>• Gwireddu'r manteision y gall prosiectau mawr eu cael a lliniaru effeithiau andwyol<br>• Gwneud y mwyaf o fanteisiion gwaddol tymor hir | • Parhaus | Yn fewnol | Cynllun Cyflenwi Gwasanaeth a Llywodraethu Lefel 2 CSYM |

Tudalen 82

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cynllun Cyflenwi'r Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | 2019-2020 | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Gweledigaeth y Gwasanaeth yw 'creu Ynys well i fyw a gweithio ynddi ac i ymweld â hi trwy gryfhau lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Ynys Môn a'i chymunedau".<br><br>Ei nod yw:<br><br>• Rheoli gwaith datblygu a defnyddio tir ac adeiladau i ddatblygu'r economi, cefnogi cymunedau a diogelu'r amgylchedd.<br>• Hyrwyddo a gwarchod amgylchedd byw a gweithio diogel, teg ac iach i breswylwyr a busnesau.<br>• Datblygu'r economi ymwelwyr, annog pobl i fwynhau adnoddau naturiol a rheoli asedau arfordirol yn effeithiol.<br>• Datblygu a darparu gweithgareddau fel bod modd creu swyddi, cael mwy o lewyrch, a chefnogi cymunedau bywiog a gwydn.<br>• Gwneud y mwyaf o fanteision cadarnhaol prosiectau mawr, gan liniaru effeithiau andwyol, er mwyn sicrhau gwaddol cadarnhaol a chynaliadwy.<br>• Darparu cyfleusterau a gweithgareddau hamdden i bobl, o bob oed, fyw eu bywydau mewn ffordd iach. | • Wrth adeiladu Unedau Busnes Pen-Yr-Orsedd ac ymestyn Canolfan Fusnes Ynys Môn defnyddiwyd technoleg ynni adnewyddadwy gan gynnwys paneli solar ffotofoltäig ar bob uned, mesurau effeithlonrwydd ynni a phwyntiau gwefru cerbydau trydan.<br>• Gwaith ailddatblygu Neuadd y Farchnad, Caergybi wedi'i gwblhau gyda gwaith yn anelu at safonau rhagoriaeth BREEAM;<br>• Prosiect Thematig Eiddo Gwag TRIP (2018/19 a 2019/20 a 2020/21) — rhagweld y bydd 98 o aelwydydd wedi cael cymorth i wella effeithlonrwydd ynni eu cartrefi (cynllun isranbarthol Ynys Môn a Gogledd Gwynedd, CSYM yw'r corff arweiniol)<br>• Gwybodaeth sylfaenol a gasglwyd ar berfformiad ynni canolfannau hamdden yn ystod 2019. | Yn fewnol | Uwch-dîm Rheoli Rheoleiddio a Datblygu Economaidd |

DRAFT

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | • Wedi gosod goleuadau LED ar draws yr holl ganolfannau hamdden i wella effeithlonrwydd ynni (mae rhagor o waith gwella effeithlonrwydd ynni yn digwydd ym mis Mawrth-Medi 2020 ac yn cynnwys: Solar Ffotofoltäig, Optimeiddio Bwyleri, Insiwleiddio ac ati.)<br>• Fe wellodd gweithgareddau AHNE ymddygiad pobl tuag at newid yn yr hinsawdd trwy hyrwyddo gwaith glanhau traethau ac ynys heb blastig.<br>• Y Swyddogaeth Gynllunio wedi symud i Bencadlys y Cyngor fel rhan o brosiect Gweithio'n Doethach y Cyngor (yn lleihau'r ynni a ddefnyddir a gwell effeithlonrwydd ac ati).<br>• Gwaith parhaus gan Adran Gwarchod y Cyhoedd - e.e. storio a dosbarthu petroliwm yn ddiogel mewn safleoedd trwyddedig; Archwilio prosesau | | |

DRAFT

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | diwydiannol y mae'n rhaid iddynt fod â Thrwydded Amgylcheddol sy'n rheoli llygredd aer; Cyflenwi Dŵr Preifat - Samplau Statudol; Ymateb Rheoli Plâu.<br>• Adolygiad ac asesiad blynyddol o ansawdd aer ar Ynys Môn | | |
| Cynllun Rheoli Asedau | 2020 - 2025 | Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo (Adain Eiddo) | Mae'r Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol yn gosod y fframwaith strategol ar gyfer rheoli holl asedau CSYM. Y bwriad yw llywio penderfyniadau yn y dyfodol ynghylch caffael, defnyddio, datblygu a chael gwared ag asedau eiddo i ddiwallu anghenion gweithredol a strategol y sefydliad a'i wahanol feysydd Gwasanaeth. Mae'n ceisio sicrhau y caiff y portffolio o dir ac eiddo ei reoli'n effeithiol fel ei fod yn parhau'n addas at y diben (o fewn y cyfnod cyfredol o gyfyngiadau adnoddau a chyllid).<br><br>Nod y Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol yw sicrhau bod asedau'n cefnogi gofynion gwasanaeth cyfredol ac yn y dyfodol ac yn fodd i flaenoriaethu penderfyniadau yn y dyfodol ynghylch buddsoddi a rhesymoli. | • Mae nifer o asedau wedi'u trosglwyddo i Gynghorau Tref a Chymuned eu rhedeg, gan warchod darpariaeth gwasanaeth a chreu arbedion refeniw.<br>• Mae sawl ased dros ben gan gynhyrchu arbedion refeniw a derbyniadau cyfalaf gan arwain at bortffolio asedau teneuach.<br>• Yn sgil cwblhau gwaith adnewyddu Stad Wledig Manddaliadau cafwyd tai modern mwy effeithlon o ran ynni ac adeiladau allanol sy'n fwy diogel i'n tenantiaid.<br>• Yn sgil cwblhau'r Prosiect Gweithio Doethach cafwyd gweithlu mwy ystwyth a defnyddiwyd gofod | Grwpiau mewnol, allanol, gwasanaeth cyhoeddus a chymunedol | Grŵp Tir ac Asedau |

DRAFT

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Byddir yn bwrw ymlaen â'r nod trwy:<br><br>• Ymgorffori diwylliant newydd o arloesi sy'n gwneud y defnydd gorau o dechnoleg<br>• Cyflwyno gwasanaethau mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar y cwsmer ac sy'n gyson â gwerthoedd ac ymddygiadau craidd CSYM<br>• Ei gwneud yn bosib trawsnewid a chael rhagor o effeithlonrwydd trwy reoli portffolios yn rhagweithiol (wrth sicrhau'r incwm mwyaf posibl)<br>• Rheoli'r stad yn effeithiol<br>• Gwneud y mwyaf o gyfleoedd adfywio a llesiant trwy gaffael a chydweithio effeithiol<br>• Gwarchod yr amgylchedd a lleihau'r niwed cyffredinol iddo. | ym mhrif adeilad y Cyngor yn fwy effeithlon. | | |

DRAFT

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Adnewyddu Adeiladau | 2018-i'w gadarnhau | Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo (Adain Eiddo) | Fframwaith ar gyfer gwaith ôl-ffitio cadwraeth ynni yn adeiladau'r sector cyhoeddus yng Nghymru yw Re: fit Cymru. Mae'n fodd i gyrff cyhoeddus gynnwys nifer o adeiladau a mesurau arbed o fewn un fframwaith contractio perfformiad ynni a gaffaelwyd gan yr OJEU gan ddarparu cynlluniau defnyddio llai o ynni ac ynni amgen sydd â graddfa.<br><br>Y prif nodau yw:<br>• Gwella effeithlonrwydd ynni adeiladau cyhoeddus yr awdurdod yn unol â'r targedau a osodwyd yn y strategaeth effeithlonrwydd ynni (2017-2022)<br>• Lleihau cost rhedeg adeiladau<br>• Lleihau effaith amgylcheddol adeiladau'r awdurdod ar yr amgylchedd trwy leihau allyriadau carbon a thrwy symud i ffwrdd o danwydd ffosil, lle bo hynny'n bosibl. | Ymhlith y mesurau effeithlonrwydd ynni a gynhaliwyd hyd yma mae:<br>• Paneli solar ffotofoltäig wedi'u gosod yn Ysgol Kingsland ac Ysgol Morswyn.<br>• Diweddarwyd Strategaeth Rheoli Busnes yn Swyddfeydd y Cyngor ac Ysgol Uwchradd Bodedern.<br>• Cafodd pibellau eu lagio ar draws nifer o safleoedd.<br>• Unedau rheoli ynni (Savacontrols) wedi'u gosod ar offer oeri mewn ysgolion i leihau ynni.<br>• Goleuadau LED wedi'u gosod yn Llyfrgell Llangefni | Yn fewnol ac Allanol - Wedi'i reoli gan GSYM ond yn cael ei ddarparu gan y Larkfleet Group. | Grŵp Tir ac Asedau |



DRAFT

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Contract Arlwyo Ysgolion | 2020 – 2027 | Dysgu | Mae Contract Arlwyo Ysgolion Newydd yn cynnwys gofyniad i gydymffurfio â Deddf Amgylchedd (Cymru) 2016 a'r statws Ynys Ddiblastig.<br><br>Bydd yr elfennau hyn yn y contract yn cael eu monitro a'u rheoli'n barhaus trwy gydol y contract. | | Contract | Uwch-dîm Arweinyddiaeth Gwasanaethau Dysgu |
| Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd | Parhaus | Dysgu | Amryfal brosiectau mewn ysgolion i ddiogelu rhywogaethau a chynefinoedd ac addysgu'r disgyblion ar sut y gall plannu coed a rheoli'r cynefinoedd hyn helpu i frwydro yn erbyn newid yn yr hinsawdd. | • Mae gan goedwig o'r enw Coed y Felin y tu ôl i Ysgol Syr Thomas Jones dros 11,000 o goed a blannwyd yn 2011 gan ddisgyblion o'r ysgol ac erbyn hyn mae'r safle hwn yn datblygu i fod yn gynefin ar gyfer amryfal anifeiliaid a phryfed.<br>• Mae grŵp o ddisgyblion o'r ysgol hon hefyd yn gwirfoddoli bob blwyddyn gydag Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru. | Yn fewnol | |

DRAFT

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | • Mae gan Ysgol Y Borth ardal bywyd gwyllt sy'n cynnwys pwll mawr o ddŵr a chynllun plannu coed sydd wedi bod yn rhedeg er y deng mlynedd diwethaf ac sydd wedi arwain at gynnydd sylweddol yn nifer y coed ar y safle.<br>• Mae Ysgol Corn Hir wedi cael coed gan Goed Cadw ac wedi creu ardal bywyd gwyllt yng nghae'r ysgol i sicrhau cynefin addas i adar. | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Contract Cynnal a Chadw Tiroedd Ysgolion | 2019 – 2022 | Dysgu | Mae'r contract hwn yn cynnwys y gofynion a ganlyn:<br><br>o Mae'r cemegyn a elwir 2:4:5 T (neu unrhyw sylwedd sy'n ei gynnwys) wedi'i wahardd rhag cael ei ddefnyddio yn holl eiddo'r Awdurdod.<br>o Bydd y contractwr yn sicrhau nad yw ei weithredoedd yn cael effaith ar unrhyw lystyfiant na nodwedd amgylcheddol ac mai'r Contractwr ei hun fydd yn talu unrhyw hawliadau am ddifrod. Yr awgrym yw prynu yswiriant priodol.<br><br>• Bydd yr elfennau hyn yn y contract yn cael eu monitro a'u rheoli'n barhaus trwy gydol y contract | | Contract | Uwch-dîm Arweinyddiaeth Gwasanaethau Dysgu |
| Rhaglen Ynni Goleuadau Stryd a Lleihau Carbon | 2012 - Parhaus | Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo (Adain Eiddo) | Mae'r Cyngor Sir yn gyfrifol am gynnal a chadw 9,801 o oleuadau stryd cyhoeddus ac 844 o arwyddion wedi'u goleuo a'r ynni y maent yn eu defnyddio.<br><br>Mae'r gwasanaeth wedi ymrwymo i barhau â'r gostyngiad mewn ynni a lleihau'r allyriadau carbon heb achosi newid andwyol i les pobl Ynys Môn. | Uwchraddio llusernau goleuadau stryd i lusernau LED ynni-effeithlon newydd. Mae'r llusernau LED newydd wedi profi i leihau llygredd golau, tresmasu golau, ymyrraeth ar olygfa, goleuo'r awyr wrth hefyd gyfyngu i'r eithaf ar olau llachar. Mae pob un ohonynt wedi gwella statws 'Awyr Dywyll' Ynys Môn.<br>Mae'r Awdurdod wedi derbyn cymorth ariannol trwy arian grant Salix ac mae bellach wedi cwblhau 99% o'r gwaith | Mewnol ac Allanol - Wedi'i reoli gan GSYM ond yn cael ei ddarparu gan Gontractwr Cynnal a Chadw Tîm Priffyrdd a Goleuadau Stryd. | Grŵp Tir ac Asedau |

DRAFT

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | uwchraddio. Mae'r fenter hon eisoes wedi lleihau'r ynni a’r carbon a ddefnyddir 2,247,000kwh a 1,538 tunnell yn y drefn honno er 2012. | | |
| Rhaglen Moderneiddio Ysgolion yr 21ain Ganrif | Parhaus | Dysgu / Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo (Adain Eiddo) | Wrth adeiladu tair ysgol newydd ym Mand A y rhaglen, gwelwyd ysgolion newydd yn Ysgol Cybi, Caergybi, Ysgol Rhyd y Llan, Llanfaethlu ac Ysgol Santes Dwynwen, Niwbwrch. Bydd yr ysgol olaf ym Mand A yn cychwyn yn ddiweddarach eleni.<br><br>Ymgynghorir ar gynlluniau ar gyfer Band B ar hyn o bryd a byddir yn canolbwyntio ar ardaloedd Llangefni, Amlwch a Seiriol. | Mae'r tair ysgol wedi cyflawni sgôr Ardderchog BREEAM.<br><br>Mae'r tair ysgol wedi ymgorffori ynni adnewyddadwy trwy bympiau gwres solar ffotofoltäig a ffynhonnell aer. | Mewnol ac Allanol - Dyluniad wedi'i Reoli ac Arweiniol gan GSYM gyda chymorth Ymgynghoryd d a chontractwr allanol. | Grŵp Moderneiddio Ysgolion |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Adeiladwyd Ysgol Rhyd y Llan o baneli waliau byrnau gwellt carbon isel ac enillodd y wobr Adeiladu Arbenigrwydd am Gynaliadwyedd yng Nghymru a ledled y Deyrnas Unedig.<br><br>Goleuadau LED wedi'u gosod ledled y safleoedd - yn fewnol ac yn allanol.<br><br>Systemau Rheoli Busnes wedi'u gosod ar bob adeilad fel bod modd monitro perfformiad adeilad o bell o ran ynni, gwres, awyru, canfod gollyngiadau, canfod namau ac ati.<br><br>Bydd pob prosiect ysgol newydd yn y dyfodol yn cynnwys pwyntiau gwefru ceir trydan. | | |

DRAFT

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Comisiynu Gwasanaethau Gofal. | Parhaus | Gwasanaethau Oedolion | Cynllun y Cyngor 2017 - 2022<br><br>"Byddwn yn gweithio tuag at<br><br>Ynys Môn sy'n iach, yn ffynnu<br><br>ac yn llewyrchus"<br><br>AMCAN 1<br><br>Sicrhau fod pobl Ynys Môn<br><br>yn gallu ffynnu a gwireddu eu potensial tymor hir.<br><br>• Cyflwyno gwasanaethau mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar y cwsmer ac sy'n gyson â gwerthoedd ac ymddygiadau craidd CSYM<br><br>Bydd pob cais Tendr yn y dyfodol yn gofyn i ymgeiswyr ddangos eu hymrwymiad i les economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yr Ynys gyfan.<br><br>Gofynnir hefyd i dendrau ystyried a dangos tystiolaeth o ddealltwriaeth o gadwyni caffael / cyflenwi moesegol a chaethwasiaeth fodern.<br><br>Bydd contractau'n nodi ac yn disgwyl yr isod: | Trawsnewid Gofal a Chymorth Cartref.<br><br>Roedd y broses dendro'n ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr:<br><br>• Ddangos y gallu i ddarparu gwasanaethau sensitif a phriodol i Ynys Môn gyfan<br>• Ymrwymo i les Economaidd, Cymdeithasol ac Amgylcheddol yr Ynys gyfan.<br>• Dangos nodwedd unigryw'r sefydliad fydd yn ychwanegu gwerth i ddefnyddwyr a chomisiynwyr<br><br>Symudodd y gwaith ailfodelu ddarparwyr o bob rhan o'r Ynys i froÿdd bychain. Parodd hyn i staff deithio'n sylweddol lai wrth gynnig gwell canlyniadau i'r unigolion a gefnogwyd.<br><br>Mae symud i froÿdd llai hefyd wedi helpu i | Grwpiau mewnol, allanol, gwasanaeth cyhoeddus a chymunedol | ?? |

DRAFT

DRAFT

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | <u>Economaidd:</u><br>• Cyflogi Pobl Leol o'r Cymunedau Lleol y maent yn eu gwasanaethu<br>• Talu o leiaf Gyflog Byw<br>• Gwarantu oriau i staff, fel eu bod yn gallu cael morgeisi.<br>• Datblygu staff trwy'r Fframwaith Cymwysterau a Chredyd - cynyddu lefelau sgiliau / cyflogadwyedd yn y dyfodol<br>• Prynu nwyddau yn lleol - arlwyo / deunydd ysgrifennu / offer.<br>• Cyflogi unigolion ag Anabledd<br><u>Cymdeithasol:</u><br>• Creu llyfrgell o wasanaethau / grwpiau / mwynderau lleol yn Ynys Môn<br>• Gwneud y mwyaf o gyfleoedd i Ddefnyddwyr Gwasanaeth gael mynd i'r gymuned<br>• Cefnogi grwpiau / pwyllgorau lleol<br>• Dewis - "Cynnig Gweithredol" - darparu gwasanaeth trwy ddewis iaith y defnyddiwr gwasanaeth.<br><u>Amgylcheddol:</u><br>• Lleihau amser teithio rhwng ymweliadau gofal<br>• Arddangos mentrau fel biniau ailgylchu, paneli solar ac ati.<br>• Cefnogi Defnyddwyr Gwasanaeth i arbed dŵr / nwy / trydan<br>• Cefnogi ailgylchu<br>• Monitro Galwadau Electronig - lleihau'r angen am rotas papur a thaflenni amser. | ddatblygu ac ysgogi'r economi lleol trwy gadw recriwtio yn lleol ac yn gynaliadwy.<br><br>Mae telerau'r contract yn nodi bod yn rhaid i gyflogwyr dalu o leiaf y cyflog byw cenedlaethol i'w staff ac na ddylid defnyddio contractau Dim Oriau – fel bod modd i'r gweithwyr gael mwy o sicrwydd gyda'u swydd | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | • Defnyddio hyfforddiant ar-lein (lle bo hynny'n briodol) / skype ac ati - lleihau teithio i staff.<br>• Gweithio gyda darparwyr tai i sicrhau bod cartrefi wedi'u hinswleiddio, lle bo angen. | | | |
| Rheoli Risg Llifogydd ac Erydiad Arfordirol (FCERM)<br><br>Rhaglenni Grantiau | Parhaus | Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo<br><br>(Adain Eiddo) | Mae'r adran yn dilyn Strategaeth Leol Rheoli Risg Llifogydd yr Awdurdod ac yn ymchwilio i ddigwyddiadau llifogydd. Lle bo hynny'n briodol, mae'n gwneud cais i Lywodraeth Cymru am Gymorth Grant i gynnal Astudiaethau a Chynlluniau i addasu i effeithiau Newid Hinsawdd. | Ymhlith y gwaith a gwblhawyd yn flaenorol mae:<br><br>Morglawdd Biwmares a wal bae Trearddur / amddiffynfeydd arfordirol.<br><br>Mae'r sefyllfa bresennol fel a ganlyn.<br><br>Gwaith ar y safle ar hyn o bryd;<br><br>• Lliniaru Llifogydd Biwmares Mae gwaith ar y safle’n parhau a rhagwelir y bydd wedi'i gwblhau yng ngwanwyn 2020.<br><br>• Nant Y Felin, Pentraeth | Mae tîm llifogydd a thîm Cynnal a Chadw Priffyrdd yn gweithio gyda'i gilydd i gofnodi ac ymchwilio i ddigwyddiadau llifogydd ac mae Cynnal a Chadw Priffyrdd yn gweithredu cynlluniau bychain FCERM gyda chymorth grant.<br><br>Mae cynlluniau mawr yn cael eu rheoli gan Brosiectau Mawr yn yr Adran Briffyrdd gydag astudiaethau ac achosion busnes yn cael eu cynnal i raddau helaeth gan ymgynghorwyr | Pennaeth Gwasanaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo.<br><br>A’r<br><br>Bwrdd Trawsnewid. |

DRAFT

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Mae'r gwaith ar y safle'n parhau a rhagwelir y bydd wedi'i gwblhau yn haf 2020.<br><br>• Maes Hafoty, Llansadwrn<br><br>Mae'r gwaith ar y safle yn parhau a rhagwelir y bydd wedi'i gwblhau ym mis Mawrth 2020.<br><br>• Cynlluniau Graddfa Fechan (gwerth hyd at £100k). Gwaith yn parhau neu i'w gwblhau erbyn mis Mawrth 2020<br><br>□ Dwyran<br><br>□ Llangristiolus<br><br>□ Rhos yr Aur, Niwbwrch<br><br>□ Bryn Cadnant<br><br>□ Lôn Ravenspoint<br><br>□ Lôn Caergybi, Llanfair<br><br>□ Tŷ'n Pwll, Llangoed<br><br>□ Mill Lane - Biwmares - prynu dyfais glanhau trawstiau sylfaen ymlaen llaw (i'w osod yn y strwythur newydd yn haf 2020) | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Achosion Busnes Amlinellol wedi'u cwblhau<br><br>• Porthaethwy - Dalgylch Penlon<br><br>Achos Busnes yn cael ei ystyried gan Lywodraeth Cymru. Os bydd yn llwyddiannus, rhagwelir y bydd y cam dylunio a datblygu'n cymryd o leiaf 12 mis<br><br>• Llanfairpwll<br><br>Achos Busnes yn cael ei ystyried gan Lywodraeth Cymru. Os bydd yn llwyddiannus, rhagwelir y bydd y cam dylunio a datblygu'n cymryd o leiaf 12 mis<br><br>• Y Fali<br><br>Achos Busnes yn cael ei ystyried gan Lywodraeth Cymru. Os bydd yn llwyddiannus, rhagwelir y bydd y cam dylunio a | | |

DRAFT

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | datblygu’n cymryd 6 i 12 mis<br><br>Achosion Cyfiawnhad Busnes wedi'u cwblhau<br><br>• Mill Lane, Biwmares<br><br>Achosion Cyfiawnhad Busnes yn cael eu hystyried gan Lywodraeth Cymru ar gyfer strwythur newydd ym Mill Lane, Biwmares ar gyfer dyfais glanhau trawstiau sylfaen newydd<br><br>Achosion Busnes Amlinellol yn parhau<br><br>• Caergybi<br><br>Achos busnes amlinellol yn cael ei baratoi, gan gydweithredu â Dŵr Cymru ar fodelu. Rhagwelir y bydd wedi'i gwblhau yn hydref 2020 ar gyfer ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.<br><br>• Amlwch<br><br>Achos busnes amlinellol yn cael ei baratoi, gan gysylltu â Chyfoeth Naturiol Cymru ar agwedd o’r Brif Afon. Rhagwelir y bydd wedi'i gwblhau yn haf | | |

DRAFT

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | 2020 ar gyfer ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.<br><br>Cynlluniau Rheoli Risg Arfordirol<br><br>• Traeth Coch<br><br>Y cam Dylunio a Datblygu ar fin cychwyn. Disgwyl cyfnod o 12 mis.<br><br>• Brynsiencyn<br><br>Y cam Dylunio a Datblygu yn parhau. Disgwyl iddo gael ei gwblhau ym mis Mehefin 2020.<br><br>• B5109 - Llanfaes<br><br>Nid yw'r cynllun hwn wedi llwyddo i gael arian grant, gan nad oes unrhyw gartrefi'n cael eu gwarchod. Mae'n flaenoriaeth i'r Gwasanaeth Priffyrdd, oherwydd bod y ffordd yn fregus ac ar gau'n aml oherwydd llifogydd (y llanw a'r afon). Rydym yn pwyso ar Lywodraeth Cymru i ystyried cynlluniau cyllido lle mae bygythiad i gysylltedd cymunedau ac yn ystyried y gronfa cadernid Newid Hinsawdd | | |

DRAFT

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | a gyhoeddwyd yn ddiweddar fel ffynhonnell ariannu bosibl.<br><br>• Cynlluniau Graddfa Fechan ar gyfer 2020-21. Rydym yn rhagweld, yn fuan, wahoddiad i wneud cais am gynlluniau ar raddfa fechan ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21 a chredwn y bydd y gwahoddiad yn annog ceisiadau gwerth hyd at £200k. Mae rhestr yn cael ei pharatoi gan gynnwys gwaith ym Menllech.<br><br>Cynllun Rheoli'r Traethlin<br><br>Mae'r cynllun rheoli'r traethlin yn cyflwyno canllawiau polisi ar warchod yr arfordir o amgylch yr arfordir. Mae'n adlewyrchu newid yn yr hinsawdd ac yn darogan cynnydd yn lefel y môr ac yn nodi'r polisi i'w ddilyn ar rannau unigol o'r arfordir.<br><br>O amgylch Arfordir Ynys Môn mae gennym 12 lleoliad lle mae'r canllawiau polisi yn newid wrth i amser fynd yn ei flaen, o ddal y llinell i fynd | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | yn ôl dan reolaeth ac mewn dau achos, dim ymyrraeth weithredol. Mae angen rhagor o waith er mwyn nodi'r heriau a gyflwynir gan y newidiadau polisi hyn yn yr ardaloedd hyn o Ynys Môn. | | |
| Grant HWB – Trawsnewid TG mewn Addysg | 2019-2023 | Addysg/TG | Grant Llywodraeth Cymru i drawsnewid TGCh mewn Addysg. Nod y grant yw safoni caledwedd mewn ysgolion i sicrhau bod digon o adnoddau TGCh ar gyfer disgyblion. Mantais weddilliol hyn yw sicrhau y caiff ymarferion caffael eu cysoni. Rhaid i'r holl offer gydymffurfio â safonau amgylcheddol a rhaid i'r pecynnu gydymffurfio â pharamedrau caeth, megis cynnwys cardbord wedi'i ailgylchu, dim pecynnu plastig dros ben ac ati. | Mae rownd gyntaf caffael wedi arwain at gaffael offer rhwydwaith sy'n fwy effeithlon, fydd yn arwain at ostyngiad yn yr ynni a ddefnyddir wrth ei osod. Mae'r ail rownd wedi sefydlu set o safonau y mae ail rownd gaffael yn yn eu defnyddio ar hyn o bryd ar gyfer dyfeisiau defnyddwyr. Yn y pen draw, bydd hyn yn gwneud i ffwrdd â'r offer hŷn oedd yn defnyddio mwy o ynni ac, felly, yn gostwng ôl troed TG mewn ysgolion. | Mewnol | Bwrdd Prosiect HWB– Rhys H Hughes (Cadeirydd) |

DRAFT

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Adran TGCh | Parhaus | TG | Mae'r adran TGCh yn cysoni ei chynlluniau Seilwaith TGCh i sicrhau y caiff yr effaith amgylcheddol ei hasesu wrth ystyried cynlluniau seilwaith. Bydd angen i unrhyw feddalwedd sy'n cael ei rhedeg yn y cwmwl ddangos safonau amgylcheddol ei chronfeydd data. Bydd unrhyw galedwedd a brynir hefyd yn cael ei sgorio yn ôl effeithlonrwydd. Ar hyn o bryd yn gweithio gyda'r adran eiddo trwy'r prosiect Re:Fit i ystyried dewisiadau amgen posibl i oeri'r cronfeydd data. | Mae nifer o weinyddion wedi'u creu o un gweinydd, gan arwain at ddefnyddio llai o ynni. Mae polisïau arbed ynni cyfrifiaduron personol wedi'u ffurfweddu. Mae dyfeisiau defnyddiwr yr awdurdod yn cael eu caffael trwy fframwaith sy'n rhoi sgôr am effeithlonrwydd ynni a math y pecynnu. | Mewnol | Rheolwr Tîm TGCh |
| Rheoli Gwastraff | Parhaus | Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Gwneir ein holl waith ailgylchu ar Ynys Môn oherwydd gofynion strategaeth gwastraff genedlaethol Llywodraeth Cymru, “Tuag at Ddyfodol Diwastraff”. Amcan sylfaenol y strategaeth hon yw lleihau effaith carbon. Yn gryno, mae'r llwybr ailgylchu yr ydym yn ei ddilyn wedi'i gysylltu'n uniongyrchol â helpu'r amgylchedd. | | Mewnol / Allanol | |
| Môn Glân a Gwyrdd | Parhaus | Rheoli Gwastraff | Yn dilyn y cyhoeddiad yn nodi bod Ynys Môn bellach yn Ddiblastig, roedd angen llawer o waith i ennill y statws hwnnw mewn gwirionedd. Arweiniwyd y prosiect cyfan hwn o dan y rhagdybiaeth na fyddai unrhyw gyllid ac mae llawer o waith wedi'i wneud i wella'n fewnol | Statws:<br><br>Dim nwyddau plastig untro yn rhad ac am ddim i'w defnyddio yn y Primin. Mae trafodaethau wedi’u cynnal a byddir yn rhoi gwybod i adrannau maes o law i beidio â defnyddio nwyddau plastig untro. | | |

DRAFT

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Tynnwch Boteli Plastig o beiriannau gwerthu - Gwelir cynnydd cyson lle gall ein gwelliant cyntaf arwain at arbediad o 80% yn y gofyn am blastig yn y prif swyddfeydd a 40% ym mhob Canolfan Chwaraeon<br><br>Contractau Arlwyo Ysgol - Cynhaliwyd trafodaethau i roi gwybod i ymgeiswyr am bwysigrwydd hyn. Mae modd gweld gwelliant posibl ond y risg yw y bydd y contract yn costio mwy i'r awdurdod.<br><br>Parhewch i Fynd i Ysgolion a chynnig ymweliadau safle. Rydym ni, fel y Tîm Rheoli Gwastraff, bellach mewn sefyllfa i allu mynd o amgylch ysgolion a rhoi sgyrsiau i fyfyrwyr ar yr hyn y mae modd, ac nad oes modd, ei ailgylchu a fyddai, yn ei dro, yn cynyddu ailgylchu.<br><br>Gosod Offer Dŵr yn Niwbwrch ac ar Lwybrau Arfordirol. Mae Alun Owen wedi gwneud gwaith gwych yn sicrhau grant i | | |

DRAFT

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | allu ariannu gorsafoedd ail-lenwi mewn cyrchfannau poblogaidd ar yr ynys.<br><br>Cynllun Terracycle - Mae Siop Ellis yn Llangefni wedi bod yn garedig a chytuno i dderbyn ein gwastraff swyddfa cyhyd â bod popeth yn ei le. Mae pedair menter yr hoffwn inni gymryd rhan ynddynt – Papur am Siocled, Pecynnau Crisp, Pecynnu Bisgedi ac offer Ysgrifennu.<br><br>Symud i Barc Adfer - Mae gwastraff gweddilliol cartref bellach yn cael ei gludo i Barc Adfer yn hytrach nag i'n darparwr blaenorol, sef Andusia yn Sweden. Mae hynny, ynddo'i hun, yn arbed llawer ar allyriadau'r cludo'n unig. | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Strategaeth Rheoli Asedau'r Cyfrif Refeniw Tai | 2018-23 | Gwasanaethau Tai | Mae gan y Strategaeth chwe amcan:<br><br>• Angen Data Stoc a Buddsoddi<br>• Rheoli Asedau Gweithredol<br>• Cynllunio Buddsoddi<br>• Gwneud y mwyaf o enillion<br>• Fforddiadwyedd a Hyfywedd<br>• Cynllun Cyflenwi | | | |
| Rhaglen Cynnal a Chadw Gynlluniedig | 2013 - Parhaus | Gwasanaethau Tai | Yn ystod 2013 cychwynnodd y Gwasanaeth ar gyfnod newydd o Gontractau Cynnal a Chadw Cynlluniedig Traddodiadol ar ôl cwblhau'r Rhaglen Buddsoddi Mewnol yn llwyddiannus a sicrhau cydymffurfiaeth â Safonau Ansawdd Tai Cymru.<br><br>Sbardun allweddol ar gyfer penderfynu oes angen buddsoddi a blaenoriaethu hynny yw graddfeydd ynni eiddo, a bydd hynny'n parhau.<br><br>Ymhlith y contractau cynnal a chadw cynlluniedig a ddyfarnwyd ar gyfer 2020/21 mae eiddo nad ydynt ar rwydwaith nwy o'r prif gyflenwad ac, ar hyn o bryd, sydd â sgôr ynni is na thargedau Safonau Ansawdd Tai Cymru. | Lle bynnag y bo hynny'n ymarferol, mae eiddo sydd â waliau solet wedi'u hinswleiddio'n allanol.<br><br>Er 2013, mae 719 eiddo wedi elwa o gontractau cynnal a chadw cynlluniedig traddodiadol. Yn nodweddiadol, mae contractau'n cynnwys y mesurau arbed ynni a ganlyn:<br><br>Inswleiddio Waliau Allanol;<br><br>Inswleiddio Waliau Ceudod o'r newydd;<br><br>Gosodiadau solar ffotofoltäig;<br><br>Ffenestri a drysau newydd; | Mewnol | Cynllun Busnes Blynyddol wedi'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith, y Cyngor Llawn a Llywodraeth Cymru |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Mwy o inswleiddio yn y llofftydd.<br><br>Yn ystod 2020/21 bydd gwaith yn parhau ar ddau gontract sy'n cynnwys 120 eiddo. Mae gan yr eiddo hyn yn Aberffraw, Rhosneigr, Llangoed a Llanddona swmp o LPG fel prif ffynhonnell tanwydd. | | |
| Newid tanwydd | 2012 - 15 | Gwasanaethau Tai | Gweithiodd y Gwasanaethau Tai mewn partneriaeth â Chymru a West Utilities a Nwy Prydain er mwyn asesu a fyddai modd ymestyn y rhwydwaith nwy fel prif gyflenwad yn Ynys Môn.<br><br>O ganlyniad, mae 230 eiddo arall yn elwa o gysylltiadau nwy fel prif gyflenwad. | Ymhlith y rhai nodedig oedd yn elwa ar y cynllun hwn ‘roedd pentrefi Llannerch-y-medd a Llanfaes, ynghyd â Stad Tyddyn Mostyn ym Mhorthaethwy.<br><br>Mae pob eiddo yn elwa ar sgôr ynni uwch a llai o olion traed carbon. | Partneriaid Mewnol ac Allanol | |

DRAFT

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Insiwleiddio Atigau | 2012 - 15 | Gwasanaethau Tai | Mewn partneriaeth â Nwy Prydain, cyflwynwyd rhaglen dreigl o osod neu gynyddu dyfnder gwaith inswleiddio atigau er budd y Stoc Dai. | Dros 1300 o osodiadau yn cyfrannu at dargedau effeithlonrwydd ynni ac yn helpu i aelwydydd gael cynhesrwydd y gallant ei fforddio. | Partneriaid Mewnol ac Allanol | |
| Ynni Adnewyddiadwy | 2011 - Parhaus | Gwasanaethau Tai | Mae'r Gwasanaeth Tai yn gosod offer Solar Ffotofoltäig lle bynnag y bo hynny'n ymarferol yn ystod Cynlluniau Cynnal a Chadw Cynlluniedig a chynlluniau Solar Ffotofoltäig annibynnol.<br><br>Mae cynhyrchu trydan solar ffotofoltäig yn rhad ac am ddim i'r defnyddiwr, fydd yn cynorthwyo i ddileu tlodi tanwydd. | Mae 503 o'r stoc dai yn elwa ar Solar Ffotofoltäig.<br><br>Mae gan 87 eiddo arall osodiadau Thermol Solar.<br><br>Yn ystod 2019 gwelodd cynllun solar ffotofoltäig, oedd yn cynnwys 36 eiddo a wasanaethir gan swmp LPG, gynnydd ar gyfartaledd o 53 i 73 mewn cyfraddau EPC (tystysgrif Perfformiad Ynni). | Mewnol | |
| Cydymffurfio â Safonau Ansawdd Tai Cymru | Parhaus | Gwasanaethau Tai | Sgôr SAP o 665 yw targed perfformiad ynni Safon Ansawdd Tai Cymru.<br><br>Cadarnhaodd arolwg llawn o gyflwr y stoc a gyhoeddwyd yn ystod 2011 mai 63 oedd y sgôr gyfartalog ar gyfer y stoc tai. | Yn ystod 2019/20, mae sgôr ynni (Gweithdrefn Asesu Safonol) dros 1000 o eiddo wedi'i ailasesu i fesur graddfeydd ynni uwch. Mae cyfraddau cyfartalog yr eiddo hyn wedi | Aseswyr Ynni Annibynnol Mewnol ac Allanol | Adroddiadau cyfnodol a ffurflenni ystadegol blynyddol i Lywodraeth Cymru. |

DRAFT

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Mae'r targedau a ganlyn ym Mholisi Cydymffurfio'r Gwasanaeth Tai â Safonau Ansawdd Tai Cymru<br>• Graddfa EPC ar gyfartaledd o 70 ar draws y stoc gyfan<br>• Bydd gan 90% o'r stoc sgôr o 65 neu'n uwch<br>Mae Cynllun Busnes 30 mlynedd y Gwasanaeth Tai yn fodd i adnewyddu bwyleri gwres canolog bob 15 mlynedd. | cynyddu o 68 ar gyfartaledd i 75<br>Mae perfformiad ynni stoc cyfartalog cyffredinol bellach wedi cyrraedd 70 (Band C) | | Y Bwrdd Tai |
| Caffael | Parhaus | Gwasanaethau Tai | Ymhlith y contractau mawr a gaffaelwyd gan Dai mae Recriwtio a Hyfforddi wedi'u Targedu, Manteision Cymunedol Ehangach a gofynion Cyfleoedd y gadwyn gyflenwi.<br>Ymhlith yr elfennau allweddol mae<br>• Hyfforddiant a recriwtio<br>• Cyfleoedd y gadwyn gyflenwi leol<br>• Manteision cymunedol ehangach sy'n gysylltiedig â'r ardal leol<br>• Cwblhau Offeryn Mesur Budd Cymunedol Gwerth Cymru ar ôl cwblhau'r contract<br>Mae'r holl gyfleoedd tendro cyfalaf yn cael eu hysbysebu trwy'r porth gwerthwchigymru.<br>Gweledigaeth y Gwasanaeth Tai yw sicrhau bod contractwyr lleol a chadwyni cyflenwi'n cael pob cyfle i gystadlu am gontractau cyfalaf blynyddol.<br>Bydd dyfarnu contractau i gyflenwyr lleol sy'n defnyddio'r gweithlu lleol yn cyfrannu at leihau | Er 2013, dyfarnwyd 82%o Gontractau Cynnal a Chadw Cynlluniedig Traddodiadol i gontractwyr yng Ngogledd-orllewin Cymru.<br>Mae 59% o'r contractau uchod wedi'u dyfarnu i gontractwyr yn Ynys Môn. | Yn fewnol gyda chontractwyr allanol | Pecynnau Cymorth Gwerth a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ac a fonitrwyd ganddi |

DRAFT

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | carbon wrth hyrwyddo gwaith creu swyddi a chadw swyddi. | | | |
| Adeilad newydd (tai cymdeithasol partneriaid y Cyngor a Landlordiaid Cymdeithasol Rhestredig) | Parhaus | Gwasanaethau Tai | Mae cyrraedd cyfradd uchaf yr EPC yn flaenoriaeth ar gyfer adeiladau newydd | Os yw eiddo yn rhedeg oddi ar ffynhonnell aer rhwydwaith nwy, gosodir pympiau gwres | Yn fewnol yn ogystal â gweithio gyda Landlordiaid Cymdeithasol Rhestredig sy'n bartneriaid | Bwrdd Gwasanaethau Tai |



DRAFT

**ATODIAD D**

# Gwasanaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo

# Awgrymiadau Ymarfer Gorau i Fynd i'r Afael â Newid Hinsawdd ac Argymhellion i'w hystyried

DRAFT

## Tachwedd 2020

**Awduron:**
**Simon J. Franco & Dylan Ll. Jones**

## 1.0 Pwrpas

1.1 Rhoi trosolwg o weithgareddau ymarfer gorau cyfredol y gellid eu mabwysiadu i gyfrannu at fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd yn lleol.

1.2 Cynnig argymhellion ar sut y gallai CSYM symud ymlaen wrth gyfrannu at fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd yn dilyn y cyhoeddiad argyfwng hinsawdd ddiweddar.

## 2.0 Cyd-destun

2.1 Mae Cytundeb Paris 2015 wedi sefydlu cynllun ar gyfer datgarboneiddio'r economi fyd-eang.

2.2 Llywodraeth y DU oedd yr economi fawr gyntaf i basio cyfraith allyriadau sero-net ym mis Mehefin 2019. Mi fydd y targed newydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r DU ddod â'r holl allyriadau nwyon tŷ gwydr i sero-net erbyn 2050, o gymharu â'r targed blaenorol o ostyngiad o 80% o leiaf, o gymharu â lefelau 1990. Argymhellodd y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd, sef corff cynghori hinsawdd annibynnol y DU, un o’r targedau mwyaf uchelgeisiol yn y byd, sef y targed sero-net erbyn 2050. Mae sero-net yn golygu y byddai unrhyw allyriadau yn cael eu cydbwyso gan gynlluniau i dynnu swm cyfatebol o nwyon tŷ gwydr o'r atmosffer, megis plannu coed neu ddefnyddio technoleg fel dal a storio carbon.

2.3 Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi targed i gyflawni sector cyhoeddus di-garbon net yng Nghymru erbyn 2030. Mae Llywodraeth Cymru a dros hanner yr holl awdurdodau lleol wedi datgan argyfwng hinsawdd hyd yma gyda'r bwriad o weithredu ar newid yn yr hinsawdd yn eu sefydliad a / neu'r ardal leol.

2.4 Ym mis Medi 2020, Ddatganodd CSYM argyfwng hinsawdd i sicrhau statws carbon niwtral erbyn 2030.

2.5 Mae'r argymhellion a amlinellir yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar wybodaeth a gafwyd o nifer o gynadleddau a gweminarau diweddar fel y crynhoir yn y tabl isod:

| Digwyddiad | Dyddiad | Crynodeb o'r cynnwys | |
|---|---|---|---|
| Newid Hinsawdd Cymdeithas Lywodraeth Leol 2020 | 17-18/09/2929 | • Buddsoddiadau<br>• Adferiad Gwyrdd<br>• Ymgysylltu<br>• Cyfathrebu<br>• Argyfwng Hinsawdd<br>•Strategaeth/ Arweinyddiaeth | • Targedau Sero Net<br>• Blaenoriaethau<br>• Partneriaethau<br>• Metrigau<br>• Teithio / Trafnidiaeth<br>• Caffael |
| Bord Gron Rithwir ar Argyfwng Hinsawdd | 25/09/2020 | • Cyd-destun Polisi<br>• Gweithredu Hinsawdd ar Gyllidebau | • Cefnogi Awdurdodau Lleol<br>• Ymarfer Da Amgylcheddol |
| Cynhadledd Cysylltiadau Carbon Isel - Datgarboneiddio Gwres a Thrafnidiaeth | 30/09/2020 | • Canolbwyntio ar y mapiau Trafnidiaeth sydd newydd eu cynhyrchu o'r prosiect Gwefru Cerbydau Trydan | • Datgarboneiddio Gwres |
| Cloi i Mewn Ymddygiad Cadarnhaol a Manteision Gweminar Adferiad Gwyrdd | 02/10/2020 | • Cloi i mewn ymddygiadau cadarnhaol a manteision adferiad gwyrdd | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| DATGANIADAU ARDAL GOGLEDD-ORLLEWIN CYMRU (CYFOETH NATURIOL CYMRU | 16-27/11/2020 | • Datganiadau Ardal, gadewch inni adolygu ble'r ydym.<br>• Argyfwng hinsawdd a'r amgylchedd.<br>• Ailgysylltu pobl â natur | • Annog economi cynaliadwy.<br>• Ffyrdd o weithio.<br>• Cyfleoedd ar gyfer ecosystemau cydnerth |

## 3.0 Arwain strategaeth ar yr hinsawdd

3.1 Y cam cyntaf tuag at sicrhau strategaeth hinsawdd gyraeddadwy yw gweledigaeth gadarnhaol ac ymarferol. Amlinellir rhai o'r ystyriaethau allweddol sy'n ofynnol isod:

| | |
|---|---|
| **Parodrwydd technegol** | A yw'r technolegau / ymddygiadau sydd eu hangen i leihau allyriadau carbon ar gael ac yn barod i'w defnyddio? |
| **Parodrwydd polisi** | A yw cynlluniau a pholisïau sydd mewn lle yn cefnogi'r gwaith sydd ei angen? |
| **Parodrwydd ariannol** | A oes cyllid ar gael? A oes opsiynau y gellir buddsoddi ynddynt yn y modelau busnes sy'n barod i'w defnyddio? |
| **Parodrwydd cymunedol** | A yw'r gymuned ehangach, aelodau'r cyhoedd a busnesau yn cefnogi'r camau sydd eu hangen? |
| **Parodrwydd dosbarthu** | A yw'r sgiliau a'r cadwyni cyflenwi angenrheidiol yn barod? |

3.2 Mae'r siart isod yn crynhoi rhai o'r prif elfennau wrth integreiddio newid yn yr hinsawdd ym mhenderfyniadau'r cyngor:

Datganiad Argyfwng Hinsawdd

Llythrennedd / ymwybyddiaeth carbon i staff

Cynllun buddsoddi

Integreiddio'r newid yn yr hinsawdd i'r holl benderfyniadau.

Adolygiadau ac adroddiadau blynyddol

Dylai polisïau newydd gyfrannu at y ddatganiad argyfwng hinsawdd, gan gynnwys yr holl gynigion cynllunio mawr.

## 4.0 Blaenoriaethau lleol wrth ddarparu sero-net

4.1 Ni ellir cyrraedd targedau datgarboneiddio ar lefel genedlaethol yn unig ac mae'n bwysig bod awdurdodau lleol yn chwarae rhan ar lefel ranbarthol a lleol.

4.2 Mae newid yn yr hinsawdd yn fater trawsbynciol. Mae angen ei ystyried ym mhob gweithgaredd gweithredol a wneir gan yr awdurdod lleol. Mae gan awdurdodau lleol ddylanwad neu reolaeth uniongyrchol o fewn sawl maes sy'n hanfodol wrth gyflawni sero-net. Rhestrir rhai ohonynt isod:

| | |
|---|---|
| Rheolaeth Uniongyrchol | •Adeiladau<br>•Teithio |
| Caffael | •Nwyddau a gwasanaethau |
| Siapio lle | •Y gallu i reoli datblygiad a thrafnidiaeth |
| Arddangos | •Arloesi, treialu, arddangos a gwobrwyo ymarfer da |
| Cyfleu a chyfrannu | •Dod â phobl a sefydliadau at ei gilydd |
| Ymgysylltu | •Trosi targedau hinsawdd byd-eang a chenedlaethol ar gyfer y lefel leol |


DRAFT

## 5.0 Awgrymiadau i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd

5.1 Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn rhoi trosolwg o'r themâu a godwyd fel ymarfer gorau mewn cynadleddau diweddar y dylai CSYM eu hystyried wrth fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd yn lleol.

### 5.2 Rhoi Cynllun Gweithredu ar Waith

5.2.1 Mae rhai o'r camau sydd eu hangen ar ôl datgan argyfwng hinsawdd fel a ganlyn:




| | |
|---|---|
| PERCHNOGI | Uwch berchennog i gydlynu gweithredu ar yr hinsawdd ar draws gwasanaethau a swyddogaethau. |
| DEALL | Asesu achosion allweddol lleol ac effaith newid yn yr hinsawdd i lywio ffocws. |
| CYNLLUNIO | Gosod targedau, cerrig milltir ac amserlen ar gyfer cyflawni gweithredoedd. |
| CYDWEITHIO | Ni all yr Awdurdod Lleol wneud yr holl waith sy'n ofynnol ar ei ben ei hun. Mae angen ymgysylltu â busnesau, sefydliadau ac unigolion. |
| BLAENORIAETHU | Darganfod pa gamau a all gael yr effaith fwyaf. |
| CYLLIDEB | Costio gweithredoedd a pharatoi cynlluniau busnes. |
| BUDDSODDI | Sicrhau buddsoddiad |
| GWEITHREDU | Amlinellu rhaglen weithredu |
| MONITRO | Casglu data ar ganlyniadau a pherfformiad a'u defnyddio i yrru cynnydd parhaus |

## 5.3 Cludiant Cynaliadwy

5.3.1 Mae'r heriau a'r rhwystrau i deithio cynaliadwy yn cynnwys canfyddiad ynghylch diogelwch, gwrthdaro / rhannu rhwydweithiau ffyrdd rhwng gwahanol grwpiau defnyddwyr, gorddibyniaeth ar geir preifat mewn ardaloedd gwledig.

5.3.2 Mae yna nifer o gyfleoedd y gellid eu hystyried wrth ddatgarboneiddio'r sector trafnidiaeth. Mae'r rhain yn cynnwys: brwdfrydedd ac awydd i feicio a cherdded ers y pandemig Covid-19, Deddf Teithio Llesol 2013 a blaenoriaethau sy'n gysylltiedig â'r Ddeddf fel y'u nodwyd gan Lywodraeth Cymru, sut y gall teithio mwy llesol gyfrannu tuag at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

5.3.3 Gallai cyfrannu at fentrau newid yn yr hinsawdd gynnwys: buddsoddi mewn seilwaith i wella'r ddarpariaeth beicio a cherdded, treialon e-feiciau, cerbydau fflyd trydan, mannau gwefru cerbydau trydan, cyfleusterau parcio a theithio, unigolion i leihau dibyniaeth ar gar preifat (cymhellion ariannol), ymgysylltu â thrigolion lleol i ddeall rhwystrau pobl mewn perthynas â theithio llesol a cheisio cael dealltwriaeth o'u dyheadau a chreu cynllun trafnidiaeth lleol addas i bwrpas.

5.3.4 Mae datgarboneiddio'r sector trafnidiaeth yn ffactor allweddol wrth fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Gellid cyflawni hyn trwy greu cynllun trafnidiaeth lleol addas i bwrpas.

## 5.4 Dylanwadu ar Ymddygiad Dynol

5.4.1 Mae newid yn yr hinsawdd yn gofyn am newid ymddygiad. Mae integreiddio gwyddoniaeth ymddygiad dynol yn sylfaenol wrth geisio sicrhau newid o fewn sefydliad ac mae'n hanfodol ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd. Rhaid i gymdeithas newid y ffordd rydym yn cynhesu ein cartrefi a'n swyddfeydd, yn teithio ac yn defnyddio cynnyrch a gwasanaethau. Mae hyn yn golygu fod angen gweithredu ar lefel unigol ac mae'n gofyn am newid ar lefel gymdeithasol ehangach hefyd.

5.4.2 Mae nifer o ddylanwadau ar ymddygiad megis teithio neu effeithlonrwydd ynni yn y cartref. Un o'r rhwystrau mwyaf i newid ymddygiad yw newid arferion dynol. Mae arfer dynol yn arwain at gulni meddyliol lle bydd yr un ymddygiad yn cael ei ailadrodd nes y gellir tarfu ar arfer penodol trwy newid neu ddigwyddiad.

5.4.3 Gall addysg a gwybodaeth yn yr ysgol neu'r colegau ddylanwadu ar ymddygiadau'r genhedlaeth nesaf o ran newid yn yr hinsawdd a materion fel ailgylchu a gallant ddylanwadu ar eu rhieni / teuluoedd. Gallai hyn fynd ymhellach trwy gyflwyno newid yn yr hinsawdd fel rhan o gwricwlwm yr ysgol. Fodd bynnag, mae hefyd angen ymyrraeth yn y gweithle ac mae angen ei ddatblygu fel y 'norm cymdeithasol'. Gallai gweithgareddau gynnwys sesiynau hyfforddi ar newid yn yr hinsawdd, ei ymgorffori fel rhan o'r broses gynefino, cyflwyno polisi mewnol ar newid yn yr hinsawdd, a hyrwyddo pencampwyr newid yn yr hinsawdd ym mhob Gwasanaeth i gyflwyno newid ymddygiad e.e. posteri / cyngor ar ailgylchu / lleihau'r defnydd o drydan.

DRAFT

5.4.4 Gellir defnyddio'r fframwaith isod er mwyn sicrhau newidiadau mewn ymddygiad:

**Hawdd -** Mae pobl yn dueddol o gymryd y llwybr o wrthwynebiad lleiaf. Felly gallwch annog ymddygiadau dymunol trwy gael gwared ar fân broblemau neu drafferthion, trwy gyfeirio pobl at y dewis dymunol yn ddiofyn, neu trwy ailgynllunio'r ffordd y mae dewisiadau'n cael eu cyflwyno i wneud yr ymddygiadau dymunol yn haws.

**Deniadol -** Mae pobl yn fwy tebygol o fabwysiadu ymddygiad pan fydd yn dal ein sylw neu'n cyd-fynd â'n cymhelliant a'n credoau. Gallwch dynnu sylw gyda chiwiau gweledol sy'n arbennig o berthnasol neu amlwg, a siapio cymhelliant trwy bwysleisio'r pethau cadarnhaol a defnyddio cymhellion.

**Cymdeithasol -** Mae ymddygiad pobl yn cael ei ddylanwadu'n fawr gan yr hyn y mae eraill o'n cwmpas yn ei wneud. Gallwch hyrwyddo gweithredoedd dymunol trwy dynnu sylw at y ffaith bod pobl eraill yn eu mabwysiadu. Gallwch hefyd wneud ymddygiad yn fwy gweladwy yn gyhoeddus, a phwysleisio cyfleoedd i bobl helpu ei gilydd.

**Amserol -** Mae pobl yn greaduriaid o arfer, felly mae rhoi hwb bach yn fwyaf effeithiol ar adegau o newid ym mywydau pobl. Mae gennym hefyd duedd i bwysleisio'r presennol yn fwy na'r dyfodol. Gallwch harneisio'r tueddiadau hyn trwy amseru ymgyrchoedd yn strategol, tynnu sylw at fuddion uniongyrchol gweithredoedd cynaliadwy, a helpu pobl i gynllunio ymlaen llaw.

## 5.5 Eiddo

5.5.1 Mae nifer o gamau y gall awdurdodau lleol eu cymryd yn cynnwys materion cymdeithasol ac amgylcheddol, rhestrir rhai o'r mesurau pwysicaf isod:

5.5.2 Cynnal a chadw adeiladau - Dylid ystyried yr angen i leihau ynni a chyfrannu at ddatgarboneiddio wrth wneud unrhyw waith adeiladu.

5.5.3 Datgarboneiddio gwresogi - Dylid rhoi blaenoriaeth i geisio datgarboneiddio gwresogi yn unol â dyheadau Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i CSYM oherwydd bod nifer sylweddol o safleoedd lle nad oes ganddynt gyflenwad nwy ac felly yn cael eu cynhesu trwy LPG neu olew sy'n fwy carbon-ddwys.

5.5.4 Effeithlonrwydd ynni - Dylid gwneud gwaith i wella effeithlonrwydd ynni adeiladau er mwyn cyflawni'r targed a nodir yn y strategaeth rheoli ynni.

5.5.5 Bioamrywiaeth - Sicrhau fod camau digonol yn cael eu cymryd i adnewyddu a chynyddu unrhyw fioamrywiaeth a gollir wrth wneud gwaith cynnal a chadw / adeiladu.

## 5.6 Harneisio ymgysylltiad cyhoeddus a sicrhau partneriaethau

5.6.1 Mae'n bwysig peidio â chymryd dealltwriaeth yn ganiataol wrth ymgysylltu â'r cyhoedd. Dangosodd astudiaeth ddiweddar gan Energy catapult UK fod llai na 49% o bobl yn ymwybodol bod ynni a ddefnyddir gartref yn cyfrannu at newid yn yr hinsawdd.

DRAFT

5.6.2 Mae pobl yn ei chael hi'n anodd gwneud y cysylltiad rhwng newid yn yr hinsawdd a'u bywydau, er eu bod yn ymwybodol ei fod yn fater byd-eang mawr, maent yn methu â gwneud y cysylltiad ar lefel unigol.

5.6.3 Mae'n bwysig felly siarad am bethau sydd o ddiddordeb i'r gynulleidfa arfaethedig, er enghraifft trwy ddangos bod byw a gweithio mewn ffyrdd mwy cyfeillgar i'r amgylchedd, nid yn unig yn lleihau'r defnydd o adnoddau ond hefyd yn arwain at arbedion ariannol i'r unigolion a sefydliadau.

5.6.4 Gellir gwneud cynnydd sylweddol trwy fanteisio ar y sefyllfa bresennol "i wthio yn erbyn drysau agored" wrth harneisio ymgysylltiad cyhoeddus a sicrhau partneriaethau. Mae'r gwerthfawrogiad newydd am natur a mannau gwyrdd yn ystod y pandemig COVID-19 er enghraifft, yn rhoi cyfle i ymgysylltu â'r cyhoedd ar faterion amgylcheddol a chymdeithasol ehangach. Mae teithio llesol yn faes arall lle gwelwyd cynnydd sylweddol mewn diddordeb yn ystod y pandemig gyda llawer o bobl yn dewis beicio.

## 5.7 Cyllid, polisi cyfreithiol a strategol

5.7.1 Mae cyllid, polisi cyfreithiol a strategol yn darparu'r sylfaen dechnegol i alluogi'r arweinwyr i gyflawni'r weledigaeth o ymateb i newid yn yr hinsawdd.

5.7.2 Y ffordd orau o gyflawni niwtralrwydd carbon yw dysgu trwy wneud. Mae angen i CSYM gael trefn ar ei dŷ ei hun, arwain yr agenda hwnnw, sicrhau bod gweithrediadau yn cyflawni niwtralrwydd carbon cyn gynted â phosibl ac yna ystyried y materion ehangach. Byddai'n fuddiol cael cynghorydd sy'n gyfrifol am weithredu ar yr hinsawdd i arwain ar yr agenda hwn a'i goruchwylio.

5.7.3 Mae angen cymryd pob cyfle i herio effeithiau carbon pob penderfyniad a wneir (e.e. Cyllidebau, cynllunio, defnydd tir, rheoleiddio) ac yna sicrhau bod y gymuned ehangach yn ymuno ar y daith hefyd, trwy sicrhau partneriaethau a thrwy ymgysylltu â'r cyhoedd.

5.7.4 Gan fod Newid Hinsawdd yn fater datganoledig, argymhellir bod swyddog addas o CSYM yn trafod yn uniongyrchol â Gwasanaeth Ynni LlC unrhyw ffrydiau cyllido sy'n ymwneud â newid yn yr hinsawdd. Deallir o'r cynadleddau nad oes potiau cyllido penodol ar gyfer newid yn yr hinsawdd yn Lloegr, ond yn hytrach, dylai sero-net fod yn rhan o gynigion cyllido'r dyfodol gan y dylai fod yn fater sy'n cael ei integreiddio i brosiectau neu fusnes fel arfer.

## 5.8 Gyrru'r agenda trwy'r strategaeth gaffael

5.8.1 Gall y broses gaffael fod yn rhwystr ac yn gyfle i awdurdodau lleol adeiladu ar werth cymdeithasol. Trwy feini prawf y gadwyn gyflenwi, mae gan awdurdodau lleol ysgogiadau eang ac maent mewn sefyllfa i sicrhau trawsnewid.

5.8.2 Yn hanesyddol, bu agweddau gwerth amgylcheddol a chymdeithasol yn ymarfer ticio bocsys i ddangos cydymffurfiad i raddau, ond wrth symud ymlaen mae angen iddynt ffurfio rhan greiddiol o'r broses gwneud penderfyniadau a chynlluniau busnes. Mae matricsau safonol yn her, mae'n bwysig gwybod pa fatricsau i'w blaenoriaethu wrth iddynt ymgorffori gwerth amgylcheddol mewn gweithgareddau gwerth cymdeithasol.

5.8.3 Bydd sicrhau strategaeth gaffael gynaliadwy yn galluogi Cyngor Sir Ynys Môn i ddiwallu ei anghenion am nwyddau, gwasanaethau, gwaith a chyfleustodau mewn ffordd sy'n cyflawni gwerth am arian ar sail oes gyfan ac yn cynhyrchu buddion nid yn unig i'r awdurdod, ond i'r gymdeithas hefyd yn ogystal â'r economi a'r amgylchedd.

5.8.4 Gellir gweithredu'r camau canlynol fel man cychwyn ar gyfer caffael cynaliadwy:

- Ymrwymo i'r egwyddor a sicrhau ei fod yn ganolog i'r sefydliad
- Datblygu cynllun caffael cynaliadwy ar gyfer holl bryniannau'r cyngor sy'n annog opsiynau ynni isel a mwy cynaliadwy
- Hyrwyddo prynu yn lleol lle bo'n bosibl
- Asesu ôl-troed carbon nwyddau a gwasanaethau sy'n cael eu caffael, er mwyn deall effeithiau caffael a chomisiynu presennol
- Cynhyrchu cod ymarfer caffael cynaliadwy i'w ddefnyddio ar draws yr awdurdod.
- Defnyddio costau oes gyfan wrth asesu pob prosiect cyfalaf
- Trosglwyddo i ynni adnewyddadwy 100% ar gyfer yr adeiladau a'ch gweithrediadau eich hun

# 6.0 Ôl-troed Carbon yr Awdurdod (Gwaelodlin)

Ar hyn o bryd, mae data carbon o nifer o ffynonellau ar gael er nad yw'n glir pa ffynonellau y dylid eu cynnwys wrth gyfrif cyfanswm holl allyriadau gwaelodlin yr awdurdod.
Er enghraifft, Mae'r “offeryn cyfrifo nwyon tŷ gwydr” a gynhyrchir gan gymdeithas Llywodraethau Lleol a phartneriaethau lleol yn nodi y dylid eithrio tai cyngor ac, ar hyn o bryd, mae y tu allan i'r cwmpas. Felly, byddai'n fuddiol cael arweiniad clir a chyson ar hyn fel y gellir ymdrechu'n ddwys i gyfrifo'r allyriadau y mae angen adrodd arnynt.

## 6.1 Data Allyriadau sydd ar Gael

- Ynni Adeiladu - Gwresogi a Thrydan
- Defnydd dŵr
- Fflyd - Defnydd tanwydd
- Goleuadau Stryd - Defnydd trydan
- Gwastraff adeiladu masnachol
- Gwastraff trefol
- Tai - Ffigur carbon yn seiliedig ar sgôr EPC.

## 6.2 Data allyriadau y gellid ei gael yn gymharol hawdd

- Cymudo staff
- Teithio busnes



DRAFT

## 6.3 Data allyriadau nad oes modd eu mesur ar hyn o bryd

- Caffael - Amcangyfrifir ei fod oddeutu 50% o allyriadau'r awdurdod
- Defnydd tir
- Asedau ar brydles

# 7.0 Argymhellion

1. Datblygu Cynllun Gweithredu gyda gweithgareddau i gynnwys rhai o'r mesurau realistig a amlinellir yn yr adroddiad hwn - mae angen i weithgareddau ystyried y canlynol; Penodol, Mesuradwy, Cyraeddadwy, Realistig, Amserol, Gwerthuso, Adolygu).

2. Cael trefn ar eich "tŷ" eich hun yn gyntaf (Trefniadau / ymyriadau mewnol) i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd

3. Llywodraethu - holl benderfyniadau'r Cyngor i gadw at y Cynllun Gweithredu / Gweledigaeth Newid Hinsawdd

4. Ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd i reoli disgwyliadau ac i ddeall dyheadau

5. Addysgu a darparu gwybodaeth am newid yn yr hinsawdd mewn ysgolion a chymhwyso egwyddorion tebyg o fewn yr awdurdod lleol i hyrwyddo newid ymddygiad mewn perthynas â newid yn yr hinsawdd (e.e. Hyrwyddwyr Newid Hinsawdd, hyfforddiant gorfodol Newid Hinsawdd, a chymhellion ariannol ar gyfer beicio / cerdded i'r gwaith). Mae newid ymddygiad yn sylfaenol wrth ddelio â newid yn yr hinsawdd.

6. Sicrhewch fod pob cais am gyllid allanol yn cynnwys y thema drawsbynciol sero-net / newid yn yr hinsawdd gan fod hyn yn ffactor allweddol wrth wneud penderfyniadau cyllido. Dylid integreiddio Newid Hinsawdd i unrhyw geisiadau cyllido yn y dyfodol.

7. Ymgorffori matricsau amgylcheddol a chymdeithasol perthnasol yn y broses gaffael fel y rhoddir yr un ystyriaeth iddynt â materion ariannol.

DRAFT

This page is intentionally left blank

| ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **Mawrth 22 2021** |
| **Pwnc / Testun:** | **Dyfodol y Cwrs Golff Llangefni** |
| **Deilydd(ion) Portffolio:** | **Cllrs. Carwyn Jones & Bob Parry** |
| **Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:** | **Christian Branch – Pennaeth Dros Dro; Rheoleiddo a Datblygu Economiadd** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Tel:**<br>**E-bost:** | **Tudur H. Jones**<br>**2146**<br>**tudurjones@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Canolbarth Môn** |

**A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau**

**Argymhelliad**

**Bod y Pwyllgor Gwaith yn ystyried cynnwys yr "Adroddiad Ymgynghori" sy'n cyd-fynd ac yn gwneud penderfyniad ar ddyfodol Cwrs Golff Llangefni. Mae'r opsiynau i naill ai:**

**Opsiwn 1**

1) **Mynd ymlaen hefo'r gwerthiant a dechrau marchnata'r Safle (cartref Ffridd gyda rhywfaint o dir, a'r 42 erw sy'n weddill wedi'u lotio i sicrhau'r incwm mwyaf posibl) ar y farchnad agored i'w werthu;**
2) **Ymgymryd ag isafswm o 6 wythnos o hysbysiad yn y wasg leol am "Hysbysiad Penderfyniad" yn nodi penderfyniad y Cyngor i waredu; a**
3) **Ail-fuddsoddi unrhyw dderbyniadau cyfalaf a dderbynnir o waredu'r Safle i gyfleuster hamdden Plas Arthur.**

**Opsiwn 2**

**I beidio â bwrw ymlaen â'r gwerthiant, amsugnwch y cyfleuster yn ôl i bortffolio asedau'r Cyngor Sir. Yna bydd angen penderfyniad ar ba rôl/ os bydd unrhyw rôl.**

Fe aeth ymgynghoriad ffurfiol ar waredaid arfaethedig Cwrs Golff Llangefni yn "fyw" ar 12 Hydref 2020 a pharhaodd am gyfnod o 7 wythnos tan 30 Tachwedd 2020.

Derbyniodd y Cyngor Sir gyfanswm o 61 (chwe deg un) o ymrwymiadau unigol gyda'r ymgynghoriad. O'r rhain, gadawodd 43 (pedwar deg tri) heb gwblhau'r blwch ymateb tra bod 18 arall (deunaw) wedi cynnig rhai ymatebion. O'r 18 dim ond pymtheg (15) a ddarparodd sylwadau ac ymateb i'r cwestiynau a amlinellwyd yn y dogfennau ymgynghori.

| |
|---|
| Derbyniwyd tri ymateb trwy e-bost ar wahân. Mae'r rhain i'w gweld yn Adran 4.0 o'r Adroddiad Ymgynghori.<br><br>Mae'r Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd wedi cynnal asesiad trylwyr o'r effeithiau y byddai'r gwarediad arfaethedig o'r cwrs golff yn eu cael ar amrywiol strategaethau, cynlluniau ac asesiadau lleol, yn ogystal â gwerthuso gwerth hamdden y cyfleuster i'r gymuned leol. Mae'r Gwasanaeth hefyd wedi adolygu ac ystyried yr holl ymatebion a dderbyniwyd i'r broses ymgynghori ddiweddaraf. Rhaid i'r Cyngor Sir nawr benderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r argymhelliad yn yr Adroddiad i gael gwared ar y cwrs golff. |

| **B – Pa opsiynau eraill bu I chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Gwneud dim - nid yw hwn yn opsiwn ymarferol naill ai fel rhan o'r broses ymgynghori na ddyfodol y cwrs golff gan fod ymgynghoriad cyhoeddus helaeth a chostus wedi'i ail-redeg o ganlyniad i bandemig Covid-19. Bellach mae angen penderfyniad ar ddyfodol Cwrs Golff Llangefni er mwyn dod i gytundeb ar y tŷ Ffridd a'r 40+ erw cyfagos. |

| **C – Pam fod hwn yn benderfyniad i’r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Yn gyson â gofynion Rheoliadau Meysydd Chwarae (Cynnwys y Gymuned mewn Penderfyniadau Gwaredu) (Cymru) 2015, rhaid i'r Pwyllgor Gwaith wneud unrhyw benderfyniad ar ddyfodol y Cwrs Golff. |

| **D – A yw’r penderfyniad hwn yn gyson a’r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydy - mae'n cyd-fynd ag amcan cyfredol Cynllun y Cyngor (2017-2022) i weithio gyda phobl Ynys Môn, ein cymunedau a'n partneriaid i sicrhau gwasanaethau o ansawdd uchel a fydd yn gwella ansawdd bywyd i bawb ar yr Ynys. Mae hefyd yn adlewyrchu'r nod o hyrwyddo ffyrdd o fyw egnïol ymysg plant, pobl ifanc ac oedolion trwy sicrhau bod cyfleusterau aml-chwaraeon mewn adeiladau modern sy'n addas at y diben ar gael. Mae'r penderfyniad hwn yn helpu i fynd i'r afael â heriau ariannol cyfredol y Cyngor, gan ddarparu buddsoddiad mewn cyfleusterau hamdden lleol eraill o'r swm cyfalaf a ragwelir y dylid ei gwireddu o waredu'r cwrs golff. |

| **DD – A yw’r penderfyniad hwn oddi fewn i’r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Ydi - mae cyfle i wneud arbediad blynyddol (mewn perthynas â'r costau rhedeg) ac i dderbyn swm cyfalaf sylweddol. |

| E – E – Effaith ar Genedlaethau'r Dyfodol (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| 1 | **Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein anghenion tymor hir fel Ynys** | Bydd unrhyw benderfyniad yn cael effaith ar yr Ynys. Bydd penderfyniad i gael gwared ar y cwrs golff yn arwain at un cyfleuster chwarae llai, ond wrth liniaru, bydd unrhyw swm cyfalaf yn cael ei neilltuo i fuddsoddi mewn cyfleusterau hamdden lleol eraill. |
| 2 | **A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir a fydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol. Os felly, sut:-** | Ydi. Roedd y cwrs golff yn gwneud colled barhaus o £28,000 y flwyddyn ar gyfartaledd. Cymhorthdalwyd hyn gan y Cyngor Sir ac mae'r duedd yn anghynaladwy. |
| 3 | **A ydym wedi bod yn cyd-gweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda pwy-** | Rhoddwyd cyfle i nifer o sefydliadau eraill chwarae rhan yn yr ymgynghoriad ond ni ymatebodd llawer ohonynt. Gellir gweld rhestr gyfan o'r sefydliadau yr aethpwyd atynt yn Adran 3.1, Pwynt 6 yn y tabl. |
| 4 | **A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae'i rhan yn drafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:-** | Cafodd aelod o'r cyhoedd gyfle i chwarae rhan yn yr ymgynghoriad. Fe wnaethom eu gwahodd i rhoi sylwadau ac arsylwadau ar bedwar cwestiwn allweddol. O 61 o ymrwymiadau, gwnaed 18 sylw. |
| 5 | **Nodwch yr effeithiau mae'r penderfyniad hwn yn ei gael ar yr agenda cydraddoldeb ac iaith Gymraeg** | Cwblhawyd Asesiad Effaith Iaith Gymraeg fel rhan o'r ymgynghoriad ehangach ac roedd ei allbwn yn dangos effaith Gadarnhaol/ Niwtral. |

| E - E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif-weithredwr / Uwch Dim Rheoli (UDRh) (gorfodol)** | Cefnogol |
| 2 | **Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol)** | |
| 3 | **Swyddog Cyfreithiol / Mnitro (gorfodol)** | |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |

| | | |
|---|---|---|
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth (TG)** | |
| **7** | **Caffael** | |
| **8** | **Sgriwtini** | Bu i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn ei gyfarfod ar 8 Mawrth, 2021 ystyried yr adroddiad ar Gwrs Golff Llangefni. Yn sgil ei ystyriaeth, fe benderfynodd y Pwyllgor fel a ganlyn:<br><br>Fe benderfynwyd argymell i'r Pwyllgor Gwaith y dylid oedi rhag werthu tir Cwrs Golff Llangefni er mwyn caniatau i ystyriaeth gael ei rhoi i'r opsiynau o gynnwys y tir yn rhannol neu'n gyfangwbl yn y Cynllun Datblygu Lleol pan fydd y Cynllun yn cael ei adolygu ac yn y cyfamser, marchnata eiddo Ffridd i'w werthu ar y farchnad agored ac elw'r gwerthiant yn cael ei ail fuddsoddi yng Nghanolfan Hamdden Plas Arthur. |
| **9** | **Aelodau Lleol** | |

| **F - Atodiadau** |
|---|
| Proposed Disposal of the Llangefni Golf Course; The Consultation Report |

| **FF – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth):** |
|---|
| |

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# Bwriad i Werthu Cwrs Golff Llangefni

## Yr Adroddiad ar yr Ymgynghoriad

DRAFT

**Chwefror 2021**

**Statws: Swyddogol**

**Paratowyd gan:**

Tudur H. Jones

Rheolwr Datblygu Economaidd

## 1.0 Cyd-destun

1.1 Agorwyd cwrs golff trefol Llangefni (‘y Safle’) ym 1983 gan Gyngor Bwrdeistref Ynys Môn, fel ag yr oedd bryd hynny, i ddarparu cyfleuster “talu a chwarae” cost isel ar gyfer golffwyr lefel dechreuwyr a chanolradd.

1.2 Yn 2008/09 cafodd yr awdurdod £225,234 o arian grant Chwaraeon Cymru i wella'r cyfleuster. Er mwyn cwblhau'r gwaith angenrheidiol, bu rhaid cau’r cyfleuster. Yn dilyn ailagor y cyfleuster llawn yn 2009/10, bu cynnydd bychan iawn, iawn am gyfnod byr yn ffigurau chwaraewyr y cwrs golff fel cyfleuster annibynnol (dim ond 596 y flwyddyn).

1.3 Roedd gostyngiad blynyddol o 10,855 (56%) ar gyfartaledd yn y ffigurau chwarae rhwng 2007/2014 a gwelwyd gostyngiad parhaus yn ffigurau chwarae'r cyfleuster a arweiniodd at gynhyrchu £2,667 yn llai o incwm yn 2013/14 na'r hyn a gyflawnwyd cyn cynnwys y llain ymarfer.

1.4 Rhwng blynyddoedd 2007 a 2014 roedd y cwrs golff yn gweld colledion blynyddol o £28,000 ar gyfartaledd - swm yr oedd yn rhaid i'r Cyngor Sir roi cymhorthdal iddo.

1.5 Yn Chwefror 2015, yn dilyn proses farchnata, derbyniwyd nifer o ddatganiadau o ddiddordeb (DoDd) gan sefydliadau ac unigolion o ran rheoli a rhedeg y cwrs golff ar ran y Cyngor. Aseswyd y DoDd hyn gan Swyddogion a phenderfynodd y Pwyllgor Gwaith ar Fai 26ain 2015 i drosglwyddo rheolaeth a chyfrifoldeb rhedeg y cwrs golff i Bartneriaeth Llangefni, sef menter gymdeithasol yn y Dref. Trefniant tymor byr oedd hwn heb unrhyw farchnata ffurfiol i sicrhau bod y cyfleuster yn aros ar agor.

1.6 Ar ôl adolygu ei berfformiad ariannol a chynnal astudiaeth ddichonoldeb annibynnol, penderfynodd Bwrdd Partneriaeth Llangefni yn unfrydol nad oedd lefelau’r buddsoddiad i ddatblygu a chynnal y cyfleuster ymhellach yn ariannol ymarferol. Felly, nid oedd Partneriaeth Llangefni wedi ceisio gwneud cais am estyniad i’r brydles na Throsglwyddiad o Asedau Cymunedol gan y Cyngor Sir, ac felly trosglwyddwyd y cwrs yn ôl i’r Cyngor Sir yn Hydref 2018 ac fe’i rhoddwyd o’r neilltu.

## 2.0 Y Broses Ymgynghori

2.1 Ar ôl i'r brydles ddod i ben ar 1 Hydref 2018, mae'r Cyngor Sir wedi cymryd camau i ddiogelu'r safle a hefyd wedi gwneud rhywfaint o waith adfer ar y tir er mwyn dileu unrhyw ddifrod iddo. Cafwyd rhywfaint o felio a phori ar y tir hefyd.

2.2 Cynhaliwyd proses dendro agored i reoli a gweithredu'r llain ymarfer hefyd, gyda Golf Môn, sydd ag hyfforddwr a gweithiwr proffesiynol PGA, yn llwyddo i sicrhau’r cytundeb tenantiaeth hwn gyda'r Cyngor Sir. Ailagorodd y llain ymarfer y buddsoddwyd ynddi ym mis Ionawr 2019 ac erbyn hyn mae'n hynod lwyddiannus a phoblogaidd.

2.3 Mae’r Cyngor Sir wedi ystyried dyfodol Cwrs Llangefni a ph’un a yw gwerthu Cwrs Golff Llangefni yn briodol ai peidio. Mae’r Cyngor Sir dan ddyletswydd i ystyried effaith bwriad i werthu caeau chwarae ar iechyd a llesiant cymuned leol, i ymgynghori â’r gymuned ac ymgyngoreion perthnasol ac ystyried unrhyw sylwadau a wneir. Bydd canfyddiadau’r broses ymgynghori’n llywio penderfyniad y Cyngor Sir o ran bwrw ymlaen â’r bwriad i werthu’r cwrs ai peidio.

2.4 I baratoi am yr ymgynghoriad cyhoeddus, comisiynwyd cwmni Cyfreithwyr Hugh James (Hydref 2019) i ddarparu cyngor, arweiniad a chymorth i sicrhau cydymffurfiaeth

DRAFT

llawn â Rheoliadau Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu) (Cymru) 2015.

2.4 Rhwng Hydref 2019 a Mawrth 2020, cwblhaodd y Swyddogion:

1. Yr holl hysbysiadau ffurfiol ar y Safle ac yn y wasg;
2. Adroddiad cynhwysfawr a manwl ar yr ymgynghoriad yn amlinellu safbwynt y Cyngor Sir o ran Cwrs Golff Llangefni;
3. Yr holl adroddiadau ategol a'r asesiadau o effaith (cynhwysir y rhain yn Atodiad 1 ymlaen):
   i. Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb
   ii. Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg
   iii. Asesiad o'r Effaith o ran Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
   iv. Asesiad o'r Effaith ar y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd/Mannau Agored
   v. Asesiad o'r Effaith ar Ddigonolrwydd Chwarae
   vi. Asesiad o'r Effaith ar Ddigonolrwydd Chwarae – Datblygu Chwaraeon
   vii. Asesiad o'r Effaith yn erbyn y Strategaeth Hamdden
4. Sicrhau bod yr holl blatfformau TGCh mewnol yn cydymffurfio'n llawn.

2.5 Fe aeth ymgynghoriad ffurfiol blaenorol ar y bwriad i werthu Cwrs Golff Llangefni yn "fyw" ar 9fed Mawrth 2020 gyda'r bwriad o redeg am 6 wythnos tan 26ain Ebrill 2020. Fel yn achos pob agwedd ar gymdeithas, fe gafodd y pandemig Covid-19 effaith ar allu'r Cyngor Sir i ymgymryd ag ymgynghoriadau cyhoeddus yn llwyddiannus.

2.6 Un o brif ofynion Rheoliadau Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu) (Cymru) 2015 yw bod aelodau'r cyhoedd yn cael cyfle i ystyried y bwriad ac yn cael mynediad i'r holl ddogfennaeth ategol. Gan fod y DU wedi cychwyn ar gyfnod clo ar 26ain Mawrth 2020 – dim ond pythefnos ar ôl dechrau'r ymgynghoriad – caewyd swyddfeydd y Cyngor. Roedd hyn felly'n gwneud yr ymgynghoriad yn anniogel a derbyniwyd cyngor cyfreithiol ffurfiol ar 21ain Ebrill 2020 i atal yr ymgynghoriad.

2.7 Fel y cafodd y cyfnod clo a'r cyfyngiadau ar symudiadau a mynediad eu llacio, fe agorodd swyddfeydd y Cyngor unwaith eto i aelodau'r cyhoedd. Darparodd hyn y cyfle felly i ailddechrau'r broses ymgynghori gyda mesurau priodol yn eu lle i ddiogelu rhag Covid-19.

2.8 I sicrhau bod yr ymgynghoriad newydd yn cael ei gynnal mewn modd diogel a llwyddiannus, diweddarwyd yr holl hysbysiadau ffurfiol i gynnwys y mesurau ychwanegol isod, i ddangos bod y Cyngor Sir wedi cymryd camau ychwanegol i sicrhau bod yr ymgynghoriad, a'r cyfle i wneud unrhyw sylwadau, yn agored i bawb:

1. Yn ogystal â bod ar gael yn ystod oriau swyddfa arferol, mae'r Cyngor Sir yn cynnig apwyntiadau/slotiau i'r cyhoedd gael golwg ar ddogfennau (gan sicrhau bod yr holl fesurau Covid-19 ar waith).
2. Cynnig i bostio neu e-bostio'r wybodaeth i bartïon â diddordeb pe bai angen.

DRAFT

**3.0 Rheoliadau Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu) (Cymru) 2015 (‘y Rheoliadau’)**

3.1 Yn unol â Rheoliad 5 o’r Rheoliadau, mae’r Cyngor Sir o dan rwymedigaethau i gydymffurfio â threfniadau penodedig mewn perthynas â hysbysiadau ac ymgynghori cyn penderfynu gwerthu cae chwarae neu unrhyw ran ohono. Roedd y cyfyngiadau a orfodwyd o ganlyniad i’r ymateb i’r pandemig Covid-19 yn golygu bod rhaid rhoi mesurau ychwanegol ar waith i sicrhau bod y cyhoedd yn cael digon o gyfle i gael golwg ar fanylion y bwriad i werthu ac er mwyn cynnal ymgynghoriad ystyrlon. Aeth y Cyngor Sir y tu hwnt i’r gofynion a ragnodwyd gan Reoliad 5, yn nhermau lleiafswm y cyfnod y byddai manylion y bwriad i werthu ar gael i’w harchwilio gan y cyhoedd.

| Rhif | Gofynion Adran 5 | Cydymffurfiaeth y Cyngor Sir |
|---|---|---|
| 1 | Cyhoeddi hysbysiad (“yr hysbysiad”) am ddwy wythnos yn olynol mewn o leiaf un papur newydd yn ardal yr Awdurdod. | Cyhoeddwyd “Yr hysbysiad”, ar dudalen lawn ac mewn lliw yn y Daily Post a’r Holyhead & Anglesey Mail a saith (7) wythnos yn olynol, yn rhedeg o’r 12fed Hydref 2020 tan 26ain Tachwedd 2020 – Gweler **Atodiad A** am y proflenni |
| 2 | Rhaid i’r hysbysiad y mae paragraff (1) yn cyfeirio ato –<br>(a) ddatgan bod yr Awdurdod Lleol yn cynnig cael gwared ar gae chwarae;<br>(b) rhoi gwybod i’r cyhoedd ymhle neu ym mha leoedd ac ar ba adegau y gellir gweld manylion y cynnig i waredu ac am ba hyd y bydd hi’n bosibl gwneud hynny; a<br>(c) Rhoi gwybod i’r cyhoedd am eu hawl i gyflwyno sylwadau i’r awdurdod lleol mewn perthynas â’r cynnig i waredu, sut i wneud hynny a’r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno’r sylwadau i’r awdurdod lleol. | Gweler **Atodiad B** |
| 3 | Rhaid i’r awdurdod lleol sicrhau bod manylion y cynnig arfaethedig i waredu ar gael i’w gweld yn ystod oriau swyddfa arferol ym mhrif swyddfa’r awdurdod lleol, os oes ganddo un, ac os yw’n rhesymol ymarferol, mewn un neu fwy o fannau eraill yn ardal yr awdurdod lleol. | Roedd pecyn yr ymgynghoriad ar gael yng Nghanolfan Fusnes Môn y Cyngor Sir yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad. Gwnaed hyn yn glir ar yr hysbysiad.<br><br>Yn ychwanegol, ac o ganlyniad i’r pandemig Covid-19, roedd yr hysbyseb/hysbysiad yn rhoi rhagor o opsiynau o ran derbyn manylion trwy’r Post Brenhinol neu trwy e-bost os nad |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| | | oedd aelodau'r cyhoedd yn dymuno mynd i swyddfeydd y Cyngor. |
| 4 | Rhaid i'r awdurdod lleol bennu'r cyfnod o o leiaf 6 wythnos, yn dechrau o'r dyddiad y cyhoeddwyd yr hysbysiad gyntaf, y bydd manylion y cynnig arfaethedig ar gael i'r archwilio yn unol â'r paragraff. | Gweler yr ymateb uchod |
| 5 | Rhaid i'r dyddiad a bennwyd gan awdurdod lleol ar gyfer derbyn sylwadau ar y cynnig arfaethedig yn unol â pharagraff (2)(c), fod yn o leiaf 6 wythnos ar ôl y dyddiad y cyhoeddwyd yr hysbysiad gyntaf. | Cyhoeddwyd yr hysbysiad gyntaf ar 12fed Hydref 2020 yn y papur rhanbarthol, y Daily Post, ac ar wefan gorfforaethol y Cyngor Sir o dan yr URL www.anglesey.gov.uk/llangefnigolfcourse<br><br>Croesawyd sylwadau tan 30ain Tachwedd 2020, sef cyfnod o 49 diwrnod calendr neu 7 wythnos. |
| 6 | Heb fod yn ddiweddarach na'r diwrnod y cyhoeddir yr hysbysiad am y tro cyntaf, rhaid i'r awdurdod lleol—<br>(a) arddangos copi o'r hysbysiad mewn o leiaf un man ar, neu yn ymyl y cae chwarae y mae'r cynnig i waredu arfaethedig yn ymwneud ag ef, ac ym mhob achos, wrth bob mynediad swyddogol i'r cae chwarae, ac am o leiaf 6 wythnos;<br>(b) lle bo gan yr awdurdod lleol wefan, rhoi copi o'r rhybudd ar y wefan honno am o leiaf 6 wythnos;<br>(c) anfon copi o'r hysbysiad at unrhyw berchennog neu feddiannydd tir sy'n cyd-ffinio â'r cae chwarae;<br>(d) anfon copi o'r hysbysiad a manylion y cynnig i waredu i—<br>(i) unrhyw awdurdod lleol y mae ei ardal yn cynnwys unrhyw ran o'r cae chwarae y cynigir ei waredu neu sy'n rhannu ffin ag unrhyw ran ohono; | a) Arddangoswyd copi o'r hysbysiad mewn sawl lleoliad ar draws y safle, gan gynnwys y brif fynedfa, ar 12fed Hydref 2020. Er mwyn sicrhau eu bod yn dal i fod yn eu lle, tynnwyd lluniau ohonynt fel tystiolaeth. Gweler y lluniau yn **Atodiad C**.<br>b) Fe gafodd yr hysbysiad a holl ddeunydd yr ymgynghoriad eu huwchlwytho o wefan gorfforaethol y Cyngor Sir am 9 o'r gloch y bore ar 12fed Hydref 2020, gyda dolen o'r dudalen lanio drwy gydol y cyfnod o 7 wythnos. Cyhoeddwyd yr hysbysiad ar y cyfryngau cymdeithasol 12 gwaith trwy gydol cyfnod yr ymgynghoriad. Gweler **Atodiadau D** ac **E** am gadarnhad o hyn.<br>c) Anfonwyd copi o'r hysbysiad a holl ddeunyddiau'r ymgynghoriad, yn y Gymraeg a'r Saesneg, trwy Wasanaeth Danfon Cofnodedig y Post Brenhinol ar 8fed Hydref 2020 i holl berchnogion/meddianwyr y tir sy'n cyffinio â'r cwrs golff. Gweler **Atodiad F** am gadarnhad. |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| | (ii) Cyngor Chwaraeon Cymru(**1**);<br>(iii) Cymdeithas Genedlaethol y Caeau Chwarae(**2**);<br>(iv) yr unigolion hynny y mae'r awdurdod lleol yn ystyried eu bod yn cynrychioli buddiannau unigolion yn ardal yr awdurdod lleol sy'n rhannu ffin ag unrhyw ran o'r cae chwarae, ac sy'n gwneud defnydd o'r cae chwarae;<br>(v) unrhyw un y mae ei brif nodau'n cynnwys gwarchod—<br>(aa) mannau agored ledled Cymru; neu<br>(bb) gyfleoedd chwarae i blant ledled Cymru;<br>(vi) unigolion eraill y mae'r awdurdod lleol yn eu hystyried yn briodol. | d) Anfonwyd copi o'r hysbysiad a holl ddeunydd yr ymgynghoriad, yn y Gymraeg a'r Saesneg, i'r partïon a ganlyn (gweler **Atodiad G** am gadarnhad):<br>1. Cyngor Chwaraeon Cymru<br>2. Meysydd Chwarae Cymru<br>3. Môn CF<br>4. Cyngor Tref Llangefni<br>5. Canolfan Genedlaethol – Chwaraeon Cymru<br>6. Clybiau Plant Cymru<br>7. Cymdeithas y Mannau Agored<br>8. Blynyddoedd Cynnar Cymru<br>9. Mudiad Meithrin Cymru<br>10. Clybiau Ffermwyr Ieuanc Cymru<br>11. Urdd Gobaith Cymru<br>12. Play Wales Chwarae Cymru<br>13. Comisiynydd y Plant Cymru<br>14. Welsh Country Magazine<br>15. Cyfoeth Naturiol Cymru<br>16. Pob Cyngor Tref a Chymuned ar draws Ynys Môn |
| 7 | Rhaid i'r awdurdod lleol ddarparu (am dâl os yw'r awdurdod lleol yn gofyn am dâl rhesymol) copi o fanylion y cynnig arfaethedig i waredu i unrhyw unigolyn y mae'r awdurdod lleol wedi derbyn cais oddi wrtho yn ystod y cyfnod ymgynghori. | Derbyniwyd (1) cais ar 23ain Hydref 2020 am 11:35 ac anfonwyd copi o'r hysbysiad a holl ddeunyddiau'r ymgynghoriad i'r unigolyn yn Saesneg, ei iaith ddewisol, ar 23ain Hydref 2020 am 12:59. Gweler **Atodiad H** am gopi o'r manylion a ddarparwyd gan y Cyngor Sir. |

**4.0 Sylwadau ar yr Ymgynghoriad ac Ymateb y Cyngor Sir**

4.1 Yn unol â Rheoliad 7 o'r Rheoliadau, mae'n ofynnol i'r Cyngor Sir ystyried yr holl sylwadau a dderbynnir mewn perthynas â'r bwriad arfaethedig i werthu yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad. Derbyniodd y Cyngor gyfanswm o 61 (chwe deg un) ymgysylltiad unigol fel rhan o'r ymgynghoriad. O'r rhain, gadawodd 43 (pedwar deg tri) heb gwblhau'r blwch ymateb, tra cynigiwyd rhai ymatebion gan 18 (deunaw) arall. O'r 18, dim ond pymtheg (15) a ddarparodd sylwadau ac a ymatebodd i'r cwestiynau a amlinellwyd o fewn y dogfennau ymgynghori. Derbyniwyd tri ymateb ar wahân drwy'r e-bost.

4.2 Mae'r sylwadau a dderbyniwyd wedi'u hatgynhyrchu (air am air / heb eu golygu) yn y tabl isod, ynghyd ag ymatebion y Cyngor Sir i'r sylwadau.

DRAFT

4.3 Fel rhan o’r broses ymgynghori, ymgynghorodd y Cyngor Sir ynghylch y tri opsiwn a ganlyn ac un cwestiwn allweddol:

1. **Gwerthu tir Cwrs Golff Llangefni a thŷ Y Ffridd ar y farchnad agored i greu manddaliad newydd.**

2. **Neilltuo’r derbyniad cyfalaf a'i ail-fuddsoddi yn ein cyfleusterau hamdden i wella a chyfoethogi'r ystod o weithgareddau y maent yn eu cynnig.**

3. **Y llain ymarfer, yr ardaloedd ymarfer a'r siop yn aros fel cyfleuster golff ac ar agor i'r cyhoedd barhau i'w defnyddio.**

4. **Rydym wedi cwblhau'r asesiadau effaith ar yr effeithiau cadarnhaol, niwtral a negyddol ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg. Yn eich barn chi, oes unrhyw beth wedi ei fethu?**

DRAFT

| Rhif | Sylwadau ar yr Ymgynghoriad (Heb eu golygu) | Ymateb y Rheolwr Prosiect |
|---|---|---|
| 1 | Dwi ddim yn cytuno efo'r opsiwn cyntaf o gwbl. Y peth diwethaf y mae Llangefni ei eisiau ydi rhagor o dai i bobl sydd ddim yn siarad Cymraeg ddod yma i ymddeol.<br><br>Mae Llangefni ar ei gliniau ac mae angen buddsoddiad yn y dref, cyfleoedd hamdden sy'n agored i bawb.<br><br>Cadw'r cyfleusterau golff a'r caffi pitsas.<br><br>Dylid meddwl am ddefnydd mwy priodol i'r tir tai fforddiadwy ar gyfer pobl leol, ceisio denu busnesau i gael swyddi o safon. | Y bwriad dan sylw yw gwerthu'r tir ynghyd ag aelwyd Y Ffridd i greu manddaliad. Byddai hyn yn dychwelyd aelwyd Y Ffridd i ddefnydd gan y bu'n wag ers 2017.<br><br>Mae'r llain ymarfer yn eithriadol o boblogaidd a byddai hon yn parhau i fod ar agor. Mae'r tenant hefyd wedi datblygu siop bitsas eithriadol o boblogaidd i breswylwyr ac ymwelwyr. Gall ail-fuddsoddi yn ein canolfan hamdden ei gwneud yn fwy atyniadol i ddefnyddwyr a gall ddenu pobl i'r ardal.<br><br>Bydd y llain ymarfer golff a'r caffi pitsas yn cael eu cadw. Nid yw'r rhain yn ffurfio rhan o'r bwriad arfaethedig i werthu.<br><br>Yn anffodus, mae'r agwedd o ran tir fforddiadwy ar gyfer tai a denu busnesau / swyddi o safon y tu hwnt i gwmpas yr ymgynghoriad hwn. |
| 2 | Mae gwerthu'r cwrs golff yn drist ond, yn gyffredinol, mae dirywiad o ran golff yn genedlaethol, gan fy mod yn arfer bod yn brif geidwad grîn golff, ond heb y cyfleuster hwn beth ydi'r pwynt ymarfer ar y llain ymarfer heb unrhyw le i ymarfer<br>y gêm ar y cwrs golff?<br><br>Os ydych eisiau fy nghyngor i, gydag 20 mlynedd o brofiad mewn adeiladu a chynnal a chadw cyrsiau golff, gallwn ymgynghori gyda chi ynghylch pam nad ydi'r cwrs golff yn hyfyw a sut y gallai fod yn hyfyw yn y dyfodol. Oedd o'n cael ei redeg gan y Cyngor mae'n debyg, neu wedi'i redeg i lawr i'r ddaear? Os alla' i helpu mewn unrhyw ffordd, e-bostiwch fi ar X@gmail.com am ymgynghoriad am ddim a sgwrs ynglŷn â'r ffordd ymlaen. Gallwn redeg y clwb heb ddim problemau, ond os nad ydi'r safle'n cael ei farchnata, yna ni fydd yn boblogaidd i'r marchnadoedd golff o gwmpas Sir Fôn. | Mae sawl un o ddefnyddwyr y llain ymarfer wedi rhoi gwybod i ni eu bod yn defnyddio'r maes am ddau reswm<br>a) i fagu hyder wrth ddechrau chwarae'r gêm<br>b) i ddatblygu eu sgiliau chwarae gan eu bod yn aelodau yn rhywle arall.<br>Mae'r llain ymarfer yn darparu cyfleuster chwaraeon i'r rheiny sy'n cychwyn chwarae ac sy'n aelodau yn rhywle arall. Mae'n gyfleuster unigryw. Trwy ein trafodaethau â chlybiau golff eraill ar yr ynys, mae pob un ohonynt wedi mynegi parodrwydd i gydweithio â'r llain ymarfer.<br><br>Bu'r cwrs golff yn ased o dan reolaeth y Cyngor Sir am flynyddoedd lawer, hyd at 2015. Roedd yr adnoddau a chapasiti'r safle'n gwbl addas ar gyfer "cyfleuster talu a chwarae" 9 twll.<br><br>Bu Partneriaeth Llangefni wedyn yn rhedeg y cwrs tan 2018, ac yn dilyn astudiaeth ddichonoldeb annibynnol, penderfynodd |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| | | Bwrdd Partneriaeth Llangefni yn unfrydol nad oedd lefelau'r buddsoddiad i ddatblygu a chynnal y cyfleuster ymhellach yn ariannol ymarferol. |
| 3 | Dwi'n meddwl y dylid gwerthu'r cwrs golff i greu manddaliad newydd.<br>Ni chaiff ei gau fawr o effaith. Mae yna ddigon o le i blant yn Llangefni. | Nodwyd y sylw.<br><br>Mae'r adolygiad a'r ystyriaeth a roddwyd i chwaraeon eraill, y mannau agored a'r cyfleusterau hamdden yn Llangefni, wedi llywio rhan o asesiad y Cyngor Sir o ran effaith y bwriad arfaethedig i werthu. |
| 4 | Roeddwn yn arfer mwynhau chwarae golff ar y cwrs yma. Roeddwn yn ddechreuwr a ddim yn teimlo'n hyderus i fynd i gyfleuster preifat. Dwi heb chwarae ers iddo gau ac yn teimlo bod y penderfyniad yma yn gwneud anghymwynas fawr â phobl fel fi nad oes gennym unrhyw ddiddordeb yn y 'gweithgareddau chwaraeon' eraill y byddwch efallai'n penderfynu ail-fuddsoddi ynddyn nhw. Byddwn yn cwestiynu pwy oedd wedi ymgymryd â'ch asesiad WFG a ph'un a oeddent yn annibynnol o'r broses benderfynu. Yn wir, dwi'n cwestiynu p'un a oeddent yn deall yr effaith ar y grwpiau a effeithir fwyaf, gan ei fod yn ymddangos ei fod wedi'i ysgrifennu er mwyn cyfiawnhau'r canlyniad a ddymunir. Os fyddent wedi gwneud hynny, ni fyddent wedi dosbarthu rhai o'r materion fel rhai cadarnhaol neu niwtral, â'r rheiny mewn gwirionedd yn amlwg yn negyddol. Rydych bellach wedi caniatáu i'r safle fynd â'i ben iddo, a does dim amheuaeth y bydd hynny'n cael ei ddefnyddio'n nes ymlaen i gyfiawnhau ymhellach pam nad ydi o'n hyfyw yn economaidd mwyach i ailagor y cwrs. | Er y derbynnir bod y cwrs golff wedi rhoi cyfle i'r rheiny nad oeddynt efallai'n teimlo'n hyderus wrth chwarae yn rhywle arall, ceir darpariaeth ddigonol ar yr ynys, ar draws pob lefel/safon. Roedd y niferoedd oedd yn defnyddio'r cwrs golff wedi lleihau'n sylweddol hefyd, cafwyd cwymp o 56%. Trwy ein trafodaethau â chlybiau golff eraill ar yr ynys, mae pob un ohonynt wedi mynegi parodrwydd i gydweithio â'r llain ymarfer.<br><br>Ymgymerwyd â'r asesiad Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol gan Swyddogion o fewn yr Uned Datblygu Economaidd ac aseswyd effaith y bwriad arfaethedig i werthu gan ystyried yr amcanion/blaenoriaethau a nodwyd yng Nghynllun Llesiant Gwynedd ac Ynys Môn 2018. Adolygwyd yr asesiadau hyn gan Swyddogion eraill yn y Cyngor (a oedd yn annibynnol o'r broses) yn ogystal â chyfreithiwr allanol. Er ein bod yn cydnabod bod dwy agwedd a chanddynt effeithiau negyddol efallai - o ran y rheiny a effeithir o ganlyniad i ddiffyg cludiant ynghyd â fforddiadwyedd cyrsiau golff eraill - aethpwyd i'r afael â'r rhain trwy amlygu bod consesiynau teithio ar gael a bod cyrsiau eraill ar yr ynys, a'u bod yn hygyrch.<br><br>Aseswyd y 7 Nod Llesiant yn erbyn Blaenoriaethau'r Cynllun Llesiant. Aseswyd cynnwys yr holl asesiadau ymhellach gan Swyddogion eraill o fewn y Cyngor Sir yn gwbl annibynnol o'r broses, ac fe'u haseswyd yn derfynol gan gyfreithiwr allanol. |



DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| | | Bod y llain ymarfer yn parhau i fod ar agor; bod darpariaeth ddigonol yn bodoli mewn mannau eraill ar yr ynys ar gyfer golffwyr; bod darpariaeth ddigonol yn bodoli o ran cyfleusterau chwarae; bod darpariaeth ddigonol yn bodoli o ran mannau agored, ac y bydd unrhyw dderbyniad cyfalaf yn cael ei ail-fuddsoddi ym Mhlas Arthur i'w ddefnyddio ar gyfer datblygu amrywiaeth y cyfleusterau yno. Credwn fod hyn yn lliniaru effeithiau unrhyw fwriad arfaethedig i werthu.<br><br>Yn anffodus, nid oedd y capasiti na'r adnoddau'n bodoli o fewn y Cyngor Sir i ailagor y cyfleuster pan ddaeth Partneriaeth Llangefni i'r penderfyniad nad oedd am reoli'r cwrs golff mwyach. Roedd/mae angen gwario cryn dipyn ar y safle, a rhaid gwneud penderfyniad o ran ei ddyfodol o ganlyniad i wneud colledion o £28,000 y flwyddyn ar gyfartaledd a gostyngiad o 56% yn niferoedd y cyfranogwyr. |
| 5 | Amherthnasol | |
| 6 | Dwi wedi ymweld ag Ynys Môn fel twrist ar hyd fy oes. Mae'n debyg y byddwn yn chwarae 10+ gêm y flwyddyn ar gwrs golff Llangefni, o 2005 tan iddo gau. Dwi'n meddwl ei fod yn biti garw fod y cwrs yn cael ei golli, roedd nid yn unig yn gyfleuster gwych ynddo'i hun ond wedi fy nenu i chwarae golff yn y lle cyntaf, ac mi fydda' i bellach yn chwarae sawl rownd y flwyddyn ar Ynys Môn a ledled Cymru/y Gogledd Orllewin. Heb gwrs golff Llangefni, dwi ddim yn meddwl y byddwn wedi dechrau chwarae golff, a fyddwn i ddim yn ymweld â Chymru fel y byddaf erbyn hyn i'r pwrpas penodol o chwarae. | Fel endid, nid yw'r cwrs golff yn ariannol hyfyw, a hwnnw'n colli £28,000 y flwyddyn ar gyfartaledd. Nid yw hyn yn gynaliadwy ac felly rhaid gwneud penderfyniad anodd o ran ei ddyfodol.<br><br>Mae'r Cyngor Sir wedi ymgynghori â'r cyrsiau golff, ac er y codwyd rhai pryderon roeddynt yn cytuno bod y llain ymarfer yn ased ffantastig y mae angen gwneud y gorau ohono. Y consenswS oedd bod digon/gormodedd o ddarpariaeth eisoes o ran cyrsiau golff ar Ynys Môn.<br><br>Dylid nodi hefyd mai gwasanaeth dewisol oedd y cwrs golff. |
| 7 | Cefnogol | Nodwyd y sylw. |
| 8 | O ystyried y lleihad mewn mannau cyhoeddus gyda ffensio cae'r ysgol a chau Nant y Pandy, a fyddai modd cadw rhywfaint o'r tir fel man agored cyhoeddus, i bobl leol gael mynd yno i ymarfer gyda'u plant a chŵn? | Mae'r Cyngor wedi asesu'r effaith y byddai bwriad arfaethedig i werthu Cwrs Golff Llangefni yn ei gael yn erbyn sawl cynllun a strategaeth, gan gynnwys chwarae, mannau agored, hamdden, iechyd a gofal cymdeithasol ac anghenion y gymuned o ran llesiant. Mae manylion canlyniadau'r asesiadau hyn yn ffurfio rhan o'r Pecyn Ymgynghori a oedd ar gael i'r |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| | | cyhoedd yng Nghanolfan Fusnes Môn. Mae'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd a'r Asesiad o Fannau Agored - Llangefni, yr ymgymerwyd â hwy gan yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd yn dangos bod digon o fannau gwyrdd a thir amwynder hamdden yn bodoli eisoes yn Llangefni, sy'n diwallu anghenion y gymuned o ran llesiant.<br><br>Bydd unrhyw dderbyniad cyfalaf o unrhyw werthiant yn cael ei neilltuo i wella'r ddarpariaeth ym Mhlas Arthur. Bydd blaenoriaethu cyfleusterau aml-chwaraeon sy'n darparu ar gyfer amrywiaeth ehangach o ddefnyddwyr yn ei gwneud yn haws i deuluoedd chwarae yn yr un lle, bydd yn sicrhau defnydd trwy gydol y flwyddyn ac yn cynnig y gwerth gorau am arian.<br><br>Dim ond rhywbeth dros dro yw cau'r mynedfeydd i Nant y Pandy, o ganlyniad i fandaliaeth ddiweddar, a diogelwyd cyllid allanol i atgyweirio'r mannau dan sylw ac i wella'r hyn sydd ar gael yno'n gyffredinol. |
| 9 | Cefnogol | Nodwyd y sylw. |
| 10 | Dyma fy sylwadau ar y 4 pwynt rydych yn ymgynghori yn eu cylch:<br><br>1. Dwi ddim yn cytuno gyda'r syniad y dylid rhoi'r tir ar werth fel manddaliad. Does dim angen rhagor o dir ffermio ar yr ynys ac ni ellir gwarantu sut y bydd prynwr efallai'n trin y tir yma. Mae'n fan gwyrdd gwerthfawr yr wyf yn meddwl y dylai'r Cyngor ddal ei afael arno. Mae cyfle yma i gael mwy o le i fyd natur fyddai hefyd yn hygyrch i'r cyhoedd, a byddai'n cael ei werthfawrogi fel rhywbeth allweddol i bobl leol ac ymwelwyr fel ei gilydd.<br><br>2. Os bydd rhaid gwerthu'r tir yna, wrth gwrs, dylid rhoi'r cyfalaf yn ôl i mewn i'n cyfleusterau hamdden. Ond gallai'r man gwyrdd helaeth hwn fod yn gyfleuster hamdden gwych yn ei hun. | Dengys canlyniadau asesiadau effaith y Cyngor Sir bod digon o fannau gwyrdd yn bodoli eisoes yn Llangefni, bo'r rheiny yn Nant y Pandy, a fydd yn manteisio ar gyllid allanol a ddiogelwyd yn ddiweddar, neu ar Lôn Las Cefni. Mae'r ddau yn eithriadol o boblogaidd â phreswylwyr ac ymwelwyr fel ei gilydd. Mae'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd a'r Asesiad o Fannau Agored - Llangefni, yr ymgymerwyd â hwy gan yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd, yn dangos bod digon o fannau gwyrdd a thir amwynder hamdden yn bodoli eisoes yn Llangefni, sy'n diwallu anghenion y gymuned o ran llesiant.<br><br>Mae'r asesiadau effaith unigol yr ymgymerwyd â hwy fel rhan o'r ymgynghoriad hwn yn dangos bod llesiant, iechyd, chwarae, hamdden ac ystyriaethau ehangach o ran yr |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| | 3. Dwi'n falch y bydd golffwyr lleol yn dal i fedru defnyddio'r cyfleuster presennol.<br><br>4. Dwi'n meddwl fod hwn yn gyfle wedi'i fethu i gymryd camau cadarnhaol i wella'r ynys mewn cyfnod o argyfwng o ran yr hinsawdd ac o safbwynt ecolegol. Gellid plannu coed ar y tir hwn i helpu i atafaelu carbon, gan greu cynefin i gynnal bywyd gwyllt, a hefyd ymestyn y man gwyrdd i bobl gael treulio amser ynddo – sydd wedi'i amlygu'n rhywbeth pwysig iawn er lles corfforol a meddyliol yn ystod y pandemig.<br><br>Dwi'n gobeithio y byddwch yn ystyried y pwyntiau hyn yn eich proses benderfynu. | amgylchedd ac iechyd o leiaf yn cael eu cyflawni mewn mannau eraill yn ardal Llangefni.<br><br>Bydd blaenoriaethu cyfleusterau aml-chwaraeon sy'n darparu ar gyfer amrywiaeth ehangach o ddefnyddwyr yn ei gwneud yn haws i deuluoedd chwarae yn yr un lle, bydd yn sicrhau defnydd trwy gydol y flwyddyn ac yn cynnig y gwerth gorau am arian.<br><br>Nodwyd sylw 3.<br><br>Mae'r Cyngor Sir wedi cyhoeddi ei fod yn cydnabod yr Argyfwng o ran yr Hinsawdd ac yn cymryd camau i leihau ein hôl-troed carbon, gan gynnwys bod yn gymuned ddi-blastig. Fel yn achos yr ymateb uchod, dengys ein hasesiadau effaith bod digon o fannau gwyrdd yn bodoli eisoes yn Llangefni, bo'r rheiny yn Nant y Pandy, a fydd yn manteisio ar gyllid allanol a ddiogelwyd yn ddiweddar, neu ar Lôn Las Cefni. Mae'r ddau yn eithriadol o boblogaidd â phreswylwyr ac ymwelwyr fel ei gilydd.<br><br>Ni chafodd yr agweddau o ran ecoleg a bioamrywiaeth eu cynnwys yn yr asesiadau effaith. |
| 11 | Ar ôl darllen y dogfennau ategol sy'n dogfennu, ar sail tystiolaeth, yr ymresymiad dros werthu tir Cwrs Golff Llangefni a thŷ Y Ffridd ar y farchnad agored i greu manddaliad newydd, gan neilltuo'r derbyniad cyfalaf a'i ail-fuddsoddi yn ein cyfleusterau hamdden i wella a chyfoethogi'r ystod o weithgareddau y maent yn eu cynnig ac y byddai'r llain ymarfer, yr ardaloedd ymarfer a'r siop yn aros fel cyfleuster golff ac ar agor i'r cyhoedd barhau i'w defnyddio - Er fy mod yn gwerthfawrogi'r ymresymiad dros yr uchod, mae gen i bryderon mawr o ran defnydd ac ailddatblygiad posibl y manddaliad | Mae'r Cyngor wedi asesu'r effaith y byddai bwriad arfaethedig i werthu Cwrs Golff Llangefni yn ei gael yn erbyn sawl cynllun a strategaeth, gan gynnwys chwarae, mannau agored, hamdden, iechyd a gofal cymdeithasol ac anghenion y gymuned o ran llesiant. Mae manylion canlyniadau'r asesiadau hyn yn ffurfio rhan o'r Pecyn Ymgynghori a oedd ar gael i'r cyhoedd yng Nghanolfan Fusnes Môn. Mae'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd a'r Asesiad o Fannau Agored - Llangefni, yr ymgymerwyd â hwy gan yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd yn dangos bod digon o fannau gwyrdd a thir amwynder hamdden yn bodoli eisoes yn Llangefni, sy'n diwallu anghenion y gymuned o ran llesiant. |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| | newydd arfaethedig a'r tir cysylltiedig yn stad/datblygiad tai mewn blynyddoedd i ddod.<br><br>Nid yn unig y mae gan y tir hwn werth hanesyddol o ran amwynder lleol ers ei agor gan Gyngor Bwrdeistref Ynys Môn ym 1983 fel cyfleuster ar gyfer rhai sy'n dechrau chwarae golff a chwaraewyr canolraddol, mae hefyd yn darparu cynefin bywyd gwyllt sefydledig naturiol ac iach, a hwnnw'n agos iawn i Afon Cefni. Byddai gweld hwn yn cael ei golli i'r posibilrwydd o greu datblygiad tai (ar ôl ei sefydlu fel manddaliad) yn siom fawr ac yn niweidiol i dirwedd a bywyd gwyllt yn yr ardal leol a byddai'n rhoi pwysau ychwanegol ar yr isadeiledd lleol, er enghraifft, ysgolion ac ati.<br><br>Dwi'n gwerthfawrogi bod y safle ar hyn o bryd y tu allan i Gynllun Datblygu Lleol Ynys Môn a Gwynedd (2011-2025) ond gallai hyn newid, ac mae o yn digwydd.<br><br>Sut fyddai Cyngor Ynys Môn yn ceisio diogelu'r safle rhag unrhyw ddatblygiad tai arfaethedig yn y dyfodol ac yn sicrhau ei fod yn parhau fel manddeiliaid yn ôl y bwriad? | Mae'r Cyngor Sir wedi ymgynghori â'r cyrsiau golff, ac roeddynt yn cytuno bod y llain ymarfer yn ased ffantastig y mae angen gwneud y gorau ohono. Y consensws oedd bod digon/gormodedd o ddarpariaeth eisoes o ran cyrsiau golff ar Ynys Môn. Bydd y llain ymarfer yn parhau i fod ar gael ac mae hon yn darparu cyfleuster ffantastig ar gyfer rhai sy'n dechrau chwarae golff a golffwyr canolraddol cyn mynd ymlaen i chwarae ar gwrs golff.<br><br>Bydd y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ar waith tan 2026. Mae'r tir sy'n cynnwys y Safle wedi'i leoli y tu allan i'r ffin ddatblygu, felly ni chaiff ei gefnogi at ddibenion ailddatblygu tan 2026 ar y cynharaf, ac mae'n annhebygol y byddai hyn yn newid. Byddai mynediad yn broblem hefyd, naill ai trwy safle'r Oriel neu Lôn Clai.<br><br>Byddai'n bosibl cynnwys cyfyngiadau ar unrhyw werthiant. |
| 12 | Fferm gymunedol, gyda mannau chwarae dan do ac awyr agored. Yn enwedig gan nad oes unrhyw le i fynd ar yr ynys os ydi hi'n bwrw. | Yn anffodus, nid oes gan y Cyngor Sir y capasiti i ddatblygu a rheoli fferm gymunedol, ac ni fydd hynny'n bosibl yn y dyfodol ychwaith.<br>Fel yr amlinellwyd o fewn y dogfennau, pe bai'r safle'n cael ei werthu, y bwriad yw y byddai'r holl dderbyniadau cyfalaf yn cael eu clustnodi a'u gwario ar wella'r hyn a gynigir o ran cyfleusterau hamdden ym Mhlas Arthur, gan gynnwys unrhyw atyniadau tywydd gwlyb. |
| 13 | Byddwn yn hapusach gyda'r syniad o gyfuno maes y cwrs gyda'r llain ymarfer unwaith eto. Ond efallai i bwrpas fel rhywle i blant a phobl ifanc dreulio eu hamser hamdden yn gwneud rhyw fath o weithgaredd. Byddai gwerthu'r tir yn golygu'r posibilrwydd o adeiladu tai yno, ac felly'n difetha harddwch naturiol yr ardal. O ran anghenion tai, i mi, tydi tir y cwrs golff ddim yn addas i | Fel endid, nid yw'r cwrs golff yn ariannol hyfyw, a hwnnw'n colli £28,000 y flwyddyn ar gyfartaledd. Cafwyd gostyngiad o 56% yn niferoedd y cyfranogwyr hefyd. Nid yw hyn yn gynaliadwy.<br><br>Mae'r Cyngor Sir wedi ymgynghori â'r cyrsiau golff, ac er y codwyd rhai pryderon roeddynt yn cytuno bod y llain ymarfer |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| | hynny. Mae angen ystyried ffactorau eraill wrth ystyried beth i'w wneud gyda'r tir, a dyna pam dwi'n meddwl mai'r opsiwn gorau ar ei gyfer ydi defnyddio'r tir a buddsoddi ynddo er budd y gymuned, i greu rhyw fath o gyfleuster hamdden yno. | yn ased ffantastig y mae angen gwneud y gorau ohono. Y consenswS oedd bod digon/gormodedd o ddarpariaeth eisoes o ran cyrsiau golff ar Ynys Môn.<br><br>Yn nhermau datblygiadau tai, mae'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ar waith tan 2026. Mae'r Safle wedi'i leoli y tu allan i'r ffin ddatblygu ar hyn o bryd, felly ni chaiff ei gefnogi at ddibenion ailddatblygu tan 2026 ar y cynharaf. |
| 14 | Dwi'n meddwl ei fod yn syniad gwych. Y llain ymarfer ydi'r peth fyddwn i'n ei hoffi, mae digon o gyrsiau eraill os dwi eisiau gwneud rownd o golff. Mae'r syniad o ail-fuddsoddi mewn cyfleusterau hamdden eraill yn wych. Yn ei lwyr gefnogi. | Nodwyd y sylw. |
| 15 | Ei droi'n drac Mx | Yn anffodus, nid oes gan y Cyngor Sir y capasiti i ddatblygu'r tir ar gyfer trac/cyfleuster rasio 'motocross', ac ni fydd hynny'n bosibl yn y dyfodol ychwaith.<br><br>Bydd blaenoriaethu a buddsoddi mewn cyfleusterau aml-chwaraeon sy'n darparu ar gyfer amrywiaeth ehangach o ddefnyddwyr yn ei gwneud yn haws i deuluoedd chwarae yn yr un lle, bydd yn sicrhau defnydd trwy gydol y flwyddyn ac yn cynnig y gwerth gorau am arian, ac yn diwallu anghenion y gymuned o ran cyfleusterau hamdden a chwaraeon. |
| 16 | Amherthnasol | |
| 17 | Amherthnasol | |
| 18 | Ni ddylid gwerthu'r cwrs golff. Mae Ynys Môn yn dibynnu ar dwristiaeth am incwm, a hyd yn oed os na ellir dangos fod y cwrs golff ei hun yn gwbl broffidiol, dylid ei ystyried fel rhan o'r cynnig cyffredinol y mae Ynys Môn yn ei ddarparu i ystod amrywiol o dwristiaid â'u hamryw hoffterau. Bydd rhai ohonynt yn chwaraewyr golff. Chwaraewyr golff sydd â gwragedd (neu wŷr) sy'n treulio amser yn siopa neu'n ymweld ag atyniadau eraill i dwristiaid, o bosib hefo plant. A phan nad ydyn nhw'n chwarae golff maen nhw'n yfed yn ein tafarndai ac yn bwyta yn ein bwytai. Os ydych yn gwerthu'r cwrs golff rydych o bosib yn | Fel endid, nid yw'r cwrs golff yn ariannol hyfyw, a hwnnw'n colli £28,000 y flwyddyn ar gyfartaledd. Nid yw hyn yn gynaliadwy.<br><br>Mae'r Cyngor Sir wedi ymgynghori â'r cyrsiau golff, ac er y codwyd rhai pryderon roeddynt yn cytuno bod y llain ymarfer yn ased ffantastig y mae angen gwneud y gorau ohono. Y consenswS oedd bod digon/gormodedd o ddarpariaeth eisoes o ran cyrsiau golff ar Ynys Môn. |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| | dangos i'r teulu hwnnw nad ydym eisiau eu busnes, ac mewn gwirionedd yn dweud wrthynt ymweld â chyrchfan arall yn y DU, sydd hefo cwrs golff. | Mae Llangefni yn manteisio ar amryw atyniadau hamdden sy'n denu ymwelwyr a phreswylwyr fel ei gilydd. Maent yn cynnwys y llain ymarfer presennol, Nant y Pandy, Lôn Las Cefni a'r Dref ei hun.<br><br>Bydd y llain ymarfer sy'n cael ei rhedeg gan weithiwr PGA proffesiynol, ac sydd wedi sicrhau buddsoddiad yn y cyfleuster, yn parhau i fod ar agor i'r cyhoedd. |
| 19 | Derbyniwyd e-bost gan Chwaraeon Cymru:<br><br>Annwyl Tudur<br><br>Diolch am eich e-bost yn darparu hysbysiad o'r bwriad arfaethedig i werthu Cwrs Golff Llangefni. Cadarnhaf ein bod wedi ymgynghori â Meysydd Chwarae Cymru, sef ymgynghorai arbenigol arall yng nghyswllt Rheoliadau Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu) (Cymru) 2015, ac mae'n cytuno â'r sylwadau isod ac yn eu cefnogi.<br><br>Chwaraeon Cymru yw'r sefydliad cenedlaethol sy'n gyfrifol am ddatblygu a hybu chwaraeon a gweithgareddau corfforol yng Nghymru. Ein nod yw nid yn unig gwella lefelau cyfranogiad mewn chwaraeon ar lawr gwlad ond hefyd darparu'r cymorth a fynnir i'n hathletwyr awyddus gael cystadlu'n llwyddiannus ar lwyfan y byd.<br><br>Mae Chwaraeon Cymru'n pryderu am effaith bosibl y bwriad arfaethedig i gau ar gyfranogiad mewn chwaraeon a datblygiad rhai sy'n dyheu am chwarae golff ar Ynys Môn, yn enwedig gan fod y cwrs yn darparu modd rhad o chwarae golff. Fodd bynnag, nodir yr ymddengys fod digon o ddarpariaeth golff ar yr ynys sy'n cynnig cyfleoedd i dalu wrth chwarae nad ydynt yn fawr drytach na Llangefni; mae'r llain ymarfer yn cael ei gadw a'r | Bydd unrhyw dderbyniad cyfalaf o unrhyw werthiant yn cael ei neilltuo i wella'r ddarpariaeth ym Mhlas Arthur. Bydd blaenoriaethu cyfleusterau aml-chwaraeon sy'n darparu ar gyfer amrywiaeth ehangach o ddefnyddwyr yn ei gwneud yn haws i deuluoedd chwarae yn yr un lle, bydd yn sicrhau defnydd trwy gydol y flwyddyn ac yn cynnig y gwerth gorau am arian.<br><br>Mae'r Cyngor Sir wedi ymgynghori â'r cyrsiau golff, ac er y codwyd rhai pryderon roeddynt yn cytuno bod y llain ymarfer yn ased ffantastig y mae angen gwneud y gorau ohono. Y consensws oedd bod digon/gormodedd o ddarpariaeth eisoes o ran cyrsiau golff ar Ynys Môn.<br><br>Mae'r Cyngor wedi asesu'r effaith y byddai bwriad arfaethedig i werthu Cwrs Golff Llangefni yn ei gael yn erbyn sawl cynllun a strategaeth, gan gynnwys chwarae, mannau agored, hamdden, iechyd a gofal cymdeithasol ac anghenion y gymuned o ran llesiant. Mae manylion canlyniadau'r asesiadau hyn yn ffurfio rhan o'r Pecyn Ymgynghori a oedd ar gael i'r cyhoedd yng Nghanolfan Fusnes Môn. Mae'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd a'r Asesiad o Fannau Agored - Llangefni, yr ymgymerwyd â hwy gan yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd, yn dangos bod digon o fannau gwyrdd a thir amwynder hamdden yn bodoli eisoes yn Llangefni, sy'n diwallu anghenion y gymuned o ran llesiant. |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| | enillion o'r gwerthiant yn cael eu clustnodi er budd chwaraeon trwy foderneiddio a gwella Plas Arthur.<br><br>Ar wahân i golff, byddai Chwaraeon Cymru'n cwestiynu'r posibilrwydd o fod angen cadw'r cwrs fel man agored cyhoeddus. Mae'r datganiad effaith ategol yn dangos bod y ddarpariaeth yn Llangefni o ran chwaraeon awyr agored yn mynd y tu hwnt i safonau Meysydd Chwarae Cymru, ond efallai bod angen parc neu fan gwyrdd naturiol neu led-naturiol fel yr argymhellir gan y safonau diweddaraf a gyhoeddwyd gan Meysydd Chwarae Cymru. Fodd bynnag, gyda Gwarchodfa Natur Nant y Pandy ar gael ger canol y dref, a honno'n mesur 17.5 hectar, mae Chwaraeon Cymru'n fodlon bod y safonau hynny'n cael eu cyflawni hefyd.<br><br>Yn gyffredinol, o ystyried bod digon o ddarpariaeth arall o ran cyfleoedd i chwarae golff ar yr ynys, ynghyd â bwriad i glustnodi enillion y gwerthiant at ddibenion chwaraeon, a bod digon o fannau agored yn y dref, nid oes gan Chwaraeon Cymru unrhyw wrthwynebiad. | |
| 20 | Derbyniwyd trwy e-bost:<br><br>Gyda thristwch, deallaf fod y Cyngor Sir yn bwriadu gwerthu'r uchod, gan ei fod yn adnodd unigryw a bydd ei werthu'n creu sefyllfa anadferadwy. Mae'r cwrs yn feithrinfa i'r amhrofiadol ac yn dipyn o her i chwaraewyr golff profiadol. Rwy'n deall, yn y cyfnod hwn o leihau cyllideb llywodraeth leol, ni all y Cyngor barhau i ariannu gweithgareddau sy'n gwneud colled. Ond ar adeg pan fo galw am wneud rhagor o ymarfer corff, yn enwedig ymhlith pobl ifanc, onid annoeth yw gwerthu'r adnodd arbennig hwn? Ei fwriad oedd rhoi blas ar chwarae golff i ddarpar chwaraewyr fyddai yn y diwedd yn datblygu ac yn ymuno ag un o glybiau golff y sir – ac mae sawl un wedi gwneud hynny. Ond | Fel endid, nid yw'r cwrs golff yn ariannol hyfyw, a hwnnw'n colli £28,000 y flwyddyn ar gyfartaledd. Nid yw hyn yn gynaliadwy.<br><br>Mae'r Cyngor Sir wedi ymgynghori â'r cyrsiau golff, ac roeddynt yn cytuno bod y llain ymarfer yn ased ffantastig y mae angen gwneud y gorau ohono. Y consensws oedd bod digon/gormodedd o ddarpariaeth eisoes o ran cyrsiau golff ar Ynys Môn.<br><br>Bydd y llain ymarfer sy'n cael ei rhedeg gan weithiwr PGA proffesiynol, ac sydd wedi sicrhau buddsoddiad yn y cyfleuster, yn parhau i fod ar agor i'r cyhoedd. |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| | mae aelodaeth y clybiau golff hyn, ar adeg o gynni, yn ddrud iawn. Tybiaf nad oedd ymdrechion Cwmni Tref Llangefni i redeg y lle'n llwyddiant, a chefais fy synnu, yn ystod eu cyfnod wrth y llyw, na wnaed unrhyw ymgais i gynnull cyfarfod o ddefnyddwyr y safle er mwyn hybu'r fenter. Ydy hi'n rhy hwyr i ailfeddwl a cheisio rhedeg y lle fel clwb defnyddwyr / gwirfoddolwyr neu fel menter gymdeithasol? Mae'n dda gen i wybod fod y man ymarfer yn cael ei gadw, gan yr ymddengys ei fo yn eithriadol o boblogaidd. Tybed a fydd yn ddigon proffidiol rywbryd i noddi'r cwrs golff? Ond mae'n rhy hwyr bellach os yw'r cwrs wedi'i werthu! | Mae'r Cyngor wedi ymgymryd ag asesiad o effaith y bwriad arfaethedig i werthu ar gyfleoedd i chwarae golff yn yr ardal. Mae canlyniad yr asesiad hwn yn dangos bod opsiynau eraill ar gael – bydd cyrsiau golff Storws Wen a Bae Trearddur a'r llain ymarfer yn parhau i fod ar agor i'w defnyddio gan y cyhoedd. |

DRAFT

## 5.0 Rhesymau a Chasgliadau

5.1 Mae'r Cyngor wedi rhoi ystyriaeth lawn i ganlyniad yr ymarfer ymgynghori a'r holl ymatebion a dderbyniwyd.

5.2 O ran y sylwadau, mae chwech (6) ohonynt fwy neu lai'n cefnogi'r cynigion, nid yw pedwar (4) yn eu cefnogi, ac mae'r gweddill yn amwys o ran y safbwyntiau a fynegwyd ganddynt ynglŷn â'r bwriadau, ond yn codi pryderon o ran colli man gwyrdd neu'r perygl o ddatblygu'r tir ar gyfer tai.

5.3 O blith yr ymgyngoreion statudol (Para 3.1, Rheoliad 6), dim ond Chwaraeon Cymru a ymatebodd, ni chafwyd ymateb gan yr un o'r sefydliadau eraill a dargedwyd. Dim ond Cyngor Tref Porthaethwy a ymatebodd yn ffurfiol o blith y Cynghorau Tref a Chymuned ac nid oedd ganddynt unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y cynigion.

5.4 Daeth y cyfnod ymgynghori i ben ar ddydd Llun 30ain Tachwedd 2020. Er hynny, roedd y Cyngor Sir yn barod i dderbyn sylwadau hwyr, a dywedodd Cyngor Cymuned Llaneilian y byddai'n darparu ei sylwadau erbyn dechrau Rhagfyr 2020. Ar adeg dyddiad cyhoeddi'r adroddiad hwn, ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau pellach, ac er sicrwydd, a'r angen i ddod â'r broses ymgynghori i ben, nid yw'r Cyngor Sir mewn sefyllfa i ystyried unrhyw sylwadau pellach.

5.5 O ran y pryderon a nodwyd yn y sylwadau nad ydynt yn cefnogi bwriad i werthu, aethpwyd i'r afael â'r rheiny fel rhan o ymarfer asesiadau effaith. Gellir gweld yr asesiadau hyn fel rhan o Atodiad 1. Mae nifer o ffactorau/rhesymau sy'n cefnogi'r sail resymegol o ran y bwriad i werthu, maent yn cynnwys:

1. Bod y cwrs golff yn gwneud colled o £28,000 y flwyddyn ar gyfartaledd nid yw hyn yn gynaliadwy o gwbl
2. Hyd at 2014, roedd y ffigurau o ran niferoedd y cyfranogwyr yn dangos gostyngiad o 56% yn niferoedd y mynychwyr
3. Ceir darpariaeth ddigonol mewn safleoedd eraill ar Ynys Môn sy'n darparu ar gyfer bob lefel o'r gêm, gan gynnwys lefel mynediad
4. Bydd y llain ymarfer – sy'n gyfleuster unigryw – yn parhau i fod ar agor ac mae trefniant prydlesu yn ei lle gyda'r tenant
5. Bydd unrhyw dderbyniad cyfalaf o unrhyw fwriad i werthu yn cael ei glustnodi ar gyfer gwella'r ddarpariaeth ym Mhlas Arthur.
6. Bydd blaenoriaethu cyfleusterau aml-chwaraeon sy'n darparu ar gyfer amrywiaeth ehangach o ddefnyddwyr yn ei gwneud yn haws i deuluoedd chwarae yn yr un lle, bydd yn sicrhau defnydd trwy gydol y flwyddyn ac yn cynnig y gwerth gorau am arian.

5.6 Yn ategol i'r rhesymau uchod o ran y penderfyniad i werthu yw bod y Cyngor wedi asesu'r effaith y byddai unrhyw fwriad arfaethedig i werthu yn ei gael yn erbyn sawl cynllun a strategaeth, gan gynnwys y rheiny yng nghyswllt mannau agored, chwarae, hamdden, iechyd, y Gymraeg, hamdden a gofal cymdeithasol ac anghenion y gymuned o ran llesiant. Mae ein hasesiadau'n dangos, ac yn dod i'r casgliad, na fyddai unrhyw fwriad i werthu yn cael unrhyw effeithiau negyddol. Rydym yn cydnabod efallai y profir dau effaith negyddol, ond gellir rhoi camau ar waith i liniaru'r effeithiau hyn.



DRAFT

Gellir gweld yr asesiadau manwl o'r effeithiau yn Atodiad 1, ac mae'r tabl isod yn amlinellu'r asesiadau manwl yr ymgymerwyd â hwy, ynghyd â'u casgliadau.

| Maes Pwnc | Cadarnhaol/ Niwtral | Negyddol |
|---|---|---|
| Y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, yr Asesiad o Fannau Agored | ✓ | |
| Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae | ✓ | |
| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | ✓ | |
| Asesiad o Lesiant Lleol | ✓ | |
| Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb | ✓ | |
| Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg | ✓ | |
| Strategaeth Hamdden y Cyngor Sir | ✓ | |

5.7 Bydd parhau i gefnogi tenantiaid y llain ymarfer, a sicrhau buddsoddiad i drawsnewid cyfleusterau Plas Arthur, yn dangos mai'r ymagwedd hon oedd y penderfyniad cywir.

## 6.0 Y Camau Nesaf

6.1 Ar ôl ymgymryd ag asesiad trylwyr o'r effaith y byddai'r bwriad i werthu'r Safle yn ei gael ar y strategaethau, y cynlluniau a'r asesiadau uchod o'r ardal, ynghyd â gwerth y Safle i'r gymuned leol o ran hamdden, ar y cyd ag adolygiad llawn ac ystyriaeth o'r holl ymatebion a dderbyniwyd yn dilyn yr ymarfer ymgynghori, rhaid i'r Cyngor Sir bellach benderfynu p'un ai i fwrw ymlaen â'r penderfyniad i werthu'r Safle, neu i'r cyfleuster barhau o fewn portffolio'r Cyngor.

6.2 Yn gyson â gweithgareddau blaenorol yng nghyswllt y Cwrs Golff, byddai'n berthnasol i'r Pwyllgor Gwaith ymgymryd ag unrhyw benderfyniadau pellach hefyd. Yn ogystal, gan fod y safle'n werth dros £250,000 ar y farchnad, rhaid i'r Pwyllgor Gwaith wneud unrhyw benderfyniad o ran ei ddyfodol, yn unol â pharagraff 2.5 o'r Polisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau (AMPP) 2016. Yn unol â'r Rheoliadau, rhaid i'r Pwyllgor Gwaith ystyried yr holl sylwadau ar yr ymgynghoriad – fel y nodir ym mharagraff 4.2 o'r adroddiad hwn – cyn gwneud penderfyniad.

6.3 Os bydd y Pwyllgor Gwaith yn penderfynu bwrw ymlaen â'r bwriad i werthu Cwrs Golff Llangefni, bydd angen dilyn camau pellach o dan y Rheoliadau o fewn amserlenni rhagnodedig. Yn fyr, mae'r rhain yn cynnwys paratoi adroddiad ar y penderfyniad (gyda chopïau ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd ac ar wefan y Cyngor, ynghyd ag anfon copïau at bob unigolyn a gyflwynodd sylwadau), ynghyd â gofynion o ran hysbysiadau ar y safle, yn y wasg ac ar y wefan gorfforaethol, yn debyg i'r rheiny yr ymgymerwyd â hwy cyn cychwyn yr ymgynghoriad am gyfnod o o leiaf 6 wythnos. Mae ein cyfreithwyr allanol wedi rhoi gwybod y gallant hwy ddarparu'r cymorth angenrheidiol o ran yr agwedd hon.

6.4 Os bydd y Pwyllgor Gwaith yn penderfynu bwrw ymlaen â'r bwriad i werthu, gallai'r Cyngor ddechrau marchnata'r safle a chyd-drafod a chytuno ar amodau gwerthiant gyda darpar brynwr yn ystod y cyfnod hysbysu o o leiaf 6 wythnos. Fodd bynnag, ni allai'r Cyngor fwrw ymlaen â chyfnewid contractau neu gwblhau gwerthiant hyd nes y bydd cyfnod o o leiaf 12 wythnos wedi pasio o'r dyddiad y cyhoeddwyd rhybudd o benderfyniad y Cyngor gyntaf yn y wasg leol.



DRAFT

## 7.0 Argymhellion y Swyddogion

7.1 Bod y Pwyllgor Gwaith yn ystyried cynnwys yr adroddiad hwn ac yn gwneud penderfyniad ar ddyfodol Cwrs Golff Llangefni. Yr opsiynau yw naill ai:

**Opsiwn 1**

**a) Bwrw ymlaen â'r gwerthiant a dechrau marchnata'r Safle (aelwyd Y Ffridd ynghyd â 42 erw o dir) i'w werthu ar y farchnad agored;**

**b) Ymgymryd â chyfnod hysbysu o o leiaf 6 wythnos yn y wasg leol trwy "Hysbysiad o Benderfyniad" sy'n nodi penderfyniad y Cyngor o ran gwerthu'r Safle; ac**

**c) Ail-fuddsoddi unrhyw dderbyniadau cyfalaf a dderbyniwyd o ganlyniad i werthu'r Safle yng nghyfleuster hamdden Plas Arthur.**


**Opsiwn 2**


**Peidio â bwrw ymlaen â'r gwerthiant, ailgynnwys y cyfleuster o fewn portffolio asedau'r Cyngor Sir. Bydd angen gwneud penderfyniad wedyn o ran beth fydd ei rôl os bydd ganddo un o gwbl.**


DRAFT


## Atodiad A – Hysbysebion yn y Wasg sy'n dangos "yr Hysbysiad"





Publication Archive
Region: NorthWest
22-October-2020
Publication: LDW
Edition: 1ST
Search
Download



Region: NorthWest
21-October-2020
Publication: LBM
Edition: 1ST






Region: NorthWest
28-October-2020
Publication: LBM
Edition: 1ST






FIRST UK MAN TO GET COVID DIES IN UNI ACCIDENT
MYSTERY OF PLANE CRASH THAT KILLED RETIRED PROFESSOR
The Welsh Whisperer... and what he has in common with Rihanna
STORED MEMORIES
CELLWATCH
EARLY DOORS
Burning embers



Trinity Mirror plc
Publication Archive
Search
Download
Region:
NorthWest
12-November-2020
Publication:
LDW
Edition:
1ST
THUG SHOOK BABY SO HARD SHE SUFFERED BRAIN INJURY
£3MILLION
The wood life


Region:
NorthWest
11-November-2020
Publication:
LBM
Edition:
1ST


Region:
NorthWest
19-November-2020
Publication:
LDW
Edition:
1ST


Region:
NorthWest
18-November-2020
Publication:
LBM
Edition:
1ST


Trinity Mirror plc
Publication Archive
Search
Download
Region:
NorthWest
26-November-2020
Publication:
LDW
Edition:
1ST


Trinity Mirror plc
Publication Archive
Search
Download
Region:
NorthWest
25-November-2020
Publication:
LBM
Edition:
1ST
TWO ON MURDER CHARGE
Murder accused appear in court
Injured climber sparks seven-hour rescue op
War hero's medals 'to fetch £120,000'
Stop second home owners voting in Senedd election
Stena Line marks 25 years on route
Resort's house prices rocket
WOMAN KILLED IN A55 BRIDGE TRAGEDY
SECRET ELVES CLUB
A further lifeline for UK workers
Determined to safeguard our communities
Next generation of mischief with new Delan a Loli stars
Tributes to player in legendary club side
Potential impact of green deal
Call to back reopening of Gaerwen railway line
Golden eye
Hitting the sweet spot
AFTER DINNER MINCE
So, we've got 3m people we'd like you to meet...
National Lottery support for all 44 Cymru Leagues clubs welcomed

DRAFT

## Atodiad B – "yr Hysbysiad"

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

### HYSBYSIAD O FWRIAD I GAEL GWARED AR Y CWRS GOLFF LLANGEFNI
### NOTICE OF PROPOSAL TO DISPOSE OF THE LLANGEFNI GOLF COURSE

Rheoliadau Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu) (Cymru) 2015

RHODDIR RHYBUDD DRWY HYN fod Cyngor Sir Ynys Môn yn bwriadu cael gwared ar tir y cwrs golff yn Llangefni.

Mi fydd y llain ymarfer, ardal ymarfer a'r siop yn parhau i fod ar agor i'r cyhoedd.

Mae manylion y gwarediad arfaethedig ar gael i'w harchwilio am gyfnod o saith wythnos o ddyddiad yr hysbysiad hwn yn ystod oriau swyddfa arferol (9yb – 5yh) drwy apwyntiad o flaen llaw yn:

Canolfan Busnes Môn, Llangefni, LL77 7XA
(nid yw prif dderbynfa yn Swyddfeydd y Cyngor ar agor oherwydd cyfyngiadau yn sgil y coronafeirws)

Mae gan y cyhoedd hawl i gyflwyno sylwadau i'r Cyngor. Dylid cyflwyno sylwadau yn ysgrifenedig i'r cyfeiriad uchod (wedi eu marcio i sylw Tudur Jones) neu ar-lein drwy www.ynysmon.gov.uk/cwrsgolffllangefni
Bydd unrhyw sylwadau a wneir o fewn saith wythnos o ddyddiad y rhybudd hwn yn cael eu hystyried gan y Cyngor. Mae gennym ddisgresiwn i ystyried sylwadau a dderbynnir ar ôl diwedd y cyfnod ymgynghori.

Mae'r holl wybodaeth perthnasol ar gael ar y wefan
www.ynysmon.gov.uk/cwrsgolffllangefni

Cyhoeddir rhybudd o fwriad arfaethedig y Cyngor Sir i waredu'r tir yn unol â Rheoliadau Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu) (Cymru) 2015

DYDDIEDIG: 12.10.2020
Bydd yr ymgynghoriad hwn yn cau ar: 30.11.2020

I drefnu apwyntiad i weld y dogfennau perthnasol neu eu derbyn trwy e-bost neu bost, cysylltwch a Tudur H. Jones, Rheolwr Prosiect – Datblygu Economaidd

The Playing Fields (Community Involvement in Disposal Decisions) (Wales) Regulations 2015

NOTICE IS HEREBY GIVEN that the Isle of Anglesey County Council is proposing to dispose of the land associated with the Llangefni golf course.

The driving range, practice area and shop will remain open to the public.

Details of the proposed disposal is available for inspection for the period of seven weeks from the date of this notice during normal office hours (9am – 5pm) by prior appointment at:

Anglesey Business Centre, Llangefni, LL77 7XA
(The main Council offices are not open as a result of the Coronavirus pandemic)


The public has a right to make representations to the Council. Representations should be made in writing to the above address (marked for the attention of Tudur Jones) or online to
www.anglesey.gov.uk/llangefnigolfcourse
Any representation made within seven weeks of the date of this notice will be considered by the Council. We have discretion to consider representations received after the end of the consultation period.

All relevant information can also be found online at:
www.anglesey.gov.uk/llangefnigolfcourse

Notice of the County Council's proposal to dispose of the land is published in accordance with The Playing Fields (Community Involvement in Disposal Decisions) (Wales) Regulations 2015

DATED: 12.10.2020
This consultation will end: 30.11.2020

To arrange an appointment to view the relevant documents or to receive them via e-mail or post please contact Tudur H. Jones Project Manager – Economic Development



AM FWY O WYBODAETH YNGHYLCH YR UCHOD, DYLECH GYSYLLTU Â'R CYNGOR AR:

tudurjones@ynysmon.gov.uk
neu 01248 752 435

FOR MORE INFORMATION REGARDING THE ABOVE YOU SHOULD CONTACT THE COUNCIL AT:

tudurjones@anglesey.gov.uk
or 01248 752 435

www.ynysmon.gov.uk www.anglesey.gov.uk

## Atodiad C – Lluniau o'r Safle

Cymerwyd rhagor o luniau ar y 26ain a'r 29ain Hydref a'r 05ed,11eg a'r 26ain Tachwedd 2020 - Y Brif Fynedfa, y Fynedfa i'r Llain ymarfer a Lleoliad Cyffredinol y Safle







**Hydref 12fed 2020**






**Tachwedd 30ain 2020**


## Atodiad D – Gwefan Gorfforaethol y Cyngor Sir




## Atodiad E – Hysbysebion yn y Cyfryngau Cymdeithasol

Ceir isod ddwy enghraifft yn unig o'r hysbysebion a roddwyd ar y cyfryngau cymdeithasol.



## Atodiad F – Prawf o Bostio trwy'r Gwasanaeth Danfon Cofnodedig



Swyddfa'r Post Cyf.
TYSTYSGRIF POSTIO

Glanhwfa Road
Glanhwfa Road
Llangefni
Anglesey
LL77 7EY

Dyddiad postio: 08/10/2020 11:59
ID Sesiwn: 1-73437
Ar ôl yr amser derbyn olaf? N

Post Office Ltd.
CERTIFICATE OF POSTING

Glanhwfa Road
Glanhwfa Road
Llangefni
Anglesey
LL77 7EY

Posting date: 08/10/2020 11:59
Session ID: 1-73437
After last acceptance time? N

Destination Country UK (EU)
Address Validated? N
Signed For 1st £3.44
Large Letter
Weight 0.351 kg
PrePaid Amount -£3.44

Reference number
GK996182823GB
Building Name or Number Postcode
11 UB108TN

Delivery aim: next working day. Proof of delivery and signature at royalmail.com.

Destination Country UK (EU)
Address Validated? N
Signed For 1st £3.44
Large Letter
Weight 0.361 kg
PrePaid Amount -£3.44


Reference number
GK996182837GB
Building Name or Number Postcode
LLANGEFNI GOLF LL777TQ

Delivery aim: next working day. Proof of delivery and signature at royalmail.com.

Destination Country UK (EU)
Address Validated? N
Signed For 1st £3.44
Large Letter
Weight 0.351 kg
PrePaid Amount -£3.44

Reference number
GK996182845GB
Building Name or Number Postcode
ASHLEA LL778YQ

Delivery aim: next working day. Proof of delivery and signature at royalmail.com.



Reference number
GK996182868GB
Building Name or Number Postcode
GARTH LL777NL

Delivery aim: next working day. Proof of delivery and signature at royalmail.com.

Destination Country UK (EU)
Address Validated? N
Signed For 1st £3.44
Large Letter
Weight 0.352 kg
PrePaid Amount -£3.44

Reference number
GK996182871GB
Building Name or Number Postcode
SAITH AELWYD LL777TQ

Delivery aim: next working day. Proof of delivery and signature at royalmail.com.

Destination Country UK (EU)
Address Validated? N
Signed For 1st £3.44
Large Letter
Weight 0.352 kg
PrePaid Amount -£3.44

Reference number
GK996182885GB
Building Name or Number Postcode
LLWYN ONN LL778YQ


Delivery aim: next working day. Proof of delivery and signature at royalmail.com.

PLEASE REFER TO SEPARATE TERMS AND CONDITIONS

For information about Royal Mail services, please visit www.royalmail.com

PLEASE RETAIN AS YOUR PROOF OF POSTING
This is not a financial receipt
Thank You

## Atodiad G – E-bost a Anfonwyd at Ymgyngoreion Statudol



Dyfodol Cwrs Golf Llangefni/ Future of the Llangefni Golf Course - Official - Message (HTML)

Mon 12/10/2020 10:31

Tudur H. Jones

Dyfodol Cwrs Golf Llangefni/ Future of the Llangefni Golf Course - Official

To tudurjones@anglesey.gov.uk

Bcc marc.gregson@sport.wales; rhodri.edwards@fieldsintrust.org; towncouncil@llangefni.org; info@moncf.co.uk; nationalcentre@sport.wales; hq@oss.org.uk; Esther Roberts; info@clybiauplantcymru.org; info@earlyyears.wales; post@meithrin.cymru; information@yfc-wales.org.uk; chwaraeon@urdd.org; mail@playwales.org.uk; post@childcomwales.org.uk; info@welshcountry.co.uk; enquiries@naturalresourceswales.gov.uk

A4 Notice English.pdf (.pdf File)
Annex A; Site Boundary.pdf (.pdf File)
Annex B; Map of Golf Provision.pdf (.pdf File)
Consultation Report Final Draft.pdf (.pdf File)
Impact Assessment - Equality Impact Assessment.pdf
Impact Assessment - Joint Local Development Plan & Open Space.pdf

Yn unol â rhwymedigaethau'r Cyngor Sir â Rheoliadau Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu) (Cymru) 2015 a'i ddyletswyddau cyfreithiol dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, mae Cyngor Sir Ynys Mon (y Cyngor Sir) wedi cynnal asesiadau o'r effaith y gallai'r bwriad i gael gwared â'r Cwrs Golff Llangefni ei chael (mae'r manylion ynghlwm wrth yr e-bost hwn) ac mae bellach yn bwriadu cychwyn cyfnod o ymgynghori ac ymgysylltu â'r gymuned leol a grwpiau a phartïon â diddordeb i lywio ymhellach broses gwneud penderfyniadau'r Cyngor.

Mae'r Cyngor Sir yn dymuno ymgysylltu â'r gymuned, defnyddwyr caeau chwarae ac unigolion a phartïon eraill sydd â diddordeb mewn perthynas â bwriad i gael gwared â Chwrs Golff Llangefni.

Pwrpas yr e-bost hwn yw rhoi crynodeb cywir i chi o'r ffactorau sy'n cael eu hystyried ac sy'n berthnasol i'r broses benderfynu hon a sicrhau bod pob person perthnasol yn cael cyfle i gyflwyno ei farn a gwneud sylwadau a'i gwneud yn bosib i'r Cyngor Sir benderfynu p'un ai bwrw ymlaen i gael gwared ag o ai peidio.


Oherwydd y pandemig Covid-19, rydym yn ail-rhedeg yr ymgynhoriad. Mi fydd yr ymgynhoriad newydd yn rhedeg o **ddydd Llun 12fed Hydref hyd at ddydd Llun 30ain Tachwedd 2020** a mae'r holl wybodaeth ar www.ynysmon.gov.uk/cwrsgolffllangefni

Os mae angan gwybodaeth pellach, plis peidiwch oedi i gysylltu a fi.

------------------------------------------------------------------------------------------

DRAFT

# Atodiad H – E-bost a Anfonwyd yn ôl yn unol â chais



RE: Llangefni Golf Course - Message (HTML)

Fri 23/10/2020 12:59
Tudur H. Jones
RE: Llangefni Golf Course
To [redacted]

A4 Notice English.pdf
Annex A; Site Boundary.pdf
Annex B; Map of Golf Provision.pdf
Consultation Report Final Draft.pdf
Impact Assessment - Equality Impact Assessment.pdf
Impact Assessment - Joint Local Development Plan & Open Space.pdf
Impact Assessment - Leisure Strategy.pdf
Impact Assessment - Play Sufficiency Main Report.pdf
Impact Assessment - Play Sufficiency Sports Development.pdf

Hi Nora,

As requested – please find all documents in English.

If after you've read the information and you'd like to take part in the consultation, the link is www.anglesey.gov.uk/llangefnigolfcourse

Please let me know if you require anything further.

Thanks
Tudur

**From:** N[redacted]
**Sent:** 23 October 2020 12:45
**To:** Tudur H. Jones <TudurJones@ynysmon.gov.uk>
**Subject:** RE: Llangefni Golf Course

DRAFT

## Atodiad I – Asesiadau o Effeithiau

DRAFT

This page is intentionally left blank

**Mae'r ddogfen yma ar gael yn Saesneg This document is available in English**
Cyngor Sir Ynys Môn – **Templed yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb**

| **Hanes adolygu:** | | |
|---|---|---|
| **Fersiwn** | **Dyddiad** | **Crynodeb o'r newidiadau** |
| 1 | Chwefror 2020 | Fersiwn Gyntaf |
| 2 | Hydref 2020 | Diweddru dyddiadau |
| | | |

| **Cam 1: Cefndir** | |
|---|---|
| **1 – Beth ydych yn ei asesu?** | Dyfodol Cwrs Golff Llangefni. |
| **2 – Ydyw hwn yn fwriad newydd neu'n un sydd eisoes yn bodoli?** | Y bwriad sydd eisoes yn bodoli - adeiladu ar gytundeb mewn egwyddor y penderfynodd y Pwyllgor Gwaith arno ym mis Mai 2018. |
| **3 – Beth yw nod ac amcanion y bwriad?** | Cau Cwrs Golff Llangefni a gwerthu'r tir ar y farchnad agored fel man-ddaliad. Mae'r llain ymarfer, yr ardal ymarfer a'r siop wedi'u prydlesu ar wahân ac maent yn parhau ar agor i'r cyhoedd. |
| **4 - Pwy sy'n gyfrifol am y bwriad yr ydych yn ei asesu?** | Gwasanaethau Rheoleiddio a Datblygu Economaidd |
| **5 – Pwy yw'r swyddogion arweiniol ar gyfer yr asesiad hwn?** | Tudur H. Jones – Datblygu Economaidd |
| **6 – Pwy arall sy'n ymwneud â chynnal yr asesiad hwn?** | Cymorth gan amrywiol Wasanaethau ar draws y Cyngor Sir. |

| Cam 1: Cefndir | |
|---|---|
| **7 - A yw'r bwriad yn gysylltiedig â meysydd gwaith eraill?** Er enghraifft, oes bwriadau eraill polisïau y dylid eu hystyried fel rhan o'r asesiad hwn? | Nac ydi. |
| **8 – Pwy fyddai'r bwriad(au) yn cael effaith arno (yn andwyol neu'n gadarnhaol, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol)?** | Unigolion sy'n dymuno chwarae gêm o golff 9 twll yn Llangefni. |

Tudalen 162

| **9 - A yw'r bwriad yn berthnasol i sut mae'r Awdurdod yn cydymffurfio â dyletswydd gyffredinol y sector cyhoeddus sy'n ymwneud â phobl a warchodir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010?** | **Ydyw** | **Nac ydyw** |
|---|---|---|
| **Dileu gwahaniaethu ac aflonyddu** | **X** | |
| **Hyrwyddo cyfle cyfartal** | **X** | |
| **Meithrin cysylltiadau da** | **X** | |
| **Amddiffyn a hyrwyddo hawliau dynol** | **X** | |
| Nodyn: Fel rheol gyffredinol, mae unrhyw bolisi sy'n cael effaith ar bobl yn debygol o fod yn berthnasol ar draws yr holl grwpiau gwarchodedig | | |

| **Cam 2: Casglu Gwybodaeth** | |
|---|---|
| **10 - Ydyw'r bwriad hwn yn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg, yn unol â Pholisi Cymraeg y Cyngor?** | Ydyw |
| **11 - Oes cyfle yma i gynnig mwy o gyfleoedd i bobl ddysgu a / neu ddefnyddio'r Gymraeg o ddydd i ddydd?** | Nac oes |
| **12 - Fydd y maes gwaith hwn yn rhagweithiol ac yn cynnig gwasanaethau yn y Gymraeg i ddefnyddwyr?** | Ddim yn berthnasol mewn perthynas â gwerthu'r tir<br><br>Bydd y llain ymarfer, yr ardaloedd ymarfer a'r siop yn parhau ar agor i'r cyhoedd a bydd gofyn i'r gwasanaeth roi cynnig iaith rhagweithiol i ddefnyddwyr gwasanaeth<br><br>Mae angen darpariaeth newydd well yn ein cyfleusterau hamdden i roi cynnig iaith rhagweithiol i ddefnyddwyr gwasanaeth |
| **13 - Ydyw'r bwriad hwn yn debygol o amddiffyn a hyrwyddo'r Gymraeg mewn cymunedau?** | Mae'n bosib y bydd y bwriad yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg mewn cymunedau.<br>1. Bydd chwaraewyr sy'n siarad Cymraeg yn ceisio defnyddio'r cyrsiau golff eraill ar yr Ynys gan gryfhau eu sefyllfa a sicrhau eu bod yn hyfyw yn y dyfodol.<br>2. Bydd chwaraewyr yn meithrin cysylltiadau ar y cyrsiau golff eraill hyn.<br><br>Bydd unrhyw dderbyniadau cyfalaf a sicrheir o'r gwerthiant yn cael eu neilltuo i wella a chyfoethogi'n cyfleusterau hamdden fydd yn llawer mwy cynhwysol ac yn darparu ar gyfer yr holl gymuned ac ni fyddant yn gwahaniaethu ar sail oedran, incwm na gallu. |

Mae Atodiad 1 y Canllawiau Asesu Effaith yn rhestru cyfres o gwestiynau y dylid eu hystyried wrth asesu sut mae'r bwriadau'n cael effaith ar y Gymraeg yn gyffredinol. Bydd i ba raddau y mae'r cwestiynau hyn yn berthnasol yn dibynnu ar y bwriad dan sylw. Pwrpas y cwestiynau hyn yw gwneud i chi feddwl am yr effaith neu'r cyfraniad ehangach a gellid defnyddio'r cwestiynau hyn fel ysgogiad wrth ymateb i gwestiynau 10 - 13 uchod.

Fodd bynnag, wrth asesu sut mae prif bolisïau a strategaethau'r Cyngor yn cael effaith ar y Gymraeg, argymhellir ystyried y cwestiynau hyn yn fanylach fel y cynhelir asesiad cynhwysfawr - mae templed ar wahân ar gael gyda'r papurau hyn ar MonITor, i chi eu cwblhau, os yw'n briodol.

| | |
|---|---|
| **14 - A oes unrhyw faterion Hawliau Dynol? Os felly, beth ydyn nhw?** (Er enghraifft, a allai'r bwriad hwn arwain at fethu â diogelu'r hawl i breifatrwydd?) | Amherthnasol |

| | | |
|---|---|---|
| (Rhestrir yr 16 hawl sylfaenol yn Atodiad 1). | | |
| **15 - A yw'r bwriad hwn yn cwrdd ag unrhyw un o'r saith nod llesiant cenedlaethol a amlinellir yn Neddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015?**<br><br>(Rhestrir disgrifiadau o'r nodau llesiant yn Atodiad 2) | Cymru lewyrchus | **X** |
| | Cymru gydnerth | **X** |
| | Cymru iachach | **X** |
| | Cymru sy'n fwy cyfartal | **X** |
| | Cymru o gymunedau cydlynus | **X** |
| | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | **X** |
| | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang | **X** |
| **16 - Beth sydd wedi'i wneud hyd yma o ran bod yn rhan o'r bwriad hwn ac ymgynghori yn ei gylch?** | Mae'r mater hwn wedi bod yn mynd rhagddo ers 2015. Roedd Menter Gymdeithasol Llangefni wedi bod yn rhedeg y cyfleuster ar ein rhan rhwng 2015 a 2018 ac wedi ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd yn barhaus fel oeddynt yn rhedeg y cwrs golff. Mae'r Cyngor Sir hefyd wedi bod yn trafod ei ddyfodol yn fewnol (Gwasanaethau eraill, Aelodau Etholedig) ac yn allanol (cyrsiau golff eraill). | |
| **17 - Ydych chi wedi defnyddio unrhyw wybodaeth arall sy'n berthnasol i'r bwriad i lywio'ch asesiad? Os felly, nodwch:** | • Gwybodaeth y manylwyd arni gan Fenter Gymdeithasol Llangefni<br>• Gwybodaeth sydd gan y Cyngor Sir<br>• Ystadegau a ffigurau amrywiol ar gael ar-lein (darparwyd yn unol â hynny) | |
| **18 - A oes unrhyw fylchau yn y wybodaeth a gasglwyd hyd yma? Os felly, sut eir i'r afael â'r rhain?** | Bydd yr ymgynghoriad hwn yn ei gwneud yn bosib i'r Cyngor Sir sicrhau mewnbwn y cyhoedd ar ddyfodol y cwrs golff. | |

## Cam 3: Ystyried yr effaith bosibl a nodi camau lliniaru

**19 -– Nodwch isod unrhyw effaith debygol ar gydraddoldeb i bob grŵp unigol, a nodwch pa gamau y gellid eu cymryd i leihau neu wella'r effaith. *** I bennu effaith bosibl, dewiswch o'r canlynol**: Negyddol / Cadarnhaol / Dim effaith**



| Grŵp gwarchodedig | *Effaith bosib | Manylion yr effaith | Camau i liniaru effaith negyddol |
|---|---|---|---|
| **Oedran** | **Niwtral** | Mae gan Ynys Môn boblogaeth sy'n heneiddio ac mae cynnal iechyd a lles yn flaenoriaeth i'r Cyngor. Nid oes unrhyw ffigurau ar gael sy'n dangos proffil oedran y cwrs golff. Fodd bynnag, roedd y cwrs yn addas ar gyfer bod yn "gyflwyniad" i golff.<br><br>Efallai y bydd yn debygol y bydd teithio neu gostau dewisiadau amgen yn rhwystr i rai pobl hŷn. I'r gwrthwyneb, gall trafnidiaeth fod yn broblem hefyd i'r rhai nad oes ganddynt gludiant preifat e.e. y rhai dan 17 oed. | Oherwydd darpariaeth amgen byddai pob oedran yn gallu parhau i chwarae golff yn unrhyw un o'r cyrsiau golff eraill ar yr ynys.<br><br>Bydd y llain ymarfer a'r ardal ymarfer yn parhau ar agor i'r cyhoedd.<br><br>Mae cynlluniau teithio rhad ar gael ar Ynys Môn ac mae mwy o wybodaeth ar gael yn https://www.anglesey.gov.uk/en/Residents/Parking-roads-and-travel/Public-transport/Travel-passes.aspx |
| **Anabledd** | **Niwtral** | Ni chasglodd y cwrs golff wybodaeth yn ymwneud ag anabledd, felly, ni all y Cyngor Sir bennu union effaith unrhyw werthiant ar bobl sydd â'r nodwedd warchodedig hon.<br><br>Mae'r Cyngor Sir yn cydnabod y gall pobl anabl brofi lefelau uwch o anghydraddoldeb iechyd na'r boblogaeth gyffredinol. | Mae'r holl gyrsiau golff eraill yn Ynys Môn yn parhau i fod ar agor i'r cyhoedd eu defnyddio ac mae modd mynd iddynt ar drafnidiaeth gyhoeddus.<br><br>Bydd y llain ymarfer a'r ardal ymarfer yn parhau ar agor i'r cyhoedd. |
| **Rhywedd** | **Amherthnasol** | Yn ôl Statista, dynion yw 80% o chwaraewyr golff yng Nghymru (https://www.statista.com/statistics/899231/golf-participation-uk/) felly, yn seiliedig ar y ddemograffeg hon yn unig, gellir dod i'r casgliad yn hyderus y bydd mwy o effaith ar ddynion. | Mae'r holl gyrsiau golff eraill yn Ynys Môn yn parhau i fod ar agor i'r cyhoedd eu defnyddio – cyrsiau y mae modd mynd iddynt ar drafnidiaeth gyhoeddus.<br><br>Bydd y llain ymarfer a'r ardal ymarfer yn parhau ar agor i'r cyhoedd. |
| **Ailbennu Rhywedd** | **Amherthnasol** | Ni chasglodd y cwrs golff wybodaeth yn ymwneud ag ailbennu rhywedd, felly, ni all y Cyngor Sir bennu union effaith unrhyw werthiant ar bobl sydd â'r nodwedd warchodedig hon. | |

| **Grŵp gwarchodedig** | ***Effaith bosib** | **Manylion yr effaith** | **Camau i liniaru effaith negyddol** |
|---|---|---|---|
| | | Ystyrir mai isel iawn i ddim yw'r tebygolrwydd y ceir effaith negyddol ar bobl sydd â'r nodwedd hon. | |
| **Beichiogrwydd a Mamolaeth** | **Amherthnasol** | Ni chasglodd y cwrs golff wybodaeth yn ymwneud â beichiogrwydd a mamolaeth, felly, ni all y Cyngor Sir bennu union effaith unrhyw werthiant ar bobl sydd â'r nodwedd warchodedig hon.<br>Ystyrir mai isel iawn i ddim yw'r tebygolrwydd y ceir effaith negyddol ar bobl sydd â'r nodwedd hon. | |
| **Hil / Ethnigrwydd / Cenedligrwydd** | **Amherthnasol** | Ni chasglodd y cwrs golff wybodaeth yn ymwneud â hil, ethnigrwydd a chenedligrwydd, felly, ni all y Cyngor Sir bennu union effaith unrhyw werthiant ar bobl sydd â'r nodwedd warchodedig hon.<br><br>Ystyrir mai isel iawn i ddim yw'r tebygolrwydd y ceir effaith negyddol ar bobl sydd â'r nodwedd hon. | |
| **Crefydd neu Gred** | **Amherthnasol** | Ni chasglodd y cwrs golff wybodaeth yn ymwneud â chrefydd neu gredoau defnyddwyr, felly, ni all y Cyngor Sir bennu union effaith unrhyw werthiant ar bobl sydd â'r nodwedd warchodedig hon.<br><br>Ystyrir mai isel iawn i ddim yw'r tebygolrwydd y ceir effaith negyddol ar bobl sydd â'r nodwedd hon. | |
| **Cyfeiriadedd Rhywiol** | **Amherthnasol** | Ni chasglodd y cwrs golff wybodaeth yn ymwneud â chyfeiriadedd rhywedd, felly, ni all y Cyngor Sir bennu union effaith unrhyw werthiant ar bobl sydd â'r nodwedd warchodedig hon.<br><br>Ystyrir mai isel iawn i ddim yw'r tebygolrwydd y ceir effaith negyddol ar bobl sydd â'r nodwedd hon. | |

| Grŵp gwarchodedig | *Effaith bosib | Manylion yr effaith | Camau i liniaru effaith negyddol |
|---|---|---|---|
| **Y Gymraeg** | **Niwtral** | Gallai'r posibilrwydd o golli'r cwrs golff gael effaith negyddol oherwydd gellir dadlau iddo gyfrannu at y gymuned, defnyddio'r Iaith Gymraeg a ffordd o fyw. | Cred yr Awdurdod bod darpariaeth ddigonol mewn mannau eraill ar Ynys Môn ac y gallai mwy o bobl sy'n defnyddio llai o gyrsiau golff gael effaith gadarnhaol.<br><br>Bydd y llain ymarfer yn parhau ar agor i'r cyhoedd ac mae'r hen siop wedi newid ei defnydd i fod yn gyrchfan fwy deniadol gan ddenu cwsmer mwy amrywiol. |
| **Hawliau Dynol** | **Amherthnasol** | Ystyrir mai isel iawn i ddim yw'r tebygolrwydd y ceir effaith negyddol ar hawliau dynol unigolion | |
| **Priodas neu Bartneriaeth Sifil** | **Amherthnasol** | Ystyrir mai isel iawn i ddim yw'r tebygolrwydd y ceir effaith negyddol ar briodas neu bartneriaeth sifil pobl | |
| **Unrhyw fater perthnasol arall, ee tlodi, mynediad at wasanaethau mewn ardaloedd gwledig** | **Niwtral** | Gallai'r cyfleuster 'talu a chwarae' fod yn rhwystr i ddechreuwyr a golffwyr ar incwm isel neu drigolion Llangefni nad oes ganddynt gludiant preifat. | Mae rhai cyrsiau golff preifat yn cynnig aelodaeth ratach i golffwyr newydd neu rai sy'n dychwelyd<br><br>Fodd bynnag, mae'r llain ymarfer a'r ardal ymarfer yn aros ar y safle i annog dechreuwyr cyn iddynt symud ymlaen i gyrsiau 9 neu 18 twll. |

| Cam 4: Canlyniad yr Asesiad | |
|---|---|
| **20 - Sylwch ar yr effeithiau a nodwyd a sut bwriedir lliniaru unrhyw effaith negyddol (h.y. crynodeb o'r tabl uchod)** | Dim effaith “Negyddol”.<br><br>Mae'r Cyngor Sir yn cydnabod y gallai cau'r cwrs golff gael effaith ar chwaraewyr sy'n methu fforddio’r ddarpariaeth breifat. Fodd bynnag, bydd y llain ymarfer a'r ardal ymarfer yn parhau ar agor i'r cyhoedd ac mae’n tystiolaeth o'r cyrsiau golff eraill a'n hymgynghoriad yn eu cylch yn dangos bod digon o ddarpariaeth arall ar gael yn Ynys Môn. |
| **21 - Oes strategaeth ar gyfer ymdrin ag unrhyw effeithiau negyddol na ellir eu hosgoi ond nad ydynt yn anghyfreithlon ac na ellir eu lliniaru?** | Amherthnasol |
| **22 - Disgrifiwch unrhyw gamau a gymerwyd i wneud y mwyaf o'r cyfle i hyrwyddo cydraddoldeb a / neu nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (cynaliadwyedd).**<br>(Rhestrir y saith nod llesiant yn Atodiad 2) | Cytunwyd (mewn egwyddor) y bydd unrhyw dderbynneb cyfalaf o werthu tir y cwrs golff yn cael ei glustnodi i wella a chyfoethogi cyfleusterau hamdden y Cyngor Sir.<br><br>Mae cael un ganolfan aml-chwaraeon sy'n cynnig llu o opsiynau iach ac egnïol i bawb yn ddewis arall cryfach i'r gymuned gan y bydd y Ganolfan yn cynnig opsiynau iechyd, llesiant a chadw’n heini yn hytrach na dim ond y gêm o golff. |
| **23 – Oes angen ailystyried y bwriad o ganlyniad i gynnal yr asesiad hwn?**<br><br>(Gallai tystiolaeth o effaith negyddol olygu bod y bwriad neu'r penderfyniad yn anghyfreithlon. Os ydych wedi nodi effaith negyddol, dylech ystyried ar hyn o bryd a yw'n bosibl bwrw ymlaen â'r bwriad). | Nac oes. |
| **24 – A gaiff y bwriad ei fabwysiadu / ei anfon ymlaen i gael ei gymeradwyo? Pwy fydd yn gwneud y penderfyniad?** | Pwyllgor Gwaith y Cyngor Sir fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. |
| **25 - Oes trefniadau monitro yn eu lle? Beth ydyn nhw?** | Byddir yn parhau i fonitro ac adolygu pa mor llwyddiannus yw'r llain ymarfer i sicrhau ei bod yn cyrraedd cymaint o aelodau o'r cyhoedd sy'n dymuno |

| | |
|---|---|
| | chwarae golff â phosibl. Trwy drafodaethau gyda'r tenant, mae hyn eisoes ar y gweill trwy gysylltiadau â chyrsiau golff eraill ac ysgolion lleol. |

## Cam 5: Cynllun Gweithredu

Rhowch fanylion unrhyw gamau sydd ar y gweill ar ôl cwblhau eich asesiad. Dylech gynnwys unrhyw newidiadau a wnaed i leihau neu ddileu effeithiau negyddol bosibl neu wirioneddol, ynghyd ag unrhyw drefniadau i gasglu data neu i gynnal rhagor o waith ymchwil.

| Cyf | Camau arfaethedig | Swyddog Arweiniol | Amserlen |
|---|---|---|---|
| | Casglu'r holl sylwadau a gafwyd yn sgil yr ymgynghoriad hwn a'u cynnwys mewn un adroddiad cynhwysfawr. | THJ | Rhagfyr 2020 – Ionawr 2021 |
| | Cyflwyno'r mater i Bwyllgor Gwaith y Cyngor Sir iddynt wneud penderfyniad terfynol ar ddyfodol y cwrs golff | THJ | Rhagfry 2020 – Ionawr 2021 |

## Atodiad 1 – Hawliau Dynol

Hawliau a rhyddid sy'n eiddo i bob unigolyn yw hawliau dynol, waeth beth yw eu cenedligrwydd a'u dinasyddiaeth. Mae 16 o hawliau sylfaenol yn y Ddeddf Hawliau Dynol - pob un wedi'i chymryd o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. At ddibenion y Ddeddf, fe'u gelwir yn 'Hawliau'r Confensiwn'. Fe'u rhestrir isod:

(Rhagarweiniol yw Erthygl 1 ac nid yw wedi'i hymgorffori yn y Ddeddf Hawliau Dynol)
Erthygl 2 Hawl i fywyd
Erthygl 3 Rhyddid rhag arteithio
Erthygl 4 Rhyddid rhag caethwasiaeth a llafur dan orfod
Erthygl 5 Hawl i ryddid a diogelwch
Erthygl 6 Hawl i gael treial teg
Erthygl 7 Dim cosb heb gyfraith
Erthygl 8 Parch am eich bywyd preifat a theuluol
Erthygl 9 Rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd
Erthygl 10 Rhyddid mynegiant
Erthygl 11 Rhyddid ymgynnull a chymdeithasu
Erthygl 12 Hawl i briodi
Erthygl 14 Diogelwch rhag gwahaniaethu
Protocol 1, Erthygl 1 Hawl i fwynhau'ch eiddo'n heddychlon
Protocol 1, Erthygl 2 Hawl i addysg
Protocol 1, Erthygl 3 Hawl i gymryd rhan mewn etholiadau rhydd
Protocol 13, Erthygl 1 Diddymu'r gosb farwolaeth

## Atodiad 2 – Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae'r Ddeddf hon yn ymwneud â gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae angen i gyrff cyhoeddus sicrhau, wrth wneud eu penderfyniadau, eu bod yn ystyried yr effaith y gallent ei chael ar bobl sy'n byw eu bywydau yng Nghymru yn y dyfodol. Mae'r Ddeddf yn rhoi saith nod llesiant ar waith:

| Nod | Disgrifiad o'r Nod |
|---|---|
| **Cymru lewyrchus** | Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol a charbon isel sy'n cydnabod terfynau'r amgylchedd byd-eang ac, felly, sy'n defnyddio adnoddau'n effeithlon ac yn gymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn rhoi cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir trwy sicrhau gwaith iawn. |
| **Cymru gydnerth** | Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach sy'n cefnogi gwytnwch cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ac sydd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd). |
| **Cymru iachach** | Cymdeithas lle gwneir y mwyaf o les corfforol a meddyliol pobl a lle ceir dealltwriaeth o ddewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol. |
| **Cymru sy'n fwy cyfartal** | Cymdeithas sy'n ei gwneud yn bosib i bobl gyflawni eu potensial, waeth beth yw eu cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol). |
| **Cymru o gymunedau cydlynus** | Cymunedau deniadol, hyfyw, diogel sydd wedi'u cysylltu'n dda. |
| **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** | Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn amddiffyn diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, a chwaraeon a hamdden. |
| **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang** | Cenedl sydd, wrth wneud unrhyw beth i wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud y fath beth gyfrannu'n gadarnhaol at les byd-eang. |

This page is intentionally left blank

Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd & Môn
Joint Planning Policy Service Anglesey & Gwynedd
Swyddfeydd y Cyngor
Stryd y Jêl
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

**Mae’r ddogfen yma ar gael yn Saesneg This document is available in English**

| AT/ TO: | **Datblygu Economaidd** <br> **I sylw: Tudur Jones** | ODDIWRTH/ FROM: | **Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Môn a Gwynedd** |
|---|---|---|---|
| EICH CYF/ YOUR REF | | EIN CYF/ OUR REF: | |
| DYDDIEDIG/ DATED: | | DYDDIAD/ DATE: | **13-01-2020** |

**Ynghylch: Asesiad yn erbyn Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ac Fannau Agored – Llangefni**

## Cyflwyniad

Mae'r Gwasanaeth Datblygu Economaidd wedi gwneud ymholiadau ynghylch sut y byddai’r posibilrwydd o golli Cwrs Golff Llangefni yn cael effaith ar y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd a hefyd Mannau Agored yn Llangefni.

Mabwysiadwyd y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn Gorffennaf 2017 a hwn yw cynllun defnydd tir ar gyfer Ynys Môn ac Ardal Cynllunio Gwynedd. Mae’r rhan helaeth o’r Polisïau o fewn y Cynllun yn ymwneud a datblygiadau o’r newydd neu newid defnydd safleoedd. Os mae’r Cyngor yn penderfynu gwaredu y cwrs golf yn dilyn y broses ymgynhoriad, newid defnydd y safle yn ôl i ddefnydd amaethyddol sef y defnydd cyn iddo gael ei drosi i gwrs golf yw’r bwriad.

Yng ngoleuni hyn dylid asesu effaith colli’r llecyn agored o dan Polisi ISA 4, sef rhywbeth mae canfyddiadau’r asesiad llecynnau agored yn ei wneud. Yn ogystal i hyn mae Polisi PCYFF 1 yn cyfeirio tuag at ffiniau datblygu a bod cynigion y tu allan i ffiniau datblygu yn cael ei gwrthod oni bai eu bod yn cyd fynd a polisi lleol a/neu cenedlaethol neu fod y cynnig yn dangos bod ei leoliad yng nghefn gwlad yn hanfodol. Gan y buasai’r bwriad yma yn arwain at greu tir amaethyddol mae lleoliad yn y cefn gwlad yn dderbyniol ar gyfer y math yma o ddefnydd.

Mae rhan o Polisi PS 6 yn datgan er mwyn addasu i effeithiau newid hinsawdd, caniateir cynigion dim ond pan ellir dangos gyda thystiolaeth briodol eu bod wedi rhoi ystyriaeth lawn ac wedi ymateb yn briodol i nifer o feini prawf perthnasol o fewn y Polisi. Maen prawf (6) yw: “...diogelu tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas, hyrwyddo rhandiroedd, cefnogi cyfleoedd i gynhyrchu bwyd yn lleol er mwyn lleihau cyfraniad yr ardal i filltiroedd bwyd...”. Mae newid defnydd y safle i dir amaethyddol felly yn cyfrannu tuag at amcanion maen prawf (6) o Polisi PS 6.

Mae'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn cydnabod pa mor bwysig yw mannau chwarae agored wrth ddiwallu anghenion hamdden cymunedau lleol. Mae Polisi ISA 4 yn diogelu man

agored presennol yn ardal y cynllun ac yn gwrthsefyll colli'r man agored oni bai ei fod yn cydymffurfio ag un o'r meini prawf yn y polisi.

**POLISI ISA 4: DIOGELU LLECYNNAU AGORED PRESENNOL**

Gwrthodir cynigion fydd yn arwain at golli llecynnau agored presennol, yn cynnwys unrhyw gyfleusterau cysylltiedig sydd â gwerth hamdden, mwynderol neu fywyd gwyllt arwyddocaol, oni bai eu bod yn cydymffurfio ag un o'r meini prawf a ganlyn:

1. Bod gormodedd cyffredinol o'r ddarpariaeth yn y gymuned;
2. Bod yr angen hirdymor ar gyfer y cyfleuster wedi darfod;
3. Y gellir cael darpariaeth amgen o'r un safon mewn ardal ac sydd yr un mor hygyrch i'r gymuned leol dan sylw;
4. Y byddai ailddatblygu rhan fechan o'r safle yn arwain at gadw ac ehangu'r cyfleuster fel adnodd hamdden.

**<u>Asesiad o Fannau Agored</u>**

Er mwyn canfod a oes gormod o ddarpariaeth yn y gymuned mae angen cynnal Asesiad o Fannau Agored. Mae dau gam allweddol wrth gynnal Asesiad o'r fath:

A. Gosod Safonau
B. Asesiad o'r Mannau Agored Presennol a Ddarperir

**A. <u>Gosod Safonau</u>**

Mae Meysydd Chwarae Cymru (Cymdeithas Genedlaethol Caeau Chwarae gynt) wedi paratoi safonau meincnodi i gynorthwyo awdurdodau lleol i ddarparu a gwarchod mannau ar gyfer chwaraeon, hamdden a chwarae. Mae'r safon meincnodi a gynigiwyd gan Feysydd Chwarae Cymru yn cynnwys o leiaf **2.4 hectar fesul 1000 o'r boblogaeth** wedi'i rannu fel a ganlyn:

- **1.6 hectar o gyfleusterau chwaraeon awyr agored**
  - 1.2 hectar o gaeau chwarae neu 12m$^2$ y person
  - 0.4 hectar chwaraeon awyr agored neu 4m$^2$ y person
- **0.8 hectar ar gyfer man chwarae i blant**
  - 0.25 hectar ar gyfer man chwarae ag offer neu 2.5m$^2$ y person
  - 0.55 hectar ar gyfer man chwarae anffurfiol neu 5.5m$^2$ y person

Mae modd trosi hyn i'r gofyn fesul person fel a ganlyn:

| **SAFON SYLFAENOL<br>2.4 hectar fesul 1000 o'r boblogaeth** | |
|---|---|
| **Chwaraeon Awyr Agored**<br><br>**1.6 hectar fesul 1000 o'r boblogaeth neu 16m$^2$ y person**<br><br>Caeau Chwarae:<br>1.2 hectar fesul 1000 o'r boblogaeth neu 1.2m$^2$ y person | **Mannau Chwarae i Blant**<br><br>**0.8 hectar fesul 1000 o'r boblogaeth neu 0.8m$^2$ y person**<br><br>Mannau Chwarae Anffurfiol:<br>0.55 hectar fesul 1000 o'r boblogaeth neu 5.5m$^2$ y person<br>Mannau Chwarae ag Offer:<br>0.25 hectar fesul 1000 o'r boblogaeth neu 2.5m$^2$ y person |

Gan fod yr ymholiad hwn yn ymwneud â'r cwrs golf, nid yw'r Asesiad hwn o Fannau Agored yn cynnwys asesiad o fannau chwarae i blant.

**Chwaraeon Awyr Agored**

Mae hyn yn cynnwys yr isod:

- Cyfleusterau megis caeau, lawntiau, cyrtiau, traciau athletau a safleoedd amrywiol megis lawntiau croce a mannau hyfforddi ym mherchnogaeth llywodraeth leol, ar bob haen.
- Cyfleusterau fel y'u disgrifir uchod yn y sector addysgol sydd ar gael i'r cyhoedd eu defnyddio trwy gytundeb ysgrifenedig. Nid yw achosion o'r cyhoedd yn defnyddio'r cyfryw gyfleusterau'n anffurfiol neu heb ganiatâd yn gymwys.
- Cyfleusterau a ddisgrifir uchod yn y sectorau gwirfoddol, preifat, masnachol sy'n gwasanaethu anghenion hamdden ar gyfer chwaraeon awyr agored a hamdden eu haelodau, neu'r cyhoedd.

## B. Asesiad o'r Mannau Agored Presennol a Ddarperir

Noder nad yw'r ystadegau isod yn cynnwys Cwrs Golff Llangefni (gweler isod).

| | Gwirioneddol (hectar) | Targed (hectar) | +/- |
|---|---|---|---|
| **Poblogaeth amcangyfrifedig*** | 5300 | | |
| **1.6 hectar Chwaraeon Awyr Agored** | **13.32** | **8.48** | **+3.81** |
| 1.2 hectar Caeau Chwarae | 8.62 | 6.36 | +2.26 |

* Cyfrifir y boblogaeth amcangyfrifedig trwy luosi nifer yr eiddo preswyl â maint cyfartalog teuluoedd yn wardiau Llangefni, sef 2.3 (Cefni = 2.2, Cyngar = 2.3, Tudur = 2.5 ) (Cyfrifiad 2011, tabl PHP01)

| Enw'r Man Agored | Y Math o Fan Agored | Arwynebedd (hectar) |
|---|---|---|
| Ysgol Gyfun Llangefni | Addysg* | 4.29 |
| Canolfan Hamdden Plas Arthur | Ffurfiol | 0.68 |
| Clwb Pêl-droed Llangefni | Ffurfiol | 1.49 |
| Maes Criced Llangefni | Ffurfiol | 1.91 |
| Y Lawnt Fowlio | Ffurfiol | 0.41 |
| Clwb Rygbi Llangefni | Ffurfiol | 3.51 |
| Cae Pêl-droed Isgraig | Ffurfiol / Anffurfiol | 1.03 |

**Casgliad**

Dengys yr Asesiad o Fannau Agored ar gyfer Llangefni bod digon o fannau agored yn y categori chwaraeon awyr agored, hyd yn oed heb gynnwys y cwrs golff yn y ffigur.

**Linda Lee**
**Uwch-swyddog Cynllunio**
**Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd**

This page is intentionally left blank

**Mae’r ddogfen yma ar gael yn Saesneg This document is available in English**

**Asesiad o’r Effaith yn erbyn Strategaeth Hamdden 2015 ac Ymlaen.**

Yn 2015 cynhaliodd y Gwasanaeth Hamdden adolygiad o'i swyddogaeth graidd. Cododd yr angen hwn o ofynion corfforaethol i nodi arbedion / effeithlonrwydd, gwella effeithiolrwydd a pherfformiad a chynyddu incwm i gefnogi a chynnal gwaith darparu’r gwasanaeth.

Ynghyd ag ystyried heriau, cyfyngiadau a chyfleoedd yn y dyfodol, nododd yr adolygiad o'r Gwasanaeth Hamdden amcanion a themâu clir a ysgogodd y newidiadau tyngedfennol, gofynnol.

Caiff y bwriad i gau’r cwrs golff ei fesur yn erbyn y meysydd thematig isod, sef amcanion gwella'r strategaeth.

| Maes Thematig | Effaith |
|---|---|
| Gwella’r hyn y mae cwsmeriaid yn canolbwyntio arno a’u boddhad | **Niwtral** - bydd y bwriad i gau'n cael effaith negyddol ar y rhai a ddefnyddiai’r cwrs golff. Fodd bynnag, mae gwelliannau sylweddol wedi’u gwneud yn y llain ymarfer a fydd o fudd i ddefnyddwyr. Mae'r llain ymarfer bellach yn diwallu anghenion ei chwsmeriaid o ran y cyfleusterau, y seilwaith a'r oriau agor. |
| Gwella ymwybyddiaeth fasnachol a meddylfryd i leihau'r ddibyniaeth ar gyllid craidd y Cyngor Sir | **Cadarnhaol** - roedd angen cymhorthdal o oddeutu £30,000 y flwyddyn ar y cwrs golff oherwydd ei golledion. Nid oedd hyn yn gynaliadwy yn y tymor hir. Pe bai'r Cyngor Sir yn penderfynu cael gwared â’r cyfleuster, bydd yn creu arbedion a derbyniadau cyfalaf posibl a gaiff eu neilltuo i wella’n darpariaeth hamdden. |
| Moderneiddio prosesau i wella effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a pherfformiad | **Cadarnhaol** – mae’r cwrs golff yn aneffeithlon, yn aneffeithiol a’i berfformiad yn wael, gan arwain at golledion o oddeutu £30,000. Mae'r Cyngor Sir (trwy ei denant) wedi buddsoddi yn y llain ymarfer i wella’r hyn y mae’n ei gynnig a'i pherfformiad. |
| Gwella cyfleusterau craidd er mwyn bodloni disgwyliadau a gofynion cwsmeriaid yn well | **Niwtral** - bydd y bwriad i gau'n cael effaith negyddol ar y rhai a ddefnyddiai’r cwrs golff. Fodd bynnag, mae gwelliannau sylweddol wedi’u gwneud yn y llain ymarfer a fydd o fudd i ddefnyddwyr. Mae'r llain ymarfer bellach yn diwallu anghenion ei chwsmeriaid o ran y cyfleusterau, y seilwaith a'r oriau agor. Pe bai'r Cyngor Sir yn penderfynu cael gwared â’r cyfleuster, bydd yn creu arbedion a derbyniadau cyfalaf posibl a gaiff eu neilltuo i wella’n darpariaeth hamdden. |
| Gwella iechyd a lles defnyddwyr gwasanaeth | **Niwtral** - bydd y bwriad i gau'n cael effaith negyddol ar y rhai a ddefnyddiai’r cwrs golff. Fodd bynnag, mae gwelliannau sylweddol wedi’u gwneud yn y llain ymarfer a fydd o fudd i ddefnyddwyr. Mae'r llain ymarfer bellach yn diwallu anghenion ei chwsmeriaid o ran y cyfleusterau, y seilwaith a'r oriau agor. Pe bai'r Cyngor Sir yn penderfynu cael gwared â’r cyfleuster, bydd yn creu arbedion a derbyniadau cyfalaf posibl a gaiff eu neilltuo i wella’n darpariaeth hamdden |

This page is intentionally left blank

**Mae'r ddogfen yma ar gael yn Saesneg This document is available in English**

**Adroddiad ar effaith bosibl cau cwrs golff Llangefni ar gyfleoedd chwarae - ardal Llangefni**

1.0 Mae Adran 11 Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i asesu a sicrhau bod figon o gyfleoedd chwarae i blant yn eu hardal. "Cymru: Gwlad sy'n Creu Cyfle i Chwarae" yw'r Canllawiau Statudol y mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol eu dilyn i gydymffurfio â'r ddyletswydd i asesu a oes digon o gyfleoedd chwarae a sut i sicrhau'r cyfleoedd hynny.

1.1 Pwysleisiodd yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a gwblhawyd ym mis Mawrth 2019 gydnabyddiaeth yr Awdurdod Lleol o werth a phwysigrwydd chwarae ym mywydau plant.

**"Bod pob plentyn a pherson ifanc ar Ynys Môn yn gallu cael mynediad at weithgareddau chwarae, hamdden, chwaraeon a diwylliannol o'u dewis a'u mwynhau er mwyn gwella eu lles corfforol ac emosiynol. Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth i gefnogi teuluoedd a chymunedau i sicrhau bod yr holl wasanaethau'n cyfrannu at wella bywydau plant a phobl ifanc".**

1.2 Wrth werthuso unrhyw werthiant arfaethedig y clwb golff fel man agored, rhoddwyd ystyriaeth i'r canlynol er mwyn gwerthuso'r effaith ar gyfleoedd i blant a phobl ifanc chwarae yn yr ardal gyfagos ac yn Ynys Môn fel sir.

1.3 Y lleoedd agored presennol yn Llangefni. Cwblhaodd yr awdurdod lleol Asesiad o Fannau Agored yn 2015 a ddaeth i'r casgliad bod gan Langefni ar y pryd fwy na digon o fannau chwarae agored, yn amrywio o gaeau, cyfleusterau awyr agored ac ardaloedd chwarae - 19 lle i gyd. Diweddarwyd yr asesiad ac mae'n parhau i gadarnhau bod mwy na digon o fannau agored ar gyfer Llangefni i fodloni gofynion y plant a'r bobl ifanc yn yr ardal honno.

1.4 Ers 2015 bu datblygiadau sylweddol sydd wedi gwella mwy ar gyfleusterau chwarae i blant a phobl ifanc yn ardal Llangefni; ailddatblygu'r Parc Chwaraeon Trefol gydag offer campfa allanol, ychwanegol a datblygu Cae 3G ar yr un safle.

1.5 Mae Môn Actif, gwasanaeth a ddarperir gan adran Hamdden yr Awdurdod, hefyd wedi ymestyn ei wasanaethau i fwy o ysgolion ac mae'n ymweld ag ysgolion yn rheolaidd ac yn eu cefnogi i gyflwyno ystod o weithgareddau hamdden a chwarae awyr agored i blant, gan eu cyfeirio at glybiau a gweithgareddau awyr agored sydd ar gael yn eu hardal.

1.6 Nid yw cau'r cwrs golff i'w weld yn cael effaith ar unrhyw grŵp penodol o blant neu bobl ifanc ag anghenion diwylliannol, iaith, amrywiol, anghenion ychwanegol.

1.7 Ni nododd yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a gwblhawyd ym mis Mawrth 2019 fod Llangefni yn ardal lle'r oedd y ddarpariaeth yn annigonol ac, o'r herwydd, nid oedd yn cyfiawnhau unrhyw ddatblygiadau penodol.

**Casgliad**

O gofio bod mwy na digon o fannau agored ar gael yn ardal Llangefni, a'r datblygiadau a'r gwasanaethau newydd ychwanegol dros y ddwy flynedd ddiwethaf, ni fyddai unrhyw werthiant arfaethedig o'r clwb golff yn cael effaith andwyol ar hawliau'r plant a'r bobl ifanc i gael cyfleoedd i chwarae yn yr ardal hon

Bethan Hywel Jones,

Rheolwr yr Uned Cefnogi Teuluoedd sy'n gyfrifol am yr asesiad o ddigonolrwydd cyfleoedd chwarae.

13/01/20

**Mae'r ddogfen yma ar gael yn Saesneg This document is available in English**

**Sylwadau ar effaith bosibl cau cwrs golff Llangefni ar Ddatblygu Chwaraeon**

Rwy'n cytuno â chasgliad y Rheolwr Uned Cefnogi Teuluoedd: 'o gofio bod mwy na digon o fannau agored ar gael yn ardal Llangefni, a'r datblygiadau a'r gwasanaethau newydd ychwanegol dros y ddwy flynedd ddiwethaf, ni fyddai y potensial o gau'r clwb golff yn cael effaith andwyol ar hawliau'r plant a'r bobl ifanc i gael cyfleoedd i chwarae yn yr ardal hon. Wrth gefnogi hyn:

1. Gall plant ac oedolion barhau i gael cyfle i fynd i chwarae golff trwy un o'r chwe chwrs golff ar yr Ynys. Mae 'r ffaith bod Storws Wen (Brynteg) yn agos i Langefni - a'r ffaith nad yw'n glwb rhy ffurfiol - yn ffactor arwyddocaol ychwanegol;

2. Lleddfwyd y potensial i gau yn y ffaith bod y llain ymarfer yn dal i fodoli. Caiff ei rhedeg gan unigolyn entrepreneuraidd, blaengar sy'n rhoi cyfleoedd i ysgolion lleol a'r gymuned ddysgu;

3. Yn ogystal â'r uchod, mae gan Datblygu Chwaraeon a Golff Cymru fenter i ddatblygu golff i blant a phobl ifanc yn ardal Llangefni'r haf hwn - yn sgil prosiect '*Tri Golf'* yn yr ysgolion, yr haf diwethaf;

4. Rwy'n cytuno - 'nad yw cau'r cwrs golff i'w weld yn cael effaith ar unrhyw grŵp penodol o blant neu bobl ifanc ag anghenion diwylliannol, iaith, amrywiol, anghenion ychwanegol.'

5. Rydym wedi cael fforymau ieuenctid Môn Actif lle mae Adran Hamdden yr Awdurdod yn ymgysylltu ag ysgolion ynghylch gweithgareddau hamdden a chwarae awyr agored i blant ac yn codi ymwybyddiaeth o'r clybiau a'r gweithgareddau awyr agored sydd ar gael yn yr ardal. O ganlyniad i'r ymgysylltiad cymunedol hwn [ac o ystyried nifer o glybiau a chyfleoedd hamdden awyr agored sydd ar gael] ni fyddai cau arfaethedig y cwrs golff yn cael effaith andwyol ar fynediad i weithgareddau chwaraeon awyr agored.

Dave Barker

Rheolwr y Rhaglen Tîm Datblygu Chwaraeon

23/01/20

This page is intentionally left blank

| | | Y saith Nod Llesiant; Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Cymru llewyrchus** | **Cymru gydnerth** | **Cymru iachach** | **Cymru sy'n fwy cyfartal** | **Cymru o gymunedau cydlynus** | **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** | **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang** |
| **Cynllun Llesiant Gwynedd a Môn: Blaenoriaethau 2018** | **Yr angen i gynnal ysbryd cymunedol iach** | Niwtral - y bwriad yw gwerthu'r cwrs golff fel manddaliad<br><br>Niwtral - bydd y llain ymarfer (Golf Môn) yn parhau ar agor i'r gymuned golffio ei defnyddio fel bod modd i bobl o bob safon chwarae | Cadarnhaol - bydd y Cyngor Sir yn ailfuddsoddi cyfalaf o asedau dros ben i mewn i'w Gyfleusterau Hamdden sy'n gallu darparu ar gyfer ystod fwy amrywiol o ddefnyddiau penodol | Cadarnhaol - bydd y Cyngor Sir yn ailfuddsoddi cyfalaf o asedau dros ben i mewn i'w Gyfleusterau Hamdden sy'n gallu darparu ar gyfer ystod fwy amrywiol o ddefnyddiau penodol, defnyddwyr a gwahanol lefelau gallu ac incwm | Cadarnhaol - bydd y Cyngor Sir yn ailfuddsoddi cyfalaf o asedau dros ben i mewn i'w Gyfleusterau Hamdden sy'n gallu darparu ar gyfer ystod fwy amrywiol o ddefnyddiau penodol, defnyddwyr a gwahanol lefelau gallu ac incwm<br><br>Cadarnhaol - bydd y llain ymarfer (Golf Môn) yn parhau ar agor i'r gymuned golffio ei | Cadarnhaol - bydd y Cyngor Sir yn ailfuddsoddi cyfalaf o asedau dros ben i mewn i'w Gyfleusterau Hamdden sy'n gallu darparu ar gyfer ystod fwy amrywiol o ddefnyddiau penodol | Cadarnhaol - bydd y llain ymarfer (Golf Môn) yn parhau ar agor i'r gymuned golffio ei defnyddio ac mae'r gwasanaeth yn ddwyieithog | Niwtral |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | defnyddio fel bod modd i bobl o bob safon chwarae<br><br>Negyddol - Roedd y ddarpariaeth golffio’n rhatach na'r clybiau preifat ac felly roedd mwy o bobl yn chwarae yno.<br><br>Negyddol - Efallai nad oes gan rai o'r defnyddwyr gludiant. Mae cynlluniau teithio rhad ar gael ar Ynys Môn ac mae rhagor o wybodaeth i’w gweld ar wefan y Cyngor Sir | | | |
| | **Pwysigrwydd diogelu'r amgylchedd naturiol** | Cadarnhaol - y bwriad yw gwerthu’r | Niwtral - y bwriad yw gwerthu’r | Cadarnhaol - bydd y llain ymarfer (Golf Môn) yn | Cadarnhaol - bydd y Cyngor Sir yn ailfuddsoddi | Cadarnhaol - bydd y Cyngor Sir yn ailfuddsoddi | Cadarnhaol - bydd y llain ymarfer (Golf Môn) yn parhau | Niwtral |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | cwrs golff fel manddaliad, Felly, bydd yr amgylchedd naturiol yn cael ei ddiogelu ac yn troi'n ôl i fod yn ddefnydd amaethyddol | cwrs golff fel manddaliad, Felly, bydd yr amgylchedd naturiol yn cael ei ddiogelu ac yn troi'n ôl i fod yn ddefnydd amaethyddol | parhau ar agor i'r gymuned golffio ei defnyddio<br><br>Bydd unrhyw werthiant yn gweld creu manddaliad | cyfalaf o asedau dros ben i mewn i'w Gyfleusterau Hamdden sy'n gallu darparu ar gyfer ystod fwy amrywiol o ddefnyddiau penodol i bawb yn y gymuned ac i ddefnyddwyr a gwahanol lefelau gallu ac incwm<br><br>Cadarnhaol - bydd y llain ymarfer (Golf Môn) yn parhau ar agor i'w defnyddio gan y gymuned golffio fel bod modd i bobl o bob safon chwarae<br><br>Negyddol - Roedd y ddarpariaeth yn rhatach | cyfalaf o asedau dros ben i mewn i'w Gyfleusterau Hamdden sy'n gallu darparu ar gyfer ystod fwy amrywiol o ddefnyddiau penodol i bawb yn y gymuned | ar agor i'w defnyddio gan y gymuned golffio<br><br>Mae ein tenantiaid a deiliaid ein manddaliadau'n siaradwyr Cymraeg gan fwyaf<br><br>Bydd unrhyw arian cyfalaf yn cael ei ailfuddsoddi yn ein Cyfleusterau Hamdden lle cynigir gwasanaeth dwyieithog i'n cymunedau sy'n gallu darparu ar gyfer ystod fwy amrywiol o ddefnyddiau penodol a defnyddwyr. Er na chesglir gwybodaeth am ddefnyddwyr Cymraeg eu hiaith, mae'r | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | na'r clybiau preifat ac felly roedd mwy o bobl yn chwarae yno.<br><br>Negyddol - Efallai nad oes gan rai o'r defnyddwyr fynediad at gludiant pe byddent yn dymuno chwarae golff yn hytrach na mynd i'r llain ymarfer. Mae cynlluniau teithio rhad ar gael ar Ynys Môn ac mae rhagor o wybodaeth i'w gweld ar wefan y Cyngor Sir | | holl wasanaethau yn y Cyfleusterau Hamdden yn ddwyieithog**.** | |
| **Cynllun Llesiant Gwynedd a Môn:** | **Deall effaith newidiadau demograffig** | Niwtral | Niwtral | Niwtral – Bydd y llain ymarfer (Golf Môn) yn parhau ar agor i'r gymuned golffio fydd yn | Cadarnhaol - bydd y Cyngor Sir yn ailfuddsoddi cyfalaf o asedau dros ben i mewn | Cadarnhaol - bydd y Cyngor Sir yn ailfuddsoddi cyfalaf o asedau dros ben i mewn i'w | Cadarnhaol - bydd unrhyw arian cyfalaf yn cael ei ailfuddsoddi yn ein Cyfleusterau | Niwtral |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | hyrwyddo ffordd o fyw iachach a mynediad i mewn i chwaraeon<br><br>Cadarnhaol - bydd y Cyngor Sir yn ailfuddsoddi cyfalaf o asedau dros ben i mewn i'w Gyfleusterau Hamdden sy'n gallu darparu ar gyfer ystod fwy amrywiol o ddefnyddiau penodol a defnyddwyr | i'w Gyfleusterau Hamdden sy'n gallu darparu ar gyfer ystod fwy amrywiol o ddefnyddiau penodol, defnyddwyr a gwahanol lefelau gallu, oedran ac incwm<br><br>Negyddol - Roedd y ddarpariaeth yn rhatach na'r clybiau preifat ac felly roedd mwy o bobl yn chwarae yno. Negyddol - Efallai nad oes gan rai o'r defnyddwyr gludiant pe byddent yn dymuno chwarae golff yn hytrach na mynd i'r llain ymarfer. Mae cynlluniau | Gyfleusterau Hamdden sy'n gallu darparu ar gyfer ystod fwy amrywiol o ddefnyddiau penodol | Hamdden lle cynigir gwasanaeth dwyieithog i'n cymunedau sy'n gallu darparu ar gyfer ystod fwy amrywiol o ddefnyddiau penodol a defnyddwyr. Er na chesglir gwybodaeth am ddefnyddwyr Cymraeg eu hiaith, mae'r holl wasanaethau yn y Cyfleusterau Hamdden yn ddwyieithog. | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | teithio rhad ar gael ar Ynys Môn ac mae rhagor o wybodaeth i’w gweld ar wefan y Cyngor Sir | | | | |
| **Amddiffyn a hyrwyddo'r Gymraeg** | Cadarnhaol - bydd y Cyngor Sir yn ailfuddsoddi cyfalaf o asedau dros ben i mewn i’w Gyfleusterau Hamdden sy’n gallu darparu ar gyfer ystod fwy amrywiol o ddefnyddiau penodol | Cadarnhaol - bydd y Cyngor Sir yn ailfuddsoddi cyfalaf o asedau dros ben i mewn i’w Gyfleusterau Hamdden sy’n gallu darparu ar gyfer ystod fwy amrywiol o ddefnyddiau penodol | Cadarnhaol - bydd y Cyngor Sir yn ailfuddsoddi cyfalaf o asedau dros ben i mewn i’w Gyfleusterau Hamdden sy’n gallu darparu ar gyfer ystod fwy amrywiol o ddefnyddiau penodol | Cadarnhaol - bydd y Cyngor Sir yn ailfuddsoddi cyfalaf o asedau dros ben i mewn i’w Gyfleusterau Hamdden sy’n gallu darparu ar gyfer ystod fwy amrywiol o ddefnyddiau penodol - bydd y rhain yn cynnig gwasanaeth dwyieithog | Cadarnhaol - bydd y Cyngor Sir yn ailfuddsoddi cyfalaf o asedau dros ben i mewn i’w Gyfleusterau Hamdden sy’n gallu darparu ar gyfer ystod fwy amrywiol o ddefnyddiau penodol | Cadarnhaol - bydd unrhyw arian cyfalaf yn cael ei ailfuddsoddi yn ein Cyfleusterau Hamdden lle cynigir gwasanaeth dwyieithog i'n cymunedau sy’n gallu darparu ar gyfer ystod fwy amrywiol o ddefnyddiau penodol a defnyddwyr. Er na chesglir gwybodaeth am ddefnyddwyr Cymraeg eu hiaith, mae'r holl wasanaethau | Niwtral |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | yn y Cyfleusterau Hamdden yn ddwyieithog.<br><br>Cadarnhaol - bydd y llain ymarfer (Golf Môn) yn parhau ar agor lle cynigir gwasanaeth dwyieithog | |
| **Hyrwyddo'r defnydd o adnoddau naturiol i wella iechyd a lles yn y tymor hir** | Cadarnhaol - y bwriad yw gwerthu'r cwrs golff fel manddaliad. Fel hyn, sicrheir y bydd amgylchedd naturiol yr ardal yn parhau ond hefyd yn gallu creu cyfleoedd cyflogaeth | Cadarnhaol - y bwriad yw gwerthu'r cwrs golff fel manddaliad. Fel hyn, sicrheir y bydd y sector amaethyddol yn parhau'n gryf ar Ynys Môn ac yn creu cyfleoedd | Cadarnhaol - bydd y Cyngor Sir yn ailfuddsoddi cyfalaf o asedau dros ben i mewn i'w Gyfleusterau Hamdden sy'n gallu darparu ar gyfer ystod fwy amrywiol o ddefnyddiau penodol | Cadarnhaol - bydd y Cyngor Sir yn ailfuddsoddi cyfalaf o asedau dros ben i mewn i'w Gyfleusterau Hamdden sy'n gallu darparu ar gyfer ystod fwy amrywiol o ddefnyddiau penodol, defnyddwyr a gwahanol lefelau gallu ac incwm<br><br>Cadarnhaol - bydd y llain | Cadarnhaol - bydd y Cyngor Sir yn ailfuddsoddi cyfalaf o asedau dros ben i mewn i'w Gyfleusterau Hamdden sy'n gallu darparu ar gyfer ystod fwy amrywiol o ddefnyddiau penodol i bawb yn y gymuned | Bydd unrhyw arian cyfalaf yn cael ei ailfuddsoddi yn ein Cyfleusterau Hamdden lle cynigir gwasanaeth dwyieithog i'n cymunedau ac sy'n gallu darparu ar gyfer ystod fwy amrywiol o ddefnyddiau penodol a defnyddwyr. Er na chesglir gwybodaeth am ddefnyddwyr Cymraeg eu | Niwtral |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | ymarfer (Golf Môn) yn parhau ar agor i'w defnyddio gan y gymuned golffio fel bod modd i bobl o bob safon chwarae<br><br>Negyddol - Roedd y ddarpariaeth yn rhatach na'r clybiau preifat ac felly roedd mwy o bobl yn chwarae yno.<br><br>Negyddol - Efallai nad oes gan rai o'r defnyddwyr fynediad at gludiant pe byddent yn dymuno chwarae golff yn hytrach na mynd i'r llain ymarfer. Mae cynlluniau teithio rhad ar | | hiaith, mae'r holl wasanaethau yn y Cyfleusterau Hamdden yn ddwyieithog. | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | gael ar Ynys Môn ac mae rhagor o wybodaeth i'w gweld ar wefan y Cyngor Sir | | | |
| **Gwella cysylltiadau trafnidiaeth fel bod modd cael at wasanaethau a chyfleusterau** | Niwtral | Niwtral | Niwtral - wrth ailfuddsoddi yn ein Cyfleusterau Hamdden - sydd yn ein trefi mawr a lle mae pob math o gludiant yn mynd iddynt - mae'n sicrhau y byddant yn hyfyw yn y tymor hir - ac yn sicrhau bod y cynnig ar gael i ddefnyddwyr o bob incwm, oedran a gallu | Negyddol - Efallai nad oes gan rai o'r defnyddwyr gludiant<br><br>Cadarnhaol - bydd y Cyngor Sir yn ailfuddsoddi cyfalaf o asedau dros ben i mewn i'w Gyfleusterau Hamdden - sydd yn ein trefi mawr a lle mae pob math o gludiant yn mynd iddynt - cyfleusterau sy'n gallu darparu ar gyfer ystod fwy amrywiol | Niwtral | Niwtral - wrth ailfuddsoddi yn ein Cyfleusterau Hamdden - sydd yn ein trefi mawr a lle mae pob math o gludiant yn mynd iddynt - mae'n sicrhau y byddant yn hyfyw yn y tymor hir - ac yn sicrhau bod y cynnig ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg | Niwtral |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | o ddefnyddiau penodol, defnyddwyr a gwahanol lefelau gallu ac incwm | | | |
| **Yr angen am swyddi o ansawdd da a chartrefi fforddiadwy i bobl leol** | Cadarnhaol - y bwriad yw gwerthu'r cwrs golff fel manddaliad. Y gobaith yw y bydd hyn yn denu pobl leol sy'n dymuno aros ym Môn a sefydlu busnes amaethyddol neu ymestyn eu busnes cyfredol | Cadarnhaol - bydd unrhyw arian cyfalaf yn cael ei ailfuddsoddi yn ein Cyfleusterau Hamdden gan sicrhau y byddant yn hyfyw yn y tymor hir a sicrhau swyddi'r bobl sy'n gweithio yno | Cadarnhaol - bydd unrhyw arian cyfalaf yn cael ei ailfuddsoddi yn ein Cyfleusterau Hamdden gan sicrhau y byddant yn hyfyw yn y tymor hir a sicrhau swyddi'r bobl sy'n gweithio yno | Cadarnhaol - bydd unrhyw arian cyfalaf yn cael ei ailfuddsoddi yn ein Cyfleusterau Hamdden sy'n darparu ar gyfer defnyddwyr o bob incwm a hefyd yn sicrhau y byddant yn hyfyw yn y tymor hir ac yn sicrhau swyddi'r bobl sy'n gweithio yno.<br><br>Cadarnhaol - bydd y llain ymarfer (Golf Môn) yn parhau ar agor i'r | Cadarnhaol - bydd unrhyw arian cyfalaf yn cael ei ailfuddsoddi yn ein Cyfleusterau Hamdden gan sicrhau y byddant yn hyfyw yn y tymor hir a sicrhau swyddi'r bobl sy'n gweithio yno | Cadarnhaol - bydd unrhyw arian cyfalaf yn cael ei ailfuddsoddi yn ein Cyfleusterau Hamdden lle cynigir gwasanaeth dwyieithog i'n cymunedau - cyfleusterau sy'n gallu darparu ar gyfer ystod fwy amrywiol o ddefnyddiau penodol | Niwtral |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | gymuned golffio ei defnyddio | | | |
| **Effaith tlodi ar lesiant** | Cadarnhaol - bydd y Cyngor Sir yn ailfuddsoddi cyfalaf o asedau dros ben i mewn i'w Gyfleusterau Hamdden sy'n gallu darparu ar gyfer ystod fwy amrywiol o ddefnyddiau penodol | Cadarnhaol - bydd y Cyngor Sir yn ailfuddsoddi cyfalaf o asedau dros ben i mewn i'w Gyfleusterau Hamdden sy'n gallu darparu ar gyfer ystod fwy amrywiol o ddefnyddiau penodol | Cadarnhaol – er y bydd y Cyngor Sir yn gwerthu tir y cwrs golff, bydd y llain ymarfer (Golf Môn) yn parhau ar agor a chyfalaf o asedau dros ben yn cael ei ailfuddsoddi yn ei Gyfleusterau Hamdden sy'n gallu darparu ar gyfer ystod fwy amrywiol o ddefnyddiau penodol a defnyddwyr | Cadarnhaol - bydd y Cyngor Sir yn ailfuddsoddi cyfalaf o asedau dros ben i mewn i'w Gyfleusterau Hamdden sy'n gallu darparu ar gyfer ystod fwy amrywiol o ddefnyddiau penodol a defnyddwyr ar bob incwm<br><br>Cadarnhaol - bydd y llain ymarfer (Golf Môn) yn parhau ar agor i'r gymuned golffio ei defnyddio | Cadarnhaol - bydd y Cyngor Sir yn ailfuddsoddi cyfalaf o asedau dros ben i mewn i'w Gyfleusterau Hamdden sy'n gallu darparu ar gyfer ystod fwy amrywiol o ddefnyddiau penodol i bawb yn y gymuned | Cadarnhaol - bydd unrhyw arian cyfalaf yn cael ei ailfuddsoddi yn ein Cyfleusterau Hamdden gan sicrhau y byddant yn hyfyw yn y tymor hir a sicrhau swyddi'r bobl sy'n gweithio yno | Niwtral |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sicrhau cyfle i bob plentyn lwyddo** | Cadarnhaol - bydd y Cyngor Sir yn ailfuddsoddi cyfalaf o asedau dros ben i mewn i'w Gyfleusterau Hamdden sy'n gallu darparu ar gyfer ystod fwy amrywiol o ddefnyddiau penodol.<br><br>Caiff gwaith sylweddol ei wneud i hyrwyddo golff trwy gyfleuster y llain ymarfer (Golf Môn) | Cadarnhaol - bydd y Cyngor Sir yn ailfuddsoddi cyfalaf o asedau dros ben i mewn i'w Gyfleusterau Hamdden sy'n gallu darparu ar gyfer ystod fwy amrywiol o ddefnyddiau penodol a chyflwyno amryfal opsiynau iach ar gyfer pob ystod oedran | Cadarnhaol - bydd y Cyngor Sir yn ailfuddsoddi cyfalaf o asedau dros ben i mewn i'w Gyfleusterau Hamdden sy'n gallu darparu ar gyfer ystod fwy amrywiol o ddefnyddiau penodol a chyflwyno amryfal opsiynau iach ar gyfer pob ystod oedran | Cadarnhaol - bydd y Cyngor Sir yn ailfuddsoddi cyfalaf o asedau dros ben i mewn i'w Gyfleusterau Hamdden sy'n gallu darparu ar gyfer ystod fwy amrywiol o ddefnyddiau penodol a chyflwyno amryfal opsiynau iach ar gyfer pob ystod oedran yn ogystal ag ar gyfer unigolion ar bob ystod incwm<br><br>Negyddol - mae ffioedd clybiau golf preifat yn ddrutach a gallent fod yn llai cynhwysol | Cadarnhaol - bydd y Cyngor Sir yn ailfuddsoddi cyfalaf o asedau dros ben i mewn i'w Gyfleusterau Hamdden sy'n gallu darparu ar gyfer ystod fwy amrywiol o ddefnyddiau penodol a chyflwyno amryfal opsiynau iach i bawb yn y gymuned | Cadarnhaol - bydd unrhyw arian cyfalaf yn cael ei ailfuddsoddi yn ein Cyfleusterau Hamdden lle cynigir gwasanaeth dwyieithog i'n cymunedau sy'n gallu darparu ar gyfer ystod fwy amrywiol o ddefnyddiau penodol | Niwtral |

**Mae'r ddogfen yma ar gael yn Saesneg This document is available in English**

This page is intentionally left blank

# Cyngor Sir Ynys Môn – Templed yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

**Mae'r ddogfen yma ar gael yn Saesneg This document is available in English**

Materion i'w hystyried mewn perthynas â'r Gymraeg

Yn Atodiad 1 templed yr asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb, rhestrir cyfres o gwestiynau y dylid eu hystyried wrth asesu sut mae bwriadau'n cael effaith ar y Gymraeg yn gyffredinol. Bydd i ba raddau y mae'r cwestiynau hyn yn berthnasol yn dibynnu ar y bwriad dan sylw. Pwrpas y cwestiynau hyn yw gwneud i chi feddwl am yr effaith neu'r cyfraniad ehangach, a gellid defnyddio'r cwestiynau hyn fel ysgogiad wrth ymateb i gwestiynau 10 - 13 yn nhempled asesiad y Cyngor o'r effaith ar gydraddoldeb.

Fodd bynnag, wrth asesu sut mae prif bolisïau a strategaethau'r Cyngor yn cael effaith ar y Gymraeg, argymhellir ystyried y cwestiynau hyn yn fanylach fel bod modd cynnal asesiad cynhwysfawr.
**Defnyddiwch y templed ar wahân hwn i gwblhau eich asesiad manwl o'r effaith ar y Gymraeg a'i atodi i'ch asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb, sydd wedi'i gwblhau, i'r un bwriad.**



| | |
|---|---|
| **Beth gaiff ei asesu?** | Dyfodol Cwrs Golff Llangefni |
| **Pwy sy'n cynnal yr asesiad?** | Swyddogion y Gwasanaethau Datblygu Economaidd |
| **Dyddiad cwblhau'r asesiad** | Hydref 2020 |

# Cyngor Sir Ynys Môn – Templed yr Asesiad o’r Effaith ar y Gymraeg



| **1 – Cydymffurfio â’r Polisi Iaith** | |
|---|---|
| 1a. Ydi'r bwriad yn ddylanwadol o ran ymdrin â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg?<br><br>• Fydd gweithgareddau fel gohebu trwy lythyr, cyfathrebu dros y ffôn, cyfarfodydd cyhoeddus a chyfarfodydd eraill yn cydymffurfio â'r polisi iaith?<br>• Fydd unrhyw ddatblygiad TG newydd yn cydymffurfio â'r polisi? | Nac ydi |
| 1b. Ydi'r bwriad yn debygol o gael effaith ar ddelwedd gyhoeddus y sefydliad?<br><br>• Fydd pob arwydd yn cydymffurfio â'r polisi iaith?<br>• Fydd cyhoeddiadau a ffurflenni’n cydymffurfio?<br>• Fydd unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd neu ymgyrchoedd marchnata’n cydymffurfio?<br>• Fydd hysbysebion recriwtio staff yn cydymffurfio? | O bosib. Os penderfynir cau'r cwrs golff a gwerthu'r tir yna gallai delwedd gyhoeddus y Cyngor Sir fod yn negyddol. Fodd bynnag, gwnaed y penderfyniad i gau yn wreiddiol yn 2015 ac eto yn 2018.<br>Mae'r cwrs golff wedi bod yn wag ers mis Hydref 2018. |
| 1c. Ydi'r bwriad yn debygol o gael effaith ar weithredu’r polisi iaith?<br><br>• Fydd y bwriad yn creu swyddi newydd?<br>• Fydd y trefniadau staffio’n hwyluso gwaith gweithredu’r polisi iaith?<br>• Fydd y bwriad yn cynnig hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg?<br>• Fydd unrhyw drefniadau gyda thrydydd parti’n cydymffurfio â'r polisi iaith?<br>• Fydd y bwriad yn cynnwys unrhyw dargedau neu | Nac ydi |

# Cyngor Sir Ynys Môn – Templed yr Asesiad o’r Effaith ar y Gymraeg

| **1 – Cydymffurfio â’r Polisi Iaith** | |
|---|---|
| ddangosyddion sy'n ymwneud â'r iaith?<br>• Fydd y bwriad yn cynnwys unrhyw dargedau neu ddangosyddion sy'n ymwneud â'r iaith?<br>• Sut caiff y perfformiad ei fonitro a'i fesur? | |

| **2 – Yr effaith ar ddefnyddwyr Cymraeg eu hiaith** | |
|---|---|
| 2a. Fydd y bwriad yn cynnig dewis iaith i ddefnyddwyr?<br><br>• Fydd hi'n bosibl i ddefnyddwyr dderbyn unrhyw ran o'r gwasanaeth yn Gymraeg? | Bydd y llain ymarfer, yr ardaloedd ymarfer a'r siop yn parhau ar agor i'r cyhoedd a bydd y gwasanaeth a gynigir (lle bo hynny'n bosibl) yn ddwyieithog.<br><br>Mae cyfleusterau hamdden eraill y Cyngor Sir yn parhau ar agor a chynigir gwasanaeth dwyieithog yn yr eiddo hynny. |
| 2b. Oes risg y bydd y bwriad yn gwahaniaethu yn erbyn defnyddwyr gwasanaeth Cymraeg eu hiaith?<br><br>• Roddwyd ystyriaeth yn y bwriad i anghenion siaradwyr Cymraeg?<br>• Ydi siaradwyr Cymraeg yn debygol o dderbyn yr un safon gwasanaeth ag a roddir yn Saesneg?<br>• Ydi trefniadau Cymraeg yn debygol o arwain at oedi yn y gwasanaeth? | Mae'r Cyngor Sir yn cydnabod y bydd rhai o'r cyhoedd sy'n dymuno chwarae golff yn siarad Cymraeg. Fodd bynnag, nid yw'r bwriad yn cau popeth a gynigir a bydd darpariaeth yn parhau. Mae digon o ddarpariaethau golff eraill ar Ynys Môn i negyddu unrhyw effaith ei gau.<br><br>Mae siaradwyr Cymraeg mewn lleoliadau golff amgen yn Ynys Môn. |
| 2c. Ydi'r bwriad yn debygol o wneud y Gymraeg yn fwy gweladwy? | O bosib. Bwriad y Cyngor Sir yw buddsoddi derbyniadau cyfalaf o'i asedau segur yn ei gyfleusterau hamdden mewn mannau eraill |

| | |
|---|---|
| • Ydi o’n debygol o gynyddu'r defnydd a wneir o'r iaith trwy gynhyrchu deunyddiau ac arwyddion Cymraeg?<br>• Ydi o'n debygol o ddylanwadu ar eraill i wneud mwy o ddefnydd o'r Gymraeg, er enghraifft busnesau? | Rhoddir gwasanaeth dwyieithog yn y cyfleusterau hyn a gall hyn ond fod o fudd i siaradwyr Cymraeg yn y gymuned leol gan y bydd ein cyfleusterau hamdden yn cynnig llawer mwy o weithgareddau i unigolion o bob oed i fod yn rhan ohonynt. |
| 2ch. Fydd y gwasanaeth Cymraeg yn hygyrch mewn perthynas â'r bwriad?<br><br>• Fydd y gwasanaeth mor hygyrch yn Gymraeg ag yn Saesneg?<br>• Fydd y gwasanaethau ar gael yr un pryd? | Mae'r llain ymarfer - fydd yn parhau ar agor - yn cynnig darpariaeth fydd yn parhau’n ddwyieithog. |



| **3 – Yr effaith ar gymunedau Cymraeg eu hiaith** | |
|---|---|
| 3a. Ydi'r bwriad yn debygol o gyfrannu at ddiogelu'r Gymraeg mewn cymunedau?<br><br>• Ydi o'n debygol o gyfrannu at ymdrechion i fynd i'r afael â heriau demograffig<br>• newid a mudo - megis rhoi cyfleoedd i bobl ifanc aros yn eu cymunedau?<br>• Ydi o'n debygol o gyfrannu at yr economi leol mewn ardaloedd Cymraeg eu hiaith?<br>• A fydd yn darparu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg – megis gwasanaethau gwarchod plant? | Mae gan y bwriad y potensial i gael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg mewn cymunedau.<br>1. Bydd chwaraewyr yn ceisio defnyddio'r cyrsiau golff eraill ar yr Ynys gan gryfhau eu sefyllfa a sicrhau eu bod yn hyfyw yn y dyfodol.<br>2. Bydd chwaraewyr yn meithrin cysylltiadau ar y cyrsiau golff eraill hyn.<br>3. Bydd unrhyw dderbyniadau cyfalaf a sicrheir o unrhyw werthiant yn y dyfodol yn cael eu neilltuo i wella a chyfoethogi’n cyfleusterau hamdden. Byddant yn llawer mwy cynhwysol ac yn darparu ar gyfer yr holl gymuned ac ni fyddant yn gwahaniaethu ar sail oedran na gallu.<br><br>Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gall cau’r cwrs golff gael effaith negyddol ar rai nad oes ganddynt gludiant neu sydd ag incwm isel. I liniaru hyn, bydd y llain ymarfer yn |

| **3 – Yr effaith ar gymunedau Cymraeg eu hiaith** | |
|---|---|
| | parhau ar agor i'r cyhoedd. |
| 3b. Ydi'r bwriad yn cymryd camau i hyrwyddo a hwyluso'r Gymraeg?<br><br>• Ydi'r bwriad yn cyfrannu at weithgareddau cymunedol cyfrwng Cymraeg?<br>• Ydi o'n cynnig cyfleoedd i bobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i oriau ysgol?<br>• Ydi o'n cynnig gwasanaeth newydd fydd hefyd ar gael yn y Gymraeg - er enghraifft gweithgareddau a darpariaeth hamdden neu chwaraeon?<br>• Ydi o'n cyfrannu neu'n ychwanegu gwerth at weithgareddau eraill sy'n ymwneud ag iaith, megis gwaith y fenter Gymraeg leol (Menter Iaith), yr Urdd ac ati. | Ydi. Bydd unrhyw dderbyniadau cyfalaf posib yn y dyfodol a sicrheir o unrhyw werthiant yn cael eu neilltuo i wella a chyfoethogi'n cyfleusterau hamdden. Byddant yn llawer mwy cynhwysol ac yn darparu ar gyfer yr holl gymuned ac ni fyddant yn gwahaniaethu ar sail oedran, incwm na gallu. |



| **4 - Cyfrannu at safonau Cymraeg, polisïau iaith, strategaethau a chanllawiau perthnasol eraill sy'n ymwneud â'r Gymraeg** | |
|---|---|
| 4a. Polisïau iaith sefydliadau sy'n bartneriaid neu gyrff cyhoeddus cyfagos:<br><br>• Ydi'r awdurdod yn gweithio mewn partneriaeth ar y bwriad?<br>• Pa sefydliadau eraill y mae'r datblygiad yn debygol o gael effaith arnynt?<br>• Oes gan y sefydliadau hynny safonau iaith neu bolisïau iaith Cymraeg? | Caiff y penderfyniad hwn ei arwain gan y Cyngor Sir gan mai ein hased ni yw'r cwrs golff. |

| **4 - Cyfrannu at safonau Cymraeg, polisïau iaith, strategaethau a chanllawiau perthnasol eraill sy'n ymwneud â'r Gymraeg** | |
|---|---|
| • Ydi'r bwriad yn cyfrannu at y cynlluniau hynny? | |
| 4b. Strategaethau iaith perthnasol:<br><br>• Fydd y bwriad yn cyfrannu at Strategaeth Iaith Fforwm Strategol y Gymraeg Ynys Môn 2016 - 2021 a fabwysiadwyd gan y Cyngor hwn ym mis Medi 2016?<br>• Sut mae'r bwriad yn cyfrannu at weledigaeth Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050? | Gall y bwriad fod o fudd i'r Gymraeg oherwydd:<br>1. Bydd chwaraewyr yn ceisio defnyddio'r cyrsiau golff eraill ar yr Ynys gan gryfhau eu sefyllfa a sicrhau eu bod yn hyfyw yn y dyfodol.<br>2. Bydd chwaraewyr yn meithrin cysylltiadau ar y cyrsiau golff eraill hyn.<br>3. Bydd unrhyw dderbyniadau cyfalaf a sicrheir o'r gwerthiant yn cael eu neilltuo i wella a chyfoethogi'r cyfleusterau hamdden ym Mhlas Arthur. Byddant yn llawer mwy cynhwysol ac yn darparu ar gyfer yr holl gymuned ac ni fyddant yn gwahaniaethu ar sail oedran na gallu. |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Y Pwyllgor Gwaith a’r Cyngor Llawn** |
| **Dyddiad:** | **22/03/21 a 18/05/21** |
| **Pwnc:** | **Datganiad ar y Polisi Trwyddedu am y cyfnod 2021-2026** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y Cynghorydd Richard Dew**<br>**Y Cynghorydd Nicola Roberts Cadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu** |
| **Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:** | **Christian Branch**<br>**Pennaeth Dros Dro - Rheoleiddio a Datblygu Economaidd** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Sion Hughes**<br>**07747 118 406**<br>**slhpp@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a’r Rheswm/Rhesymau**

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith argymell i'r Cyngor Llawn y dylid mabwysiadu'r Datganiad ar Bolisi Trwyddedu 2021-2026.

Yn unol â Deddf Trwyddedu 2003, rhaid i'r Cyngor fabwysiadu Datganiad ar ei Bolisi Trwyddedu bob pum mlynedd. Mae'r Polisi hwn yn nodi sut y bydd y Cyngor yn cyflawni ei swyddogaethau o ran rheoleiddio gweithgareddau trwyddedig. Cynhyrchwyd y polisi drafft yn unol â chanllawiau statudol y Ddeddf Drwyddedu ynghylch ffurf a chynnwys y Polisi.

Mae'n fersiwn ddiwygiedig a diweddaredig o bolisi blaenorol y Cyngor.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Mae'n rhaid i'r Cyngor fabwysiadu Datganiad ar y Polisi Trwyddedu yn unol â'r gyfraith. Nid oes unrhyw opsiynau eraill ar gael.

**C - Pam mae hwn yn benderfyniad i’r Pwyllgor Gwaith?**

Mae'n ofynnol i'r Pwyllgor Gwaith wneud argymhellion i'r Cyngor gan fod y polisi'n rhan o Fframwaith Polisi'r Cyngor.

**CH – A yw’r penderfyniad hwn yn gyson â’r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi. Mae’n rhan o Fframwaith Polisi’r Cyngor.

**D – A yw’r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Ydi.

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** | Cymeradwywyd i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith. |

| | | |
|---|---|---|
| | (mandadol) | Gofynnodd y Dirprwy Brif Weithredwr am gyfeiriad at addasu i ffactorau allanol sy'n effeithio ar weithrediad y polisi. Wedi'i gynnwys ym mhara. 14.5. |
| **2** | **Cyllid / Adran 151**<br>(mandadol) | Cymeradwyo gyda chais i annog taliadau ar-lein. |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro**<br>(mandadol) | Cymeradwyo. |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | Amherthnasol |
| **5** | **Eiddo** | Amherthnasol |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | Amherthnasol |
| **7** | **Caffael** | Amherthnasol |
| **8** | **Sgriwtini** | Amherthnasol |
| **9** | **Aelodau Lleol** | Amherthnasol |
| **10** | **Unrhyw gyrff allanol / eraill** | Cynhaliwyd ymgynghoriad â'r holl awdurdodau cyfrifol fel y'u rhestrir yn y polisi. Cyhoeddwyd tudalen ymgynghori gyhoeddus ar ein gwefan. Cafwyd gwybodaeth ddiweddaru gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, y Gwasanaeth Cynllunio a’r Gwasanaeth Iechyd yr Amgylchedd. Gofynnodd Teulu Môn am gyfeiriad penodol at ecsbloetio plant, sydd wedi'i gynnwys. Ni chafwyd unrhyw ymatebion eraill i'r ymgynghoriad. |

| E – Risgiau a Chamau Lliniaru (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd Ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniadau** | |
| **7** | **Arall** | |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Datganiad ar y Polisi Trwyddedu, Deddf Trwyddedu 2003, 2021 - 2026 |
| **FF - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
| |

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

# POLISI TRWYDDEDU

*CHWEFROR 2021(DYDDIAD MABWYSIADU)*


**1. Cefndir**

**2. Cwmpas a Graddau Deddf Trwyddedu 2003**

**3. Amcanion Trwyddedu**

**4. Y Broses Drwyddedu a Gweinyddu Swyddogaethau**

**5. Trwyddedau Eiddo a Thystysgrifau Eiddo Clwb (Ceisiadau Newydd, Amrywiadau a Gwybodaeth Gyffredinol)**

**6. Hysbysiadau Digwyddiad Dros Dro (TENs)**

**7. Trwyddedau Personol**

**8. Trwyddedau Eiddo Clwb**

**9. Atodlen Weithredu**

**10. Ffioedd**

**11. Effaith Gronnol, Ardoll Hwyr y Nos a Gorchmynion Cyfyngu ar Werthu Alcohol yn Fuan yn y Bore**

**12. Cyfundrefnau perthnasol eraill**

**13. Camau Gorfodi**

**14. Amrywiol**


**ATODIADAU**


**Atodiad A Manylion cysylltu ar gyfer ceisiadau trwyddedu**
**Atodiad B Awdurdodau Cyfrifol**
**Atodiad C Gweithdrefn adolygu sy'n ymgorffori datrys problemau ar y cyd â'r weithdrefn orfodaeth**
**Atodiad D Dirprwyo swyddogaethau**
**Atodiad E Rhestr Termau**

## 1 CEFNDIR

1.1 Cyflwynir y Polisi Trwyddedu (**y Polisi**) hwn yn unol â Deddf Trwyddedu 2003 (**y Ddeddf**). Mae'r Polisi'n nodi'r egwyddorion a weithredir gan Gyngor Sir Ynys Môn (**yr Awdurdod**) wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â cheisiadau, gwrandawiadau, adolygiadau ac apeliadau o dan y Ddeddf mewn perthynas â:

(a) Manwerthu alcohol;

(b) Cyflenwi alcohol gan neu ar ran clwb i, neu ar orchymyn, aelod o'r clwb;

(c) Darparu lluniaeth hwyr y nos (bwyd neu ddiodydd poeth o unrhyw eiddo rhwng 23.00 a 05.00); a

(d) Darparu adloniant rheoledig ar gyfer y cyhoedd neu aelodau o glwb neu gyda'r bwriad o wneud elw gan gynnwys codi arian tuag at elusen pan fydd yr adloniant yn cynnwys: perfformiad theatr neu arddangos ffilm; digwyddiad chwaraeon dan do; gornestau bocsio neu wreslo; perfformio cerddoriaeth fyw; chwarae cerddoriaeth wedi ei recordio neu berfformiad dawns.

1.2 Lleolir Ynys Môn yng Ngogledd Orllewin Cymru. Tir isel a geir ar yr Ynys yn bennaf ac mae ganddi Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) arfordirol. Mae'n denu niferoedd mawr o ymwelwyr sy'n gwneud cyfraniad pwysig i'r economi lleol. Mae amaethyddiaeth yn parhau i fod yn weithgaredd pwysig ac yn rhan annatod o hunaniaeth a diwylliant yr ynys. Yng Nghyfrifiad 2011 cofnodwyd poblogaeth o 69,769 gyda 30,600 o aelwydydd. Caergybi yw'r dref fwyaf ym Môn, a lleolir y mwyafrif o'r aneddiadau mwyaf o amgylch yr arfordir. Yr anheddiad mwyaf i ffwrdd o'r arfordir yw Llangefni, sef y dref sirol. Mae gan Ynys Môn gysylltiadau trafnidiaeth rhyngwladol cryf ag Iwerddon trwy Borthladd Caergybi. Mae'r A55, sy'n rhan o'r Rhwydwaith Ffyrdd Traws-Ewropeaidd (TERN), ynghyd â rheilffordd arfordir Gogledd Cymru yn cysylltu'r ardal â gweddill Gogledd Cymru a'r Deyrnas Unedig.

1.3 Ychydig iawn o "glybiau nos" cydnabyddedig neu grynoadau dwys o eiddo trwyddedig a geir ar yr ynys. Mae neuaddau pentref ac ysgolion yn darparu lleoliadau ar gyfer digwyddiadau cymdeithasol a diwylliannol. Ceir nifer o gyngherddau a sioeau awyr agored sy'n ffurfio'r digwyddiadau mwy o ran maint a digwyddiadau dros dro.

## 2 CWMPAS A GRADDAU DEDDF TRWYDDEDU 2003

2.1 Cyfrifoldeb yr Awdurdod yw cyflawni ei ddyletswyddau dan y Ddeddf gyda golwg ar hyrwyddo'r **Pedwar Amcan Trwyddedu** yn gyfartal:

(a) Atal Trosedd ac Anrhefn;

(b) Diogelwch y Cyhoedd;

(c) Atal Niwsans Cyhoeddus; ac

(d) Amddiffyn plant rhag niwed.

2.2 Cydnabyddir mai dim ond un ffordd o gyflawni'r amcanion uchod yw'r swyddogaeth drwyddedu. Bydd yr Awdurdod felly'n parhau i weithio mewn partneriaeth â phob rhanddeiliad a phartner perthnasol arall.

2.3 Wrth ymgymryd â'i swyddogaeth drwyddedu, bydd yr Awdurdod yn ystyried deddfwriaeth arall a Strategaethau a Pholisïau'r Llywodraeth fel y bo'n briodol. Yn achos bod cyfundrefnau rheoleiddiol eraill yn gosod rhwymedigaethau ar ymgeiswyr, bydd yr Awdurdod yn osgoi gosod yr un rhwymedigaethau neu rai tebyg fel amodau ar drwydded i'r graddau y mae hynny'n bosibl.

2.4 Bydd yr Awdurdod hefyd yn ystyried mentrau ehangach sy'n berthnasol i drwyddedu fel:

(a) Camerâu Teledu Cylch Cyfyng (CCTV) yng nghanol trefi

(b) Gorchmynion Gwahardd o Ganol Tref

(c) Canllawiau Mynychu Clybiau yn Fwy Diogel

(d) Cynllun Gwylio Tafarndai ("Pub Watch") a Grŵp Cynghori ar Ddiogelwch

(e) Menter Wobrwyo Braf Bob Nos ("Best Bar None")

2.5 Dymuniad yr Awdurdod yw hwyluso eiddo sydd dan reolaeth dda gyda deiliaid trwyddedau yn dangos sensitifrwydd i'r effaith ar breswylwyr lleol. Mae'r Awdurdod yn sylweddoli fod eiddo trwyddedig ar yr ynys yn cyfrannu tuag at yr economi lleol. Maent yn denu ymwelwyr a thwristiaid, yn creu trefi a phentrefi bywiog ac yn gyflogwyr mawr. Yn ogystal, mae gan ddeiliaid masnachol eiddo ddisgwyliadau dilys o ran cael amgylchedd sy'n ddeniadol a chynaliadwy i'w busnesau. Ond mae'r Awdurdod yn ymwybodol y dylid sicrhau cydbwysedd rhwng hyn ac anghenion preswylwyr lleol ynghyd ag ystyriaethau ehangach yn unol â'r Amcanion Trwyddedu.

2.6 Mabwysiadwyd y Polisi hwn gan yr Awdurdod ac mae'n amlinellu ymagwedd gyffredinol yr Awdurdod tuag at wneud penderfyniadau yng nghyswllt trwyddedu. Wrth arfer ei swyddogaethau o dan y Ddeddf, bydd yr Awdurdod yn ystyried y Polisi, yn ogystal â'r Canllawiau a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan Adran 182 o'r Ddeddf, wrth gydnabod bod rhaid ystyried pob cais yn ôl ei haeddiant.

2.7 Adolygwyd y Polisi hwn ddiwethaf ar [24 Chwefror 2016] ac fe'i mabwysiadwyd ar [**i'w gadarnhau**].

2.8 Os bydd y canllawiau statudol a gyhoeddwyd dan Adran 182 o'r Ddeddf yn cael eu diwygio ar unrhyw adeg, neu os gwneir newidiadau deddfwriaethol neu reoleiddiol perthnasol, bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n ystyried datblygiadau o'r fath o ran eu heffaith bosibl ar y Polisi hwn.

## 3 AMCANION TRWYDDEDU

3.1 Nodir ymhellach isod sut y bydd yr Awdurdod yn gweithredu'r Amcanion Trwyddedu.

3.2 Yn ogystal â'i bwerau o dan y Ddeddf, bydd yr Awdurdod yn defnyddio amrediad cyflawn o fesurau gan gynnwys ei reolaethau cynllunio, rheolaethau trafnidiaeth, polisïau a phwerau trosedd ac anhrefn. Bydd yr Awdurdod yn sefydlu trefniadau mewn partneriaeth gan weithio'n agos â'r Heddlu, yr awdurdod tân, y Bwrdd Iechyd lleol, busnesau lleol, cynrychiolwyr yn y gymuned a phobl leol i gyflawni'r amcanion hyn.

### Atal Trosedd ac Anrhefn

3.3 Bydd yr Awdurdod yn rhoi sylw i Ddeddf Trosedd ac Anrhefn 1998 sy'n rhoi dyletswydd arno i atal/lleihau trosedd ac anrhefn yn yr ardal.

3.4 Gostwng lefelau troseddu mewn ardaloedd penodol yw un o flaenoriaethau pwysicaf Strategaeth Trosedd ac Anrhefn yr Awdurdod. Bydd y Polisi'n rhoi sylw i effaith debygol trwyddedu o ran sicrhau bod eiddo a'r amgylchedd o'u cwmpas yn cael eu rheoli'n dda.

3.5 Bydd yr Awdurdod yn rhoi sylw priodol i sylwadau Gwasanaeth Heddlu Gogledd Cymru.

3.6 **Mynychu Clybiau yn Ddiogel –** Dymuna'r Awdurdod hyrwyddo egwyddorion "Mynychu Clybiau yn Ddiogel". Bydd yn argymell canllawiau cyfredol y Swyddfa Gartref i Ddeiliaid Trwydded Eiddo a Deiliaid Tystysgrif Eiddo Clwb. Gellir gosod amodau trwyddedu priodol a chymesur i reoli'r amgylchedd mewn eiddo perthnasol er mwyn cyflawni amcanion "Mynychu Clybiau yn Ddiogel".

3.7 **Cyffuriau -** Lle ystyrir bod hynny'n angenrheidiol, gosodir amodau i leihau'r posibilrwydd o werthu a/neu ddefnyddio cyffuriau. Ymgynghorir â'r Tîm Gweithredu Cyffuriau lleol a'r Heddlu ym mhob achos pan fydd angen gosod yr amodau hyn .

3.8 **Goruchwylwyr ar y Drysau -** Lle mae trwydded eiddo yn cynnwys amod sy'n gofyn i unrhyw un gyflawni gweithgaredd i sicrhau diogelwch, rhaid i'r drwydded gynnwys amod sy'n gofyn i'r unigolyn hwnnw fod wedi'i drwyddedu gan yr Awdurdod y Diwydiant Diogelwch, onid yw wedi'i eithrio o ofyniad o'r fath am y rheswm ei fod yn dod o fewn un neu ragor o'r categorïau a nodwyd yn adran 21(2) o'r Ddeddf (trwyddedau sy'n awdurdodi dramâu neu ffilmiau, neu ar achlysuron eraill). Lle ystyrir bod hynny'n angenrheidiol, gall yr Awdurdod arfer ei ddoethineb a gosod amodau bod rhaid cyflogi goruchwylwyr trwyddedig ar y drysau (a gymeradwyir gan yr Awdurdod y Diwydiant Diogelwch), naill ai trwy gydol yr amser neu ar yr adegau hynny a nodir gan yr Awdurdod, ac yn unol â'r nifer a'r gymhareb a bennir gan yr Awdurdod, yn seiliedig ar asesiad risg o'r eiddo.

**Diogelwch y Cyhoedd**

3.9 Dymuna'r Awdurdod hyrwyddo safonau uchel o ddiogelwch i'r cyhoedd mewn perthynas â'r eiddo a'r gweithgareddau o fewn cwmpas y Ddeddf.

3.10 Ymgynghorir ag Adain Iechyd yr Amgylchedd yr Awdurdod fel Awdurdod Cyfrifol yn hyn o beth i orfodi gofynion iechyd a diogelwch mewn eiddo perthnasol ac fe gaiff ei swyddogion hefyd weithredu fel Personau Awdurdodedig at ddibenion gorfodaeth o dan y Ddeddf.

3.11 Mae'r Awdurdod yn cydnabod na fydd dyletswyddau iechyd a diogelwch cyffredinol bob amser yn cynnwys materion penodol yn ddigonol, ac felly bydd angen gosod amodau ar Drwydded Eiddo neu Dystysgrif Eiddo Clwb. Mae diogelwch corfforol yn cynnwys atal damweiniau ac anafiadau a mathau eraill o niwed uniongyrchol sy'n gallu digwydd o ganlyniad i yfed alcohol, fel bod yn anymwybodol neu wenwyn alcohol.

3.12 Pan fydd angen Trwydded Eiddo neu Dystysgrif Eiddo Clwb, caiff yr Awdurdod ddewis rhai amodau sy'n briodol ac yn gymesur ar gyfer natur y gweithgareddau a nodwyd yn yr atodlen weithredu ac sy'n adlewyrchu'r amcanion trwyddedu.

3.13 Pan fo gweithgareddau'n cael eu trefnu gan wirfoddolwyr neu bwyllgor clwb neu gymdeithas neu eiddo cymunedol mae'r Awdurdod Trwyddedu yn credu ei bod yn arfer da bod yr un lefel o amddiffyniad iechyd a diogelwch yn cael ei darparu ag fel pe bai perthynas cyflogwr/cyflogai yn bodoli, boed dyletswyddau cyfreithiol llym yn bodoli o dan y ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch presennol ai peidio. Anogir ymgeiswyr hefyd i gymryd ymagwedd ragweithiol tuag at faterion diogelwch cyffredinol, gan gynnwys rhai eu cwsmeriaid, ac i drafod camau priodol gyda'r Awdurdodau Cyfrifol dan sylw.

3.14 Pan fydd unrhyw amodau wedi'u gosod ar Drwydded Eiddo neu Dystysgrif Eiddo Clwb, gall Swyddog Awdurdodedig ar ran yr Awdurdod archwilio'r eiddo hwnnw ar unrhyw adeg resymol er mwyn sicrhau y cydymffurfir â'r amodau.

3.15 Byddai'r Awdurdod yn disgwyl i drefnwyr digwyddiadau mawr, lle y cynhelir gweithgareddau trwyddedadwy, baratoi cynllun rheoli digwyddiad gan gynnwys asesiadau risg priodol a'u cyflwyno i'r Grŵp Cynghori ar Ddiogelwch Digwyddiadau mewn digon o bryd cyn unrhyw ddigwyddiad arfaethedig. Penderfyniad yr Awdurdod fydd unrhyw benderfyniad i awdurdodi digwyddiad o'r fath.

3.16 **Diogelwch Tân** Bydd yr Awdurdod yn rhoi sylw priodol i sylwadau Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru a bydd yn ymgynghori â hwy fel un o'r Awdurdodau Cyfrifol sy'n ymwneud â cheisiadau. Caiff yr Awdurdod ddewis amodau priodol a chymesur o ran materion iechyd a diogelwch mewn ymgynghoriad â Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. Bydd Rheoliadau Rhagofalon Tân (yn y gwaith) 1997 (fel y'i diwygiwyd) yn berthnasol mewn unrhyw eiddo lle bydd gweithgaredd gwaith yn digwydd a bydd Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 hefyd yn berthnasol. Gorfodir y rheoliadau hyn gan Wasanaeth Tân ac

Achub Gogledd Cymru a bydd dyletswydd statudol ar oruchwylwyr eiddo i gynnal a diweddaru eu hasesiadau risg tân eu hunain ar gyfer pob eiddo. Ymhlith materion eraill, dylai'r ddogfen Asesiad Risg tân fynd i'r afael â dulliau adeiladu, y niferoedd a fydd yn defnyddio eiddo, systemau synhwyro mwg a thân, systemau larwm a chyfathrebu, diogelwch a goruchwyliaeth, y prif ddull a'r dull eilaidd o ddianc, ynghyd ag offer diffodd tân ar gyfer eiddo trwyddedig.

**Atal Niwsans Cyhoeddus**

3.17 Pan fydd yr Awdurdod yn dod i farn wrthrychol ynghylch yr hyn sydd yn cael ei ystyried yn niwsans bydd yn canolbwyntio ar effeithiau afresymol y gweithgareddau trwyddedadwy yn yr eiddo perthnasol ar y bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y cyffiniau. Bydd y materion yn ymwneud yn bennaf â'r canlynol: sŵn siarad, gwaeddi a cherddoriaeth a chwaraeir; gwastraff; sbwriel, parcio ceir a llygredd golau ac arogleuon niweidiol.

3.18 Pan fydd yr Awdurdod yn ystyried yr effaith bosibl a gaiff unrhyw eiddo trwyddedig ar yr ardal o amgylch i'r eiddo hwnnw, bydd y Cyngor yn cymryd i ystyriaeth y math o weithgaredd adloniant, yr oriau gweithredu a fwriedir, capasiti'r eiddo, natur yr ardal a'r agosrwydd at breswylwyr lleol.

3.19 Gorfodir darpariaethau Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 sy'n ymwneud â niwsans sŵn gan Adain Iechyd Yr Amgylchedd yr Awdurdod ac fe ymgynghorir â'r Adran honno ynghylch eiddo presennol os bydd niwsans statudol yn amharu ar breswylwyr neu'r gymuned fusnes. Ymgynghorir â hwy hefyd fel Awdurdod Cyfrifol mewn perthynas â cheisiadau.

3.20 Bydd yr Awdurdod yn defnyddio amrediad o amodau trwyddedu i reoli sŵn a gellir cyfeirio at y 'Canllawiau Ymarfer Da Ynghylch Rheoli Sŵn o Dafarndai a Chlybiau'. Mae'n debygol y gosodir amodau caethach ar gyfer rheoli sŵn mewn ardaloedd lle mae eiddo yn agos neu'n gyfagos i eiddo preswyl.

3.21 Ni fydd yr Awdurdod yn gosod amodau na fyddant dan reolaeth uniongyrchol deiliad trwydded, neu ynghylch materion nad ydynt yn gysylltiedig â chyffiniau'r eiddo.

3.22 Yn ogystal, mae gan Heddlu Gogledd Cymru hawliau dan y Ddeddf i reoli sŵn o eiddo. Pe byddai angen iddynt ddefnyddio'r pwerau hyn, byddant yn cysylltu, pan fo hynny'n ymarferol, gyda'r Awdurdod yn unol â'r protocol gorfodaeth a rennir.

3.23 Bydd yr Awdurdod yn cydbwyso'r posibilrwydd o rywfaint o aflonyddu ar gymdogaethau gyda'r angen i annog a hyrwyddo cerddoriaeth fyw, a dawnsio a theatr.

3.24 Bydd yr Awdurdod yn gweithio gyda Gweithredwyr Eiddo Trwyddedig i sicrhau y glynir wrth holl delerau priodol Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005.

3.25 Mae Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2013 yn gwneud darpariaeth ar gyfer cau eiddo os yw sŵn o unrhyw eiddo trwyddedig yn achosi niwsans cyhoeddus.

**Amddiffyn Plant Rhag Niwed**

3.26 Mae'r Awdurdod yn cydnabod y gellir cyflwyno cais am drwydded ar gyfer amrywiaeth eang o eiddo. Er enghraifft, byddant yn cynnwys theatrau, sinemâu, gwestai, archfarchnadoedd a siopau llai, tai bwyta, tafarndai, clybiau nos, caffis, siopau tecawê, neuaddau cymuned ac ysgolion. Ni fydd plant yn cael eu rhwystro mewn unrhyw fodd rhag cael mynd i mewn i unrhyw eiddo (ac eithrio bo hynny'n unol â'r Ddeddf) oni fydd yn briodol a chymesur i wneud hynny i'w diogelu rhag niwed ac ecsbloetiaeth.

3.27 Wrth ystyried ceisiadau ac opsiynau sy'n briodol i atal niwed ac ecsbloetiaeth i blant, bydd yr Awdurdod yn ystyried hanes eiddo penodol a natur y gweithgareddau y bwriedir eu cynnal yno. Er enghraifft:

(a) A gafwyd euogfarnau am werthu alcohol i bobl ifanc dan oed neu a oes gan yr eiddo hanes/tystiolaeth o yfed dan oed (gan gynnwys unrhyw gamau a gymerwyd gan Adain Safonau Masnach yr Awdurdod ynghylch pryniannau prawf o ran cyflenwi alcohol);

(b) A oes unrhyw gysylltiad hysbys gyda defnyddio neu ddelio mewn cyffuriau;

(c) A oes elfen gref o gamblo yn yr eiddo; neu

(d) A fydd adloniant i oedolion neu o natur rywiol yn cael ei gynnig yn aml.

3.28 Lle ystyrir bo hynny'n briodol, gellir gosod amodau sy'n:

(a) Cyfyngu ar yr oriau pan gaiff plant fod yn bresennol;

(b) Cyfyngu ar oedran y sawl sy'n cael bod yn yr eiddo (o dan 18);

(c) Cyfyngu a ba bryd y gellir cynnal rhai gweithgareddau neu rwystro plant rhag bod yn bresennol ar yr adegau hynny; neu

(d) Bod angen oedolyn yn gwmni i blentyn.

3.29 Mae Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 yn caniatáu i Awdurdodau Trwyddedu a'r Heddlu y dewis o osod cyfnod o gau gwirfoddol am hyd at bythefnos (o leiaf 48 awr) yn achos eiddo sy'n gwerthu alcohol i blant yn gyson, fel opsiwn yn lle erlyn mewn rhai achosion. Mae'r ddirwy uchaf wedi'i chodi i £20,000.

3.30 Pan fydd niferoedd mawr o blant yn debygol o fod yn bresennol mewn unrhyw eiddo trwyddedig, er enghraifft ar gyfer sioe blant neu bantomeim, yna bydd yr Awdurdod yn gofyn am gael nifer briodol o staff sy'n oedolion yn bresennol (a fydd wedi darparu gwiriad cofnodion troseddol boddhaol) i sicrhau eu diogelwch ac i'w hamddiffyn rhag niwed.

3.31 Pan fydd caniatâd wedi'i roi i ddangos ffilmiau, bydd yr Awdurdod yn disgwyl y byddir yn cydymffurfio â chyfyngiadau oedran yn unol ag argymhellion Bwrdd Dosbarthu Ffilmiau

Prydain. Ni wnaiff yr Awdurdod ond ystyried amrywiadau i'r rheol gyffredinol hon mewn achosion eithriadol.

3.32 Ni ddangosir unrhyw ffilm mewn eiddo trwyddedig sy'n debygol o greu anhrefn, ennyn casineb neu ysgogi trais tuag at unrhyw garfan o'r cyhoedd ar sail lliw, hil neu dras ethnig neu genedlaethol, anabledd, credoau crefyddol, cyfeiriadedd rhywiol, statws priodasol, beichiogrwydd neu rywedd.

3.33 Ni fydd yr Awdurdod yn gosod unrhyw amod sy'n gofyn yn benodol am ddarparu mynediad i blant i unrhyw eiddo. Pa na fydd unrhyw gyfyngiad wedi'i osod, mater i'w benderfynu gan y deiliad trwydded unigol fydd mynediad.

3.34 Mae Deddf Gamblo 2005 yn caniatáu rhywfaint o chwarae gemau cyfle cyfartal mewn eiddo trwyddedig, ynghyd â nifer gyfyngedig o beiriannau gemau. Rhaid i'r Awdurdod neu'r Goruchwyliwr Eiddo Dynodedig fonitro presenoldeb plant neu bobl fregus.

## 4 Y BROSES DRWYDDEDU A GWEINYDDU SWYDDOGAETHAU – TROSOLWG

4.1 Mae **Atodiad A** yn darparu manylion cysylltu ar gyfer y broses geisiadau trwyddedu, tra bo'r adran hon yn darparu rhywfaint o ganllawiau cyffredinol.

### Gweinyddu Swyddogaethau Trwyddedu a'r Pwyllgor Trwyddedu

4.2 Caiff pwerau'r Awdurdod o dan y Ddeddf eu cyflawni gan y Pwyllgor Trwyddedu, neu gan Is-bwyllgor, neu gan un neu ragor o swyddogion yn gweithredu o dan awdurdod dirprwyedig (gweler **Atodiad D**).

4.3 Mae'r Pwyllgor Trwyddedu yn cynnwys 15 aelod o'r Awdurdod. Cynhelir gwrandawiadau (pan fo angen) gerbron yr Is-bwyllgor Trwyddedu sy'n cynnwys 3 aelod o'r Pwyllgor Trwyddedu.

### Hysbysebu a Sylwadau Perthnasol

4.4 Pan fydd cais yn cael ei hysbysebu, caiff yr Awdurdodau Cyfrifol (**gweler Atodiad B**) ac unigolion eraill y cyfle i wneud sylwadau. Ni fydd sylwadau ond yn cael eu hystyried yn berthnasol os ydynt yn ymwneud ag un neu ragor o'r amcanion trwyddedu.

4.5 Gall Awdurdodau Cyfrifol wneud sylwadau mewn perthynas â'r effaith y gallai pob cais am drwydded ei chael ar yr amcanion trwyddedu a ph'un a yw'r mesurau rheoli a gynhwysir yn yr atodlen weithredu yn ddigonol i liniaru'r effeithiau hynny.

4.6 Gall unrhyw un arall gyflwyno sylwadau (gan gynnwys trydydd parti neu Gynghorydd Ward sy'n cynrychioli unigolyn, os gellir bodloni'r Awdurdod o ran pwy ydyw'r unigolyn a bod y trydydd parti wedi'i awdurdodi i gyflwyno sylwadau ar ei ran).

4.7 Gall sylwadau fod yn rhai cadarnhaol yn ogystal ag yn negyddol, fodd bynnag, mae'n annhebygol y bydd angen cynnal gwrandawiad os mai dim ond sylwadau cadarnhaol a dderbynnir

4.8 Bydd angen i'r Awdurdod Trwyddedu fod yn fodlon bod cyswllt tystiolaethol rhwng y sylwadau a wnaed, yr amcanion trwyddedu a'r eiddo dan sylw. Pan fydd sylw'n gwneud dim ond ailrestru'r amcanion trwyddedu, heb nodi pam yr ystyrir y bydd caniatáu'r cais yn tanseilio'r amcanion neu'n methu â'u hyrwyddo, efallai y caiff y sylw ei wrthod fel un sy'n annilys.

4.9 Dylai unrhyw un sy'n gwneud sylw ar gais gadw mewn cof y bydd ei ddata personol (megis ei enw a'i gyfeiriad) yn cael eu datgelu i'r ymgeisydd. Ni fydd yr Awdurdod Trwyddedu yn golygu llythyrau sy'n cyflwyno sylwadau. Bydd pob llythyr sylwadau'n cael ei gynnwys ar yr agenda petai'r mater yn mynd ymlaen i wrandawiad gan yr Is-bwyllgor. Mae gwrandawiadau yn agored i'r cyhoedd a gallai aelodau o'r cyfryngau fod yn bresennol, onid yw'r is-bwyllgor yn penderfynu fel arall o dan Reoliadau Deddf Trwyddedu 2003 (Gwrandawiadau) 2005 neu Ddeddf Llywodraeth Leol 1972¸ Atodlen 12A (fel y diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, SI 2007/969, Erthygl 3). Yn ogystal, mae'n bosibl y bydd data personol yn cael ei gyhoeddi yn y cofnodion sy'n cael eu dosbarthu i'r holl bartïon yn yr achos ac a fydd ar gael ar wefan yr Awdurdod.

**Sylwadau a thrafodaeth a'r angen am wrandawiad**

4.10 Dan y Ddeddf mae rheidrwydd ar yr Awdurdod Trwyddedu i gymeradwyo cais oni bai y derbynnir sylwadau perthnasol. Os na dderbynnir unrhyw sylwadau perthnasol bydd swyddogion trwyddedu'r Awdurdod Trwyddedu yn delio â'r cais o dan y cynllun dirprwyo. Os ceir sylwadau perthnasol na ellir eu datrys (gweler isod) yna bydd yr Is-bwyllgor Trwyddedu yn ystyried y cais mewn gwrandawiad cyhoeddus.

4.11 Os cyflwynir sylwadau, bydd swyddog yn gyfrifol am sicrhau cysylltiad rhwng yr Ymgeisydd/Ymgeiswyr, yr Awdurdodau Cyfrifol ac unrhyw unigolyn arall sy'n gwneud sylwadau perthnasol.

4.12 Os cyflwynir sylwadau perthnasol, gallai swyddog o'r Awdurdod Trwyddedu gysylltu â'r partïon perthnasol i weld a yw "setliad" yn bosibl i oresgyn unrhyw wrthwynebiadau ac i ddatrys unrhyw faterion sy'n destun pryder, heb yr angen i'r mater fynd gerbron yr Is-bwyllgor Trwyddedu. Unwaith y bydd cais wedi'i wneud, gosodir amserlenni statudol ar y broses geisiadau a phenderfynu a allai cyfyngu ar y cyfle i drafod, sicrhau cyswllt a chyfryngu.

4.13 Os gellir dod i gytundeb, bydd Aelodau'n cyfarfod i ystyried yr amodau arfaethedig a gytunwyd, ac os ystyrir eu bod yn berthnasol ac yn briodol, byddant yn cytuno i'w hatodi i'r Drwydded. Ni fydd materion ond yn cael eu hatgyfeirio i'w penderfynu gan yr Is-bwyllgor Trwyddedu os na ellir cysoni unrhyw wrthwynebiadau a godwyd.

4.14 Er bod Ceisiadau Trwyddedu a Gwrandawiadau Adolygu sy’n cael eu herio yn lled-farnwrol o ran natur, bydd yr Is-bwyllgor yn ceisio sicrhau bod y trafodion mor anffurfiol â phosibl. Mae angen rhyw fath o ffurfioldeb i sicrhau bod yr holl bartïon yn derbyn gwrandawiad teg. Bydd yn rhaid sefydlu gofynion gweithdrefnol i sicrhau bod yr holl bartïon yn gallu mynegi eu safbwyntiau yn agored ac yn deg.

4.15 Er bod yr Is-bwyllgor fel arfer yn cyfarfod yn gyhoeddus, mae ganddo’r pŵer i wrando ar rai ceisiadau penodol yn breifat. Fodd bynnag, bydd yr Is-bwyllgor bob amser yn llunio'i benderfyniad yn breifat. Bydd cyhoeddiad cyhoeddus o’r penderfyniad yn cael ei wneud ar ddiwedd y Gwrandawiad fel arfer, ynghyd ag amlinelliad o'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw.

**Amodau**

4.16 Os na chyflwynir unrhyw sylwadau perthnasol, cymeradwyir y cais ar y telerau a geisiwyd, h.y. yn gyson â’r atodlen weithredu ac yn amodol ar yr amodau gorfodol. Ni osodir unrhyw amodau ychwanegol.

4.17 Yr Is-bwyllgor Trwyddedu sy’n delio â cheisiadau lle cyflwynwyd sylwadau perthnasol, neu os ceir cais i adolygu trwydded. Wrth ystyried ceisiadau, bydd yr Is-bwyllgor yn ystyried y Polisi hwn, y Ddeddf, y canllawiau statudol a rheoliadau cysylltiedig.

4.18 Os aiff y mater i wrandawiad, gall yr Is-bwyllgor Trwyddedu atodi amodau (yn ychwanegol i’r amodau gorfodol) os daw i’r casgliad (ar ôl derbyn sylwadau perthnasol) bod hynny’n briodol i hyrwyddo un neu ragor o’r amcanion trwyddedu. Bydd yr Awdurdod, cyn belled ag y bo’n rhesymol ymarferol, yn osgoi gosod amodau anghymesur a beichus ar eiddo.

4.19 Mae'r Awdurdod yn cydnabod y cyngor a dderbyniwyd gan y Swyddfa Gartref na ddylid caniatáu i safbwyntiau'r lleiafrif ddominyddu buddion cyffredinol y gymuned.

4.20 Bydd unrhyw amodau a atodir yn canolbwyntio’n bennaf ar effaith uniongyrchol y gweithgareddau sy’n digwydd yn yr eiddo ar y rheiny sy’n mynychu’r eiddo ac ar aelodau o’r cyhoedd sy’n byw, yn gweithio neu fel arall yn ymwneud â gweithgareddau arferol yng nghyffiniau’r eiddo. Wrth benderfynu a yw unigolyn yn byw neu a oes ganddo ddiddordebau busnes yn ddigon agos at yr eiddo fel ei bod yn debygol y caiff ei effeithio gan y gweithgareddau arfaethedig, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried ffactorau megis:

(a) Maint yr eiddo.

(b) Natur yr eiddo.

(c) Pellter yr eiddo o leoliad cartref neu fusnes yr unigolyn sy’n gwneud y sylwadau.

(d) Effaith bosibl yr eiddo (e.e. nifer y cwsmeriaid a’r llwybrau y mae’r cwsmeriaid yn debygol o’u defnyddio).

4.21 Efallai y bydd rhaid gosod amodau sy'n ceisio rheoli ystod neu natur y gweithgareddau o fewn yr eiddo, neu sydd wedi'u dylunio i leihau'r potensial am ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae'n bosibl y bydd amodau o'r fath hefyd yn ceisio dylanwadu'n uniongyrchol ar ymddygiad cwsmeriaid yn yr eiddo neu yng nghyffiniau'r eiddo.

**Integreiddio Strategaethau ac Osgoi Dyblygu**

4.22 Bydd unrhyw benderfyniad ynglŷn â chais am drwydded yn cael ei wneud yn hollol ar wahân i unrhyw benderfyniad sydd yn ymwneud â materion cynllunio. Fodd bynnag, bydd y Pwyllgor Cynllunio'n derbyn adroddiadau rheolaidd ynglŷn â'r sefyllfa o ran trwyddedu yn yr ardal, ynghyd ag effaith gyffredinol trosedd ac anrhefn sydd yn gysylltiedig ag alcohol.

4.23 Dylai'r Pwyllgor Trwyddedu hefyd dderbyn adroddiadau gan Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Ynys Môn a Gwynedd mewn perthynas â Throsedd ac Anrhefn.

4.24 Wrth ddelio â cheisiadau, mae'n bosibl y bydd angen rhoi sylw dyledus i nifer o faterion ehangach. Lle ystyrir bo hynny'n briodol, dylai Pwyllgor Trwyddedu'r Awdurdod dderbyn adroddiadau ar anghenion y diwydiant twristiaid lleol, Strategaeth Ddiwylliannol yr ardal, y sefyllfa o safbwynt cyflogaeth yn yr ardal, ar angen am fuddsoddiad a gwaith newydd ynghyd ag ystyriaethau cynllunio a allai effeithio ar eiddo trwyddedig.

4.25 Pan fydd unrhyw brotocolau y cytunwyd arnynt gyda'r Heddlu yn nodi angen penodol i wasgaru pobl o ganol y dref yn gyflym ac yn ddiogel er mwyn osgoi casgliadau o bobl a fyddai'n gallu creu trosedd ac anrhefn, bydd yr Awdurdod yn ceisio rhoi gwybod i'r sawl sy'n gyfrifol am drefnu cludiant lleol fel y gellir gwneud trefniadau, lle bo hynny'n ymarferol, i leihau'r posibilrwydd y bydd problemau'n codi.

4.26 Mae'r Bwrdd Iechyd Lleol yn gyfrifol am wneud sylwadau ar geisiadau am drwyddedau. Bydd y Bwrdd Iechyd hefyd yn defnyddio'r wybodaeth a ddarperir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru i lywio eu penderfyniadau. NId yw iechyd cyhoeddus yn amcan trwyddedu hyd yma, ond mae'r awdurdod trwyddedu'n credu bod gan iechyd cyhoeddus lawer i'w gyfrannu at drwyddedu o ran anghenion iechyd y boblogaeth leol mewn perthynas ag alcohol. Mae gan gyrff iechyd megis Iechyd Cyhoeddus Cymru fynediad unigryw at ddata nad yw ar gael i awdurdodau cyfrifol eraill a allai gyfrannu at benderfyniadau trwyddedu. Mae Iechyd Cyhoeddus yn ddefnyddiol wrth ddarparu tystiolaeth o niweidiau iechyd sy'n gysylltiedig ag alcohol, yn enwedig mewn perthynas â pholisïau ar effeithiau cronnus.

**5 TRWYDDEDAU EIDDO A THYSTYSGRIFAU EIDDO CLWB (CEISIADAU NEWYDD, AMRYWIADAU A GWYBODAETH GYFFREDINOL)**

5.1 Bydd yr Awdurdod yn asesu pob cais newydd neu gais i amrywio amodau yng ngoleuni'r amcanion trwyddedu, a bydd yn rhoi sylw arbennig i'r canlynol:

(a) Y camau a gymerir neu'r rheiny y bwriedir eu cymryd i atal sŵn a dirgryniad o'r eiddo, gan gynnwys cerddoriaeth, sŵn o offer awyru a sŵn lleisiau. Gall y fath gamau gynnwys cyfarpar a dyfeisiau i ynysu'r eiddo rhag sain, i dymheru'r awyr, i gyfyngu ar sŵn ynghyd â lobïau acwstig.

(b) Y camau a gymerir neu'r rheiny y bwriedir eu cymryd i atal aflonyddwch gan gwsmeriaid a staff sy'n cyrraedd neu'n gadael yr eiddo.

(c) Y camau a gymerir neu y bwriedir eu cymryd i atal ciwio, neu, os yw ciwio'n anochel, i wyro'r ciwiau o'r eiddo cyfagos, neu i reoli'r ciw i atal aflonyddwch neu rwystr.

(d) Y trefniadau parcio i gwsmeriaid a wnaed neu y bwriedir eu gwneud, ac effaith parcio ar breswylwyr lleol.

(e) P'un a oes darpariaeth ddigonol ar gyfer cludiant cyhoeddus i gwsmeriaid.

(f) P'un a fydd y tacsis a'r cerbydau hurio preifat sydd yn cynnig gwasanaeth i'r eiddo yn debygol o darfu ar breswylwyr lleol.

(g) P'un a yw'r llwybrau i ac o'r eiddo ar droed neu mewn car neu gerbydau gwasanaeth neu ddosbarthu yn pasio eiddo preswyl.

(h) P'un a ystyriwyd unrhyw ddulliau eraill o atal niwsans, fel defnyddio camerâu cylch cyfyng neu gyflogi goruchwylwyr cofrestredig ar y drysau.

(i) Y camau y bwriedir eu cymryd i atal y defnydd neu'r gwerthiant o gyffuriau anghyfreithlon, gan gynnwys unrhyw weithdrefnau chwilio.

(j) Y camau y bwriedir eu cymryd i gydymffurfio â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd.

(k) Y tebygolrwydd bod unrhyw drais, anrhefn cyhoeddus neu broblem plismona yn codi pe bai trwydded yn cael ei chymeradwyo.

(l) Os yw'r ymgeisydd wedi dal trwydded gyda'r Awdurdod yn flaenorol, manylion unrhyw gamau gorfodi sydd wedi deillio o'r eiddo.

(m) P'un a fyddai cynnydd mewn problemau o ran storio neu waredu sbwriel, neu a fyddai sbwriel ychwanegol yng nghyffiniau'r eiddo.

(n) Derbyn sylwadau gan awdurdodau cyfrifol (gan gynnwys yr Heddlu, yr Awdurdod Tân ac Iechyd yr Amgylchedd).

(o) Derbyn sylwadau gan unrhyw unigolyn arall (megis aelod o'r cyhoedd neu fusnes arall).

(p) Unrhyw gamau lliniaru a gynigiwyd.

5.2 Mae'r Awdurdod hefyd yn gofyn i ymgeiswyr ddarparu gwybodaeth gyd-destunol ychwanegol i gefnogi eu ceisiadau ac i ddangos ymwybyddiaeth o'r gymuned leol; gallai hynny gynnwys nodweddion demograffig yr ardal ac/neu faterion trosedd ac anrhefn lleol penodol er enghraifft.

5.3 Bydd yr Awdurdod yn rhoi sylw i unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth â gofynion statudol a ddaethpwyd i'w sylw, yn enwedig pan mae'n tanseilio'r amcanion trwyddedu. Gall unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth â gofynion statudol eraill ddangos nad yw'r eiddo'n addas ar gyfer y gweithgareddau a fwriedir; neu nad oes rheolaeth ddigonol ar yr eiddo i ddiogelu'r cyhoedd rhag niwed neu niwsans.

5.4 **Mân Amrywiadau** – Gall deiliad tystysgrif eiddo clwb/trwydded eiddo wneud cais dan y drefn mân amrywiadau ar gyfer mân amrywiadau na fydd yn cael effaith andwyol ar yr amcanion trwyddedu. Mae hon yn broses amrywio fwy syml ac nid oes unrhyw hawl i wrandawiad. Os gwrthodir y cais, gellir gwneud amrywiad llawn.

**Gwybodaeth Gyffredinol**

5.5 **Tynnu Amod bod rhaid cael Goruchwyliwr Eiddo Dynodedig** – Os oes gan eiddo yn y gymuned drwydded sy'n caniatáu cyflenwi/gwerthu alcohol, gall deiliad y drwydded wneud cais i gael gwared ar yr amod gorfodol sy'n dweud bod rhaid penodi Goruchwyliwr Dynodedig ar gyfer yr eiddo. Mae hyn yn trosglwyddo'r cyfrifoldeb am werthu/cyflenwi alcohol i'r Pwyllgor Rheoli ar gyfer yr eiddo.

5.6 **Garejis** – Wrth wneud penderfyniadau am geisiadau ar gyfer garejis (h.y. siopau cwrt blaen) mae'n rhaid i'r Awdurdod benderfynu p'un a yw'r eiddo'n cael ei ddefnyddio'n bennaf fel garej ai peidio, a bydd disgwyl i'r ymgeiswyr gyflwyno data sy'n sefydlu'r prif ddefnydd. Pan nad yw gwybodaeth o'r fath ar gael (er enghraifft, oherwydd nad yw'r eiddo ond newydd gychwyn masnachu), mae'n bosibl y bydd yr Awdurdod yn ystyried gosod amod sy'n gofyn am gael darparu'r wybodaeth hon yn rheolaidd i'r Awdurdod Trwyddedu am y blynyddoedd i ddod er mwyn sicrhau bod yr eiddo'n cael ei ddefnyddio fel garej yn bennaf.

**6 HYSBYSIADAU DIGWYDDIADAU DROS DRO (TENS)**

6.1 Ceir meini prawf caeth a chyfyngiadau mewn perthynas â Hysbysiadau y dylai ymgeiswyr fod yn ymwybodol ohonynt a chydymffurfio â hwy. Mae'r rhain yn cynnwys (ond nid wedi eu cyfyngu iddynt):

(a) **Nifer yr Hysbysiadau y gellir eu rhoi ym mhob blwyddyn galendr** - 50 ar gyfer deiliad trwydded bersonol (gan gynnwys uchafswm o 10 Hysbysiad hwyr), 5 i bobl eraill (gan gynnwys uchafswm o 2 Hysbysiad hwyr). Uchafswm o 15 Hysbysiad ym mhob blwyddyn galendr ar gyfer unrhyw eiddo penodol.

(b) **Uchafswm hyd un digwyddiad** – 168 awr (saith diwrnod).

(c) **Cyfanswm uchafswm hyd digwyddiadau drwy gydol blwyddyn galendr** - 21 diwrnod.

(d) **Cyfanswm nifer y mynychwyr ar unrhyw adeg** – 499.

(e) **Y cyfnod lleiaf rhwng digwyddiadau a awdurdodir o dan Hysbysiadau ar wahân mewn perthynas â'r un eiddo** - 24 awr.

6.2 Dylai ymgeiswyr ystyried a ydynt yn cydymffurfio â'r cyfyngiadau cyn cyflwyno Hysbysiad.

**Amseriadau ar gyfer cyflwyno**

6.3 Mae'r Awdurdod yn argymell y dylai ymgeiswyr gyflwyno Hysbysiadau safonol **o leiaf 20 diwrnod** cyn y digwyddiad dros dro sydd dan sylw.

6.4 Gall yr Heddlu a'r Adran Iechyd yr Amgylchedd gyflwyno gwrthwynebiad i Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro, cyn pen tri diwrnod i gyflwyno hysbysiad, a fydd yn caniatáu cyfnod ar gyfer adolygu'r Hysbysiad, a fydd yn arwain at ei newid mewn rhai achosion fel y gall yr Awdurdod ychwanegu amodau i'r Hysbysiad.

6.5 Hysbysiad hwyr yw un a gyflwynir rhwng 9 a 5 diwrnod gwaith cyn y digwyddiad.

6.6 Gwahaniaeth allweddol rhwng Hysbysiad safonol a hwyr yw os derbynnir gwrthwynebiad mewn perthynas â Hysbysiad safonol, yna rhaid cynnal gwrandawiad (onid yw bob parti yn ystyried bod hyn yn ddiangen). Os yw'r Heddlu neu Adran Iechyd yr Amgylchedd yn gwrthwynebu i Hysbysiad hwyr, yna ni fydd gwrandawiad ac ni chynhelir y digwyddiad.

6.7 Bydd yr Awdurdod yn ceisio darparu cyngor ynghylch trefnu digwyddiadau o'r fath i ymgeiswyr, gan gynnwys ar faterion diogelwch y cyhoedd. Lle bo angen, bydd cydweithrediad rhwng awdurdodau cyfrifol a'r gwasanaethau brys yn cael ei hwyluso trwy'r Grŵp Cynghori ar Ddiogelwch.

6.8 Bydd llawer o ddigwyddiadau lleol wedi'u trefnu gan wirfoddolwyr neu bwyllgor clwb neu gymdeithas. Mae'r Awdurdod o'r farn ei bod yn arfer da bod yr un lefel o amddiffyniad iechyd a diogelwch yn cael ei ddarparu ag fel pe bai perthynas cyflogwr/cyflogai yn bodoli, boed dyletswyddau cyfreithiol llym yn bodoli o dan y ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch presennol ai peidio..

**7 TRWYDDEDAU PERSONOL**

7.1 Rhaid i ymgeiswyr am Drwydded Bersonol gyflawni'r gofynion a ganlyn:

(a) Eu bod yn 18 neu drosodd.

(b) Bod ganddynt gymhwyster trwyddedu perthnasol.

(c) Na chafodd unrhyw drwydded bersonol a oedd ganddynt ei fforffedu yn ystod y 5 mlynedd cyn y cais presennol.

(d) Pan fo gan ymgeisydd euogfarn sydd heb ddarfod ar gyfer trosedd berthnasol neu drosedd dramor, a naill ai i) nad yw'r Heddlu wedi gwrthwynebu i gymeradwyo'r cais neu ii) mae'r Awdurdod wedi ystyried gwrthwynebiad yr Heddlu ond wedi penderfynu na fydd cymeradwyo'r cais yn tanseilio'r amcan atal trosedd ac anrhefn.

(e) Maent wedi talu'r ffi berthnasol.

7.2 Rhaid i'r Goruchwyliwr Eiddo Dynodedig (DPS) ar bob Trwydded Eiddo, sef y prif bwynt cyswllt ar gyfer yr Awdurdod, yr Heddlu ac Awdurdodau Cyfrifol eraill ddal trwydded bersonol.

7.3 Mae Trwyddedau Personol yn ddilys am gyfnod amhenodedig, fodd bynnag, unwaith y byddant wedi'u cyflwyno, yr awdurdod â'u cyflwynodd sy'n parhau fel yr awdurdod trwyddedu perthnasol ar eu cyfer, er efallai y bydd deiliad y drwydded yn symud o'r ardal.

7.4 Bydd yn rhaid i'r sawl sy'n dal Trwydded Bersonol roi gwybod i'r Awdurdod Trwyddedu am unrhyw euogfarnau perthnasol a rhoi gwybod i'r llysoedd bod ganddynt drwydded bersonol cyn gynted ag y bo modd fel bod modd ystyried ardystio, atal neu ddirymu trwydded. Bydd peidio â chydymffurfio â'r uchod yn drosedd.

7.5 Bydd Trwydded Bersonol yn cael ei dirymu os nad oes gan ddeiliad y Drwydded Bersonol bellach hawl i weithio yn y Deyrnas Unedig.

**8 TYSTYSGRIFAU EIDDO CLWB**

8.1 Mae clwb yn sefydliad lle mae aelodau wedi ymuno â'i gilydd am resymau cymdeithasol, chwaraeon neu wleidyddol penodol. Ni ddylid eu cymysgu â chlybiau perchnogol, sef clybiau sy'n cael eu rhedeg gan unigolion, partneriaethau neu fusnesau er elw. Er mwyn ymgeisio am Dystysgrif Eiddo Clwb, mae angen i'r clwb fod yn 'Glwb Cymwys', sy'n golygu bod rhaid i'r clwb gyflawni amodau a nodir yn y Ddeddf, gan gynnwys:

(a) O dan reolau'r clwb, bod cyfnod o o leiaf 2 ddiwrnod rhwng ymgeisio i fod yn aelod a chael mynediad i'r clwb. Mae hyn yn cynnwys breintiau aelodaeth (h.y. cael defnyddio'r cyfleusterau ac yfed alcohol).

(b) Bod y clwb wedi'i sefydlu a'i gynnal mewn ewyllys da fel clwb.

(c) Bod gan y Clwb o leiaf 25 aelod.

(d) Nad yw alcohol yn cael ei gyflenwi, neu y bwriedir ei gyflenwi, i aelodau yn yr eiddo ac eithrio gan neu ar ran y clwb.

8.2 Mae gan glybiau sy'n dal Tystysgrifau Eiddo Clwb yr hawl i fuddion penodol:

(a) Nid oes angen Deiliaid Trwydded Bersonol yn yr eiddo.

(b) Nid oes angen Goruchwylwyr Eiddo Dynodedig.

(c) Hawliau mynediad mwy cyfyngedig i'r Heddlu ac Unigolion Awdurdodedig (Swyddogion Trwyddedu) gan fod yr eiddo'n cael ei ystyried yn eiddo preifat ac nad yw ar agor i'r cyhoedd yn gyffredinol.

(d) Gwerthu bwyd poeth a diod rhwng 11pm a 5am i aelodau a gwesteion heb fod angen trwydded.

**9 ATODLEN WEITHREDU**

9.1 Dylai'r holl geisiadau newydd a cheisiadau am amrywio trwydded ar gyfer Trwyddedau Eiddo, Tystysgrifau Eiddo Clwb a Datganiadau Dros Dro gynnwys atodlen weithredu sy'n amlinellu sut y bydd yr eiddo'n cael ei weithredu. Dylai'r atodlen hon gynnwys manylion am sut y bydd yr ymgeisydd yn hyrwyddo'r pedwar amcan trwyddedu ac yn lleihau unrhyw effaith negyddol bosibl ar y gymuned leol sy'n deillio o weithredu eu busnes, yn dibynnu ar y math o eiddo, ei leoliad a phroffil y cwsmeriaid.

9.2 Bydd y cynigion a gynhwysir yn yr atodlen weithredu yn ffurfio prif gorff yr amodau sydd i'w gosod ar y drwydded, ynghyd ag unrhyw amodau mandadol sy'n berthnasol, unrhyw amodau y cytunir arnynt gydag awdurdodau cyfrifol yn ystod y broses ymgeisio ac unrhyw amodau sydd i'w gosod gan yr Is-bwyllgor Trwyddedu (fel y bo'n berthnasol).

9.3 Wrth gwblhau atodlen weithredu, disgwylir i ymgeiswyr roi ystyriaeth i'r Polisi hwn ac arddangos bod ganddynt wybodaeth addas o'u hardal leol pan fyddant yn disgrifio'r camau y maent yn bwriadu eu cymryd i hyrwyddo'r Amcanion Trwyddedu. Dylai ymgeiswyr ddangos, pan fyddant yn amlinellu'r camau y maent yn bwriadu eu cymryd er mwyn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu, eu bod yn deall:

(a) cynllun yr ardal leol a'r amgylchedd ffisegol gan gynnwys mannau lle mae llawer o drosedd ac anhrefn, agosrwydd at eiddo preswyl ac agosrwydd at fannau lle mae plant efallai'n ymgynnull;

(b) unrhyw risg i'r ardal leol o ganlyniad i weithgareddau trwyddedig arfaethedig yr ymgeiswyr; ac

(c) unrhyw fentrau lleol (er enghraifft, mentrau lleihau trosedd lleol neu gynlluniau gwirfoddol, gan gynnwys cynlluniau marsialiaid tacsi lleol, bugeiliaid y stryd a chynlluniau eraill) a allai fod o gymorth i liniaru risgiau posibl.

9.4 Cynghorir ymgeiswyr i drafod eu hatodlenni gweithredu arfaethedig gyda'r Awdurdod ac Awdurdodau Cyfrifol eraill cyn eu cyflwyno. Bydd swyddogion yr Awdurdod yn ymdrechu i ddarparu arweiniad ar gyfer y cam hwn o'r broses. Lle mae swyddog yn cynrychioli'r Awdurdod

yn ei rôl fel Awdurdod Cyfrifol, lle bynnag y bo modd, dynodir swyddog arall i brosesu'r cais ac i ddarparu arweiniad i ymgeiswyr.

9.5 Bydd y cymhlethdod a'r manylion sydd eu hangen yn yr atodlen weithredu yn dibynnu ar natur a defnydd yr eiddo dan sylw. Er enghraifft, ar gyfer tafarndai lle na ddarperir adloniant wedi'i reoleiddio, dim ond dogfen eithaf syml fyddai ei hangen. Fodd bynnag, os yw'r atodlen weithredu yn rhan o gais ar gyfer digwyddiad neu leoliad adloniant mawr, bydd disgwyl i'r atodlen roi sylw manwl i faterion megis diogelwch y cyhoedd ac atal trosedd ac anrhefn.

9.6 Mae'n rhaid gosod yr atodlen weithredu ar y ffurflen benodedig a rhaid iddi gynnwys y canlynol:

(a) Manylion llawn am y gweithgareddau trwyddedig a fydd yn cael eu cynnal yn yr eiddo a'r defnydd a fwriedir ar gyfer yr eiddo;

(b) Yr amseroedd y bydd y gweithgareddau trwyddedadwy yn digwydd;

(c) Unrhyw adegau eraill pan fydd yr eiddo ar agor i'r cyhoedd;

(d) Pan fo angen y drwydded am gyfnod cyfyngedig, beth yw'r cyfnod hwnnw;

(e) Pan fo'r gweithgareddau trwyddedig yn cynnwys cyflenwi alcohol, enw a chyfeiriad yr unigolyn sy'n cael ei ddynodi'n oruchwyliwr eiddo dynodedig (fel y bo'n berthnasol);

(f) P'un a fydd alcohol yn cael ei gyflenwi i'w yfed yn yr eiddo neu oddi ar yr eiddo, neu'r ddau;

(g) Y camau y mae'r ymgeisydd yn eu cynnig er mwyn hyrwyddo'r Amcanion Trwyddedu.

9.7 O ran rhai eiddo, mae'n bosibl na fydd angen unrhyw fesurau i hyrwyddo un neu ragor o'r Amcanion Trwyddedu, er enghraifft, am eu bod yn cael eu hyrwyddo'n ddigonol mewn deddfwriaeth sy'n bodoli eisoes. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod pob atodlen weithredu yn fanwl gywir a bod modd ei gorfodi, nad yw'n annelwig, nad yw'n dyblygu darpariaethau statudol eraill, ei bod yn glir yn yr hyn y mae'n bwriadu ei gyflawni, ac yn briodol, yn gymesur a bod modd ei chyfiawnhau.

**Oriau Gweithredu**

9.8 O dan y Ddeddf, nid oes rhagdybiaeth gyffredinol o blaid ymestyn oriau.

9.9 O ran oriau gweithredu, y pedwar amcan trwyddedu fydd y brif ystyriaeth bob amser a bydd pob cais yn cael ei farnu ar ei rinweddau ei hun. Fel rhan o hyn, mae'r materion allweddol a ystyrir yn cynnwys: ansawdd yr amgylchedd; amwynderau preswylwyr; cymeriad neu swyddogaeth ardal benodol a natur y gweithgareddau y bwriedir eu darparu yn yr eiddo.

9.10 Mae'r Awdurdod yn cydnabod y gall oriau trwyddedu hirach ar gyfer gwerthu alcohol fod yn ffactor sy'n gallu lleihau problemau mewn lleoedd sy'n gwerthu bwyd yn hwyr yn y nos,

safleoedd tacsi, swyddfeydd cerbydau hurio preifat a mathau eraill o gludiant sy’n gallu creu anrhefn ac aflonyddwch.

9.11 Caniateir i siopau, storfeydd ac archfarchnadoedd werthu alcohol i’w yfed oddi ar yr eiddo yn ystod oriau agor arferol y busnes. Os gwneir sylwadau perthnasol (er enghraifft gan yr Heddlu neu breswylydd/breswylwyr mewn perthynas â siopau unigol sy’n hysbys fel canolbwynt anrhefn ac aflonyddwch), efallai y bydd yn briodol i gyfyngu ar eu horiau.

9.12 Tra bo’r Awdurdod o blaid cymeradwyo’r oriau cau yr ymgeisiwyd amdanynt pan fydd yr ymgeisydd yn gallu dangos na fydd y cynnig yn cael effaith andwyol ar unrhyw un o’r uchod, gall yr Awdurdod bennu oriau cau cynharach os yw o’r farn, o ystyried yr amcanion trwyddedu, bod hyn yn briodol o ran natur y gweithgareddau ac amwynderau’r ardal.

9.13 Pan fo eiddo wedi'i leoli ger ardaloedd preswyl yna efallai y bydd amodau caethach o ran rheoli sŵn yn berthnasol, ond ni ddylai hyn gyfyngu'r oriau agor ar yr amod y cydymffurfir â'r amodau.

## 10 FFIOEDD

10.1 Er bod trwyddedau eiddo a thystysgrifau eiddo clwb yn cael eu cymeradwyo am gyfnod amhenodol, mae'n ofynnol i ddeiliaid trwydded/tystysgrif dalu ffi drwydded flynyddol i'r Awdurdod Trwyddedu. Rhaid talu’r ffi flynyddol ar ben-blwydd dyddiad cymeradwyo’r drwydded.

10.2 Os nad yw’r ffi flynyddol wedi’i thalu erbyn y dyddiad dyledus, bydd trwyddedau eiddo a thystysgrifau eiddo clwb yn cael eu **hatal dros dro** gan yr Awdurdod, yn amodol ar gyfnod gras o 21 diwrnod os na wnaed taliad o ganlyniad i anghydfod neu wall gweinyddol. Ar ôl talu’r ffi, bydd y drwydded yn cael ei hadfer yn awtomatig.

10.3 Ar ôl derbyn hysbysiad/darganfod na chafodd ffi flynyddol ei thalu, bydd yr Awdurdod yn cyflwyno rhybudd ysgrifenedig i ddeiliad y drwydded/dystysgrif:

(a) Y bydd y drwydded/dystysgrif yn cael ei hatal dros dro am 14 diwrnod o ddyddiad yr hysbysiad, ond ni ddaw hyn i rym os telir y ffi cyn y diwrnod y caiff ei hatal dros dro.

(b) Os oes honiad o wall gweinyddol, bydd y dyddiad atal dros dro yn 21 diwrnod o’r dyddiad dyledus, neu’r dyddiad atal dros dro ar yr hysbysiad 14 diwrnod, pa un bynnag yw’r hwyraf.

(c) Cyflwynir copi o’r hysbysiad hefyd i’r goruchwyliwr eiddo dynodedig/rheolwr yr eiddo os nad hwy yw deiliad trwydded yr eiddo.

10.4 Os nad yw’r ffi wedi ei thalu erbyn y dyddiad ar yr hysbysiad, ystyrir y bydd y drwydded/dystysgrif wedi’i hatal dros dro. Bydd deiliad y drwydded/dystysgrif a’r Goruchwyliwr Eiddo Dynodedig/Rheolwr yn cael eu hysbysu ar unwaith bod yr ataliad dros dro yn dod i rym, a byddant yn cael gwybod na ellir cynnal unrhyw weithgareddau trwyddedadwy yn yr eiddo hyd

nes y telir y ffi ac y bydd yr ataliad dros dro wedi'i godi. Pan wneir taliad llawn, bydd yr Awdurdod yn codi'r ataliad dros dro ar unwaith, ac yn cadarnhau hyn yn ysgrifenedig.

10.5 Lle bo trwydded/tystysgrif yn cael ei hatal dros dro a bod gweithgareddau trwyddedadwy yn cael eu darparu, bydd yr Awdurdod yn ystyried erlyn y darparwr am droseddau o dan adran 136 o'r Ddeddf.

## 11 EFFAITH GRONNOL, ARDOLL HWYR Y NOS, GORCHMYNION CYFYNGIAD CYNNAR YN Y BORE

### Effaith Gronnol

11.1 Mewn rhai ardaloedd lle bo math neu nifer yr eiddo sy'n gwerthu alcohol neu'n darparu lluniaeth yn hwyr yn y nos yn uchel neu'n eithriadol o uchel, gall hyn gael effaith negyddol ar hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Er enghraifft, gall nifer y bobl sydd naill ai'n cerdded trwy'r strydoedd neu'n hel at ei gilydd ar y strydoedd yn ystod oriau'r nos gynyddu oherwydd effaith gronnol niferoedd o eiddo adloniant sydd ar agor gyda'r hwyr (gan gynnwys caffis nos) mewn ardal benodol, sy'n gallu creu: cynnydd mewn trosedd; cynnydd yn y lefelau sŵn a fydd yn amharu ar breswylwyr; cynnydd sylweddol yn nifer y cerddwyr ar y strydoedd; tagfeydd traffig a/neu anawsterau parcio a/neu daflu sbwriel a baeddu strydoedd.

11.2 Gall hyn ymyrryd ag amwynderau preswylwyr lleol mewn modd annerbyniol, gan na fydd bob amser yn bosibl priodoli achos y problemau hyn i gwsmeriaid eiddo penodol. Mae hyn yn golygu, er y cymerir camau gorfodi i sicrhau cydymffurfiaeth ag amodau, ni fyddant efallai'n datrys yr holl broblemau mewn ardal.

11.3 O dan y Ddeddf, mae gan yr Awdurdod ddisgresiwn (ar ôl dilyn gweithdrefn benodol) i gyflwyno Polisi Effaith Gronnol a fyddai'n creu rhagdybiaeth wrthbrofadwy y bydd ceisiadau ar gyfer cymeradwyo neu amrywio trwydded eiddo neu dystysgrif eiddo clwb sy'n debygol o ychwanegu at yr effaith gronnol, fel arfer yn cael eu gwrthod neu'n destun cyfyngiadau penodol.

11.4 **Nid oes gan yr Awdurdod Bolisi Effaith Gronnol arbennig ar waith ar hyn o bryd ond bydd yn cadw hyn dan sylw.**

11.5 Nid yw absenoldeb Polisi Effaith Gronnol ar hyn o bryd yn atal unrhyw Awdurdod Cyfrifol neu unigolyn arall rhag gwneud sylwadau ar gais ar gyfer cymeradwyo neu amrywio trwydded ar y sail y bydd yn creu effaith gronnol negyddol ar un neu ragor o'r amcanion trwyddedu o ganlyniad i leoliad yr eiddo dan sylw.

11.6 Dylid nodi mai un ffordd yn unig o ddelio â'r problemau a nodwyd uchod yw Trwyddedu ac y dylid troi at y dulliau canlynol hefyd er mwyn ceisio delio â'r problemau:

(a) Rheolaeth gynllunio.

(b) Pwerau awdurdodau lleol i ddynodi rhannau o ardal yr awdurdod lleol yn fannau lle na chaniateir yfed alcohol yn gyhoeddus a lle bydd alcohol yn cael ei atafaelu.

(c) Pwerau'r Heddlu i gau eiddo neu ddigwyddiadau dros dro am hyd at 24 awr ar sail anrhefn, y tebygolrwydd o anrhefn neu sŵn gormodol.

(d) Erlyn deiliaid trwydded bersonol sy'n gwerthu alcohol i bobl sydd wedi meddwi.

(e) Pwerau'r Heddlu, awdurdodau cyfrifol neu breswylydd neu fusnes lleol i geisio cael adolygu trwydded neu dystysgrif eiddo.

**Ardoll Hwyr y Nos**

11.7 Mae pŵer Ardoll Hwyr y Nos yn galluogi'r Awdurdod i godi ardoll ar unigolion sydd wedi'u trwyddedu i werthu alcohol rhwng hanner nos a 06.00 fel modd o godi cyfraniad tuag at gostau plismona'r economi hwyr y nos.

11.8 **Nid yw'r Awdurdod yn ystyried ei bod yn briodol cyflwyno'r ardoll ar hyn o bryd.**

**Gorchymyn Cyfyngiad Cynnar yn y Bore (EMRO)**

11.9 Mae'r Gorchymyn hwn yn caniatáu cyflwyno cyfyngiadau ar werthu alcohol yn holl ardal yr Awdurdod, neu rannau ohoni, rhwng hanner nos a 06.00, os yw'n fodlon y byddai'n briodol gwneud hynny er mwyn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.

11.10 **Nid yw'r Awdurdod yn ystyried ei bod yn briodol cyflwyno'r Gorchymyn ar hyn o bryd.**

## 12 GWEITHDREFNAU PERTHNASOL ERAILL

**Cynllunio/Rheoli Adeiladu**

12.1 Nodir polisïau cynllunio Llywodraeth Cymru ym Mholisi Cynllunio Cymru a'r Nodiadau Cyngor Technegol. Nodir Polisïau Cynllunio'r Awdurdod o fewn Cynllun Datblygu lleol ar y cyd (Ynys Môn a Gwynedd).

12.2 Mae swyddogaethau cynllunio, rheoli adeiladu a thrwyddedu wedi'u gwahanu'n briodol o fewn yr Awdurdod. Mae'r gweithdrefnau Cynllunio a Thrwyddedu yn ystyried materion gwahanol (er bod cysylltiad rhyngddynt), ac nid yw'r Pwyllgor Trwyddedu wedi'i rwymo gan benderfyniadau'r pwyllgor cynllunio (ac i'r gwrthwyneb).

12.3 Ar ôl i ymgeisydd fynd trwy'r broses gynllunio cyn cyflwyno ei gais trwyddedu, mae'r Awdurdod yn disgwyl y bydd atodlen weithredu'r ymgeisydd yn gyson ag unrhyw ganiatâd cynllunio neu amodau a osodir.

12.4 Pan fydd unrhyw oriau a bennir ar gyfer eiddo yn wahanol dan amodau Cynllunio o gymharu â Thrwyddedu rhaid i'r ymgeisydd lynu wrth yr amser cau cynharaf. Byddai modd erlyn, dan gyfraith cynllunio, yn achos unrhyw eiddo sy'n cael ei redeg mewn modd sy'n torri amodau

caniatâd cynllunio.

12.5 Dylid cadw mewn cof fod Rheoliadau Adeiladu yn rheoli amryw o faterion, sy'n cyfrannu'n uniongyrchol at yr Amcanion Trwyddedu, gan gynnwys dulliau o ddianc, cyfanrwydd strwythurol, hygyrchedd a diogelwch y cyhoedd. Efallai y bydd gofyn cael Cymeradwyaeth Rheoliadau Adeiladu a Thystysgrifau Cwblhau cyn medru defnyddio'r eiddo ar gyfer gweithgareddau trwyddedadwy.

**Masnachu ar y Stryd**

12.6 Bydd Masnachwyr Stryd yn rhoi ystyriaeth i Bolisi'r Awdurdod mewn perthynas â masnachu ar y stryd ac yn sicrhau bod pob safle a ddefnyddir wedi'u trwyddedu'n briodol.

**Byrddau a Chadeiriau**

12.7 Bydd Gweithredwyr yn rhoi sylw i bolisi'r Awdurdod mewn perthynas â dodrefn gardd/stryd ac unrhyw oblygiadau posibl o ran cydymffurfio â'r pedwar amcan trwyddedu sydd wedi'u nodi yn y Ddeddf.

**Adloniant i Oedolion – Lleoliadau Adloniant Rhywiol**

12.8 Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi mabwysiadu Atodlen 3 o Ddeddf Lywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982. Mae hyn yn golygu bod rhaid i leoliadau sy'n bwriadu darparu adloniant rhywiol geisio am Drwydded Lleoliad Adloniant Rhywiol (yn ychwanegol i'w trwydded eiddo dan y Ddeddf) os bydd eiddo'n cael ei ddefnyddio ar fwy na 12 achlysur o fewn cyfnod o 12 mis ar gyfer unrhyw adloniant rhywiol perthnasol. Mae adloniant rhywiol perthnasol yn cynnwys: dawnsio glin, dawnsio polyn, dawnsio bwrdd, sioeau tynnu dillad, sioeau llygadu a sioeau rhyw byw.

12.9 Mae eithriad o dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 sy'n caniatáu i eiddo gynnig adloniant rhywiol ddim mwy nag 11 gwaith y flwyddyn ac nid yn fwy aml nag unwaith y mis. Pan fo gweithredwyr yn bwriadu cymryd mantais o'r eithriad hwn, mae'r awdurdod trwyddedu yn disgwyl eglurhad clir yn yr atodlen weithredu o'r arwyddion mae'n bwriadu eu harddangos, yn ogystal â'r cyhoeddusrwydd arfaethedig a'r deunyddiau hysbysebu/arddangos allanol. Ni ddylai deunydd anweddus fod yn weladwy a dylai arwyddion sy'n ymwneud â natur yr adloniant a'r ffaith fod plant wedi'u heithrio fod yn amlwg ac yn weladwy.

12.10 Byddai'r awdurdod trwyddedu'n disgwyl gweld y mesurau a ganlyn yn cael eu cynnig yn yr atodlen weithredu:

(a) Ni fydd unrhyw un o dan 18 mlwydd oed yn cael mynediad i'r eiddo pan fo perfformiad o adloniant i oedolion yn digwydd.

(b) Ni fydd unrhyw berfformiad yn cynnwys cyswllt corfforol rhwng y perfformiwr/perfformwyr ac unrhyw un arall.

(c) Ni fydd unrhyw berfformiad yn cynnwys defnyddio teclynnau rhyw (fel y diffinnir yn Neddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 a bydd rhaid i'r perfformwyr bob tro wisgo 'g-string' neu ddillad tebyg eraill ar y rhan berthnasol o'r corff.

(d) Dylai camerâu teledu cylch cyfyng wylio'r holl fannau perfformio yn yr eiddo gan gynnwys y mannau hynny sydd wedi'u neilltuo ar gyfer perfformiadau/dawnsiau preifat.

12.11 Mae'n rhaid i ymgeiswyr am drwyddedau newydd ac i amrywio trwyddedau presennol hefyd egluro beth yw natur unrhyw adloniant i oedolion a fydd yn digwydd yn yr eiddo. Os na ddarperir unrhyw wybodaeth o gwbl, tybir nad oes unrhyw fwriad i ganiatáu gweithgareddau o'r fath a bydd yr awdurdod trwyddedu yn gosod amod i'r perwyl hwnnw.

**13 GORFODAETH**

13.1 Ceir protocolau ynglŷn â'r camau gorfodi y bydd yr Awdurdod a Heddlu Gogledd Cymru a'r Gwasanaeth Tan ac Achub yn eu gweithredu ar y cyd yn ogystal â phrotocol gweithdrefn orfodaeth leol y cytunwyd arno gan yr Awdurdod a'r Heddlu (gweler **Atodiad C)**.

13.2 Bydd yr Awdurdod yn cymryd camau gorfodi yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol, yr egwyddorion gorfodi a gytunwyd ac yn unol â pholisi gorfodaeth yr Awdurdod ei hun. I'r perwyl hwn, bydd y Cyngor yn cadw at brif egwyddorion cysondeb, tryloywder a chymesuredd.

**Adolygiadau**

13.3 Gall awdurdod cyfrifol neu unrhyw unigolyn ofyn i'r Awdurdod Trwyddedu adolygu trwydded eiddo oherwydd mater sy'n codi yn yr eiddo mewn perthynas ag unrhyw un o'r pedwar amcan trwyddedu.

13.4 Fel arfer, ni fydd yr Awdurdod Trwyddedu yn gweithredu yn ei rôl fel Awdurdod Cyfrifol trwy alw am adolygiad ar ran pobl eraill, megis preswylwyr lleol neu grwpiau yn y gymuned. Mae gan yr unigolion a'r grwpiau hyn yr hawl i wneud hynny yn eu henw eu hunain pan fo ganddynt ddigon o sail i weithredu felly.

13.5 Pan fo gan Awdurdodau Cyfrifol bryderon am broblemau a ganfuwyd mewn eiddo, mae'r Awdurdod Trwyddedu yn ystyried ei bod yn arfer dda iddynt roi rhybudd cynnar i ddeiliaid trwydded o'u pryderon a'r angen am welliannau. Pan fo'n bosibl ac/neu'n briodol, disgwylir y byddai'r awdurdod yn rhoi cyngor ac arweiniad er mwyn mynd i'r afael â'r mater/materion.

13.6 Gall yr Heddlu weithredu dan y Ddeddf i gau eiddo am hyd at 24 awr ar sail anrhefn a niwsans sŵn. Mae ganddynt hefyd bwerau i wneud cais am adolygiad brys o drwydded eiddo sy'n gallu arwain at gau'r eiddo ar unwaith, lle bo eiddo sy'n gwerthu alcohol yn gysylltiedig â 'throseddau difrifol neu anrhefn ddifrifol neu'r ddau'.

13.7 Mae gan swyddogion Iechyd yr Amgylchedd ragor o bwerau o dan Adrannau 76 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Trosedd a Phlismona 2014 i gau eiddo am 24 awr a hyd at 48 awr ar y sail bod sŵn o eiddo trwyddedig yn achosi niwsans cyhoeddus.

13.8 Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn dwyn sylw'r Awdurdodau Cyfrifol at gyhoeddiad y Swyddfa Gartref, "The Practical Guide for Preventing And Dealing with Alcohol Related Problems – What You Need To Know".

## 14 AMRYWIOL

### Danfoniadau Alcohol

14.1 Ar gyfer ymgeiswyr sy'n ceisio am drwydded fyddai'n caniatáu iddynt ddarparu alcohol fel rhan o wasanaeth danfon alcohol, dylent gynnwys yn eu hatodlen weithredu y gweithdrefnau y maent yn bwriadu eu rhoi ar waith i sicrhau:

(a) Bod yr unigolyn y maent yn gwerthu alcohol iddo dros 18 mlwydd oed.

(b) Na chaiff alcohol ond ei ddanfon i rywun sydd dros 18 mlwydd oed.

(c) Bod trywydd dogfen clir o'r broses archebu, o'r pwynt archebu i'r pwynt danfon, yn cael ei gadw (gydag amseroedd a llofnodion) a'i fod ar gael i'w archwilio gan swyddog awdurdodedig.

(d) Bod yr amser pan gaiff alcohol ei werthu ar y wefan/dros y ffôn a'r amser pan gaiff yr alcohol ei ddanfon o fewn yr oriau a nodir ar y drwydded ar gyfer gwerthu alcohol.

### Nwyddau Anghyfreithlon

14.2 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried ceisiadau i adolygu trwyddedau pan fo tystiolaeth y bu alcohol anghyfreithlon yn cael ei werthu ar y safle. Pan fo nwyddau anghyfreithlon eraill, megis tybaco, wedi cael eu canfod, gallai'r Awdurdod Trwyddedu ystyried bod hyn yn dystiolaeth o reolaeth wael sydd â'r potensial i danseilio'r amcanion trwyddedu.

14.3 Ymagwedd yr Awdurdod Trwyddedu, sy'n gyson â'r Arweiniad a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref, yw y bydd yn cymryd y mater o gyflenwi nwyddau anghyfreithlon yn o ddifrif gan fod y materion hyn yn tanseilio'r amcanion trwyddedu. Gall Deiliaid Trwydded sy'n cyflenwi nwyddau anghyfreithlon ddisgwyl i'r Awdurdod Trwyddedu osod camau rheoli a sancsiynau ychwanegol, a bydd risg hefyd y byddant yn colli eu trwydded.

### Cysylltiad â pholisïau eraill

14.4 Wrth weithredu'r polisi hwn bydd yr Awdurdod, lle'n berthnasol, yn rhoi ystyriaeth ddyledus i bolisïau eraill a fabwysiadwyd. Bydd hyn yn cynnwys rhoi ystyriaeth i faterion cydraddoldeb, polisïau iaith Gymraeg a Diogelu yng nghyd-destun y Ddeddf Trwyddedu.

**Addasu i Ffactorau Allanol**

**14.5** Cydnabyddir yr ansicrwydd, y risgiau a'r heriau cyfredol o ganlyniad i bandemig COVID a dod allan o'r UE. Lle bo angen i'r Awdurdod addasu i ffactorau allanol sy'n cael effaith sylweddol ar gyflawni busnes bydd yn gwneud hynny mewn modd hyblyg ac ystwyth. Gwneir hyn mewn modd tryloyw sy'n cynnal egwyddorion y polisi hwn ac yn sicrhau parhad busnes cyn belled ag y bo modd.

**ATODIAD A – MANYLION CYSYLLTU AR GYFER CEISIADAU TRWYDDEDU**

Gellir gwneud ceisiadau am drwyddedau eiddo, tystysgrifau clwb, trwyddedau personol ac amrywiadau trwy wefan Cyngor Sir Ynys Môn.

Mae cyngor ar gael cyn cyflwyno cais - codir tâl am y gwasanaeth hwn. Os ydych yn dymuno defnyddio’r gwasanaeth, cysylltwch â: trwyddedu@ynysmon.gov.uk

Gallwch gysylltu â’r adain drwyddedu trwy: trwyddedu@ynysmon.gov.uk

**ATODIAD B – AWDURDODAU CYFRIFOL**

1. **Heddlu Gogledd Cymru**

Cydlynydd Trwyddedu
Heddlu Gogledd Cymru
Gorsaf yr Heddlu
Yr Ala
Pwllheli
Gwynedd
LL53 5BU
Ffôn : 01286 670053
e-bost : Elizabeth.Williams@nthwales.pnn.police.uk

2. **Teulu Môn**

Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfeydd y Cyngor
LLANGEFNI
Ynys Môn
LL77 7TW
01248 725 888
teulumon@ynysmon.gov.uk

3. **Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru**

Prif Swyddog Tân
Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Gorsaf Dân
Ffordd Llanberis
Caernarfon
Gwynedd
LL55 2DF
Ffôn : 01286 662999
e-bost : gwynedd.mon@nwales-fireservice.org.uk

4. **Safonau Masnach**

Rheolwr Safonau Masnach
Adain Gwarchod y Cyhoedd
Adran Rheoleiddio a Datblygu Economaidd
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfeydd y Cyngor
LLANGEFNI
Ynys Môn
LL77 7TW
01248 752 840
safonaumasnach@ynysmon.gov.uk

5. **Iechyd yr Amgylchedd**

Rheolwr Iechyd yr Amgylchedd
Adain Gwarchod y Cyhoedd
Adran Rheoleiddio a Datblygu Economaidd
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfeydd y Cyngor

LLANGEFNI
Ynys Môn
LL77 7TW
01248 752 840
ehealth@ynysmon.gov.uk

6. **Cynllunio**

Rheolwr Datblygu Cynllunio
Adain Cynllunio
Adran Rheoleiddio a Datblygu Economaidd
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfeydd y Cyngor
LLANGEFNI
Ynys Môn
LL77 7TW
01248 752 421
cynllunio@ynysmon.gov.uk

7. **Bwrdd Iechyd Gogledd Cymru**


Swyddog Gweinyddu ac Adnoddau
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Cyfarwyddiaeth Iechyd y Cyhoedd
Preswylfa
Ffordd Hendy
Yr Wyddgrug
Sir y Fflint
CH7 1PZ
BCUHB.Licencing@wales.nhs.uk

8. **Gorfodaeth Mewnfudo y Swyddfa Gartref**

Alcohol Licensing Team
Lunar House
40 Wellesley Road
Croydon
CR9 2BY
Alcohol@homeoffice.gsi.gov.uk

**ATODIAD C – GWEITHDREFN ADOLYGU YN CYNNWYS GWEITHDREFN DATRYS PROBLEMAU A GORFODAETH**

GWEITHDREFN AR GYFER ADOLYGU EIDDO TRWYDDEDIG YN CYNNWYS DATRYS PROBLEMAU AR Y CYD




Dylid nodi y dyluniwyd y siart lif hon fel templed ar gyfer monitro eiddo trwyddedig trafferthus, ond gall Awdurdodau wneud yn groes i'r weithdrefn a amlinellir fel y bo angen fesul achos.

## PARTNERIAETH TRWYDDEDU HEDDLU GOGLEDD CYMRU A'R AWDURDOD LLEOL

## GWEITHDREFN ORFODAETH AR GYFER EIDDO

Dylid nodi mai pwrpas y weithdrefn orfodaeth yw sicrhau y gellir cwrdd â'r nod cyffredin o sicrhau 'trefniadaeth dda' ac 'arferion gorau' trwy gydweithio. Nid oes bwriad o gwbl i adolygu trwyddedau cyn belled â bod y Goruchwyliwr Eiddo Dynodedig yn fodlon rhoi sylw i unrhyw broblemau gyda chymorth Heddlu Gogledd Cymru a'r Awdurdod Trwyddedu.

**Senario Enghreifftiol**

**CAM UN** - Achos o anrhefn/yfed dan oed/ymdrechion i brynu alcohol gan unigolyn dan oed neu ar ran unigolyn dan oed mewn/o eiddo trwyddedig lle mae'r unigolyn sydd â gofal yn galw'r Heddlu am gymorth ac yn cytuno i weithio gyda nhw.

**Os bydd problemau'n parhau, symudwch o Gam 1 i Gam 2**

**CAM DAU** - Cyfarfod rhwng yr Arolygydd Heddlu/Sarsiant Cymdogaeth, Adran y Gorllewin, Rheolwr yr Eiddo Trwyddedig a chynrychiolydd yr Awdurdod Lleol. Trafodir y materion yn ffurfiol a rhoddir rhybudd ysgrifenedig ffurfiol.

**Os bydd problemau'n parhau, symudwch o Gam 2 i Gam 3**

**CAM TRI** - Bydd yr Arolygydd Heddlu/Sarsiant Cymdogaeth, Adran y Gorllewin a Rheolwr yr Eiddo Trwyddedig yn gwneud cais am adolygiad o'r Drwydded Eiddo, fel sy'n briodol i'r amgylchiadau.

Cytunir ar **Gydgynllun Gweithredu** a fydd mewn grym am dri mis. Os na fydd unrhyw achosion pellach, gellir rhoi'r gorau i ddilyn y weithdrefn orfodaeth.

Bydd yr Heddlu'n gwneud popeth sy'n bosibl i gynorthwyo ac yn gweithio gyda Goruchwyliwr Eiddo Dynodedig i roi'r gorau i orfod dilyn y weithdrefn orfodaeth. Fodd bynnag, mae gofyn i'r Goruchwyliwr Eiddo Dynodedig fod yn gyfrifol am redeg busnes/eiddo da.

Gall achosion mwy difrifol olygu symud ymlaen yn syth i gam dau neu gam tri yn awtomatig (e.e. gweini alcohol i bobl sydd wedi eu gwahardd dan y cynllun Pub Watch, ymosodiad ar heddwas gan Oruchwyliwr Eiddo Dynodedig, staff awdurdodedig neu deulu). Mater i ddisgresiwn yr Arolygydd Heddlu yw hwn. Bydd gorfod defnyddio'r weithdrefn mwy na dwywaith (mewn unrhyw gyfnod o 12 mis) ar gyfer achos penodol yn arwain at adolygiad cam 3 ar unwaith (bydd mwy nag un yn arwain at adolygiad cam 2).

**ATODIAD D – DIRPRWYO SWYDDOGAETHAU**

**Dirprwyo Swyddogaethau**

| **Mater** | **Pwyllgor Llawn** | **Is-bwyllgor** | **Swyddogion** |
|---|---|---|---|
| Cais am Drwydded Bersonol | | Os ceir gwrthwynebiad gan yr Heddlu | Os na chyflwynir sylwadau |
| Cais am Drwydded Bersonol gydag euogfarnau sydd heb ddarfod | | Pob achos | |
| Cais am Drwydded Eiddo / Tystysgrif Eiddo Clwb | | Os cyflwynir sylwadau perthnasol | Os na chyflwynir sylwadau perthnasol |
| Cais am Ddatganiad Dros Dro | | Os cyflwynir sylwadau perthnasol | Os na chyflwynir sylwadau perthnasol |
| Cais i Amrywio Trwydded Eiddo / Tystysgrif Eiddo Clwb | | Os cyflwynir sylwadau perthnasol | Os na chyflwynir sylwadau perthnasol |
| Cais i Amrywio Goruchwyliwr Eiddo Dynodedig | | Os ceir gwrthwynebiad gan yr Heddlu | Pob achos arall |
| Cais i beidio â bod yn Oruchwyliwr Eiddo Dynodedig mwyach | | | Pob achos |
| Cais i Drosglwyddo Trwydded Eiddo | | Os ceir gwrthwynebiad gan yr Heddlu | Pob achos arall |
| Cais ar gyfer Awdurdodau Dros Dro | | Os ceir gwrthwynebiad gan yr Heddlu | Pob achos arall |
| Cais i Adolygu Trwydded Eiddo / Tystysgrif Eiddo Clwb | | Pob achos | |
| Penderfynu a yw Cwyn yn amherthnasol, yn wacsaw neu flinderus ac ati | | | Pob achos |
| Penderfyniad i wrthwynebu pan fo’r Awdurdod Lleol yn ymgynghorai ac nad yw’n awdurdod perthnasol sy’n ystyried y cais | | Pob achos | |
| Penderfynu ar wrthwynebiad yr Heddlu i Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro | | Pob achos | |

**ATODIAD E – RHESTR TERMAU**

**Nodwch os gwelwch yn dda y darperir y rhestr dermau hon er mwyn cyfeirio ati fel y bo angen. Ni chawsant eu defnyddio drwy'r Polisi cyfan ac fe'u darperir er arweiniad yn unig.**

**Adolygiad** - Yn dilyn caniatáu **trwydded eiddo** neu **dystysgrif eiddo clwb** gall **awdurdod cyfrifol** neu **unigolyn arall** ofyn i'r awdurdod trwyddedu adolygu'r drwydded neu'r dystysgrif oherwydd mater sy'n codi yn yr eiddo mewn cysylltiad ag unrhyw un o'r pedwar amcan trwyddedu.

**Adolygiad barnwrol -** Yn cynnwys dim ond y rheiny lle hysbysodd yr Uchel Lys bartïon o'i benderfyniad yn y cyfnod amser penodedig.

**Adolygiad Brys/ Cryno -** Gall prif swyddog yr heddlu wneud cais am adolygiad brys/ cryno o **drwydded eiddo** oherwydd troseddau difrifol ac / neu anhrefn difrifol o dan a.53A **Deddf Trwyddedu 2003.**

**Amodau** - mae tri math o amodau

1. **Amodau Arfaethedig** - amodau a gynigir gan yr ymgeisydd yn yr atodlen weithredu

2. **Amodau a osodir** - amodau a osodwyd gan yr awdurdod trwyddedu ar ôl gofyn am ei ddisgresiwn yn dilyn derbyn sylwadau perthnasol.

3. **Amodau Gorfodol** - amodau a ragnodir gan y Ddeddf ac maent yn cael eu cynnwys ym mhob trwydded eiddo neu dystysgrif eiddo clwb pan fo gweithgareddau trwyddedadwy penodol yn cael eu cynnal.

**Amrywiad (i drwydded eiddo)** - Ceisiadau a wneir o dan adran 34 **Deddf Trwyddedu 2003** i newid telerau'r **drwydded eiddo**, er enghraifft yr oriau agor, y gweithgareddau trwyddedadwy neu'r amodau. Mae'r ffi ar gyfer amrywio **DPS** wedi'i rhagnodi yn y Ddeddf.

**Amrywiad (i dystysgrif eiddo clwb)** - Ceisiadau a wneir o dan adran 84 **Deddf Trwyddedu 2003** i newid telerau'r **dystysgrif eiddo clwb**, er enghraifft gweithgareddau trwyddedadwy neu'r amodau.

**Ardal effaith gronnol** – Ardal mae'r **awdurdod trwyddedu** wedi nodi yn eu datganiad polisi trwyddedu fel un sydd â dirlawnder o eiddo trwyddedig a gallai'r 'effaith gronnol' o unrhyw eiddo trwyddedig ychwanegol gael effaith andwyol ar yr amcanion trwyddedu statudol.

**Awdurdod cyfrifol** - cyrff cyhoeddus y mae'n rhaid eu hysbysu am geisiadau **trwydded eiddo** penodol neu **dystysgrif eiddo clwb** ac mae ganddynt hawl i gyflwyno sylwadau i'r awdurdod trwyddedu. Maent yn cynnwys.

- yr awdurdod trwyddedu ac unrhyw awdurdod trwyddedu arall dros yr ardal mae'r eiddo wedi'i leoli,
- prif swyddog yr heddlu sy'n gyfrifol am yr ardal ble y mae'r eiddo wedi'i leoli,
- yr awdurdod tân ac achub ar gyfer unrhyw ardal lle mae'r eiddo wedi'i leoli
- y Bwrdd Iechyd Lleol ar gyfer unrhyw ardal lle mae'r eiddo wedi'i leoli,
- yr awdurdod gorfodi ar gyfer y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y gwaith ac ati 1974 ar gyfer unrhyw ardal lle mae'r eiddo wedi'i leoli,
- yr awdurdod cynllunio lleol ar gyfer unrhyw ardal lle mae'r eiddo wedi'i leoli,
- yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am leihau neu atal y risg o lygru'r amgylchedd neu o niwed i iechyd pobl mewn unrhyw ardal lle mae'r eiddo wedi'i leoli,
- corff sy'n cynrychioli rhai sydd, mewn perthynas ag unrhyw ardal o'r fath, yn gyfrifol am, neu â diddordeb mewn, materion sy'n ymwneud ag amddiffyn plant rhag niwed, ac maent yn gymwys i roi cyngor ar faterion o'r fath,
- mewn perthynas â llong, awdurdod mordwyo sydd â swyddogaethau mewn perthynas â dyfroedd lle mae'r llong wedi ei hangori neu ei docio, neu unrhyw ddyfroedd lle mae, neu y bwriedir iddo, fordwyo ar adeg pan mae'n cael ei ddefnyddio ar gyfer gweithgareddau trwyddedadwy,
- yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am bwysau a mesurau mewn unrhyw ardal lle mae'r eiddo wedi'i leoli.

**Awdurdod trwyddedu** - yr awdurdod trwyddedu sy'n gyfrifol am drwyddedu alcohol, adloniant rheoledig a lluniaeth hwyr y nos.

**Bandiau Ffi** - Wrth benderfynu ar y swm ffi'r drwydded ar gyfer ceisiadau am **drwyddedau eiddo a thystysgrifau eiddo clwb newydd**, ac amrywiadau llawn i drwyddedau neu dystysgrifau, mae pob eiddo yn disgyn i fand yn seiliedig ar ei werth ardrethol annomestig. Ers cyflwyno Deddf 2003 tan 2012/13, mae'r ffioedd ceisiadau sy'n gysylltiedig â phob band am drwydded neu dystysgrif newydd wedi bod fel a ganlyn: Band A (£100); Band B (£190); Band C (£315); Band D [dim **lluosydd**] (£450); Band D trwydded eiddo gyda **lluosydd** (£900); Band E [dim lluosydd] (£635); Band E trwydded eiddo gyda lluosydd (£1905). Mae'r ffioedd blynyddol dilynol sy'n gysylltiedig â phob trwydded neu dystysgrif fel a ganlyn: Band A (£70); Band B (£180); Band C (£295); Band D [dim lluosydd] (£320); Band D trwydded eiddo gyda lluosydd (£640); Band E [dim lluosydd] (£350); Band E trwydded eiddo gyda lluosydd (£1,050).

**Clwb cymwys -** Mae'n rhaid i nifer o feini prawf gael eu bodloni cyn cael ei ystyried yn glwb cymwys am **dystysgrif eiddo clwb**. Sef:

- dan reolau'r clwb, na fydd pobl yn cael eu derbyn am aelodaeth neu gael eu derbyn fel ymgeiswyr ar gyfer aelodaeth, neu i unrhyw un o freintiau aelodaeth heb gyfnod o ddau ddiwrnod o leiaf rhwng eu henwebiad ar gyfer aelodaeth a'u derbyn;
- bod y clwb wedi'i sefydlu a'i gynnal mewn ewyllys da fel clwb;
- bod gan y clwb o leiaf 25 aelod; a
- nad yw alcohol yn cael ei gyflenwi i aelodau yn yr eiddo ac eithrio gan neu ar ran y clwb.

**Darfod (trwydded eiddo)** - Pan mae **trwydded eiddo** wedi dod i ben oherwydd marwolaeth, analluogrwydd, ansolfedd ac ati deiliad y drwydded, fel y nodir o dan adran 27 **Deddf Trwyddedu 2003**. Nid yw'n cynnwys achosion lle'r oedd trwydded eiddo mewn grym am gyfnod cyfyngedig, ond bod y cyfnod wedi dod i ben ers hynny (e.e. digwyddiadau un-tro).

**Darfod (tystysgrif clwb)** – Pan mae **tystysgrif eiddo clwb** wedi dod i ben oherwydd ei fod wedi bod mewn grym am gyfnod cyfyngedig, ond bod y cyfnod wedi dod i ben ers hynny.

**Dirymu (trwydded bersonol)** - Os yw'r deiliad **trwydded bersonol** yn cael ei ddyfarnu'n euog o drosedd yn ystod y cyfnod ymgeisio am y drwydded, gall y drwydded gael ei dirymu o dan a.**124 Deddf Trwyddedu 2003**.

**Fforffedu (trwydded bersonol)** - Atal yn dilyn gorchymyn llys o dan a.129 **Deddf Trwyddedu 2003** penodedig (a lle nad yw'r gorchymyn hwnnw wedi cael ei atal dros dro, hyd nes apêl o dan a.129(4) neu 130 o'r Ddeddf).

**Gorchymyn ardoll hwyr y nos** - Pŵer dewisol i **awdurdodau trwyddedu** o dan adran 125 Deddf **Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011**. Mae'r ardoll hwyr y nos yn cael ei dalu gan yr eiddo trwyddedig hynny i werthu alcohol yn hwyr yn y nos i godi cyfraniad tuag at gostau plismona'r economi hwyr y nos.

**Gorchymyn cyfyngu alcohol yn gynnar yn y bore** - Pŵer o dan adran 119 **Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011** i wahardd gwerthu alcohol am gyfnod penodol o amser rhwng yr oriau o 12am a 6am, os ystyrir yn briodol ar gyfer hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.

**Goruchwyliwr Eiddo Dynodedig (DPS)** – Fel arfer, hwn fydd yr unigolyn sydd wedi cael y cyfrifoldeb am redeg yr eiddo o ddydd i ddydd gan y deiliad **trwydded eiddo**. Mae'n ofynnol i bob trwydded eiddo sy'n awdurdodi gwerthu alcohol o dan Ddeddf 2003 i nodi DPS. Rhaid i'r DPS fod yn ddeiliad **trwydded bersonol**. Yr unig eithriad yw ar gyfer eiddo cymunedol sydd wedi gwneud cais llwyddiannus i'r ALl i gael eu heithrio o'r gofyniad.

**Gwerthu Alcohol i'w yfed ar yr eiddo** - Gwerthu alcohol trwy fanwerthu a'i gyflenwi (gan glybiau) i'w yfed ar yr eiddo.

**Gwerthu Alcohol i'w yfed oddi ar yr eiddo** – Gwerthu alcohol trwy fanwerthu i'w yfed oddi ar yr eiddo

**Gwrandawiad** - A ddefnyddir yng nghyd-destun ceisiadau am **drwydded eiddo** neu **dystysgrif eiddo clwb** sy'n mynd i wrandawiad ar gyfer penderfynu ar geisiadau am drwydded eiddo, ar gyfer datganiadau dros dro, i amrywio trwydded eiddo, am dystysgrifau eiddo clwb, ac i amrywio tystysgrifau eiddo clwb.

**Hysbysiad o ddigwyddiad dros dro (TEN)** - Hysbysiad o dan adran 100 **Deddf Trwyddedu 2003**, a ddefnyddir i awdurdodi gweithgareddau trwyddedadwy ar raddfa fach yn gymharol, yn amodol ar feini prawf a'r terfynau penodol. Mae'n cynnwys yn unig hysbysiadau sydd wedi cael eu rhoi yn gywir ac yn briodol yn y cyfnod amser penodol h.y. mae'n eithrio hysbysiadau a gafodd eu hanfon yn ôl oherwydd camgymeriadau ar y ffurflen. Mae hyn hefyd yn cynnwys hysbysiadau a gafodd eu tynnu'n ôl ar ôl hynny. Mae'r ffi ar gyfer TEN wedi'i ragnodi yn y Ddeddf.

**Ildio (trwydded)** - Os yw'r deiliad trwydded yn dymuno ei hildio, mae'n cael ei wneud yn unol â darpariaethau o dan adran 28 (am **drwydded eiddo**), adran 81 (am **dystysgrif clwb**) ac adran 116 (ar gyfer **trwydded bersonol**).

**Lluniaeth gyda'r hwyr** - Darparu bwyd poeth neu ddiod i'r cyhoedd, i'w yfed ar neu oddi ar yr eiddo, rhwng 11pm a 5am neu gyflenwi bwyd poeth neu ddiod boeth i unrhyw un rhwng yr oriau hynny ar neu o eiddo lle mae mynediad i'r cyhoedd.

**Lluosydd** – Caiff lluosyddion eu defnyddio mewn perthynas ag eiddo a ddefnyddir yn unig neu'n bennaf ar gyfer cyflenwi alcohol i'w yfed yn yr eiddo o dan awdurdodiad **trwydded eiddo** (**bandiau ffioedd** D ac E yn unig).

**Mân amrywiad (i drwyddedu neu dystysgrif)** - Ceisiadau a wneir o dan a.41A neu a.86A **Deddf Trwyddedu 2003** i wneud newidiadau risg isel i delerau **trwydded eiddo** neu **dystysgrif eiddo clwb**. Mae'r ffi ar gyfer mân amrywiad wedi'i ragnodi yn y Ddeddf.

**Personau Awdurdodedig** - personau awdurdodedig yw cyrff â grym i wneud gwaith arolygu a gorfodi o dan Ddeddf Trwyddedu 2003.

**Personau eraill** - Unrhyw unigolyn, corff neu fusnes sy'n debygol o gael eu heffeithio gan ganiatáu ceisiadau am **drwydded eiddo** neu **dystysgrif eiddo clwb**. Gall unigolion eraill gyflwyno sylwadau perthnasol i'r awdurdod trwyddedu perthnasol, a gallant ofyn am adolygiad o'r drwydded eiddo neu dystysgrif eiddo clwb.

**Sylwadau perthnasol** - Sylwadau sydd am effaith debygol caniatáu ceisiadau am **drwydded eiddo** neu **dystysgrif eiddo clwb** ar hyrwyddo'r amcanion trwyddedu, sy'n cael eu gwneud gan awdurdod cyfrifol neu unigolyn arall o fewn y cyfnod a ragnodir o dan adran 17(5)(c) o'r Ddeddf, sydd heb gael eu tynnu'n ôl, ac yn achos y sylwadau a wnaed gan bobl eraill, nad ydynt, ym marn yr awdurdod trwyddedu perthnasol yn wacsaw neu'n flinderus.

**Trwydded bersonol** – Yn awdurdodi unigolyn i gyflenwi neu awdurdodi cyflenwi alcohol yn unol â **thrwydded eiddo** o dan **Ddeddf Trwyddedu 2003**. Mae ffi'r cais am drwydded bersonol yn cael ei rhagnodi yn y Ddeddf.

**Trwydded Safle** - Awdurdodi eiddo i gael ei ddefnyddio ar gyfer gwerthu neu gyflenwi alcohol, darparu adloniant rheoledig neu ddarparu **lluniaeth hwyr y nos**, dan **Ddeddf Trwyddedu 2003**. Mae hyn yn cynnwys trwyddedau eiddo â therfyn amser. Mae ffi trwydded eiddo yn seiliedig ar ei werth ardrethol annomestig. Mae ffioedd cais yn amrywio o £100 (Band A) i £1,905 (Band E gyda lluosydd); mae ffioedd blynyddol yn amrywio o £70 i £1,050.

**Tystysgrif eiddo clwb –** Yn awdurdodi **clwb cymwys** i gynnal 'gweithgareddau clwb cymwys' o dan Ddeddf Trwyddedu 2003. Mae hyn yn cynnwys tystysgrifau â chyfyngiad amser.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **22.3.2021** |
| **Pwnc:** | **Cynlluniau Cyflawni a Chomisiynu Grant Cymorth Tai 2021/22** |
| **Deilydd (Deiliaid) Portffolio:** | **Y Cynghorydd Alun Mummery** |
| **Pennaeth Gwasanaeth/ Cyfarwyddwr:** | **Ned Michael** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **R.Arwel Jones**<br>**(01248) 752064**<br>**RArwel.Jones@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | |

**A –Argymhelliad /Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

1. Cymeradwyo argymhellion Cynlluniau Cyflawni a Chomisiynu Grant Cymorth Tai Cyngor Sir Ynys Môn ar gyfer 2021-22, a thrwy hynny, sicrhau y byddir yn cydymffurfio â Thelerau ac Amodau'r Grant; a

2. Rhoi sel bendith parthed y cyllid a ddyrennir i bob maes Gwasanaeth, fel yr amlinellwyd yn y Cynllun Comisiynu Cefnogi Pobl, ac a gymeradwywyd yn flaenorol gan y Grŵp Cynllunio Cymorth Tai amlasiantaethol.

**1.0 Rhesymau**

1.1 Fframwaith polisi a menter gyllido gan Llywodraeth Cymru yw'r Grant Cymorth Tai, sef cyfuniad o dri grant oedd ar un adeg yn dri grant gwahanol: Rhaglen Cefnogi Pobl, Grant Atal Digartrefedd a Gorfodi Rhentu Doeth Cymru.

1.2 Daeth i fodolaeth ym mis Ebrill 2019 yn dilyn hyblygrwydd cyllido prosiect braenaru Llywodraeth Cymru. Gwnaed penderfyniad Gweinidogol ym mis Hydref 2018 i greu dau grant o'r gwaith grant Ymyrraeth Gynnar, ac Atal a Chynhaliaeth, gan wahanu'r grantiau cysylltiedig â thai oddi wrth elfennau nad oeddynt yn ymwneud â thai ar gyfer pob awdurdod lleol. O ganlyniad i hyn, o Ebrill 2019, sefydlodd Llywodraeth Cymru Grant Plant a Chymunedau (oedd yn cynnwys Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf, y Gronfa Waddol, Hyrwyddo Ymgysylltiad Cadarnhaol i Bobl Ifanc, Cronfa Dydd Gŵyl Dewi, Cymunedau am Waith a Mwy a Gofal Plant a Chwarae ), ac un Grant Cymorth Tai (yn cynnwys Cefnogi Pobl, Atal Digartrefedd a Gorfodi Rhentu Doeth Cymru).

1.3 Rhaglen grant ymyrraeth gynnar yw Grant Cymorth Tai i gefnogi gweithgaredd, sy'n atal pobl rhag bod yn ddigartref, yn sefydlogi eu sefyllfa dai, neu'n helpu pobl a allai fod yn ddigartref i ddod o hyd i lety a'i gadw. Nid yw'r Grant Cymorth Tai yn ariannu'r ddyletswydd statudol sydd ar awdurdodau lleol i atal digartrefedd. Mae gwasanaethau a ariennir gan y Grant Cymorth Tai, yn hytrach, yn ymestyn y gwasanaeth statudol, yn

ei ategu ac yn ei gynorthwyo i sicrhau bod y cynnig cyffredinol a roddir gan awdurdodau yn helpu pobl i gael y cartrefi cywir gyda'r cymorth cywir i lwyddo. Mae'n cynorthwyo pobl fregus i roi sylw i'r problemau sy'n eu hwynebu, ac sydd weithiau'n niferus, megis dyled, cyflogaeth, rheoli tenantiaeth, camddefnyddio sylweddau, trais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a phroblemau iechyd meddwl. Mae’r cymorth yn canolbwyntio ar yr unigolyn, gyda'r nod o gynorthwyo pobl i sicrhau a chynnal tai cynaliadwy trwy roi sylw i'r problemau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau neu broblemau eraill sy'n eu hwynebu, helpu i wella eu hiechyd a'u lles a / neu eu helpu i symud ymlaen i swydd neu hyfforddiant neu i gael yn nes atynt, yn seiliedig ar eu hamgylchiadau penodol.

1.4 Mae'r rhaglen grant yn cyfrannu’n sylweddol at weithredu Rhan 2 Deddf Tai (Cymru) 2014, sy'n canolbwyntio ar atal digartrefedd. Mae hefyd yn lleihau neu'n atal yr angen am ymyraethau, sydd yn aml yn fwy costus, gan wasanaethau cyhoeddus eraill gan gynnwys y GIG a / neu ofal cymdeithasol i unigolion a theuluoedd ac, mewn rhai achosion, i bobl sy'n dod dan y system cyfiawnder troseddol.

1.5 Mewn llythyr a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2020, dywedwyd y byddai Dyraniad Dangosol Ynys Môn ar gyfer 2021/2022 yn cynyddu £856,722.50 o Ebrill 2021 ymlaen. Dyma'r cynnydd cyntaf yn y grant ers pum mlynedd, gyda'r dyfarniad dangosol newydd wedi'i osod ar £3,571,720.50. Yn y gorffennol, gosodwyd y dyraniad ar £2,714,998 gyda £2,643,866 ohono’n cael ei ddyrannu i'r elfen Cefnogi Pobl, £64,923 ar gyfer Atal Digartrefedd (anstatudol) a £6,209 at ddibenion gorfodi Rhentu Doeth Cymru.

**2.0 Cefndir**

2.1 Beth mae Darpariaeth Cymorth Tai yn ei gynnwys?

2.2 Ymhlith y mathau cyffredin o ddarpariaethau Cymorth sy'n gysylltiedig â Thai mae:

- Cynorthwyo rhywun sy'n ddigartref neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref i ddod o hyd i rywle i fyw, cyn pen 56 diwrnod ar ôl iddynt gyflwyno mewn sefyllfa o'r fath.
- Darparu pecyn cymorth fel bod modd i'r unigolyn bregus gynnal tenantiaeth a lliniaru'r risg y bydd y denantiaeth yn chwalu a / neu y caiff yr unigolyn ei droi allan o'r tŷ.
- Rhoi cymorth gydag ôl-ddyledion rhent, rheoli dyled a sgiliau cyllidebu
- Cynorthwyo'r defnyddiwr gwasanaeth i hawlio budd-daliadau lles a helpu a galluogi'r unigolyn i barhau i dderbyn y budd-daliadau y mae'n gymwys i'w derbyn ac ymdrin â'r asiantaethau perthnasol.
- Cynorthwyo defnyddwyr gwasanaeth i gadw eu llety'n ddiogel, e.e. esbonio sut i gloi eu heiddo a rheoli mynediad priodol.
- Annog y defnyddiwr gwasanaeth i gadw unrhyw apwyntiadau sy'n berthnasol i wella ei allu i reoli ei lety ei hun.

- Annog ac ysgogi'r defnyddiwr gwasanaeth i ddatblygu sgiliau cymdeithasol a magu'r hyder sy'n angenrheidiol i deimlo'n rhan o'r gymuned ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau o ddiddordeb.
- Hybu, annog ac ysgogi defnyddwyr gwasanaeth i ddatblygu'r sgiliau bywyd sy'n angenrheidiol, megis coginio, glanhau a golchi dillad.
- Rhoi'r cymorth angenrheidiol fel bod defnyddwyr gwasanaeth yn cael cyfleoedd addysg, hyfforddiant a / neu gyflogaeth briodol.
- Rhoi cyngor ar gyfleoedd symud ymlaen neu gyfleoedd ar gyfer tai parhaol.
- Creu cyswllt â landlordiaid i ddod o hyd i lety addas a fforddiadwy a, hefyd, ddarparu cyfryngu a chymhellion priodol i atal digartrefedd diangen lle cyfyd anghydfodau.

2.3 Ymhlith gofynion y Grant Cymorth Tai mae'r angen i baratoi Cynlluniau Cyflawni a Chomisiynu i hysbysu Llywodraeth Cymru a'r holl bartneriaid a'r rhanddeiliaid o'n bwriadau a'n blaenoriaethau comisiynu.

2.4 Mae'r Cynlluniau Cyflawni a Chomisiynu sydd ynghlwm yn amlinellu ein bwriadau, o ran sut y bwriadwn ddefnyddio'r Cyllid Cymorth Tai, o Ebrill 2021.Yn unol â nodau ac amcanion y rhaglen, byddwn yn gweithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid allweddol ar draws sectorau i atal digartrefedd ble bynnag y bo modd ac yn grymuso unigolion a theuluoedd bregus i gaffael neu adennill y sgiliau byw bob dydd, angenrheidiol er mwyn iddynt reoli eu llety ar draws pob deiliadaeth. Wrth wneud hynny, byddwn yn cyfrannu'n sylweddol i ddau o dri nod Craidd y cyngor. Y rhain yw:

- creu'r amodau i bawb gyflawni eu potensial tymor hir
- cynorthwyo oedolion a theuluoedd bregus a'u cadw mor ddiogel, iach ac annibynnol â phosibl

2.5 Mae cyflwyno'r Grant Cymorth Tai yn llwyddiannus a sicrhau ei fod yn gyson â'i chwaer raglen, y Grant Plant a Chymunedau, hefyd, yn rhan annatod o Strategaeth Atal ac Ymyrraeth Gynnar y Cyngor.

2.6 Yn ystod y 18 mis i ddwy flynedd diwethaf, o ddadansoddi data a thrafod gyda darparwyr a rhanddeiliaid eraill, gwelsom y bu newid yn nifer y cyfeiriadau ac, yn fwy na hynny, yn nifer yr achosion cymhleth y mae angen cymorth ac ymyriadau wedi'u targedu ar eu cyfer.

2.7 Yn ystod y cyfnod hwn, rydym wedi gweld gogwydd ar draws pob grŵp oedran, (o 16+ i 55+), lle'r oedd mwyafrif yr achosion, yn flaenorol yn anghenion isel i ganolig, i rai lle mae'r anghenion bellach yn ganolig i uchel. Roedd llawer o'r unigolion yn cyflwyno neu'n ailgyflwyno gyda dau neu fwy o anghenion heriol, megis problemau iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau a cham-drin domestig. Mae'r pandemig Covid-19 wedi gwaethygu'r sefyllfa, gyda llawer o aelwydydd yn gweld colli incwm, profi unigedd, problemau iechyd meddwl, cam-drin domestig cudd, camddefnyddio mwy o sylweddau a ffactorau eraill sy'n cael effaith ar les corfforol a meddyliol. Yn anffodus,

mae gan bob un o'r uchod gydberthynas gref â'r risg o gynyddu tlodi, dyled, anghenion iechyd, ymddygiad gwrthgymdeithasol gan droi at weithgaredd troseddol ac arwain, o bosibl, at deulu'n cael ei droi allan o'r tŷ.

2.8 Fel rhan o'n Strategaeth Ataliol ac Ymyrraeth Gynnar Gorfforaethol, rydym wedi mabwysiadu model Hierarchaeth Angen Maslow i wahaniaethu rhwng y gwahanol lefelau o ymyraethau ac anghenion. Mae'r ddarpariaeth gwasanaeth ar ei huchaf ar lefel gyffredinol yr angen ar waelod y triongl, yna daw atal ac ymyrraeth gynnar, cyn cyrraedd y brig, lle mae ymyraethau'n tueddu i fod yn statudol, gyda'r niferoedd sy'n derbyn gwasanaethau, yn is na'r haenau eraill ond â chostau sy'n uwch. O ystyried y newid y manylir arno uchod mewn anghenion arbenigol ac yn ffordd o fyw cymhleth ac, yn aml,  anhrefnus y rhai y mae angen ymyraethau cymorth tai arnynt, ystyrir mwyafrif y gwasanaethau a ddarperir trwy'r rhaglen hon bellach yn rhai sydd wedi'u targedu. Maent ychydig yn is na lefel statudol yr ymyrraeth.

2.9 Bellach bydd achosion a nodwyd ag anghenion is, megis y rhai y mae angen cymorth arnynt i gael at weithgareddau cymunedol neu i ymgysylltu â materion rhagnodi cymdeithasol, yn cael eu cyfeirio at ein partneriaid yn Linc Cymunedol Mộn, sydd wedi'u gosod  yn yr haen anghenion isaf ond un. Dengys y diagram a ganlyn sut y bwriadwn nodi gwahanol lefelau a mathau y wybodaeth sydd ar gael.




2.10 Trwy nodi anghenion, rhoi'r wybodaeth, y cyngor a'r cymorth cywir ac amserol, y gobaith yw na fydd angen cymaint o'r ymyrraeth statudol fwyaf costus ac y byddir yn lleihau lefelau dibyniaeth.

**3.0  Y Ddarpariaeth gyfredol**

3.1  Ar hyn o bryd, defnyddir y Grant Cymorth Tai i gomisiynu llu o ddarparwyr arbenigol, dynodedig o fewn meysydd penodol i gyflwyno ystod o ymyraethau. O fonitro cyfeiriadau'n wythnosol ers Ebrill 2020,  dangoswyd y bu rhwng 690 ar ei isaf a 730 ar ei uchaf, o achosion yr wythnos i ddarparwyr. Yn ogystal, bu achlysuron pan fu'n

anodd sefydlu cyswllt ag unigolion anhrefnus, neu gwrthodwyd derbyn cymorth, er bod y cyfeiriad wedi'i gyflwyno ar eu rhan, yn amlach na pheidio, gan asiantaethau proffesiynol / statudol. Ar hyn o bryd, mae ein hunedau a gomisiynir, yr wythnos, yn is na'r galw am gefnogaeth. Dengys dadansoddiad wythnosol bod y niferoedd sy'n aros am gyswllt neu a roddir ar restrau aros yn amrywio rhwng 45 a 90 uned a rhagwelir y bydd y nifer y mae angen cymorth arnynt a'r rhai sydd mewn perygl o gael eu troi allan o eiddo ar rent neu sy'n methu talu taliadau morgais yn debygol o gynyddu eto. Mae disgwyl hefyd, y bydd cynnydd mewn cam-drin domestig, problemau iechyd meddwl a digartrefedd ymhlith pobl ifanc unwaith y codir y cyfyngiadau symud. Bryd hynny, bydd effaith economaidd-gymdeithasol ehangach y pandemig yn dod yn fwy gweladwy.

**4.0 Defnyddio Arian Ychwanegol**

4.1 Bu croeso ar draws y sector i'r cynnydd sylweddol o £856,722.50 mewn cyllid, sy'n cyfateb i 31.6%. Fodd bynnag, mae'n cyflwyno ei heriau ei hun i sicrhau y gwireddir y fantais fwyaf, yn enwedig gan y bydd angen recriwtio staff tra bo'r galw yn parhau i fod yn uwch nag y gwelwyd ei debyg o'r blaen.

4.2 Wrth ddefnyddio'r cyllid ychwanegol o Ebrill 2021/22 rydym yn bwriadu:

- Parhau i gomisiynu'r gwaith cyfredol o gyflwyno, monitro ac adolygu'r holl ddarpariaeth cymorth tai dan gontract, fel y nodwyd yn ein Cynllun Comisiynu 2020/20 (gweler 2.2 isod): yn ogystal â
- Cryfhau gweithlu'r Grant Cymorth Tai yn sylweddol gyda gweithwyr cymorth ychwanegol ar draws ein cyflenwad o ddarparwyr. Yma, byddwn yn prif ffrydio'r pum gweithiwr cymorth tai ar ôl derbyn Rhaglen Cam 2 Llywodraeth Cymru yn 2020, i liniaru effaith Covid-19. At hynny, rydym wedi nodi bod angen penodi wyth gweithiwr cymorth ychwanegol erbyn 1 Ebrill 2021. O ganlyniad i hyn, rydym yn gobeithio cael penodi 13 o weithwyr cymorth ychwanegol, o gymharu â chyn y pandemig Covid-19, gyda phob un ar gyfartaledd â 15 llwyth achos yn y meysydd a ganlyn.
    - Generig Mewnol x 3
    - Tai'n Gyntaf (55-54 mlwydd oed) x 2
    - Cam-drin Domestig x 2
    - Teuluoedd Bregus x 2
    - Cam-drin Sylweddau x1
    - Pobl Hŷn x 1 (pwyslais ar Iechyd Meddwl)
    - Iechyd Meddwl Oedolion x 1
    - Pobl Ifanc Fregus x1

- Rhoi cynnydd o 3%, yn unol â chwyddiant, i'r holl ddarparwyr cymorth o Ebrill 2021. Dylid nodi nad oes unrhyw ddarparwr wedi gweld cynnydd yn ystod y pum mlynedd diwethaf, oni bai y rhoddwyd y gwasanaeth i gael ei aildendro. O ganlyniad i'r dyraniad blynyddol disymud, nid yw'n afresymol tybio bod rhai gwasanaethau, yn wir, yn rhedeg ar golled tuag at ddiwedd eu cytundeb dan gontract. Mae pob un o'n cytundebau dan gontract yn tueddu i fod am dair blynedd, gydag opsiwn i ymestyn am dair blynedd arall yn flynyddol. Y gobaith yw y bydd ein darparwyr yn defnyddio'r cyllid ychwanegol hwn i godi cyflogau gweithwyr cymorth, yn rhan o ymgyrch i fuddsoddi yn y gweithlu i wella lefelau cadw staff a bod yn gymhelliant i'w wneud yn haws recriwtio.
- Cyfuno ein prosiect Porth Pwynt Mynediad Sengl gyda chymorth ychwanegol i'r cydlynydd cyfredol, er mwyn sicrhau y caiff cyfeiriadau eu cyfeirio'n amserol a bod data a deallusrwydd gwybodus, yn ôl angen a galw, yn cael eu dadansoddi a'u hadrodd yn rheolaidd i lywio'r prosesau comisiynu.
- Cyfrannu at ddarparu allgymorth cydweithredol mewn partneriaeth â'r Bwrdd Cynllunio Ardal i gefnogi achosion cymhleth a heriol, mewn meysydd sy'n gyffredinol gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau a phobl sy'n gadael carchardai, gyda'r pwyslais ar leihau niwed.
- Datblygu Hwb Ail-gartrefu Brys
- Buddsoddi mewn rhaglen hyfforddi a chymorth therapiwtig i staff a rheolwyr a ariennir gan y Grant Cymorth Tai, iddynt allu cyflawni eu rôl yn effeithiol. Bydd hyn yn cynnwys Dulliau sy’n Ystyriol o Gyflwr Seicolegol.
- Darparu Taliadau a chymhellion dewisol i hwyluso pwrpas y grant, h.y. cost unwaith ac am byth wedi'i gynllunio i'w gwneud hi'n haws i unigolyn fyw yn ei gartref ei hun fel nad oes angen ymyrraeth ddigartref statudol.
- Cryfhau gwaith Rheoli Prosiectau a / neu Adnoddau Cynllunio Strategol yn yr Awdurdod Lleol, yn ystod 2021/22 i sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o'r cyllid cymorth tai ychwanegol yn ystod y cyfnod trosglwyddo.
- Parhau i ariannu swyddi Swyddog Cyswllt Rhent y Sector Preifat Cymorth i ymgysylltu â landlordiaid a thenantiaid, a thrwy hynny, hyrwyddo ethos ailgartrefu cyflym a hwyluso llety addas, fforddiadwy a sefydlog i'r rhai sy’n cyflwyno’n ddigartref.
- Cyfrannu at brosiectau rhanbarthol a nodwyd gan Grant Cydweithredol Cymorth Tai Rhanbarthol Gogledd Cymru ac y bu iddo gytuno iddynt. Y prosiectau a nodwyd ar hyn o bryd yw:
    - Llety gwasgaredig neu â chymorth i aelodau o'r Gymuned LGBTQ+
    - Lloches neu lety gwasgaredig ar gyfer dynion sy'n dioddef cam-drin domestig
    - Ymchwil i effeithiolrwydd a manteision Dull Amgylchedd sy’n Ystyriol o

| |
|---|
| Gyflwr Seicolegol<br>➢ Gwasanaeth Cymorth Celcio<br>➢ Gwasanaeth Cam-drin Domestig Annibynnol (Cynghorydd Annibynnol ar Gam-drin Domestig)<br>4.3 Mae gan holl Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru ymrwymiad ariannol sefydlog yn ei le, lle trosglwyddir cyfraniad o 0.5% o ddyfarniad Blynyddol y Gronfa Cymorth Tai i gronfa ranbarthol, i ystyried yr angen am wasanaethau, fel y nodwyd uchod. Yn unol â'r cytundeb hwn, bydd yn ofynnol i Ynys Môn gyfrannu £17,858. Mewn cymhariaeth, bydd pob Awdurdod Lleol arall yng Ngogledd Cymru yn cyfrannu o leiaf ddwywaith y swm hwn, gyda'r cyfraniad uchaf yn £43,225.47.<br>4.4 Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae 99.3% wedi'i ymrwymo ar gyfer gwariant, gyda balans o £19,775.21 yn parhau heb ei ymrwymo a gellir ei ddefnyddio ar gyfer unrhyw un o dair elfen y Grant Cymorth Tai a restrir uchod. Yn yr un modd, gellir defnyddio'n hyblyg unrhyw lithriad a geir oherwydd problemau gyda recriwtio neu unrhyw ffactor arall a nodwyd. |
| |

| **B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Ddim yn berthnasol - Mae cyflwyno dogfennau yn amod o dderbyn y grant |

| **C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Mae telerau ac amodau'r grant yn nodi bod yn rhaid cymeradwyo Cynlluniau Comisiynu a Chyflenwi cyn eu cyflwyno. |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson a'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydi |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Nac ydi - mae Grant Cymorth Tai yn ffynhonnell cyllid ychwanegol i Grant Cynnal Refeniw y Cyngor. Grŵp Cynllunio Cymorth Tai Ynys Môn, sy'n cynnwys Uwch-reolwyr o'r Gwasanaethau Tai, Gwasanaethau Plant ac Oedolion, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Gwasanaeth Prawf Cymru sy'n gyfrifol am ddyraniadau cyllidebol |

| DD – Effaith ar Genedlaethau’r Dyfodol (os yw’n berthnasol) | | |
|---|---|---|
| **1** | **Sut mae’r penderfyniad yma’n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys** | Ar hyn o bryd mae gwaith cyflenwi cymorth tai yn rhoi amryw o gyfleoedd cyflogaeth i bron i 200 o bobl. Bydd y buddsoddiad ychwanegol yn cryfhau gallu darparwyr a gomisiynir i ddatblygu, cadw a recriwtio staff yn y tymor canolig. Mae'r sector yn darparu ystod o rolau gan gynnwys darpariaeth, cyfleoedd gweinyddol a rheolaethol, a chymorth uniongyrchol. Nid yw'r Grant Cymorth Tai yn ariannu'r ddyletswydd statudol sydd ar awdurdodau lleol i atal digartrefedd. Mae gwasanaethau a ariennir gan y Grant Cymorth Tai, yn hytrach, yn ymestyn y gwasanaeth statudol, yn ei ategu ac yn ei gynorthwyo i sicrhau bod y cynnig cyffredinol a roddir gan awdurdodau yn helpu pobl i gael y cartrefi cywir gyda'r cymorth cywir i lwyddo. Mae'n cynorthwyo pobl fregus i roi sylw i'r problemau sy'n eu hwynebu, ac sydd weithiau'n niferus, megis dyled, cyflogaeth, rheoli tenantiaeth, camddefnyddio sylweddau, trais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a phroblemau iechyd meddwl. Mae’r cymorth yn canolbwyntio ar yr unigolyn, gyda'r nod o gynorthwyo pobl i sicrhau a chynnal tai cynaliadwy, trwy roi sylw i'r problemau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau neu broblemau eraill sy'n eu hwynebu, helpu i wella eu hiechyd a'u lles a/neu eu helpu i symud ymlaen i swydd neu hyfforddiant neu i gael yn nes atynt, yn seiliedig ar eu hamgylchiadau penodol. |
| **2** | **A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir a fydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i’r dyfodol. Os felly, sut:-** | Ydy - Mae Cymorth Tai yn ffynhonnell gyllid ataliol/ymyrraeth gynnar sy'n atal yr angen am ymyrraeth statudol, yn bennaf o fewn Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion. |
| **3** | **A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy-** | Mae gweithio ar y cyd yn rhan annatod o fframwaith y Grant Cymorth Tai. Yn gomisiynwyr, rydym yn gweithio gyda phob un o'r 11 Darparwr Gwasanaeth yn |

| | | |
|---|---|---|
| | | rheolaidd o ran monitro, adolygu ac ymgysylltu'n rheolaidd. At hyn, mae llywodraethu'r rhaglen yn golygu asiantaethau statudol eraill, megis partneriaid Iechyd a'r Gwasanaeth Prawf, yn cyfrannu at benderfyniadau comisiynu allweddol |
| **4** | **A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae'u rhan yn drafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:-** | Ydynt. Mae dinasyddion Ynys Môn, ddoe a heddiw, sy'n derbyn cymorth a mathau eraill o ymyrraeth yn cael, ac wedi cael, cyfle parhaus i roi eu barn ar ddarparu gwasanaeth, ansawdd gwasanaeth ac ar y meysydd i'w gwella trwy droi at yr holiadur Ar-lein 'Eich Gwasanaeth - Cael Dweud eich Dweud', sy'n llywio'r broses gomisiynu. Ar ben hynny, ymgynghorir â chanran o ddefnyddwyr gwasanaeth yn rhan o'r prosesau monitro ac adolygu. Gallant hefyd ddefnyddio'r broses Gwyno a Chanmol Gorfforaethol. |
| **5** | **Nodwch yr effeithiau mae'r penderfyniad hwn yn ei gael ar yr agenda cydraddoldeb ac iaith Gymraeg** | Mae pob dinesydd, y mae angen cymorth neu wasanaethau atal digartrefedd arnynt, yn cael eu trin yn gyfartal ac yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae disgwyl i bob darparwr gydymffurfio'n llawn â Safonau'r Gymraeg a Mesur y Gymraeg 2011, a chânt eu monitro i ganfod a ydynt yn cydymffurfio. Gall pob darparwr a gomisiynir roi cymorth ac ymyrraeth trwy gyfrwng y Gymraeg.<br>Cynhelir Asesiad llawn o'r Effaith ar Gydraddoldeb cyn Ebrill 2021 |

| **E – Gyda phwy yr ymgynghoroch?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch-dîm Rheoli (UDRh)**<br>(gorfodol) | Argymhellion wedi derbyn sêl bendith |
| **2** | **Cyllid / Swyddog 151**<br>(gorfodol) | Yn bresennol yn yr UDA ac wedi awdurdodi'r Templed Cynllun Gwariant sydd wedi ei anfon mewn drafft at Llywodraeth Cymru |
| **3** | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro**<br>(gorfodol) | Presennol yn yr UDA |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | Dim effaith ar gyllideb y Cyngor/ |
| **5** | **Eiddo** | Ddim yn berthnasol |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth (TG)** | Ddim yn berthnasol |
| **7** | **Caffael** | Ddim yn berthansol |

| | | |
|---|---|---|
| **8** | **Sgriwtini** | Ddim yn berthansol |
| **9** | **Aelodau Lleol** | Ddim yn berthansol |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| |

| **FF – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth):** |
|---|
| **Cynllun Cyflawni  Grant Cymorth Tai 2021/2022**<br>**Cynllun Comisiynu Grant Cymorth Tai 2021/22**<br>**Templed Cynllun Gwariant Grant Cymorth Tai 2021/22** |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Gwaith |
| **Dyddiad:** | 22 Mawrth 2021 |
| **Pwnc / Testun:** | Diweddariad o'r Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol |
| **Aelod Portffolio:** | Y Cynghorydd Llinos Medi |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Fôn Roberts, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd<br>Barbara Williams, Pennaeth Dros Dro ar y Gwasanaethau Oedolion |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Ffôn:**<br>**E-bost:** | Emma Edwards<br>Dirprwy Reolwr Busnes, Gwasanaethau Oedolion<br>01248 751887<br>Emmaedwards@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | Yn berthnasol i bob Aelod. |

**A –Argymhelliad a rhesymau**

**ARGYMHELLIAD**

- **Cadarnhau bod y Pwyllgor Gwaith yn fodlon â chyflymder y cynnydd a'r gwelliannau a wnaed hyd yma yn y Gwasanaethau Oedolion a'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.**

Nod yr adroddiad hwn yw rhoi gwybodaeth i aelodau'r Pwyllgor Gwaith am y cynnydd ers cyfarfod diwethaf y Cyd-banel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol a gynhaliwyd ar 22 Medi 2020.

Er bod ein gwaith yn cael ei flaenoriaethu ar sail gofynion statudol, rydym hefyd yn sicrhau bod ein hymdrechion yn gyson â'r blaenoriaethau corfforaethol fel y'u rhestrir yng Nghynllun y Cyngor. Yr amcanion perthnasol ar gyfer ein gwasanaethau yw:

Amcan 2: Cefnogi oedolion a theuluoedd sy'n agored i niwed i'w cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosibl

**Cefndir**

Rydym yn falch o allu adrodd, yn ystod y chwe mis diwethaf, er gwaethaf yr heriau dyddiol o ganlyniad i Covid-19 a bod Cymru yn y trydydd cyfnod clo cenedlaethol (ers 19 Rhagfyr 2020) a'r galw digynsail ar ein holl staff, ein bod wedi llwyddo i barhau â'n dyletswyddau statudol ynghyd â phrosiectau datblygu ac arloesi ar draws y ddau Wasanaeth. Fel Cyngor, rydym yn falch iawn o'n holl staff.

**Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol**

Yn ystod y chwe mis diwethaf, er gwaethaf Covid-19, mae'r Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol wedi parhau i gyfarfod yn rheolaidd wrth i gyfarfodydd gael eu cynnal ym mis Medi, Hydref, Rhagfyr, Ionawr a Chwefror ac mae cyfarfodydd yn y dyddiadur ar gyfer y misoedd i ddod hefyd. Mae'r panel yn parhau i dderbyn tystiolaeth am ddatblygiadau ar draws y ddau Wasanaeth gan gynnig haen arall o sicrwydd ar y cynnydd sydd wedi'i wneud.

**Sefyllfa Ariannol 2020-21**

Rydym yn hynod o falch o allu cadarnhau bod y Gwasanaethau Cymdeithasol yn gweithio o fewn ei gyllideb a bod y Gwasanaethau Plant ac Oedolion ar y llwybr cywir i allu gorffen y flwyddyn ariannol yn y sefyllfa hon. Mae hyn wedi'i gyflawni drwy fwy o incwm drwy'r gronfa galedi ac hefyd drwy ddatblygu prosiectau newydd, defnyddio'r gronfa ICF er mwyn lleihau costau ymhellach tra hefyd yn cynnig gwell gwasanaethau – mae enghraifft o hyn yn cynnwys cefnogi plant i fyw adref.

1. **Yr Wybodaeth Ddiweddaraf am y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd:**

   a) **Cardiau Adnabod Gofalwyr Ifanc**

Ym mis Medi 2020 fel rhan o fenter genedlaethol Llywodraeth Cymru i gyflwyno cerdyn adnabod ar gyfer gofalwyr ifanc ledled Cymru, dechreuwyd gweithio mewn Partneriaeth â Gwynedd a Gweithredu dros Blant i ddatblygu cerdyn adnabod ar gyfer gofalwyr ifanc.

Y consensws oedd y byddai'n well gan ofalwyr ifanc, yn ôl yr adborth uniongyrchol, gael cerdyn adnabod digidol.

Ym mis Hydref 2020, cysylltwyd â'r Ymddiriedolaeth Gofalwyr a Llywodraeth Cymru i ofyn iddynt ystyried y posibilrwydd o dreialu'r opsiwn hwn fel rhan o'r cynllun i gyflwyno cerdyn adnabod Gofalwyr Ifanc ledled Cymru. Cytunwyd y gallem ddatblygu dogfen cynnig prosiect a gwneud cais am gyllid. Fel rhan o hyn, cysylltwyd â chwmni dylunio lleol i ystyried opsiynau a syniadau ynghylch diben y cerdyn adnabod a'r hyn y byddai'n ei olygu i Ofalwyr Ifanc.

Ddiwedd mis Tachwedd 2003, buom yn y grŵp Rhanbarthol a gan fod prototeip o Gerdyn Adnabod digidol bellach wedi cael ei ddatblygu, cytunwyd y byddai Ynys Môn a Gwynedd yn parhau â'r prosiect peilot ac yn ymgynghori â Gofalwyr Ifanc. Byddai'r siroedd eraill yn gallu ystyried datblygu eu cerdyn digidol eu hunain yn seiliedig ar ganlyniad y peilot.

Ym mis Rhagfyr 2020 datblygwyd y Cynllun Gweithredu canlynol:-

- Gweithredu dros Blant i drefnu sesiwn ymgynghori gyda Gofalwyr ifanc i gael eu hadborth ar y cerdyn hyd yma a chyfarfod y Dylunydd yn ystod yr wythnos sy'n dechrau ar 11 Ionawr. Cynhaliwyd ar 15 Ionawr 2021
- Trefnu cyfarfod gyda chynrychiolwyr o'r adran Addysg ar draws y ddwy Sir i drafod y defnydd o'r Ap mewn ysgolion a chodi ymwybyddiaeth o Wybodaeth a ddarparwyd gan yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr ynghylch cefndir a phwrpas cerdyn adnabod Gofalwyr Ifanc a threfnu cyfarfodydd dilynol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad y prosiect. Cynhaliwyd y cyfarfodydd ar 19 Ionawr a 2 Chwefror 2021
- Cerdyn adnabod i fod yn barod i'w dreialu ym mis Chwefror
- Anelu at lansio’r cerdyn ar Ddiwrnod Gweithredu Gofalwyr Ifanc 16/03/21 a chodi ymwybyddiaeth yn lleol ar draws asiantaethau partner awdurdodau lleol a'r cyhoedd.

Ar hyn o bryd rydym yn gweithio gyda phartneriaid rhanbarthol i ddatblygu dull unedig o ddylunio cerdyn adnabod Gofalwyr Ifanc Gogledd Cymru ar ffurf ddigidol, cerdyn ac arddwrn.

**b) Diweddariad "Cartrefi Clyd"**

Gallwn gadarnhau bod Cartrefi Grŵp Bychan Brynhwfa a Llanfair wedi cyrraedd eu capasiti llawn (cyfanswm o 3 o blant). O ran lleoli’r trydydd grŵp yng Nghaergybi, rydym yn falch o gadarnhau bod y gwaith bellach yn mynd rhagddo yn yr ardd, yn dilyn oedi oherwydd COVID. Yn olaf, mae cynnig wedi'i wneud ar eiddo yn ardal Amlwch, gan ddefnyddio cyllid ICF er mwyn darparu llety i'n plant sy’n derbyn gofal.

c) **Bryn Hwfa –**

Nid yw'r ddarpariaeth Gofal Dydd bresennol ar gyfer Plant ag Anghenion Cymhleth yn addas i'r diben. Felly mae'r gwasanaeth wedi sicrhau cyllid ICF i brynu byngalo ar wahân er mwyn cynnig gwell darpariaeth gwasanaeth ar Ynys Môn. Mae eiddo wedi'i nodi ac mae'n cael ei brynu ar hyn o bryd. Bydd y gwasanaeth yn defnyddio technoleg er mwyn gwneud yr amgylchedd yn briodol i'r plant a'r bobl ifanc a fydd yn defnyddio'r ddarpariaeth. Bydd hefyd yn cynnwys cyfle i staff wella eu hyfforddiant er mwyn gallu cynnig darpariaeth Gofal Dydd sy'n gwella bywydau'r plant a'r bobl ifanc ar Ynys Môn sydd ag anghenion ychwanegol neu gymhleth.

**d) Dim drws anghywir!**

Mae'r pandemig byd-eang wedi dangos yn glir bod cryn straen o safbwynt darparu gwasanaeth iechyd meddwl a gofal cymdeithasol i'n plant. Rhagwelir y bydd ein gwasanaethau iechyd a gofal yn gweld cynnydd sylweddol mewn angen dros y misoedd nesaf. Bydd angen ymateb cydgysylltiedig i sicrhau bod y cymorth a gynigiwn yn ddigonol i ymateb i'r galw hwn.

Yn y rhan fwyaf o ardaloedd yng Nghymru, mae plant a phobl ifanc sy'n profi trallod o ran

iechyd meddwl, lles emosiynol a phroblemau ymddygiadol yn aros yn rhy hir i gael y cymorth sydd ei angen arnynt, ac mae tuedd i gael eu "taflu" o’r naill wasanaeth i’r llall sy'n methu â chytuno pwy sy'n gyfrifol am eu gofal.

Rydym am weld gwasanaethau sy'n croesawu plant a phobl ifanc a'u teuluoedd, yn hytrach na bod yn rhaid iddynt ddod o hyd at ffordd i wasanaethau drwy systemau cymhleth.

Mae angen symud yn gyflym tuag at ddull "Dim drws anghywir" wrth ymateb i les emosiynol ac anghenion iechyd meddwl plant a phobl ifanc. Mae hynny'n golygu na ddylid dweud wrth y teuluoedd, y plant a'r bobl ifanc droeon eu bod yn curo ar y drws anghywir wrth geisio cael help. Gallai hyn gynnwys modelau panel neu hwb i ddarparu cymorth cydgysylltiedig yn amserol, canolfannau galw heibio, timau amlddisgyblaethol, modelau sy'n sicrhau bod angen i lai o blant a phobl ifanc fynd oddi cartref i gael gofal arbenigol, neu gynlluniau ar gyfer gofal preswyl arbenigol yn nes at adref.

Cynllun:
1. Datblygu un pwynt atgyfeirio sy'n gysylltiedig â Theulu Môn.
2. Creu partneriaeth rhwng yr awdurdod lleol, y bwrdd iechyd a gwasanaethau'r trydydd sector.
3. Cynllunio ar weithdrefn ar gyfer trafod yr atgyfeiriadau hynny sy'n ymwneud ag awtistiaeth, anghenion iechyd meddwl ac anableddau. Gall hyn gynnwys cyfarfod penodol o'r ganolfan ymyrraeth gynnar neu ddefnyddio'r ganolfan ymyrraeth gynnar ar gyfer achosion lle nodwyd yr anghenion uchod.
4. Edrych ar ein hadnoddau dynol ac ariannol i weld a oes modd eu defnyddio'n well. Dylem anelu at osgoi dyblygu a diogelu ein gwasanaethau unigol.
5. Nodi gwasanaethau y mae angen eu gwella a sut i ddarparu'r gwasanaethau hynny'n hyfyw ar gyfer y dyfodol.

## 2) Yr Wybodaeth Ddiweddaraf am Wasanaethau Oedolion:

**Comisiynu Archwiliad Annibynnol o'n Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion**

Ar hyn o bryd mae Peopletoo Ltd a The Acacium Group yn gweithio gyda'r Gwasanaethau Oedolion er mwyn cynnal adolygiad mewnol annibynnol o'n Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol i Oedolion. Bydd hyn yn rhoi trosolwg manwl i'r awdurdod o'r maes gwasanaeth cymhleth hwn a bydd yn darparu argymhellion clir y cytunwyd arnynt o feysydd gwasanaeth penodol y mae angen i ni ganolbwyntio arnynt er mwyn gwella'r canlyniadau i'r defnyddiwr gwasanaeth.

Bydd yr adolygiad yn rhoi adborth yn uniongyrchol i Banel Gwella'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

Ar hyn o bryd mae'r sefydliad annibynnol yn gweithio o bell ac yn cynnal cyfweliadau yn Gymraeg a Saesneg gyda rheolwyr a staff, yn ogystal ag adolygu dogfennau, prosesau a data perfformiad.

**iii) Sefydlu 3 Thîm Adnoddau Cymunedol, sydd wedi'u lleoli yn Amlwch, Ysbyty Penrhos Stanley a Llanfairpwll, a fydd yn dod â Staff y Cyngor a Betsi Cadwaladr at ei gilydd i wella mynediad i'n gwasanaethau gofal a chymorth cyn gynted â phosibl-**

Erbyn hyn mae gan Ynys Môn dri Thîm Adnoddau Cymunedol yn eu lle ac ar hyn o bryd oherwydd Covid-19 mae'r timau'n cyfarfod yn rhithwir.
Mae'r gwaith o adnewyddu adeiladau, seilwaith TG a pholisïau a gweithdrefnau gweithredu'n parhau, wedi'i ariannu gan y gronfa ICF.

**iv) Strategaeth Cyfleoedd Dydd Anableddau Dysgu i Oedolion fel ein bod yn creu ystod ehangach o gyfleoedd dydd o ansawdd uchel i unigolion yn eu cymunedau-**

Mae dwy elfen i'r prosiect hwn – y ddarpariaeth fewnol a'r ddarpariaeth a gomisiynir yn allanol. Cytunwyd eisoes ar **Strategaeth Cyfleoedd Dydd Anableddau Dysgu i Oedolion fel ein bod yn creu ystod ehangach o gyfleoedd dydd o ansawdd uchel i unigolion yn eu cymunedau.** Cytunwyd ar Strategaeth Gwasanaethau Dydd 2019–2022 ar ôl ymgysylltu ac ymgynghori'n helaeth â defnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd. Bwriedir i'r ddau brosiect gyfrannu at gyflawni'r Strategaeth hon, yn benodol:

**a) Gwasanaethau dydd allanol –** y nod yw sefydlu fframwaith ffurfiol ar gyfer prynu darpariaeth dydd allanol a chyfleoedd gwaith a chymunedol a fydd yn canolbwyntio ar ganlyniadau, dilyniant, integreiddio ac yn rhoi mwy o ddewis i ddefnyddwyr gwasanaethau Ynys Môn. Mae angen mwy o gyfleoedd yn y gymuned ar ddefnyddwyr gwasanaeth a dewis sy'n gwella sgiliau personol ac yn sicrhau'r annibyniaeth fwyaf posibl.

Mae gwaith eisoes ar y gweill i ystyried opsiynau yn y gymuned ar draws yr ynys, gan ganolbwyntio i ddechrau ar Gaergybi a'r ardaloedd cyfagos. Mae'r grant refeniw ICF wedi ariannu Gweithiwr Cyfleoedd Cymunedol a ddechreuodd yn ei swydd ym mis Rhagfyr 2020.

**Statws presennol:**

- Gohiriwyd ers y cyfnod cyntaf o gyfyngiadau symud. Mae gwaith wedi ailddechrau ar gwblhau'r Fanyleb Gwasanaeth y bydd angen i ddarparwyr allanol gydymffurfio â hi. Y fanyleb ddiwygiedig hon i'w rhannu â rhanddeiliaid mewnol – Tîm Anableddau Dysgu a gwasanaethau eirioli erbyn 31 Ionawr.
- Cytundeb ar fformat y tendr i'w gyrraedd erbyn 15 Ebrill (drwy Gaffael a Chyfreithiol) - nid yw'n glir ar hyn o bryd a yw'r System Prynu Dynamig (Dynamic Purchasing System) neu gytundeb Fframwaith (franework Agreement) yn fwyaf addas.
- Y darparwyr presennol i gael gwybod am yr amserlen erbyn y 30 Ebrill.

- Trefniadau newydd i'w gwneud ochr yn ochr ag ailagor gwasanaethau dydd ar ôl i'r cyfyngiadau symud ddod i ben.
- Gweithiwr Cyfleoedd Cymunedol i barhau i archwilio lleoliadau newydd.

**b) Gwasanaethau dydd mewnol** – y nod yw sicrhau bod gwasanaethau'n canolbwyntio mwy ar ganlyniadau gyda phwyslais ar gyflawni nodau personol.

**Statws presennol:**

- Gohiriwyd fel y cytunwyd gan y Pwyllgor Gwaith cyn y cyfyngiadau symud.
- Ymarferiad ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol ar gynigion diwygiedig i ddechrau ar ôl i'r cyfyngiadau symud ddod i ben.

**v) Yr wybodaeth ddiweddaraf am y Rhaglen Rhannu Bywydau**

Mae'r pandemig wedi cael effaith enfawr ar ddatblygu’r rhaglen Rhannu Bywydau. Mae recriwtio galluogwyr wedi bod yn her o'r cychwyn cyntaf ond yn ystod y pandemig ni fu unrhyw ddiddordeb gan ddarpar alluogwyr. Arweiniodd y cyfyngiadau at gau'r holl wasanaethau dydd, roedd hyn yn berthnasol i'r rhaglen Rhannu Bywydau. Rydym wedi penderfynu parhau â'r prosiect a ariennir gan ICF ond rydym am ei ehangu i gefnogi pob person hŷn. Mae hwn yn brosiect ar y cyd â Chyngor Gwynedd ac wrth symud ymlaen bydd y rhaglen yn cysylltu'n agos â'r cynllun Rhannu Bywydau presennol ar gyfer pobl ag anableddau dysgu.

Mae gennym strategaeth a chynllun dementia lleol, a bydd y gwaith presennol yn alinio'r cynllun lleol â Strategaeth Ddementia ranbarthol newydd Gogledd Cymru.

vi) **Hybiau Cymunedol**

Mae gwaith ar ehangu nifer y Canolfannau wedi'i ohirio oherwydd y pandemig. Fodd bynnag, mewn ymateb i'r pandemig rydym wedi gallu hyrwyddo ein gwaith rhithwir. Rhestrir rhai enghreifftiau isod:

Mae Age Cymru Gwynedd a Môn, Medrwn Môn a Chyngor Sir Ynys Môn yn gweithio mewn partneriaeth â detholiad o Hybiau Cymunedol ar draws Ynys Môn i dreialu cynllun Hybiau Digidol Ynys Môn. Y nod yw helpu i feithrin hyder digidol unigolion a lleihau unigrwydd yn ein cymunedau. Fel rhan o'r prosiect hwn, bydd tabledi Samsung Tab A7 newydd yn cael eu rhoi ar fenthyg, ynghyd â bwndel o ddata 4G, ar gyfer pobl hŷn yn yr Hybiau Cymunedol a ddewiswyd am gyfnod o 3 mis, i wella eu sgiliau a'u hyder digidol.

Bydd cydgysylltwyr y Hyb Cymunedol yn cefnogi'r gwaith o hybu a hyrwyddo'r cyfle i'w trigolion lleol. Ar ddiwedd y cyfnod llogi bydd unigolion yn derbyn cyngor ar sut i brynu eu dyfais eu hunain, gyda'r dyfeisiau'n cael eu symud ymlaen i grŵp newydd o bobl ar yr ynys. I helpu'r bobl a fydd yn cael benthyg y tabled, mae'r prosiect hefyd yn paru dysgwyr a gwirfoddolwyr digidol. Bydd y gwirfoddolwyr yn derbyn hyfforddiant 'Hyrwyddwr Digidol' gan Gymunedau

Digidol Cymru, ac yn derbyn cefnogaeth barhaus gan eu Hyb Cymunedol lleol. Bydd gwirfoddolwyr yn darparu cymorth dros y ffôn, dros alwad fideo, neu o fewn sesiynau yn yr Hyb Cymunedol lleol - yn amodol ar gyfyngiadau COVID-19. Fel rhan o brosiect Hybiau Digidol Ynys Môn, bydd gwefan newydd, www.cymuned.co.uk yn cael ei datblygu ar gyfer yr hybiau a fydd yn rhan o'r peilot i ddechrau. Bwriad y wefan yw galluogi cymunedau i gadw mewn cysylltiad â gweithgareddau rhithwir yr hyb.

Bydd y rhai sy'n llogi'r dyfeisiau yn cael cymorth i gyrchu a defnyddio'r wefan. Mae'r wefan yn cynnwys gweithgareddau, newyddion, dolenni, digwyddiadau byw - a'r cyfle i aelodau'r gymuned gyfrannu cynnwys i'r safle. Yr hybiau a fydd yn rhan o'r prosiect peilot hwn ac yn gallu llogi dyfeisiau fydd: • Canolfan Gwelfor, Caergybi • Jordan Arms, Bryngwran • Cynllun Tro Da Seiriol • Caru Amlwch • Gwasanaeth Tai Cyngor Ynys Môn (a fydd yn llogi rhai dyfeisiau, yn ogystal ag archebu eu 20 dyfais eu hunain i'w llogi i'w tenantiaid) (Bydd Cynllun Tro Da Benllech a Heneiddio'n Dda Amlwch a Llangefni hefyd yn rhan o'r prosiect o ran y wefan , ond ni fyddant yn llogi dyfeisiau ar gyfer eu cymunedau).

**c) Diweddariad Pandemig COVID-19 y Gwasanaethau Cymdeithasol:**

Yn ystod y chwe mis diwethaf rydym wedi dechrau'r trydydd gyfnod o gyfyngiadau symud cenedlaethol oherwydd pandemig Covid-19, a ddaeth i rym ar 19 Rhagfyr 2020, ac rydym yn parhau i fod yn y sefyllfa hon.

Fel Cyngor rydym yn parhau i ymateb i'r pandemig, rydym yn parhau i weithio o'n cynlluniau Rheoli Parhad Corfforaethol a Busnes, sy'n cynnwys:

- Cyflwr y pwerau a'r cyllidebau brys a ddefnyddir
- Mae'r Tîm Ymateb Rheoli Argyfwng yn parhau, wrth reoli busnes fel arfer, ac yn paratoi ar gyfer y cyfnodau pan gaiff y cyfyngiadau eu llacio a'r adferiad
- Adroddiadau Sefyllfa Wythnosol yn cael eu paratoi i grynhoi penderfyniadau, materion a risgiau allweddol
- Cyfathrebu rheolaidd yn fewnol ag Aelodau a staff ac yn allanol drwy wefan a chyfryngau cymdeithasol y Cyngor
- Adroddiad Gwasanaethau Cymdeithasol yn wythnosol ar gyfraddau brechu staff
- Adolygu cofrestr risg COVID-19 ffurfiol a'i diweddaru'n wythnosol

Yn ystod y cyfnod parhaus o gyfyngiadau symud rydym wedi parhau i:

- gyflawni ein holl ddyletswyddau statudol;
- Gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS), Iechyd Cyhoeddus Cymru, BIPBC, Darparwyr a chydweithwyr o fewn Tîm Cydnerthedd Gogledd Cymru, yn

ogystal â llawer o rai eraill;
- Cefnogi ein staff i weithio gartref – lle bo'n bosibl
- Rheoli storfa PPE y Cyngor, sy'n cynnwys dosbarthu cyfarpar diogelu personol Llywodraeth Cymru, a reolir o fewn adnoddau'r Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Datblygu a defnyddio arferion gwaith arloesol i addasu i gyfnod y pandemig er mwyn hwyluso cyswllt, asesiadau, adolygiadau, gan sicrhau bod ein dyletswyddau diogelu'n cael eu cyflawni.
- gydymffurfio ag achosion Llys a Chynllunio Gofal.
- recriwtio Gofalwyr Maeth Awdurdodau Lleol.

Yn ogystal â hyn, yn ystod y 6 mis diwethaf rydym wedi:
- rheoli'r gwaith o gyflwyno Dyfeisiau Llif Ochrol (ALFf) Llywodraeth Cymru i ddarparwyr gofal cartref yr Ynysoedd (darparwyr mewnol ac allanol).
- paratoi ar gyfer cyflwyno ALFf ymhellach i dimau Gweithwyr Cymdeithasol, Gweithwyr Cymorth a staff rheng flaen allweddol eraill.
- gweithio gyda'r tîm Brechu Corfforaethol i gynnig brechlyn i'r staff enwebedig sy'n gymwys i gael y brechlyn â blaenoriaeth.
- Cefnogi'r cyngor gyda thaliadau i'n Darparwyr drwy Gronfa Caledi Covid-19 (tai gwagu, taliadau staff, taliadau hunanynysu staff, ac ati)
- gefnogi digwyddiadau Covid yn y sector Gofal Cymdeithasol sydd wedi cynnwys cymorth y Tîm Rheoli Heintiau (IMT).

**d) Adolygiad Sicrwydd Awdurdod Lleol Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**
Rydym yn ymwybodol y bydd ein harolygwyr yn AGC yn cynnal "Adolygiad Sicrwydd" ar draws pob un o'r 22 awdurdod lleol. Anelir at eu cwblhau erbyn diwedd Ebrill 2021. Hyd yma nid ydym wedi cael gwybodaeth am adolygiad Ynys Môn. Bydd yr adolygiad hwn gan AGC yn canolbwyntio ar Wasanaethau Oedolion a Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.

Llythyr Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS) er gwybodaeth.

CIW - Letter to ADSS response - EN

CIW - Letter to ADSS response - CY

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?**

Amherthnasol.

| **C – Pam mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Mae'r gwasanaeth angen cadarnhad gan y Pwyllgor Gwaith ei fod yn fodlon â chyflymder y cynnydd a'r gwelliannau a wnaed hyd yma o fewn y Gwasanaethau Oedolion a'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd. |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydi. |

| **D – D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Ydi. |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? Beth oedd eu sylwadau?** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Rheoli (UDRh) (gorfodol)** | **Cytuno (24/02/21)** |
| **2** | **Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol)** | Fel uchod |
| **3** | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol)** | Fel uchod |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | Amherthnasol |
| **5** | **Eiddo** | Amherthnasol |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth (TG)** | Amherthnasol |
| **7** | **Caffael** | Amherthnasol |
| **8** | **Sgriwtini** | Bu i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn ei gyfarfod ar 8 Mawrth, 2021 ystyried yr adroddiad cynnydd ar welliannau'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Yn sgil ei ystyriaeth, fe benderfynodd y Pwyllgor fel a ganlyn:<br><br>• Cadarnhau ei fod yn fodlon ar gyflymder y cynnydd a'r gwelliannau a wnaed hyd yma yn y Gwasanaethau Cymdeithasol<br>• Argymell I'r Pwyllgor Gwaith fod cynnydd a chyflymder y gwelliannau yn y Gwasanaethau Cymdeithasol yn ddigonol |
| **9** | **Aelodau Lleol** | |

| | | |
|---|---|---|
| **10** | **Unrhyw gyrff allanol / eraill** | Amherthnasol |

| **E – Risgiau a chamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | Amherthnasol |
| **2** | **Gwrthdlodi** | Amherthnasol |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | Amherthnasol |
| **4** | **Amgylcheddol** | Amherthnasol |
| **5** | **Cydraddoldebau** | Amherthnasol |
| **6** | **Cytundebau Canlyniadau** | Amherthnasol |
| **7** | **Arall** | Amherthnasol |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Dim. |

| **FF – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth):** |
|---|
| Dim. |